# Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Chwefror 2017

DRAFT

DRAFT

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Pennod 1: Cyflwyniad** | 1 |
| Ein Gweledigaeth ar gyfer y System Anghenion Dysgu Ychwanegol | 1 |
| Y Cod | 1 |
| Partneriaid Darpariaeth – Rôl sefydliadau unigol yn y system ADY | 3 |
| **Pennod 2: Egwyddorion y Cod** | 6 |
| Crynodeb | 6 |
| Egwyddorion | 6 |
| Dyletswydd Awdurdod Lleol i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn rheolaidd | 11 |
| **Pennod 3: Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc** | 12 |
| Crynodeb | 12 |
| Dyletswyddau yn ymwneud â Phlant a Phobl Ifanc | 12 |
| Gweithio gyda phobl ifanc | 15 |
| Rhieni | 15 |
| **Pennod 4: Cyngor a Gwybodaeth** | 18 |
| Crynodeb | 18 |
| Darparu gwybodaeth a chyngor | 18 |
| Cyfeiriadur Awdurdod Lleol | 20 |
| Cefnogi trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor | 20 |
| Darparwyr Gwasanaethau Allanol | 21 |
| **Pennod 5: Rôl y Cydlynydd ADY** | 22 |
| Crynodeb | 22 |
| Y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol | 22 |
| Dysgu proffesiynol mewn perthynas ag ADY – Cyffredinol | 25 |
| Cydlynwyr ADY mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion | 27 |
| **Pennod 6: Deall ystyr Anghenion Dysgu Ychwanegol** | 31 |
| Crynodeb | 31 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol - Diffiniad Sylfaenol | 31 |
| Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol – Dull Cymesur sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn | 33 |
| Ystyriaethau Cychwynnol | 34 |
| Ystyriaethau Cychwynnol – Addysgu Gwahaniaethol | 34 |
| Ystyriaethau Cychwynnol – Anableddau | 35 |
| Ystyriaethau Cychwynnol –Y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol | 36 |
| Ystyriaethau Cychwynnol – Mwy Abl a Thalentog | 36 |
| Ystyriaethau Cychwynnol – Anghenion Gofal Iechyd | 37 |
| Nodi ADY posibl– Pwy sy'n gallu helpu? | 38 |


DRAFT

| | |
|---|---|
| **Pennod 7.1: Nodi ADY unigolion sy’n iau na’r oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir** | 42 |
| Crynodeb | 42 |
| Sut mae Proffil y Cyfnod Sylfaen yn gallu helpu i nodi plant ag ADY | 42 |
| Nodi plant sy’n iau na’r oedran ysgol gorfodol | 42 |
| Cyfrifoldebau awdurdodau lleol | 45 |
| Plant sy’n Iau na’r Oedran Ysgol Gorfodol – Rôl Cyrff Iechyd a’r Pŵer i Hysbysu | 46 |
| Plant sy’n mynychu lleoliadau nas cynhelir | 47 |
| **Pennod 7.2: Nodi ADY – mewn ysgolion** | 49 |
| Crynodeb | 49 |
| Disgyblion mewn Ysgolion a Gynhelir | 49 |
| Polisi ADY | 50 |
| Plant a Phobl Ifanc – Ysgolion Annibynnol | 50 |
| Sut mae Proffil y Cyfnod Sylfaen yn gallu helpu i nodi plant ag ADY | 51 |
| Nodi ADY yn gynnar | 51 |
| Defnyddio data | 53 |
| Addysgu gwahaniaethol | 54 |
| Pryderon cyson | 55 |
| Ffactorau eraill | 55 |
| Dyletswydd i benderfynu | 56 |
| **Pennod 7.3: Nodi ADY - SAB** | 58 |
| Crynodeb | 58 |
| Pobl ifanc mewn SAB | 58 |
| Polisi ADY | 59 |
| Nodi ADY yn gynnar | 59 |
| Defnyddio data | 61 |
| Addysgu gwahaniaethol | 62 |
| Pryderon cyson | 62 |
| Ffactorau eraill | 63 |
| Dyletswydd i benderfynu | 64 |
| **Pennod 8: Penderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY** | 66 |
| Crynodeb | 66 |
| Penderfyniadau gan Ysgolion a Gynhelir | 66 |
| Penderfyniadau Ysgolion a Gynhelir – Awdurdodau Lleol yn Ailystyried | 69 |
| Penderfyniadau Awdurdodau Lleol | 70 |
| Penderfyniadau SAB | 72 |
| **Pennod 9.1: Dyletswyddau awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan blentyn sy’n iau na’r oedran ysgol gorfodol ac nad yw’n mynychu ysgol a gynhelir ADY, a’u dyletswyddau i lunio CDU** | 76 |
| Crynodeb | 76 |
| Cyflwyniad | 76 |


DRAFT

| | |
|---|---|
| Dyletswydd Awdurdodau Lleol i benderfynu a oes gan blentyn ADY o dan adran 11 | 76 |
| Penderfyniad yr Awdurdod Lleol ar ADY – Y Camau Nesaf | 77 |
| **Pennod 9.2: Dyletswyddau ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc mewn ysgol a gynhelir ADY, a'u dyletswyddau i lunio CDU** | 79 |
| Crynodeb | 79 |
| Cyflwyniad | 79 |
| Dyletswydd i lunio a chynnal CDU, gan gynnwys Atgyfeiriadau Ysgolion i Awdurdodau Lleol | 79 |
| Dyletswydd Awdurdodau Lleol i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY o dan Adran 11 | 82 |
| Penderfyniad yr Awdurdod Lleol ar ADY – Y Camau Nesaf | 84 |
| Ailystyriaeth Awdurdodau Lleol o CDU Ysgolion a Gynhelir | 85 |
| Awdurdod Lleol yn Cymryd Drosodd y Cyfrifoldeb am CDU | 86 |
| Dyletswyddau Ysgol a Gynhelir mewn perthynas â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol | 88 |
| **Pennod 9.3: Dyletswyddau SAB ac awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac i baratoi CDU** | 89 |
| Crynodeb | 89 |
| Cyflwyniad | 89 |
| Dyletswyddau SAB i lunio a chynnal CDU, gan gynnwys Atgyfeiriadau SAB i Awdurdodau Lleol | 89 |
| Dyletswydd Awdurdodau Lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY o dan Adran 11 | 91 |
| Penderfyniad yr Awdurdod Lleol ar ADY – Y Camau Nesaf | 93 |
| Awdurdod Lleol yn Cymryd Drosodd y Cyfrifoldeb am CDU | 93 |
| SAB – dyletswyddau mewn perthynas â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol | 94 |
| **Pennod 10: Llunio CDU** | 96 |
| Crynodeb | 96 |
| Llunio CDU – Ystyriaethau ym mhob achos | 96 |
| Y rhai â chynlluniau lluosog | 98 |
| Cludiant | 99 |
| Ffactorau eraill | 99 |
| Amserlenni | 100 |
| Cwblhau CDU yn derfynol | 103 |
| Gofyn am safbwyntiau ar ddogfen y CDU | 106 |
| **Pennod 11: Cynnwys Gorfodol ar gyfer CDU** | 107 |
| Crynodeb | 107 |
| Cynnwys CDU – Cyffredinol | 107 |
| Diben CDU | 107 |
| Cynnwys Gorfodol mewn CDU | 108 |

| | |
|---|---|
| **Pennod 12: Llunio CDU – Gwaith Amlasiantaeth** | 118 |
| Crynodeb | 118 |
| Gwaith amlasiantaeth | 118 |
| Modelau gwaith amlasiantaeth | 122 |
| Gwasanaethau arbenigol/asiantaethau allanol | 122 |
| Ceisiadau statudol gan awdurdodau lleol am gymorth neu wybodaeth gan gyrff cyhoeddus eraill | 123 |
| Darpariaeth ddysgu ychwanegol i'w sicrhau gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG | 124 |
| Y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) | 126 |
| **Pennod 13: Ystyriaethau ar gyfer Awdurdodau Lleol wrth baratoi CDU** | 131 |
| Crynodeb | 131 |
| Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir | 131 |
| Enwi ysgol a gynhelir at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol | 133 |
| Lleoliadau mewn Ysgolion Annibynnol | 135 |
| Lleoliadau mewn Sefydliadau Ôl-16 Arbenigol Annibynnol | 135 |
| Lleoliadau Preswyl | 138 |
| Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol mewn mannau ac eithrio mewn Ysgolion | 139 |
| Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol y Tu Allan i Gymru a Lloegr | 140 |
| **Pennod 14: Adolygu a Diwygio CDU** | 141 |
| Crynodeb | 141 |
| Adolygu CDU | 141 |
| Cyfarfodydd adolygu CDU | 144 |
| Amserlenni ar gyfer cais am adolygiad gan blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc | 149 |
| Cynnal adolygiadau gyda chynlluniau eraill | 151 |
| **Pennod 15 – Peidio â chynnal CDU** | 155 |
| Crynodeb | 155 |
| Yr amgylchiadau lle y gellid rhoi'r gorau i gynnal CDU | 155 |
| Penderfynu nad oes gan berson ADY neu (ar gyfer person ifanc) nad oes angen cynnal CDU mwyach | 157 |
| Ailystyried Penderfyniad Ysgol a Gynhelir i Roi'r Gorau i Gynnal CDU | 159 |
| Cyfyngiad ar roi'r gorai i gynnal cynlluniau er mwyn caniatáu Ailystyriaeth a/neu Apêl | 160 |
| **Pennod 16: Trosglwyddo CDU** | 161 |
| Crynodeb | 161 |
| **Pennod 17: Trosglwyddo a Pharatoi ar gyfer Byd Oedolion** | 162 |
| Crynodeb | 162 |
| Paratoi ar gyfer byd oedolion | 162 |

| | |
|---|---|
| Trosglwyddo | 162 |
| Egwyddorion Cyffredinol | 163 |
| Trosglwyddo rhwng lleoliadau penodol | 165 |
| Cynghorwyr Gyrfa | 170 |
| Pobl ifanc sy’n gadael addysg/hyfforddiant | 172 |
| Symud i Addysg Uwch | 172 |
| **Pennod 18: Osgoi a Datrys Anghytundebau** | 174 |
| Crynodeb | 174 |
| Safonau | 174 |
| Datrys Anghytundebau | 176 |
| Annibyniaeth Personau sy’n Helpu i Ddatrys Anghytundebau | 178 |
| Cyfraniad cyrff iechyd at drefniadau osgoi a datrys anghytundebau | 179 |
| Y Gydberthynas â’r Tribiwnlys | 180 |
| Gwasanaethau Eirioli Annibynnol | 180 |
| Annibyniaeth eiriolwr | 183 |
| Hyrwyddo Trefniadau | 184 |
| Cyfeillion achos | 185 |
| **Pennod 19: Apelau a Cheisiadau i’r Tribiwnlys** | 188 |
| Cyflwyniad | 188 |
| Materion y gellir gwneud apelau a cheisiadau yn eu cylch | 188 |
| Penderfyniadau y Gall y Tribiwnlys Addysg eu Gwneud | 189 |
| Y Broses Apelio | 189 |
| Amserlenni apelau | 190 |
| Cydymffurfio â Gorchmynion | 190 |
| Apelio yn Erbyn Penderfyniad y Tribiwnlys | 190 |
| **Pennod 20: Plant a Phobl Ifanc o dan Amgylchiadau Penodol** | 193 |
| Crynodeb | 193 |
| Plant sy’n derbyn gofal | 193 |
| Plant a Phobl Ifanc Eraill â Chynlluniau Gofal a Chymorth | 195 |
| Plant a phobl ifanc sydd wedi eu cofrestru mewn mwy nag un sefydliad | 196 |
| Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) | 197 |
| Plant ag ADY sy’n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref | 198 |
| Plant Aelodau o’r Lluoedd Arfog | 199 |
| Plant a Phobl Ifanc ag ADY yn y System Cyfiawnder Ieuenctid | 201 |
| Helpu a Rhannu Gwybodaeth | 202 |
| Addysg yn y system cyfiawnder ieuenctid | 202 |
| Paratoi CDU ar gyfer person sy’n cael ei gadw’n gaeth | 203 |
| Dyletswydd i gadw CDU ar gyfer pobl sy’n cael eu cadw’n gaeth a threfnu darpariaeth ddysgu briodol | 204 |
| CDU ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n cael eu rhyddhau o lety ieuenctid perthnasol | 206 |
| Apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru | 207 |
| | |


DRAFT

| Atodiad | |
|---|---|
| Geirfa | A |
| Cludiant | B |
| Asiantaethau allanol gwahanol | C |
| Cynlluniau Datblygu Unigol enghreifftiol | D |

DRAFT

# Pennod 1: Cyflwyniad

## Ein Gweledigaeth ar gyfer y System Anghenion Dysgu Ychwanegol

1.1 Mae ein gweledigaeth ar gyfer Cymru yn seiliedig ar system addysg gwbl gynhwysol lle mae gan bob dysgwr fynediad cyfartal at addysg sy’n diwallu ei anghenion a’i alluogi i gyfranogi, manteisio ar addysg a’i mwynhau.

1.2 Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn creu fframwaith cyfreithiol i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu nodi’n gynnar ac yn derbyn sylw yn gyflym, a bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr yn ganolog i’r prosesau cynllunio er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau i ddysgu a gwireddu eu potensial yn llawn.

1.3 Yn benodol, mae rhan 2 o’r Ddeddf yn cynnwys y brif ddarpariaeth ar gyfer ADY ac yn cynnwys dyletswyddau sefydliadau cyhoeddus.

## *Y Cod*

1.4 Mae adran 4 o’r Ddeddf yn darparu ar gyfer cyhoeddi Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

(i) Mae’r Cod yn cynnwys canllawiau y mae’n **rhaid** i’r ‘personau perthnasol’ canlynol roi sylw iddynt wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o’r Ddeddf:

- awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach[1] yng Nghymru neu yn Lloegr;
- person sy’n darparu addysg feithrin a gyllidir o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol yn unol â’r ddyletswydd yn adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;
- perchennog Academi;
- tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;
- person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG;
- Bwrdd Comisiynu’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- grŵp comisiynu clinigol;
- ymddiriedolaeth sefydledig GIG;
- Awdurdod Iechyd Arbennig

[1] Mae sefydliad yn y sector addysg bellach (SAB) yn sefydliad y mae adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (1992) yn berthnasol iddo.

(ii) Mae'r Cod hwn yn gosod gofynion ar awdurdod lleol mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf i ddarparu:

- cyngor a gwybodaeth;
- osgoi a datrys anghytundebau; a
- gwasanaethau eirioli annibynnol.

(iii) Mae'r Cod hwn yn gosod gofynion ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, neu sefydliad yn y sector addysg bellach (AB) yng Nghymru, neu awdurdod lleol mewn cysylltiad â:

- penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol;
- llunio, cynnwys, ffurf, adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol (CDU); a
- rhoi'r gorau i gynnal CDU.

1.5 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Dribiwnlys Addysg Cymru ("y Tribiwnlys") roi sylw i unrhyw ddarpariaeth yn y Cod yr ymddengys iddo ei bod yn berthnasol i gwestiwn sy'n codi ar apêl.[2]

1.6 Os yw gofynion yn cael eu gosod gan y Cod, y Ddeddf neu reoliadau, neu gan unrhyw statud neu offeryn statudol arall, nodir bod yn **rhaid** i'r corff perthnasol gydymffurfio â'r gofyniad penodol. Os yw'n datgan bod arferion wedi'u gwahardd, **ni ddylai'r** corff perthnasol ddefnyddio'r arfer hwn.

1.7 Hefyd, mae'r Cod yn cynnwys canllawiau ar arferion da y dylai'r cyrff perthnasol eu dilyn oni bai eu bod yn gallu dangos bod cyfiawnhad iddynt beidio â'u dilyn. Hefyd, mae'n cyfeirio at gamau sy'n cael eu hystyried yn ymarfer gwael fel arfer, gan nodi na ddylid eu defnyddio, er mae'n bosibl y byddai modd cyfiawnhau eu defnyddio dan amgylchiadau eithriadol.

1.8 Os yw corff cyhoeddus perthnasol yn methu cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y Cod hwn, gallai hynny arwain at Dribiwnlys yn gwrthdroi penderfyniad, cwyn lwyddiannus i Weinidogion Cymru, arfer pwerau ymyrryd[3] awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru, cwyno i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu gais llwyddiannus am adolygiad barnwrol.

1.9 Gallai methu cydymffurfio â'r canllawiau yn y Cod hwn arwain at yr un canlyniad os nad yw personau perthnasol yn gallu cyfiawnhau peidio â dilyn y canllawiau.

1.10 Bydd y Cod yn disodli Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) sy'n bodoli ar hyn o bryd.

---

[2] Adran 4(8)

[3] Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

1.11 Nid yw'r Cod yn ceisio darparu canllawiau cynhwysfawr ar bob agwedd ar y system ddeddfwriaethol newydd arfaethedig. Wrth arfer eu swyddogaethau, bydd yn rhaid i bersonau perthnasol sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r gyfraith, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

1.12 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff a restrir uchod roi sylw i'r Cod, felly mae wedi'i gynllunio ar gyfer eu hanghenion nhw yn bennaf. Fodd bynnag, gall y Cod fod yn ddefnyddiol i eraill hefyd (e.e. rhieni, cynghorwyr arbenigol neu eiriolwyr).

1.13 Os yw'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach (SAB), neu os yw'r Cod hwn yn gosod gofyniad ar y cyrff llywodraethu hynny, neu'n darparu canllawiau iddynt, mae'r Cod yn cyflwyno'r ddyletswydd, y gofyniad neu'r canllawiau fel pe baent yn berthnasol i'r ysgol gyfan a gynhelir neu'r SAU cyfan. Mae hyn yn adlewyrchu gweithredu ymarferol y system lle, gan amlaf, y bydd swyddogaethau'r cyrff llywodraethu yn cael eu harfer gan aelodau staff sy'n gweithredu yn enw'r corff llywodraethu.

1.14 O dan adran 86 o'r Ddeddf, ystyr Bwrdd Iechyd Lleol yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Gydol y Cod, cyfeirir at Fwrdd Iechyd Lleol fel Bwrdd Iechyd.

1.15 Mae adran 86 o'r Ddeddf yn diffinio plentyn a pherson ifanc. Mae plentyn yn unrhyw un nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ac ystyr person ifanc yw person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond sy'n iau na 25 oed. Mae cyfeiriadau yn y Cod at blant a phobl ifanc yn adlewyrchu'r diffiniadau yn y Ddeddf.

## Partneriaid Darpariaeth – Rôl sefydliadau unigol yn y system ADY

1.16 Bydd y cynllun datblygu unigol (CDU) statudol yn amlinellu anghenion y plentyn neu'r person ifanc a sut y bwriedir diwallu'r anghenion hynny. Bydd cyfraniad nifer o bartneriaid a lleoliadau allweddol yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r CDU a chyflwyno'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol gysylltiedig, fel y'i disgrifir isod.

### Llywodraeth Cymru

1.17 Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol a thirwedd statudol addysg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am alluogi'r cyrff darparu a restrir isod i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai ag ADY.

DRAFT

1.18 Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni rôl benodol i sicrhau bod yr holl ddarpariaeth SAB yn ddigonol i ddiwallu holl anghenion dysgu'r rhai sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

**Awdurdodau Lleol**

1.19 Mae'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu trosolwg strategol o'r system. Byddant yn gyfrifol am gynorthwyo'r ysgolion a gynhelir y maent yn gyfrifol amdanynt i gyflawni eu dyletswyddau. Maent yn helpu i nodi ADY a darparu arbenigedd lle bo angen er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a chynorthwyo sefydliadau addysg i gyflawni eu swyddogaethau.

1.20 Hefyd, bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol yn uniongyrchol am ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a/neu ddifrifol, y rhai nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir neu SAB (gan gynnwys y rhai sy'n iau na'r oedran ysgol) a phlant sy'n derbyn gofal ganddynt (gweler Pennod 20).

**Consortia Addysg**

1.21 Bydd y Consortia addysg rhanbarthol yn cydgysylltu'r gwaith o wella ysgolion ledled y rhanbarth ac yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu trosolwg strategol yn sgil gwella ysgolion. Er nad yw ADY yn rhan o'r Model Cenedlaethol[4], mae ADY yn elfen hanfodol o wella ysgolion a gwella'r system. Os ydym yn llwyddo i ddarparu cymorth priodol i ddysgwyr ADY, gallwn ddarparu cymorth priodol i bob dysgwr, a bydd deilliannau'n gwella.

**Ysgolion a Gynhelir**

1.22 Bydd ysgolion a gynhelir yn gyfrifol am ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc o ddydd i ddydd. Maent yn helpu i nodi ADY a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu'r anghenion hynny. Byddant yn gyfrifol yn uniongyrchol am ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ag ADY sy'n mynychu'r ysgol (er, os yw plant yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, bydd yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yn gyfrifol am sicrhau'r ddarpariaeth). Bydd perthynas dda â'r awdurdod lleol perthnasol ac asiantaethau eraill yn helpu ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau.

**Darparwyr addysg feithrin nas cynhelir**

1.23 Mae darparwyr addysg feithrin nas cynhelir yn helpu i ddiwallu anghenion plant o ddydd i ddydd. Hefyd, maent yn cynorthwyo awdurdodau lleol i nodi ADY ac yn helpu awdurdodau lleol i ddiwallu'r anghenion hynny.

**SAB**

---

[4] Cyhoeddwyd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014, ac mae'n amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer consortia gwella ysgolion rhanbarthol

1.24 Fel arfer, bydd SAB yn gyfrifol am ddiwallu anghenion eu dysgwyr o ddydd i ddydd. Maent yn helpu i nodi ADY a sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu'r anghenion hynny. Byddant yn gyfrifol yn uniongyrchol am ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o bobl ifanc ag ADY sy'n mynychu SAB.

DRAFT

# Pennod 2: Egwyddorion y Cod

## *Crynodeb*

2.1 Mae'r Bennod hon yn cyflwyno'r egwyddorion cyffredinol a ddylai fod yn sylfaen i gynllunio a darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hadlewyrchu mewn canllawiau a gofynion gorfodol sydd wedi'u cynnwys yn y Cod.

## *Egwyddorion*

2.2 Yn unol â'u dyletswyddau o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae'r Cod wedi'i ddatblygu gan Weinidogion Cymru gan roi sylw dyledus i rwymedigaethau a hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol.

2.3 Mae'r egwyddorion cyffredinol eraill sy'n sylfaen i'r Cod wedi'u nodi isod. Mae rhai o'r egwyddorion isod yn ofynion statudol o dan y Ddeddf:

- dylid mynd ati ar y cyfle cyntaf posibl i nodi ADY a threfnu ymyriadau;
- dylai pawb sy'n darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY gydweithio er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc;
- dylai trefniadau trosglwyddo gael eu cynllunio ymlaen llaw, gan ystyried cynorthwyo pobl ifanc i drosglwyddo i fyd oedolion;
- dylai safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc fod yn ganolog i'r holl broses o wneud penderfyniadau;
- dylid sicrhau bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn gallu cyfranogi mor llawn â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau;
- dylai diwallu anghenion dysgwyr ag ADY fod yn rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan i wella'r ysgol;
- mae'n **rhaid** i ddysgwyr dderbyn cymorth i gyfranogi mor llawn â phosibl mewn addysg brif ffrwd a'r Cwricwlwm Cenedlaethol pan fydd hynny'n ymarferol; ac
- os oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, mae'n **rhaid** rhoi pob cam rhesymol ar waith i'w darparu.

2.4 *Dylid mynd ati ar y cyfle cyntaf posibl i nodi ADY a threfnu ymyriadau.*

2.5 Mae'n rhaid i bawb sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc drwy nodi eu hanghenion mewn ffordd amserol a darparu'r cymorth priodol i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn gallu gwireddu ei botensial yn llawn.

2.6 Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd nodi anghenion mewn ffordd amserol a rhoi'r ddarpariaeth briodol ar waith cyn gynted â phosibl ar gyfer plentyn neu berson ifanc ag ADY. Po gynharaf y gweithredir, y mwyaf tebygol yw hi y

bydd plentyn neu berson ifanc yn ymateb. Hefyd, gall nodi ADY yn gynnar a rhoi'r ymyriadau priodol ar waith atal ymyriadau mwy costus a llai effeithiol maes o law. Dylai ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth a drefnir ar ei gyfer gael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod ymyriadau'n briodol o hyd.

2.7 *Dylai pawb sy'n darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY gydweithio er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc*

2.8 Yn aml, bydd angen i weithwyr proffesiynol a chyrff statudol weithredu mewn ffordd hyblyg a chydweithio â'i gilydd er mwyn diwallu ADY plant a phobl ifanc unigol. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n rhan o'r broses fynd ati i gyfathrebu â'i gilydd a chytuno ar bolisïau a phrotocolau i gydweithio er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

2.9 Dylai pob asiantaeth statudol gydnabod bod angen cydweithio effeithiol rhwng y gwasanaethau sy'n ymwneud â'r plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc. Dylid nodi bod cyfrifoldebau ymgynghorol a systemau cyfathrebu effeithiol ar lefel reoli ac ymarfer yn hanfodol ar gyfer gwaith amlasiantaeth effeithiol. Dylai datblygiadau mewn strwythurau ac arferion gwaith sefydliadol adlewyrchu'r egwyddor hon.

2.10 Dylai gwaith amlasiantaeth llwyddiannus wneud y canlynol:

- gwella systemau cyfathrebu rhwng y teulu, yr ysgol a gweithwyr proffesiynol;
- symleiddio gwasanaethau i osgoi dyblygu;
- nodi'n glir pa asiantaeth a fydd yn gyfrifol am gyflwyno ac ariannu pob elfen o'r ddarpariaeth;
- annog creadigrwydd a hyblygrwydd;
- ystyried arferion da;
- canolbwyntio ar atebion mewn ffordd holistaidd;
- defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol; ac
- ymgynghori â'r holl wasanaethau perthnasol.

2.11 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") i rym ym mis Ebrill 2016. Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, feddwl yn fwy hirdymor; cydweithio'n well â phobl, cymunedau ac â'i gilydd; ceisio osgoi problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig – gan helpu i greu Cymru y carem i gyd fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

2.12 Mae gan y nodau a'r egwyddorion llesiant a ragnodir gan Ddeddf 2015 gysylltiad uniongyrchol ag amcanion y Ddeddf a'r Cod. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy – atal, cydweithio a chyfranogiad hirdymor yn benodol – yn adlewyrchu'r dull o ddatblygu'r Ddeddf a'r Cod ac mae'n sylfaen i'r system ADY.

2.13 *Dylai trefniadau trosglwyddo gael eu cynllunio ymlaen llaw, gan ystyried cynorthwyo pobl ifanc i drosglwyddo i fyd oedolion*

2.14 Er mwyn hwyluso trosglwyddo effeithlon a darparu cymorth cyson, mae angen cynllunio darpariaeth ymlaen llaw. Yn benodol, bydd angen gwneud hyn pan fydd plant a phobl ifanc yn symud i'r byd addysg, a rhwng cyfnodau addysg gwahanol a/neu rhwng darparwyr gwahanol. Dylai cyrff cyhoeddus perthnasol wneud cysylltiadau a chynllunio'r newidiadau hyn ymlaen llaw. Dylai cyrff cyhoeddus gydweithio i sicrhau cymorth a gwella darpariaeth leol er mwyn diwallu anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc a'i alluogi i drosglwyddo'n llwyddiannus.

2.15 Dylai pobl ifanc dderbyn cymorth i drosglwyddo'n llwyddiannus i fyd oedolion ac i'w paratoi ar gyfer bywyd ar ôl addysg ffurfiol; mae angen sicrhau bod y broses hon yn cychwyn mewn da bryd cyn bod y dysgwr yn gadael addysg ffurfiol.

2.16 *Dylai safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc fod yn ganolog i'r holl broses o wneud penderfyniadau*

2.17 Bydd angen i unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf neu o dan y Cod hwn gynnwys plant a phobl ifanc ym mhob cam o'r broses, gan wrando ar eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau. Bydd hyn yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i bersonoli ei addysg drwy nodi targedau sy'n datblygu ei gryfderau. Gellir disgrifio'r dull gweithredu hwn fel un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Drwy ganolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio a darparu cymorth, bydd llais y dysgwr yn cael ei glywed fel rhan ganolog o'r broses o wneud penderfyniadau. Yn hytrach na dechrau drwy edrych ar y cymorth sydd ar gael a phenderfynu sut i'w addasu ar gyfer y dysgwr, anghenion y dysgwr yw man cychwyn y broses o ystyried pa gymorth i'w ddarparu. Gweler Pennod 10 am ragor o wybodaeth am ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac adnoddau cysylltiedig.

2.18 Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn defnyddio adnoddau meddwl sy'n helpu i gasglu gwybodaeth mewn ffordd sy'n sicrhau bod safbwyntiau'r dysgwr a'i deulu yn cael eu cynnwys wrth wneud pob penderfyniad. Hefyd, mae'n cynnwys adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwr unigol, lle mae gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol, teuluoedd a'r dysgwyr eu hunain ar gael i bawb, yn hygyrch i bawb, a lle mae pawb yn gallu cyfrannu mewn ffordd gyfartal.

2.19 Mae rhieni yn bartneriaid allweddol a dylai gweithwyr proffesiynol geisio gweithio gyda nhw a gwerthfawrogi eu cyfraniad. Dylai rhieni deimlo eu bod yn gallu herio'r broses os nad yw'n diwallu anghenion eu plentyn. Bydd angen dangos i rieni a theuluoedd bod eu gwybodaeth a'u profiad yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio er mwyn sicrhau bod ganddynt ffydd yn y broses. Bydd angen gwneud hyn i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau cadarnhaol ynglŷn â'r dulliau gorau o gefnogi eu plentyn. Er y bydd y

trafodaethau hyn yn heriol ar adegau, mae sgyrsiau cadarnhaol rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol, sy'n ystyried safbwyntiau gwahanol er mwyn sicrhau deilliannau y cytunir arnynt, er budd pennaf y plentyn. Drwy gynorthwyo a gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, bydd pawb yn deall ymatebion y gweithwyr proffesiynol perthnasol, a bydd ansawdd y ddarpariaeth yn gwella.

2.20 *Dylid sicrhau bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn gallu cyfranogi mor llawn â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau*

2.21 Bydd angen darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol i blant, eu rhieni a phobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfranogi'n llawn mewn trafodaethau a phenderfyniadau. Mae'n rhaid rhoi pob cam gofynnol ar waith i sicrhau eu bod yn gallu lleisio eu barn ac, os oes angen, derbyn cymorth i ddeall y broses.

2.22 Os yw'r Ddeddf yn rhoi hawliau i blant dderbyn gwybodaeth neu wneud penderfyniadau, ond nad oes gan blentyn unigol y galluedd i ddeall y mater o dan sylw, gall y Tribiwnlys Addysg benodi cyfaill achos i gynrychioli a chynorthwyo'r plentyn, a gwneud penderfyniadau a gweithredu ar ran y plentyn. Os nad oes gan blentyn alluedd, gallai awdurdodau lleol ac ysgolion ystyried a fyddai cyfaill achos yn briodol (gweler Pennod 18).

2.23 *Dylai diwallu anghenion dysgwyr ag ADY fod yn rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan i wella'r ysgol*

2.24 Mae dulliau ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu SAB o ddiwallu anghenion eu holl blant yn cael effaith uniongyrchol ar natur y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen ar blant ag ADY, a phryd y mae angen y ddarpariaeth ychwanegol. Mae gwybodaeth staff am sgiliau a galluoedd pob plentyn a pherson ifanc yn allweddol i ddiwallu anghenion pob un ohonynt. Mae gallu'r staff i ddefnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod mynediad priodol i'r cwricwlwm ar gael i bobl plentyn a pherson ifanc yn hanfodol hefyd. O ganlyniad, mae gwella prosesau addysgu a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY ynghlwm wrth wella prosesau addysgu a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ysgol gyfan. Dylai gwella'r naill helpu i wella'r llall. Os yw darpariaeth lleoliadau addysg ar gyfer dysgwyr ag ADY yn effeithiol, bydd eu darpariaeth ar gyfer dysgwyr o bob math yn effeithiol hefyd, a bydd deilliannau'n gwella.

2.25 *Mae'n* ***rhaid*** *i ddysgwyr dderbyn cymorth i gyfranogi mor llawn â phosibl mewn addysg brif ffrwd a'r Cwricwlwm Cenedlaethol pan fydd hynny'n ymarferol*

2.26 Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod addysg gynhwysol, lle mae dysgwyr unigol yn derbyn addysg bwrpasol a chymorth ychwanegol i wireddu eu potensial yn llawn, yn fanteisiol i bawb. Os oes modd, dylai plant a phobl ifanc ag ADY gael eu cynnwys yn llawn ym mywyd arferol yr ysgol, cael mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys a chael eu cynorthwyo a'u herio i

DRAFT

wireddu eu potensial. Fodd bynnag, mae cynhwysiant yn gofyn am gyfraniad gweithredol gan bawb sy'n rhan o'r broses er mwyn sicrhau cyfle cyfartal a mynediad cyfartal i addysg. Hefyd, mae hyn yn cynnwys hyrwyddo llesiant, cyflawniad ac uchelgais ar gyfer plant a phobl ifanc o bob math, a fydd yr un fath i bawb fel arfer os oes cymorth priodol ar gael. Ar gyfer yr holl feysydd pwnc a'r holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, dylid sicrhau bod disgwyliadau cyffredin ar waith ledled yr ysgol sy'n hysbys i bawb. Hefyd, mae'n rhaid i ysgolion ymrwymo i gynorthwyo dysgwyr sy'n ei chael yn anodd bodloni'r disgwyliadau.

2.27 Addysg gynhwysol a phrif ffrwd yw'r lleoliad mwyaf priodol fel arfer, oni bai nad yw addysg brif ffrwd yn briodol i'r plentyn neu'r person ifanc oherwydd natur ei anghenion. Yn gyffredinol, mae'n ***rhaid*** rhagdybio mai addysg brif ffrwd yw'r lleoliad mwyaf addas ar gyfer dysgwyr o bob math.

2.28 *Os oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, mae'n* ***rhaid*** *rhoi pob cam rhesymol ar waith i'w darparu.*

2.29 Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei chefnogi gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y Mesur yn ailddatgan statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, yn sefydlu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac yn darparu ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

2.30 Lle bo hynny'n berthnasol, mae'n **rhaid** i gyrff perthnasol sicrhau bod eu gweithgareddau neu eu gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'r Safonau'r perthnasol o ran y Gymraeg. Mae'r Safonau y bydd / y mae'n ofynnol i'r cyrff perthnasol gydymffurfio â nhw wedi'u nodi mewn hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

2.31 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol amlinellu elfennau Cymraeg o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sy'n cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfer eu cymeradwyo.

2.32 Os yw corff llywodraethu neu awdurdod lleol yn ystyried a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, neu os yw'n paratoi CDU, dylai ystyried ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yw'r dull cyfathrebu o ddewis y plentyn neu'r person ifanc.

2.33 Os yw corff llywodraethu neu awdurdod lleol yn paratoi CDU, mae'n **rhaid** iddo benderfynu a oes angen unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, a mynd ati i roi pob cam rhesymol ar waith i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael. Hefyd, mae'n **rhaid** i gyrff y GIG ystyried a ddylai'r driniaeth neu'r gwasanaeth perthnasol a ddarperir er budd y plentyn neu'r person ifanc fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ac os dylai, rhoi pob cam rhesymol ar waith i'w darparu yn y Gymraeg.

2.34 Mae'r Ddeddf yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn. Er enghraifft, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol barhau i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol (gweler isod), ac fel rhan o'r adolygiad bydd yn sicrhau bod digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael.

## *Dyletswydd Awdurdod Lleol i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn rheolaidd*

2.35 **Rhaid** i awdurdod lleol adolygu'n rheolaidd y trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.[5]

2.36 Fel rhan o'u hadolygiad, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn ddigonol i ddiwallu ADY y plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt. Wrth wneud hyn, mae'n **rhaid** iddynt roi sylw i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a all gael ei threfnu'n rhesymol gan eraill (fel cyrff iechyd)[6].

2.37 Wrth arfer ei swyddogaethau yn y cyswllt hwn, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol roi sylw i ddymunoldeb sicrhau bod darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gael yn y Gymraeg.[7] Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol ymgynghori a'r personau/cyrff y mae'n ystyried eu bod yn briodol[8].

2.38 Nid yw'r adolygiad wedi'i fwriadu i fod yn ddull o fesur neu fonitro ansawdd darpariaeth ddysgu ychwanegol unigol. Yn hytrach, dylai'r adolygiad alluogi awdurdodau lleol i benderfynu a yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol *gyffredinol* sydd ar gael yn eu hardal yn diwallu'r angen *cyffredinol*.

2.39 Hefyd, bydd yr adolygiad yn golygu bod modd i awdurdodau lleol asesu angen tebygol yn y dyfodol, cynllunio ar gyfer gofynion darpariaeth yn y dyfodol, ystyried cynlluniau comisiynu ymlaen llaw a rhoi cyfle i ysgolion a gynhelir fynegi barn ar sut i gynllunio darpariaeth yn y dyfodol. Dylai adolygiadau ategu penderfyniadau strategol yr awdurdod lleol ynglŷn ag a oes gan yr awdurdod y math priodol o ddarpariaeth a'r gallu i ddiwallu anghenion ei boblogaeth ag ADY. Gallai adolygiad o'r fath ddarparu gwybodaeth i awdurdod lleol am, er enghraifft, y defnydd o wasanaethau dyslecsia arbenigol yn yr ardal a llwyddiant y trefniadau presennol, gan roi cyfle i'r awdurdod ystyried a oes dull mwy effeithlon ar gael o ddiwallu'r anghenion hynny yn y dyfodol.

---

[5] Adran 56(1) o'r Ddeddf.
[6] Adran 56(2) o'r Ddeddf.
[7] Adran 56(3)(a) o'r Ddeddf.
[8] Adran 56(3)(b) o'r Ddeddf.

# Pennod 3: Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc

## *Crynodeb*

3.1 Mae'r Bennod hon yn amlinellu'r dyletswyddau perthnasol a'r camau gweithredu gofynnol i ymgysylltu â phlant, rhieni plant a phobl ifanc, a'u grymuso.

3.2 Mae'n **rhaid** i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw i:

- safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc;

- pwysigrwydd bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau; a

- phwysigrwydd bod y wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc er mwyn eu galluogi neu ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.[9]

## *Dyletswyddau yn ymwneud â Phlant a Phobl Ifanc*

3.3 Er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau uchod yn cael eu cyflawni, mae'n rhaid i blant neu bobl ifanc fod yn ganolog i'r broses ac i'r holl benderfyniadau sy'n effeithio arnynt gydol y broses. Dylai plant a phobl ifanc dderbyn cymorth i sicrhau bod eu cyfranogiad gweithredol yn elfen hanfodol o'r broses, yn ystod cyfarfodydd a'r tu allan iddynt. Dylid mynd ati i ofyn am eu safbwyntiau cyn bod penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud – dylai gwybodaeth gael ei chyfleu mewn ffordd y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei deall – a dylid defnyddio eu safbwyntiau i lywio'r penderfyniadau hynny.

3.4 Mae gan blant a phobl ifanc wybodaeth unigryw am eu hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain. Fodd bynnag, bydd angen lefelau gwahanol o gymorth arnynt i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau. Bydd rhai plant a phobl ifanc yn gallu mynegi safbwyntiau yn well na'i gilydd. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu mynegi safbwynt o ryw fath. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o anogaeth a chymorth ar rai ohonynt i wneud hynny. Dylid gwneud pob ymdrech bosibl i gynnwys y plentyn neu'r person ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau a gwneud addasiadau perthnasol. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut y gellid cynorthwyo plant a phobl ifanc i fynegi eu teimladau:

- mae'n bosibl y bydd angen dehonglydd ar blentyn neu berson ifanc nad yw'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, nid yn unig i'w helpu i gyfleu ei safbwyntiau, ond i helpu i sicrhau ei fod yn deall y materion sy'n cael eu trafod yn llawn;

[9] Adran 6 o'r Ddeddf.

- mae’n bosibl y bydd angen cymorth gweledol neu wasanaeth iaith arwyddion (neu’r ddau) am yr un rheswm ar blentyn neu berson ifanc sydd â nam ar y clyw; neu
- mae’n bosibl y bydd angen dulliau llawn dychymyg, fel chwarae neu gelf, ar blentyn neu berson ifanc sy’n methu cydweithredu oherwydd ei ymddygiad.

3.5 Dylai’r broses hon rymuso plant a phobl ifanc, ac ni ddylent deimlo bod y broses yn mynd rhagddi heb eu cyfraniad. Dylid eu hannog i wneud dewisiadau. Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyfrannu mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau, dylid eu grymuso i gymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd y maent yn eu mynychu, a sicrhau bod eu safbwyntiau’n cael eu cyfleu mewn cyfarfodydd nad ydynt yn eu mynychu.

3.6 Dylai’r wybodaeth a’r cymorth a ddarperir i’r plentyn neu’r person ifanc:

- gael eu cyfleu mewn ffordd y mae’r plentyn neu’r person ifanc yn ei deall, er enghraifft, drwy ddefnyddio system arwyddo briodol;
- galluogi ac annog y plentyn neu’r person ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau;
- adlewyrchu aeddfedrwydd cynyddol y plentyn neu’r person ifanc;
- galluogi’r plentyn neu’r person ifanc i gymryd mwy o ran yn y broses a datblygu hyder a hunanymwybyddiaeth wrth wneud penderfyniadau; ac
- annog y plentyn neu’r person ifanc i olrhain ei gynnydd ei hun a chofnodi ei gyflawniadau.

3.7 Gall y cyfnod sy’n arwain at benderfyniad bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, neu fod ganddo ADY o bosibl, beri ofn neu bryder i’r plentyn neu’r person ifanc. Bydd angen cymorth ar y plentyn neu’r person ifanc gydol y broses. Dylid gwahodd plant a phobl ifanc i gyfarfodydd sy’n eu trafod, yn enwedig y rhai sy’n ymwneud â pharatoi neu adolygu CDU. Gall fod yn fwy priodol i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn y rhannau perthnasol o’r cyfarfod yn unig os na fyddai’n briodol iddynt gymryd rhan yn y cyfarfod cyfan.

3.8 Bydd cynorthwyo plant a phobl ifanc i gymryd rhan ystyrlon yn y broses yn eu helpu i:

- deimlo’n hyderus bod eu safbwyntiau, eu dymuniadau a’u teimladau yn cael eu hystyried a’u gwerthfawrogi, hyd yn oed os yw’n anodd iddynt eu mynegi;
- bod yn ymwybodol o’u hawliau ac o’r cymorth a’r gwasanaethau sydd ar gael iddynt; a
- datblygu teimlad o gyfrifoldeb a rheolaeth dros eu haddysg.

3.9 Dylai staff ddarparu’r cymorth hwn ar gyfer plant a phobl ifanc, a rhaid cynorthwyo’r staff i wneud hyn drwy, er enghraifft:



DRAFT

- mentora staff;
- goruchwylio staff;
- rhannu arferion da;
- dysgu proffesiynol parhaus perthnasol.

3.10 Os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, dylid egluro hyn wrtho mewn ffordd sy'n adlewyrchu ei allu i ddeall. Os yw CDU yn cael ei ddatblygu neu ei adolygu, mae'n rhaid cynnwys y plentyn neu'r person ifanc ar lefel briodol. Dylid cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddeall yr hyn sy'n cael ei gytuno, gan gynnwys y deilliannau arfaethedig sy'n deillio o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Dylid cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall diben unrhyw ymyriad a rhaglen weithredu.

3.11 Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc am yr aelod o staff sydd ar gael i drafod unrhyw anawsterau neu bryderon. Mae'n bosibl mai'r cydlynydd ADY (gweler Pennod 5) fydd yr unigolyn priodol ar gyfer y gwaith hwn.

***Galluedd plant***

3.12 Mae'r Ddeddf yn cydnabod na fydd pob plentyn â'r galluedd i ddeall:[10]

- gwybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi neu ddogfennau y mae'n rhaid eu rhoi i blentyn o dan ran 2 o'r Ddeddf; neu
- yr hyn y mae arfer yr hawliau a roddir i blentyn gan y Ddeddf yn ei olygu.

3.13 Felly, mae'r Ddeddf yn nodi nad yw'r dyletswyddau neu'r amodau penodol sy'n ymwneud â hawliau sy'n deillio o ran 2 o'r Ddeddf[11] yn berthnasol os yw awdurdod lleol, ysgol a gynhelir, SAB neu gorff y GIG yn ystyried nad oes gan y plentyn y galluedd i ddeall y mater o dan sylw. Fodd bynnag, mae yna nifer o eithriadau i hyn.

i. Gall plentyn neu ei riant atgyfeirio penderfyniad ysgol a gynhelir bod gan blentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd i awdurdod lleol. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn y galluedd, mae'r hawliau penodol a roddir i blentyn i'w harfer gan y plentyn;
ii. Caiff plentyn neu riant plentyn wneud cais i'r Tribiwnlys am ddatganiad bod gan y plentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd. Os yw'r Tribiwnlys yn datgan bod gan y plentyn y galluedd, mae'r hawliau penodol a roddir i blentyn i'w harfer gan y plentyn; ac
iii. Ar gais unrhyw berson, neu ar ei ysgogiad ei hun, gall y Tribiwnlys drwy orchymyn benodi person i fod yn gyfaill achos ar gyfer plentyn nad oes ganddo'r galluedd (gweler Penodau 18 ac 19). Pan fydd

[10] Adran 75 o'r Ddeddf
[11] Rhestrir y dyletswyddau a'r amodau hyn yn adran 75(1) o'r Ddeddf

cyfaill achos yn cael ei benodi, mae hawliau penodol y plentyn i gael eu harfer gan y cyfaill achos ar ran y plentyn.

3.14 Hyd yn oed os nad oes gan blant y galluedd digonol i ddeall er mwyn arfer eu hawliau penodol o dan y Ddeddf, mae'r ddyletswydd gyffredinol i roi sylw i'r pwyntiau canlynol yn berthnasol o hyd:

- eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau;
- pwysigrwydd sicrhau eu bod yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau;
- pwysigrwydd darparu'r wybodaeth a'r cymorth gofynnol fel y gallant gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

## *Gweithio gyda phobl ifanc*

3.15 Mae'n bosibl y bydd rhai pobl ifanc yn dewis peidio â derbyn cymorth gan eu rhieni mewn perthynas â'u ADY; bydd eraill yn dewis derbyn cymorth gan eu rhieni, gweithiwr cymorth, gweithiwr cymdeithasol, cynghorydd gyrfaoedd neu rywun arall. Mae ymgysylltu'n uniongyrchol â'r person ifanc yn gam pwysig ar ei daith i fod yn fwy annibynnol, a bydd yn gymorth iddo ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli ei addysg.

3.16 Nid yw'r dyletswyddau yn adrannau 9 a 10 o'r Ddeddf (y ddyletswydd i benderfynu a'r ddyletswydd i lunio a chynnal CDU) yn berthnasol i berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r penderfyniad nac yn cydsynio i lunio neu gynnal y cynllun (fel sy'n briodol).

3.17 Wrth weithio gyda pherson ifanc, mae'n rhaid ystyried ei alluedd. Pobl ifanc sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol yw'r penderfynwyr allweddol; mae hyn yn seiliedig ar sicrhau bod ganddynt y galluedd i wneud y penderfyniadau hyn. Mae'n rhaid i berson ifanc roi cydsyniad cyn bod pobl eraill yn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i ADY; mae hyn yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth fod gan y person ifanc y galluedd i roi ei gydsyniad. Mae angen pwyso a mesur yn ofalus cyn penderfynu nad oes gan berson ifanc y galluedd. Os oes modd, mae'n rhaid gwneud pob ymdrech bosibl i ganfod safbwyntiau person ifanc.

## *Rhieni*

3.18 Mae'r ddyletswydd i gynnwys a chynorthwyo plant a phobl ifanc o dan adran 6 o'r Ddeddf, a amlinellir uchod, yn berthnasol i rieni hefyd.

3.19 Mae gan rieni wybodaeth allweddol ac maent yn gallu gwneud cyfraniad hanfodol at addysg eu plentyn. Mae ganddynt gryfderau, gwybodaeth a phrofiad unigryw i allu cyfrannu at y farn gyffredinol ar anghenion y plentyn a sut i'w gynorthwyo. Ni ddylid rhagdybio unrhyw beth ynglŷn â'r hyn y gall rhieni ei wneud neu na allant ei wneud i gefnogi addysg y plentyn. Mae gan bob rhiant yr hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau yn ymwneud ag

addysg ei blentyn, ac mae'n rhaid mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at gynnwys rhieni.

3.20 Gall y cyfnod sy'n arwain at benderfyniad bod gan blentyn ADY, neu fod ganddo ADY o bosibl, beri ofn neu bryder i'r rhieni a'r teulu. Bydd angen cymorth ar rieni gydol y broses.

3.21 Os oes gan blentyn ADY, dylid egluro hyn wrth y rhieni mewn ffordd sy'n ddealladwy iddynt. Dylid cynorthwyo rhieni i ddeall yr hyn sy'n cael ei gytuno ar gyfer eu plentyn, ADY eu plentyn, y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a'r deilliannau arfaethedig ar gyfer eu plentyn. Dylid cynorthwyo rhieni i ddeall diben unrhyw ymyriad a rhaglen weithredu.

3.22 Mae'n bosibl na fydd rhoi gwybod i rieni am y wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael yn ddigon; er enghraifft, mae'n bosibl y bydd hygyrchedd a dealltwriaeth yn peri problemau iddynt.

3.23 Efallai y bydd angen cefnogaeth ar rai rhieni i weld eu plant fel partneriaid mewn penderfyniadau yn ymwneud â'u haddysg. Efallai y byddant yn pryderu, er enghraifft, nad yw eu plentyn yn gymwys i ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Dylid cynorthwyo ac annog rhieni i sicrhau cyfranogiad llawn eu plentyn lle bo hynny'n briodol.

3.24 Er mwyn cynorthwyo a grymuso rhieni i allu mynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau, a chymryd rhan weithredol yn y broses, dylent dderbyn gwybodaeth a chyngor mewn ffordd sy'n ddealladwy iddynt. Dylid annog rhieni i wneud cyfraniad o'r cychwyn cyntaf a chydol addysg y plentyn.

3.25 Bydd angen lefelau cymorth gwahanol ar rieni, a dylid gwneud pob ymdrech bosibl i hwyluso hyn. Dylent deimlo'n hyderus y bydd pobl yn gwrando arnynt ac y bydd eu mewnbwn yn cael ei werthfawrogi. Dylai rhieni dderbyn cymorth i fynychu cyfarfodydd priodol, yn enwedig cyfarfodydd yn ymwneud â pharatoi neu adolygu CDU eu plentyn, gan eu grymuso i wneud cyfraniad mor llawn â phosibl.

3.26 Gall rhieni wneud cyfraniad hanfodol at helpu eu plentyn i wireddu ei botensial. Mae'r plentyn yn llawer mwy tebygol o lwyddo a gwireddu ei botensial pan fydd rhieni yn cymryd rhan weithredol a phan fydd eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried. Felly, mae angen rhoi cymorth a chyngor i rieni ynglŷn â sut y gallant gynorthwyo eu plentyn i wireddu ei botensial yn llawn.

3.27 Pan fydd plentyn yn mynychu ysgol breswyl, neu pan fydd yn derbyn gofal yr awdurdod lleol ac yn byw oddi cartref, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y rhieni yn cael eu hannog i barhau i chwarae rhan weithredol yn ei addysg lle bo hynny'n briodol. Mae cyfraniad rhieni pan fydd plentyn oddi cartref yn neilltuol o bwysig, oherwydd yr angen i gynllunio ar gyfer yr adeg pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn dychwelyd i'r teulu.

3.28 Dylid rhoi gwybod i riant y plentyn am yr aelod o staff a fydd ar gael i drafod unrhyw anawsterau neu bryderon.

DRAFT

# Pennod 4: Cyngor a Gwybodaeth

## *Crynodeb*

4.1 Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch ADY a'r system ADY.[12]

4.2 Mae'r Bennod hon yn darparu canllawiau ar y trefniadau a ddylai fod ar waith, ynghyd â rôl darparwyr gwasanaethau allanol.

## *Darparu gwybodaeth a chyngor*

4.3 Mae'n **rhaid** i awdurdod lleol gymryd camau y mae'n ystyried eu bod yn gamau rhesymol i wneud ei drefniadau gwybodaeth a chyngor[13] yn hysbys i:

- blant a phobl ifanc yn ei ardal;
- rhieni plant yn ei ardal;
- plant y mae'n gofalu amdanynt sydd y tu allan i'w ardal;
- cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal;
- cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach yn ei ardal;
- cyfeillion achos plant yn ei ardal;
- unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol, er enghraifft gweithwyr proffesiynol neu arbenigwyr perthnasol, y Swyddog/Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg, neu'r trydydd sector.

4.4 Mae angen defnyddio trefniadau dynodedig y mae'n hawdd eu nodi er mwyn darparu gwybodaeth a chyngor. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth a chyngor yn cael eu darparu ar lefel briodol.

4.5 Nid oes angen i awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor eu hunain o reidrwydd, a gallent weithio gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys y trydydd sector, i ddarparu gwybodaeth sy'n diwallu anghenion plant, eu rhieni a phobl ifanc. Mae angen sicrhau bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn derbyn unrhyw wybodaeth a chyngor sy'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill.

4.6 Dylai awdurdodau lleol gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc yn y broses o lunio neu gomisiynu eu trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n diwallu anghenion lleol. Dylai awdurdodau lleol wneud hyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni yn teimlo eu bod wedi cyfrannu'n llawn at y broses a bod ganddynt ymdeimlad o

---

[12] Adran 7 o'r Ddeddf.
[13] Adran 7(2) o'r Ddeddf.



DRAFT

gydberchnogaeth. Nid oes angen i'r broses fod yn feichus i awdurdodau lleol, a gallant sefydlu grwpiau ffocws neu weithdai.

4.7 Er nad oes angen i awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor eu hunain o reidrwydd, mae'n **rhaid** iddynt sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor ar gael yn hwylus. Gall hyn gynnwys darparu gwybodaeth a chyngor ar ffurf electronig, ar wefannau neu drwy ddeunyddiau print er enghraifft, a darparu gwybodaeth a chyngor i grwpiau yn y gymuned.

4.8 Dylai'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor fod yn hyblyg ac mae angen ymdrin ag achosion mewn ffordd sensitif, gan ddangos cydymdeimlad. Dylid ystyried pryderon plant, eu rhieni a phobl ifanc yn ofalus.

4.9 Dylai'r wybodaeth a'r cyngor fod yn gywir ac yn ddiduedd a dylent:

- helpu plant, eu rhieni a phobl ifanc i ddeall beth yw ADY;
- darparu gwybodaeth am yr holl ddeddfwriaeth yn ymwneud ag ADY, gan gynnwys y wybodaeth yn y Cod hwn;
- helpu plant, rhieni a phobl ifanc i ddeall yr asiantaethau gwahanol sy'n rhan o'r broses;
- bod yn ddi-dâl, yn gywir a, lle bo hynny'n briodol, yn gyfrinachol, mewn fformatau sydd ar gael, sy'n ymateb i anghenion defnyddwyr – gan gynnwys bod yn addas i blant, eu rhieni a phobl ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, ac mewn fformat sydd ar gael i bobl sydd ag anabledd neu anhawster dysgu;
- bod yn gywir ac yn glir, gan sicrhau bod gwybodaeth a chyngor yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall gan blant, eu rhieni a phobl ifanc;
- darparu gwybodaeth a chyngor cywir a diduedd ar hawliau plant, eu rhieni a phobl ifanc;
- cyfeirio plant, eu rhieni a phobl ifanc at ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth gwahanol ac ychwanegol sydd ar gael yn lleol neu'n genedlaethol o bosibl;
- cyfeirio plant, eu rhieni a phobl ifanc at sefydliadau gwirfoddol, statudol neu breifat penodol sy'n gallu darparu cyngor a chymorth arbenigol;
- helpu i hyrwyddo annibyniaeth a hunaneirioli ar gyfer plant, eu rhieni a phobl ifanc;
- sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cwyno gwahanol, gwasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau, a'r llwybr apêl ar gyfer materion yn ymwneud ag ADY os yn berthnasol, a'u helpu i ddeall y meysydd hyn; a
- chydymffurfio ag unrhyw safonau Cymraeg sy'n berthnasol i'r corff.

4.10 Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at wybodaeth a chyngor ar faterion yn ymwneud ag ADY. Bydd llawer o blant eisiau derbyn gwybodaeth a chyngor drwy eu rhieni. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai plant, yn enwedig plant hŷn, eisiau derbyn



DRAFT

gwybodaeth a chyngor drwy ddulliau nad ydynt yn cynnwys eu rhieni. Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol hwyluso hyn. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, paratoi taflenni a gwefannau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc yn benodol.

4.11 Er bod yn **rhaid** i bobl ifanc allu derbyn gwybodaeth a chyngor eu hunain, dylai awdurdodau lleol gydnabod anghenion penodol pobl ifanc a sicrhau bod darparwyr yn cydweithio er mwyn cynnig gwasanaethau cyson i blant, eu rhieni a phobl ifanc.

4.12 Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn mynegi eu dymuniadau am y tro cyntaf, ac o ganlyniad bydd angen cymorth arnynt i ddewis a rheoli'r cymorth y byddant yn ei dderbyn.

## *Cyfeiriadur Awdurdod Lleol*

4.13 Gall awdurdod lleol fynd ati i egluro ei wasanaethau drwy sefydlu cyfeiriadur sy'n amlinellu'r cymorth a'r gefnogaeth wahanol sydd ar gael yn yr ardal. Gallai'r cyfeiriadur hwn gynnwys gwybodaeth am:

- drefniadau gwybodaeth a chyngor;
- trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau;
- gwasanaethau eirioli.

4.14 Gallai'r cyfeiriadur gynnwys gwybodaeth am y cymorth a'r gefnogaeth wahanol sydd ar gael yn yr ardal.

4.15 Gall yr awdurdod lleol ystyried cynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc yn y broses o ddatblygu ac adolygu'r cyfeiriadur. Dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn teimlo eu bod wedi cyfrannu'n llawn at y broses a bod ganddynt ymdeimlad o gydberchnogaeth.

4.16 Dylai'r cyfeiriadur fod yn ffeithiol a chael ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall gan blant, eu rhieni a phobl ifanc. Dylai'r awdurdod lleol hysbysebu'r cyfeiriadur yn eang a sicrhau ei fod ar gael yn hwylus.

## *Cefnogi trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor*

4.17 Dylai darparwyr y blynyddoedd cynnar, ysgolion a SAB helpu i gyfeirio plant a phobl ifanc at drefniadau gwybodaeth a chyngor yr awdurdod lleol os ydynt yn credu y bydd hynny'n fanteisiol i'r plentyn neu'r person ifanc. Gallai hyn gynnwys darparu taflenni ac arddangos posteri sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol mewn lleoedd priodol.

4.18 Gall rhai sefydliadau, a SAB yn benodol, ddarparu eu gwybodaeth a'u cyngor eu hunain yn ymwneud ag ADY a'u polisïau cysylltiedig. Gallant ddefnyddio nifer o ddulliau gwahanol i wneud hyn, gan gynnwys eu gwefan, taflenni, dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol ar gyfer darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol, yn ystod dyddiau agored, adeg ymrestru, a chydol cyfnod y plentyn neu'r person ifanc yn y sefydliad.

**Enghraifft o arfer da**

Mae SAB X yn darparu gwybodaeth a chyngor clir yn ymwneud ag ADY mewn sawl ffordd. Mae hyn yn cynnwys fideos ar eu gwefan sy'n darparu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael, a thaflenni a dogfennau amrywiol sy'n darparu gwybodaeth i'r dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr.

Yn ystod y broses gofrestru, mae aelod arbenigol o staff wrth law i gynnig gwybodaeth am y math o gymorth sydd ar gael.

Caiff pob dysgwr diwtor personol i'w helpu gyda'i hastudiaethau, a bydd yn cwrdd â'r tiwtor yn rheolaidd i drafod ei gynnydd, unrhyw anawsterau a'i anghenion o ran cymorth.  Mae hyn yn darparu pwynt cyswllt clir i gael yr wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol.

### *Darparwyr Gwasanaethau Allanol*

4.19 Gall yr awdurdod lleol benderfynu cyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu cyngor a gwybodaeth drwy, er enghraifft, ofyn i'r trydydd sector neu'r sector preifat ymgymryd â'r cyfrifoldeb. Os yw awdurdod lleol yn penderfynu gwneud hynny, mae'n parhau i fod yn gyfrifol am:

- nodi a monitro safon gyffredinol y gwasanaeth;
- cyflwyno ei gynlluniau ariannu a chyllidebu ar gyfer y gwasanaeth a sicrhau gwerth am arian;
- sicrhau bod strwythurau rheoli priodol ar waith ar gyfer y gwasanaeth;
- sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd cadarn a mynd ati i werthuso gwasanaethau;
- sicrhau bod gan y gwasanaeth gynllun datblygu sy'n pennu targedau clir ac yn cael ei adolygu yn rheolaidd – dylai'r cynllun hwn nodi strategaethau a threfniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor ar gyfer gwaith gwerthuso a sicrhau ansawdd;
- sicrhau bod cynlluniau wrth gefn effeithiol ac ymarferol ar waith; a
- sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu'r gwasanaeth sy'n sicrhau lefelau digonol o adnoddau a hyfforddiant, gan nodi'n glir y safonau ansawdd sy'n ofynnol gan y darparwr a'r cyfrifoldebau sy'n cael eu dirprwyo iddo.

# Pennod 5 – Rôl y Cydlynydd ADY

## *Crynodeb*

5.1 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno rôl statudol newydd: Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynydd ADY). Mae manylion y rôl hon wedi'u nodi isod.

## *Y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol*

**Dyletswydd cyrff llywodraethu i ddynodi Cydlynydd ADY**

5.2 Mae'n **rhaid** i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir, meithrinfa a gynhelir, uned cyfeirio disgyblion a SAB yng Nghymru ddynodi person[14], neu fwy nag un person – a elwir yn Gydlynydd ADY – a fydd yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.

5.3 Nid yw dynodi Cydlynydd ADY yn dileu'r angen i hyfforddi'r gweithlu ehangach. Mae pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion eu dysgwyr yn cael eu nodi a'u diwallu.

**Y Cydlynydd ADY yn y lleoliad addysg**

5.4 Mae pob athro ac aelod o staff yn addysgwyr plant a phobl ifanc ag ADY. Mae pob un ohonynt yn gyfrifol am gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Y Cydlynydd ADY yw'r unigolyn sy'n mynd ati ar lefel strategol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu. Dylid ystyried y rôl hon yn rôl strategol yn y lleoliad addysg, gan roi'r un statws iddi â rolau penaethiaid, prifathrawon, dirprwy benaethiaid ac ati. Felly, dylai'r Cydlynydd ADY fod yn aelod o'r uwch dîm arwain neu fod â llinell gyfathrebu glir i'r uwch dîm arwain. Bydd hyn yn helpu'r sefydliad i fynd ati'n rhagweithiol i nodi a chefnogi anghenion plant a phobl ifanc.

5.5 Bydd angen i'r Cydlynydd ADY gyfrannu at y gwaith o gydlynu adnoddau ADY mewn ffordd strategol, fel trefnu a chefnogi staff a gweithio gyda chydweithwyr sy'n aelodau o'r uwch dîm arwain i gynllunio a phenderfynu ar yr adnoddau priodol sydd eu hangen i gefnogi staff yn y lleoliad. Mae angen i'r Cydlynydd ADY gymryd rhan weithgar mewn penderfyniadau yn ymwneud â chyllidebau ac adnoddau i helpu i gynllunio darpariaeth briodol.

5.6 Ni ddisgwylir i'r Cydlynydd ADY gymryd rhan uniongyrchol yn y broses bob dydd o gynorthwyo pob dysgwr ag ADY. Yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am wneud hynny, ond mae staff cymorth dysgu yn gallu cynorthwyo'r Cydlynydd ADY i sicrhau bod athrawon yn cael eu cefnogi a bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.

---
[14] Adran 54 o'r Ddeddf



DRAFT

5.7 Mae'n hanfodol bod gan y Cydlynydd ADY amser ac adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol, gan gynnwys amser wedi'i neilltuo y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Dylai pennaeth y lleoliad addysg sicrhau bod y Cydlynydd ADY yn cael y gefnogaeth briodol. Drwy neilltuo amser clir a digonol, bydd modd sicrhau bod y Cydlynydd ADY yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.

5.8 Os yw rôl y Cydlynydd ADY yn cael ei chyfuno â chyfrifoldebau eraill nad ydynt yn ymwneud â dysgu, mae'n bwysig sicrhau bod y dyletswyddau eraill yn gydnaws â'r dyletswyddau y disgwylir i'r Cydlynydd ADY eu cyflawni ac na fyddant yn amharu ar ei gyfrifoldebau yn y cyswllt hwn.

5.9 Gall staff cymorth dysgu fod yn adnodd pwysig i'r Cydlynydd ADY pan fydd yn mynd ati i gydlynu darpariaeth cymorth ledled y lleoliad addysg. Gall staff cymorth dysgu ddarparu sgiliau arbenigol i gefnogi dysgwyr ag ADY, a gallant gynnig cymorth ymarferol a gweinyddol i'r Cydlynydd ADY. Felly, dylai'r Cydlynydd ADY helpu i gydlynu staff cymorth dysgu a chael y cyfle i benderfynu sut y byddant yn cael eu defnyddio yn y lleoliad. Ni fydd yn briodol defnyddio staff cymorth dysgu ym mhob achos, ond maent yn un o nifer o adnoddau a ddylai fod ar gael i'r Cydlynydd ADY.

5.10 Bydd gan Cydlynyddau ADY gymwysterau sylweddol ynghyd ag arbenigedd i ymdrin ag amrywiaeth eang o ADY. Hefyd, gall y Cydlynydd ADY ddewis arbenigo mewn mathau penodol o ADY a rhannu'r arbenigedd hwn y tu allan i'w leoliad addysg penodol.

5.11 *[Bydd y manylion am gymwysterau yn cael eu pennu gan reoliad a'u hystyried fel rhan o'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY].*

5.12 Hefyd, bydd y Cydlynydd ADY yn darparu arweiniad, cyngor a chymorth proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysgu, ac os oes angen, gwybodaeth a chymorth ar gyfer rhieni ac asiantaethau/sefydliadau eraill. Bydd yr uwch dîm arwain yn cynghori, yn herio ac yn cefnogi'r systemau a'r prosesau i nodi a diwallu anghenion dysgwyr. Gall yr awdurdod lleol gefnogi rôl y Cydlynydd ADY, gan gynnwys darparu arweiniad lle bo hynny'n briodol.

## Rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynydd ADY

5.13 Dylai cyfrifoldebau allweddol y Cydlynydd ADY gynnwys:

- hyrwyddo cynhwysiant yn y lleoliad addysg;
- datblygu i fod yn ffynhonnell arbenigedd ym maes ADY drwy ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol;
- goruchwylio'r gwaith o weithredu polisi'r lleoliad addysg ar ADY o ddydd i ddydd;

- cydlynu darpariaeth ledled y lleoliad addysg ar gyfer dysgwyr ag ADY, gan gynnwys y gwaith o reoli dyraniad staff cymorth dysgu;

- helpu i ddatblygu a chyflwyno gweithdrefnau a systemau ADY priodol yn y lleoliad addysg, gan gynnwys cynllunio ariannol strategol, datblygu adnoddau yn effeithiol a chasglu a dadansoddi data, gyda'r nod o wella deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY;

- darparu cymorth proffesiynol ar gyfer pob aelod o staff fel bod modd nodi achosion yn gynnar, asesu a chynllunio ar gyfer pob dysgwr ag ADY. Gall hyn gynnwys cefnogi staff i olrhain disgyblion ar lefel ysgol gyfan a'u cynorthwyo i reoli'r gwaith o osod targedau;

- sicrhau bod CDU yn cael eu datblygu a'u hadolygu'n briodol yn unol ag egwyddorion Ymarfer Seiliedig ar Unigolion;

- goruchwylio cydweithio â'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ag ADY i sicrhau dealltwriaeth o anghenion y dysgwr a sut y byddant yn cael eu diwallu a, lle bo angen, darparu cyngor ynglŷn â'r wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael;

- sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr awdurdod lleol i osgoi a datrys anghytundebau yn cael eu defnyddio'n llawn fel sy'n briodol;

- gweithredu fel yr unigolyn cyswllt allweddol ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant a chymorth yr awdurdod lleol, asiantaethau allanol, sefydliadau annibynnol/gwirfoddol, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, seicolegwyr addysg ac ati;

- cydweithio â darparwyr y blynyddoedd cynnar, ysgolion eraill a gynhelir a SAB lle bo hynny'n berthnasol er mwyn hwyluso trosglwyddo llwyddiannus ar gyfer dysgwyr ag ADY;

- cydweithio ag arbenigwyr gyrfaoedd i sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn derbyn cyngor priodol ar yrfaoedd;

- cynorthwyo dysgu proffesiynol staff yn y lleoliad addysg er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ag ADY yn well;

- bod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r cymorth diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ADY;

- gweithio mewn ffordd strategol gyda'r uwch dîm arwain a llywodraethwyr i sicrhau bod y lleoliad addysg yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf, y Cod hwn a Deddf Cydraddoldeb 2010;

- gwella ei ddysgu proffesiynol ei hun drwy gydweithio â'r rhwydwaith lleol o Gydlynwyr ADY (dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu a

hwyluso'r rhwydwaith hwn) a, lle bo hynny'n briodol, drwy gydweithio ag ysgolion arbennig i ddatblygu a rhannu profiad ac arferion gorau.

5.14 Bydd y Cydlynydd ADY yn gyfrifol am sicrhau bod gan bob dysgwr ag ADY ledled y lleoliad addysg CDU. Ni fydd yn ofynnol i'r Cydlynydd ADY ddatblygu pob CDU – gall unrhyw athro wneud hynny. Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar sail amgylchiadau pob achos unigol.

5.15 Bydd y Cydlynydd ADY yn gyfrifol yn benodol am oruchwylio'r ddarpariaeth ledled y lleoliad addysg ar gyfer diwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi mewn CDU. Dylai'r Cydlynydd ADY sicrhau bod adolygiadau blynyddol yn cael eu cynnal a, lle bo hynny'n briodol, arwain y broses adolygu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i ddiwallu anghenion dynodedig. Mae rhagor o wybodaeth am CDU a darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gael ym Mhenodau 9.1 i 12.

5.16 Bydd y Cydlynydd ADY yn gwneud defnydd effeithiol o'r systemau gwybodaeth reoli a ddefnyddir gan y lleoliad addysg i fonitro effaith ymyriadau ac asesu cynnydd yn erbyn deilliannau a gynlluniwyd ar gyfer pob dysgwr ag ADY. Os nad yw cynnydd y dysgwr yn bodloni'r disgwyliadau, dylai ymyriadau gael eu hadolygu gan y Cydlynydd ADY a'r staff, a'u haddasu yn briodol. Mae rhagor o wybodaeth am fonitro effaith ar gael ym Mhennod 14.

5.17 Bydd angen cymorth asiantaethau a gweithwyr proffesiynol allanol ar rai dysgwyr ag ADY. Bydd y Cydlynydd ADY yn gyfrifol am gydweithio â'r gwasanaethau arbenigol hyn i sicrhau bod anghenion dysgwyr ag ADY yn cael eu diwallu. Mae rhagor o wybodaeth am waith amlasiantaeth ar gael ym Mhennod 12.

## *Dysgu proffesiynol mewn perthynas ag ADY – Cyffredinol*

5.18 Mae ymarferwyr addysgu yn gyfrifol am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain. Dylai pob un ohonynt dderbyn hyfforddiant proffesiynol ym maes ADY, waeth beth yw eu profiad blaenorol, eu cymwysterau neu'r lleoliad addysg lle maent yn gweithio. Dylai gofynion dysgu proffesiynol gael eu nodi fel rhan o broses gynllunio'r lleoliad addysg.

5.19 Mae sefydliadau addysg yn gyfrifol am sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i nodi anghenion dysgu proffesiynol eu gweithlu, a dylent ddarparu cymorth priodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Dylai ysgolion yn benodol fod yn defnyddio Cynlluniau Datblygu eu hysgol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

5.20 Mae ymarferwyr addysgu sydd angen gwella eu gwybodaeth a/neu eu sgiliau sy'n ymwneud â gwahanol fathau o ADY yn gallu dod o hyd i wybodaeth, canllawiau, adnoddau a/neu ddeunyddiau hyfforddi a

ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru drwy fynd i wefan Dysgu Cymru[15] a phlatfform dysgu digidol HwB[16].

5.21 Elfen bwysig o waith y Cydlynydd ADY fydd rhoi cyngor ar y cymorth ehangach sy'n cael ei ddarparu yn y lleoliad addysg ac ym maes dysgu proffesiynol ar gyfer aelodau staff eraill, a bydd yn cyfrannu at y meysydd hyn hefyd. Felly, mae'n hollbwysig bod y Cydlynydd ADY yn gyfarwydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau, cymorth a thystiolaeth o arferion gorau ym maes ADY.

5.22 Hefyd, mae sefydliadau amrywiol yn cynnig cymorth a dysgu proffesiynol i sefydliadau addysg gwahanol yn ymwneud â dulliau addysgu penodol ar gyfer dysgwyr ag ADY a mathau penodol o ADY.

**Cymwysterau a phrofiad rhagnodedig ar gyfer Cydlynwyr ADY**

5.23 *[Mae Adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod modd cyflwyno rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau bod gan Gydlynwyr ADY gymwysterau rhagnodedig neu brofiad rhagnodedig (neu'r ddau). Felly, mae'r paragraffau canlynol yn nodi bwriadau Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn, ond byddant yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r rheoliadau maes o law.]*

5.24 Bydd angen i'r Cydlynydd ADY fod yn athro â'r cymwysterau priodol.

5.25 Bydd gan y Cydlynydd ADY brofiad ymarferol eang o gefnogi dysgwyr ag ADY yn yr ystafell ddosbarth. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i Gydlynwyr ADY ennill cymhwyster ADY erbyn dyddiad penodol ar ôl dyddiad eu penodi (os nad ydynt wedi'i ennill eisoes). Rydym yn rhagweld y bydd y cymhwyster sy'n cefnogi Cydlynwyr ADY yn datblygu gwybodaeth a sgiliau lefel uwch ym meysydd cydlynu, arweinyddiaeth ac arbenigedd ADY.

5.26 Ar ôl ennill y cymhwyster, bydd yn bwysig sicrhau bod Cydlynwyr ADY yn parhau i ddefnyddio dysgu proffesiynol priodol i ddysgu am y datblygiadau diweddaraf.

5.27 Mae'n rhaid i bob ymarferydd addysgu gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg,[17] a fydd yn cynnal y cofrestriad a'r safonau proffesiynol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys athrawon a staff cymorth dysgu ym mhob ysgol a gynhelir a darlithwyr a staff cymorth dysgu ym maes AB. Mae'r cofrestriad yn cynnwys cofnod o rolau a dysgu proffesiynol yr unigolyn. Dylai pob Cydlynydd ADY ac ymarferydd addysgu sicrhau bod eu cofrestriad yn cynnwys cofnod cyfoes o'u rôl a'u dysgu proffesiynol ym maes ADY. Yn y cyswllt hwn, dylai awdurdodau lleol adolygu cynlluniau datblygu ysgolion hefyd i sicrhau bod gan ysgolion sgiliau digonol i gyflawni eu dyletswyddau.

[15] http://learning.gov.wales/?skip=1&lang=cy
[16] http://hwb.wales.gov.uk/
[17] Sefydlwyd fel corff cofrestru o dan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014.

## Cydlynwyr ADY mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

5.28 Gall fod yn briodol weithiau i rai lleoliadau a gynhelir rannu Cydlynydd ADY. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, lle mae meithrinfa a gynhelir yn rhan o ysgol brif ffrwd; lle mae dosbarth meithrin yn rhan o'r ysgol brif ffrwd; lle mae yna gyfuniad o leoliadau bach mewn ardal leol; neu os oes ffederasiwn o ysgolion yn cael ei reoli gan un corff llywodraethu. Os oes trefniant rhannu ar waith, dylai'r corff/cyrff llywodraethu perthnasol sicrhau wrth gyflawni ei ddyletswydd/eu dyletswydd i benodi Cydlynydd ADY fod y lleoliadau addysg yn parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod hwn.

5.29 Mae'n rhaid i bob Uned Cyfeirio Disgyblion benodi Cydlynydd ADY o dan y ddyletswydd y cyfeiriwyd ati yn gynharach. Mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu cynnal gan bwyllgorau rheoli a'u goruchwylio gan awdurdod lleol. Pan fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu pwy i'w ddynodi yn Gydlynydd ADY, dylai ofyn am fewnbwn gan y pwyllgor rheoli i drafod pwy yw'r unigolyn mwyaf priodol ar gyfer y swydd.

5.30 Oherwydd maint Uned Cyfeirio Disgyblion, gall fod yn fwy priodol penodi Pennaeth y lleoliad yn Gydlynydd ADY, neu ystyried trefniant rhannu gydag unedau eraill neu ysgolion bwydo. Dylai pwyllgor rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion sicrhau bod gan y Cydlynydd ADY ddigon o amser a'r arbenigedd i wneud y gwaith yn briodol. Bydd disgwyl i Gydlynydd ADY mewn Uned Cyfeirio Disgyblion wneud yr un gwaith â Chydlynydd mewn lleoliad a gynhelir. Gan fod dysgwyr mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn newid yn gyson, bydd angen i'r Cydlynydd ADY gynnal perthynas gadarnhaol â Chydlynwyr mewn lleoliadau eraill a gynhelir. Bydd hyn yn golygu bod modd i ddysgwyr drosglwyddo'n llwyddiannus a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu rhwng y lleoliadau addysg.

5.31 Dylai'r Cydlynydd ADY gynorthwyo dysgwyr sydd â CDU i drosglwyddo'n llwyddiannus. Byddai hyn yn cynnwys cynorthwyo'r dysgwr i drosglwyddo i ysgol arall, a chynorthwyo pobl ifanc i drosglwyddo i fyd oedolion, er enghraifft i barhau i astudio neu i gael gwaith (gweler Pennod 17). Gall hyn gynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i reoli'r cyfnod trosglwyddo hwn.

**Modelau arfer da ar gyfer Cydlynwyr ADY mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion**

| **Lleoliadau bach**<br><br>Mae'r Cydlynydd ADY yn rhan o'r uwch-dîm arwain ac yn cydweithio'n agos â'r pennaeth. Mae'n arwain, yn cefnogi ac yn gweithio gyda staff i'w helpu i nodi a dilyn hynt disgyblion ag ADY.<br><br>Os yw athro, neu aelod o staff, yn teimlo nad yw ei strategaethau a'i addysgu gwahaniaethol yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc, maent yn codi'r mater gyda'r Cydlynydd ADY. Mae'r Cydlynydd ADY yn cefnogi'r athro drwy fonitro ychwanegol ac asesu cynnydd y plentyn neu'r person ifanc er mwyn helpu i wneud penderfyniad.<br><br>Mae'r Cydlynydd yn cwrdd â'r plentyn a rhiant y plentyn er mwyn penderfynu a oes gan y plentyn ADY. Yn y cyfarfod hwn, mae'n paratoi CDU, yn pennu targedau ac yn cynllunio'r ddarpariaeth a'r gweithgareddau priodol i sicrhau cynnydd.<br><br>Mae'r athro dosbarth yn darparu addysg wahaniaethol yn y dosbarth i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.<br><br>Pan fo angen, mae'r Cydlynydd ADY yn gofyn am gyngor neu gymorth pellach, gan gynnwys oddi wrth yr awdurdod lleol perthnasol. |
|---|
| **Lleoliadau canolig/mawr**<br><br>Mae'r Cydlynydd ADY yn rhan o'r uwch-dîm arwain ac mae ganddo rôl strategol o ran goruchwylio'r ddarpariaeth ADY a sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc ag ADY ar draws y lleoliad yn cael eu diwallu. Nid oes gan y Cydlynydd ADY ddosbarth penodol.<br><br>Mae'r Cydlynydd yn helpu'r athrawon i weithredu strategaethau ac yn lledaenu arfer da, ac mae hefyd yn helpu athrawon i fonitro cynnydd disgyblion. Golyga hyn fod athrawon yn gallu darparu addysg wahaniaethol a darpariaeth ddysgu ychwanegol yn eu dosbarthiadau i ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc.<br><br>Mae'r Cydlynydd ADY yn arwain ar ymyriadau cynnil ac yn ymwneud yn uniongyrchol â'r achosion mwyaf heriol. Mae hefyd yn rheoli'r broses o leoli staff cymorth er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddiwallu anghenion y dysgwyr y maent yn gyfrifol amdanynt.<br><br>Os oes angen cymorth gan asiantaethau allanol, mae'r Cydlynydd ADY yn cael gafael ar y cymorth hwnnw.<br><br>Yn ogystal, mae'n rhan o rwydwaith/clwstwr lleol o Gydlynwyr ADY sy'n helpu i gefnogi ysgolion bach yn y rhwydwaith hwnnw ac yn rhannu arbenigedd er lles yr holl leoliadau yn yr ardal. |

**Rhannu un Cydlynydd ADY rhwng lleoliadau / mwy nag un Cydlynydd ADY mewn un lleoliad**

Mae gan y Cydlynydd ADY rôl strategol o ran darparu arbenigedd i helpu i nodi a chefnogi plant a phobl ifanc ag ADY mewn nifer o leoliadau.

Efallai bod ysgol fach yn rhan o drefniadau cydweithio, boed hynny rhwng ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, neu rhwng rhwydwaith o ysgolion cynradd. Gallai'r Cydlynydd ADY fod yn gyfrifol am gefnogi bob un o'r lleoliadau hyn i sicrhau bod gan bob lleoliad fynediad i'r gefnogaeth ADY angenrheidiol. Bydd yn gallu helpu staff i weithredu strategaethau a monitro cynnydd eu disgyblion, a'u helpu i nodi ADY.

Efallai y bydd angen i ysgolion mwy o faint neu ysgolion sydd ag adeiladau ar fwy nag un safle ystyried a oes angen mwy nag un Cydlynydd ADY arnynt i ddiwallu anghenion y disgyblion. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol lle mae’r safleoedd ar wasgar neu'n gweithredu'n wahanol i'w gilydd.

Os dylai'r ysgol gael mwy nag un Cydlynydd ADY, dylai'r Cydlynwyr hyn barhau i ymgymryd â'r un elfennau allweddol o'r rôl a nodwyd yn y bennod hon. Yn y sefyllfa hon, dylai'r Cydlynwyr ADY ffurfio rhwydwaith mewnol i drafod heriau penodol ac i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd a/neu arfer da.

**<u>Enghreifftiau o arfer da - Cydlynwyr ADY mewn SAB</u>**

**SAB bach**

Mae'r Cydlynydd ADY yn gyfrifol am gydlynu strategol ac yn cynghori ar bolisi er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r SAB yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf a'r Cod hwn. Mae'n dylanwadu ar bolisïau SAB a datblygiad y polisïau hyn yn y dyfodol.

Mae'n cydlynu'r ddarpariaeth, yn diweddaru Cynlluniau Datblygu Unigol ac yn goruchwylio adolygiadau ar un safle. Yn ogystal, mae'n goruchwylio'r Cydlynwyr ADY sy'n diweddaru CDU ar safleoedd eraill. Mae'r Cydlynydd ADY yn rheoli’r Tîm Cymorth ADY.

Mae'r tîm hwn yn cynnwys aseswyr, cynorthwywyr cymorth, gweithwyr cymorth cyfathrebu a chymorth gweinyddol.

Mae swyddogion pontio'n cysylltu ag ysgolion, yn mynychu adolygiadau mewn ysgolion bwydo ac yn casglu dogfennau. Maent hefyd yn trefnu adolygiadau ac yn diweddaru CDU.

| **SAB mawr**<br><br>Mae'r Cydlynydd ADY yn gyfrifol am gydlynu strategol ac yn cynghori ar bolisi er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r SAB yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf a'r Cod hwn. Mae'n dylanwadu'n **uniongyrchol** ar bolisïau SAB a datblygiad y polisïau hyn yn y dyfodol.<br><br>Mae'r Cydlynydd yn goruchwylio cydlynwyr y campws sy'n rheoli'r cymorth ar wahanol gampysau ac yn nodi anghenion lle bo'n briodol. Mae'r Cydlynydd ADY yn rheoli Tîm Cymorth ADY **a'r** swyddogion pontio.<br><br>Gallai'r Tîm Cymorth gynnwys, er enghraifft, aseswyr, cynorthwywyr cymorth, gweithwyr cymorth cyfathrebu a chymorth gweinyddol. |
| --- |
| **Colegau sydd â darpariaeth ar wahanol safleoedd**<br><br>Gallai'r Cydlynydd ADY fod yn gyfrifol am yr holl gymorth ar un neu fwy o gampysau. Mae hefyd yn rheoli'r Tîm Cymorth ADY ac yn cefnogi swyddogion pontio'r SAB.<br><br>Mae'r tîm hwn yn cynnwys aseswyr, cynorthwywyr cymorth, gweithwyr cymorth cyfathrebu a chymorth gweinyddol. |

DRAFT

# Pennod 6: Deall ystyr Anghenion Dysgu Ychwanegol

## *Crynodeb*

6.1 Mae'r Bennod hon yn amlinellu ystyr anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

6.2 Mae'n cyflwyno ystyriaethau cyffredinol sy'n berthnasol i bob ysgol a gynhelir, SAB ac awdurdod lleol sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ADY.

6.3 Mae'r Penodau canlynol yn nodi sut y gellir nodi ADY.

## *Anghenion Dysgu Ychwanegol - Diffiniad Sylfaenol*

6.4 Pryd bynnag y mae'n dod i sylw ysgol a gynhelir neu SAB bod gan blentyn neu berson ifanc ADY posibl, mae'n **rhaid** i'r lleoliad addysg hwnnw benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, oni bai bod amgylchiadau penodol yn berthnasol. Hefyd, bydd yn ofynnol mewn rhai achosion i awdurdodau lleol benderfynu a oes gan unigolyn ADY.

6.5 Mae adran 2 o'r Ddeddf yn diffinio'r term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' ('ADY').

6.6 Bydd gan berson ADY os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am 'Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol'.[18] Wrth benderfynu a oes gan blentyn neu berson ADY, mae angen dilyn y diffiniad fesul cam.

### Anhawster dysgu neu anabledd

6.7 Yn gyntaf, a oes gan yr unigolyn anhawster dysgu neu anabledd? Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd:

- os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran;[19] neu
- os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu SAB.[20]

Felly, y cwestiynau allweddol sydd angen eu gofyn yw:

1. A yw'r unigolyn yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o rai eraill sydd o'r un oedran?

[18] Adran 2(1) o'r Ddeddf.
[19] Adran 2(2)(a) o'r Ddeddf.
[20] Adran 2(2)(b) o'r Ddeddf.

DRAFT

2. A oes gan y person anabledd sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion a SAB?

6.8 Os mai 'ydy/oes' yw'r ateb i'r naill gwestiwn neu'r llall, mae gan yr unigolyn anhawster dysgu neu anabledd at ddibenion y Ddeddf.

## Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

6.9 Y cam nesaf yw penderfynu a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn golygu bod angen 'Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol'.

6.10 Mae adran 3 o'r Ddeddf yn diffinio'r term 'Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol'.

6.11 Ystyr darpariaeth ddysgu ychwanegol i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran:

- mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru;
- mewn SAB prif ffrwd yng Nghymru; neu
- mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.[21]

6.12 Mae addysgu sy'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion dysgwyr unigol yn elfen allweddol o addysg o ansawdd uchel o bob math, ac mae ar gael yn gyffredinol mewn ysgolion a SAB yng Nghymru. Ni fydd dulliau addysgu gwahaniaethol ynddynt eu hunain yn gyfystyr â darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cynnwys darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant wahanol, sy'n mynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol – gweler isod am ragor o wybodaeth.

6.13 Os oes gan berson anhawster dysgu neu anabledd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, mae'n **rhaid** credu bod gan y person ADY at ddibenion y Ddeddf.

6.14 Mae sawl math o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gael, gan gynnwys gwaith grŵp neu gymorth unigol sy'n cael ei ddarparu y tu mewn neu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth brif ffrwd, ac sy'n ychwanegol at yr hyn, neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol i eraill o'r un oedran. Hefyd, gall darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei chyflwyno mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol a/neu gan weithwyr proffesiynol allanol, os oes angen gwneud hynny i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

DRAFT

[21] Adran 3(1) o'r Ddeddf.

**Plant sy'n iau na thair oed**

6.15 Mae prawf ychydig yn wahanol yn berthnasol i blant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol. Mae'r meini prawf mewn achosion o'r fath yn gofyn, pe bai'r unigolyn o'r oedran ysgol gorfodol, a fyddai ganddo, neu a yw'n debygol y byddai ganddo:

1. anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
2. anabledd sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu SAB?

6.16 Ystyr darpariaeth ddysgu ychwanegol i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol *o unrhyw fath*.[22]

6.17 Mae'r diffiniad ar gyfer y garfan hon o ddysgwyr ychydig yn wahanol er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad yw plant sy'n iau na thair oed wedi cyrraedd oedran lle bydd y wladwriaeth yn talu am eu haddysg fel mater o drefn – felly os yw eu hanghenion yn golygu bod angen darpariaeth addysgol arnynt yn ifanc iawn, mae'n **rhaid** cydnabod y ffaith honno yn eglur.

6.18 Ystyr 'addysg feithrin' yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.[23]

6.19 Mae sawl math o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gael ar gyfer plant o dan dair oed, gan gynnwys gwaith grŵp neu gymorth unigol – lle mae'n ddarpariaeth addysgol o unrhyw fath. Gall hyn gynnwys darpariaeth addysg ar ffurf grwpiau mamau a babanod, darpariaeth addysg Dechrau'n Deg neu iechyd arbenigol, neu gymorth corfforol, cyfathrebu neu synhwyraidd. Gall y ddarpariaeth fod ar gael mewn lleoliad addysg neu'n rhywle arall.

## *Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol – Dull Cymesur sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn*

6.20 Mae'n bwysig cofio bod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol. Bydd lefelau angen plant a phobl ifanc ag ADY yn wahanol. Bydd yr anghenion hyn yn newid dros amser a bydd angen sicrhau bod cymorth neu arbenigedd gwahanol ar gael fel rhan o gylch cyson o gynllunio, gweithredu ac adolygu. Felly, dylid cynyddu neu leihau'r ystod cymorth a'r dull cymorth yn ôl anghenion a chynnydd y plentyn neu'r person ifanc unigol. Wrth benderfynu pa ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion y person ifanc, bydd angen ystyried dull dysgu'r plentyn neu'r person ifanc, sut mae ADY yn effeithio ar ei allu i weithredu, pa gymorth a/neu

[22] Adran 3(2) o'r Ddeddf.
[23] Adran 3(3) o'r Ddeddf.

ddarpariaeth ddysgu ychwanegol flaenorol/bresennol sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella graddfa ei gynnydd, a ffactorau amgylcheddol eraill.

6.21 Yn yr un modd, mae angen ystyried llwybr y dyfodol a'r llwybr gyrfa sydd o ddiddordeb i'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'n bwysig sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwybod ei fod ar daith ac y dylai'r cymorth a'r ddarpariaeth a ddarperir iddo ei helpu i fod yn fwy annibynnol a gwireddu ei uchelgeisiau yn y dyfodol.

## *Ystyriaethau Cychwynnol*

6.22 Dylai ymarferwyr sicrhau bob amser eu bod yn cyfeirio'n ôl at y diffiniad o ADY yn adran 2 o'r Ddeddf, eu bod yn ystyried y canllawiau ar ddefnyddio'r diffiniad hwn a nodwyd ar ddechrau'r Bennod hon, a'u bod yn defnyddio'r canllawiau mewn achosion unigol wrth benderfynu a oes gan unigolyn ADY.

6.23 Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pob ymarferydd yn rhoi sylw i nifer o ystyriaethau cychwynnol wrth wneud y penderfyniadau hyn:

## *Ystyriaethau Cychwynnol – Addysgu Gwahaniaethol*

6.24 Bydd angen cymorth ychwanegol ar y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ar gyfer rhan o'u haddysg ar ryw adeg. Gallai hyn gynnwys cymorth ychwanegol gyda gwaith mathemateg os yw pwnc penodol wedi peri anhawster i ddysgwr, sesiynau darllen dal i fyny, neu wers Gymraeg i ddal i fyny yn dilyn absenoldeb byr oherwydd salwch. Mae addysgu sy'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion dysgwyr unigol yn elfen allweddol o addysg o ansawdd uchel o bob math, ac mae ar gael yn gyffredinol mewn ysgolion a SAB yng Nghymru. Ni ddylid defnyddio'r prosesau yn ymwneud ag ADY a gyflwynir yn y Ddeddf i wneud iawn am ddiffyg addysgu o ansawdd da ac addysg deilwredig.

6.25 Nid yw cynnydd araf a chyrhaeddiad isel yn golygu o reidrwydd bod gan blentyn ADY, ac ni ddylent arwain yn awtomatig at gofnodi bod gan blentyn ADY. Fodd bynnag, gallent fod yn arwydd o angen dysgu ychwanegol.

6.26 Yn yr un modd, ni ddylid rhagdybio bod cyrhaeddiad yn unol ag oedran cronolegol yn golygu nad oes gan blentyn ADY. Mae rhai anawsterau dysgu ac anableddau yn digwydd ar draws yr ystod o allu gwybyddol, ac mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn osgoi rhwystredigaeth i'r plentyn. Gall rhwystredigaeth o'r fath ei hamlygu ei hun ar ffurf anfodlonrwydd neu anawsterau emosiynol neu ymddygiadol.

6.27 Yn ogystal, nid yw ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, ymddygiad anodd neu ymddygiad encilgar sy'n digwydd yn rheolaidd yn golygu o reidrwydd bod gan blentyn neu berson ifanc ADY. Os oes pryderon, mae angen ystyried a oes unrhyw ffactorau achosol, fel anawsterau dysgu neu gyfathrebu sylfaenol. Os oes amheuon bod amgylchiadau tai, teulu neu amgylchiadau domestig eraill

yn cyfrannu at yr ymddygiad, bydd angen mabwysiadu dull gweithredu amlasiantaeth.

6.28 Hefyd, dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o ddigwyddiadau eraill sy'n gallu arwain at anawsterau dysgu neu anawsterau ehangach, gan gynnwys bwlio neu brofedigaeth. Ni fydd digwyddiadau o'r fath yn arwain bob amser at blentyn neu berson ifanc yn datblygu ADY, ond gallant effeithio ar ei lesiant, ac ar ei ddeilliannau dysgu o bosibl. Dylai ysgolion a SAB sicrhau eu bod yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer anghenion tymor byr plentyn neu berson ifanc er mwyn sicrhau nad yw problemau'n gwaethygu. Os oes anawsterau mwy hirdymor yn codi sy'n arwain at *'anhawster sylweddol fwy i ddysgu'*, ac sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol o bosibl, mae'n **rhaid** i ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY[24]. Gall proses olrhain ar lefel ysgol gyfan helpu i nodi ADY.

## *Ystyriaethau Cychwynnol – Anableddau*

6.29 Ni fydd gan bob plentyn a pherson ifanc anabl y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol iddynt ADY. Nid oes unrhyw gydberthyniad uniongyrchol rhwng bod ag anabledd a bod ag ADY; bydd llawer o ddysgwyr ag anabledd heb unrhyw ADY.

6.30 Fodd bynnag, os yw anabledd unigolyn yn ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau neu strategaethau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu SAB, a bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar yr unigolyn o ganlyniad, ystyrir bod ganddo ADY[25]. Mewn achosion o'r fath bydd angen CDU ar rywun sydd ag anabledd. Hefyd, bydd natur rhai anableddau yn golygu ei bod yn debygol y bydd gan y dysgwr ADY. Er enghraifft, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadw cofrestr yn eu hardal o'r rhai sydd â diagnosis meddygol o nam ar y clyw/nam ar y golwg/namau amlsynhwyraidd.[26] Mae plant neu bobl ifanc ar y gofrestr hon yn fwy tebygol o fod ag ADY.

6.31 Hefyd, mae angen i ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol gofio am eu cyfrifoldebau presennol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Hefyd, mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer mynd â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd a wneir o dan y Ddeddf i'r Tribiwnlys Addysg.

[24] Adran 9(1), 11(1) o'r Ddeddf.
[25] Adran 2(1) a (2) o'r Ddeddf.
[26] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (adran 18)

## *Ystyriaethau Cychwynnol –Y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol*

6.32 Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd. Oherwydd hynny ni fydd ganddo ADY[27].

6.33 Er mwyn gwireddu eu potensial, mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar unigolion sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol, ond ni fydd ganddynt ADY o reidrwydd. Serch hynny, pan fydd plentyn neu berson ifanc sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd araf (er bod dulliau addysgu gwahaniaethol ar waith i'w gynorthwyo), bydd angen ystyried a oes ganddo broblem ehangach.

6.34 Rhaid bod yn neilltuol o ofalus wrth nodi ac asesu ADY unigolion nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Bydd angen ystyried pob agwedd ar ddysgu a datblygiad plentyn neu berson ifanc er mwyn asesu a yw'r anhawster yn deillio o'r her o ddysgu'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol neu a yw'n seiliedig ar ADY. Dylai'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol edrych yn ofalus ar bob agwedd ar berfformiad plentyn neu berson ifanc mewn pynciau gwahanol i weld a yw'r anawsterau sydd ganddo i'w priodoli i gyfyngiadau yn ei feistrolaeth o'r iaith a ddefnyddir, neu a ydynt yn deillio o ADY.

6.35 Bydd angen cynnal asesiad llawn o faint o gysylltiad y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i gael yn y gorffennol â phob un o'r ieithoedd y mae'n eu siarad, y defnydd a wna ohonynt ar hyn o bryd a'i rugldër ynddynt. Bydd y wybodaeth a geir trwy hyn am ei sgiliau iaith yn sylfaen ar gyfer unrhyw waith pellach gyda'r plentyn, er mwyn helpu i ddeall ei anghenion ac wrth gynllunio unrhyw gymorth iaith ychwanegol gofynnol. Os penderfynir bod angen cymorth allanol ar blentyn neu berson ifanc ar ôl cwblhau'r dadansoddiad, dylid rhannu'r wybodaeth hon ag ef.

## *Ystyriaethau Cychwynnol – Mwy Abl a Thalentog*

6.36 Mae'r term 'mwy abl a thalentog' yn cwmpasu dysgwyr sy'n fwy abl ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â'r rhai sy'n dangos talent mewn un maes penodol neu fwy. Ni ddylid dod i'r casgliad bod gan blant a phobl ifanc sy'n cael eu hystyried yn fwy abl a thalentog ADY ar sail eu gallu neu eu talent uwch yn unig. Mae angen rhagor o gyfleoedd a her ar blant a phobl ifanc o'r fath er mwyn sicrhau eu bod yn gwireddu eu potensial, gan ddefnyddio dulliau addysgu gwahaniaethol i wneud hyn.

[27] Adran 2(4) o'r Ddeddf.

6.37 Fodd bynnag, gallai plentyn neu berson ifanc fod yn fwy abl a thalentog a bod ag ADY. Er enghraifft, gall plentyn neu berson ifanc fod yn abl iawn mewn un agwedd ar ei addysg ond cael *'anhawster sylweddol fwy i ddysgu'* na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran mewn agweddau eraill ar ei addysg. Hefyd, mae'n bosibl y bydd yn perfformio'n dda ar draws y cwricwlwm, ond ei fod yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu, a bod y diffiniad a nodwyd uchod yn berthnasol iddo.

## *Ystyriaethau Cychwynnol – Anghenion Gofal Iechyd*

6.38 Yn ddiweddar, aeth Llywodraeth Cymru ati i ymgynghori ar gynorthwyo dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd.[28] Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol wneud trefniadau i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion gofal iechyd/meddygol; amlinellir hyn yn y canllawiau *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol.*[29] Fodd bynnag, ni fydd rhai plant a phobl ifanc sydd ag angen meddygol yn datblygu ADY.

6.39 Yn yr un modd, bydd rhai plant a phobl ifanc yn derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG, sef pecyn gofal sy'n cael ei ddarparu gan y GIG ar gyfer unigolion sydd ag anghenion cymhleth sy'n seiliedig ar iechyd yn bennaf.

6.40 Mewn rhai achosion, gall anghenion gofal iechyd/cyflyrau meddygol gael effaith sylweddol ar brofiadau'r plentyn neu'r person ifanc a'r ffordd y mae'n gweithredu mewn ysgol neu leoliad addysg bellach. Gall yr effaith fod yn un uniongyrchol yn yr ystyr y gall gofal iechyd/cyflwr meddygol effeithio ar alluoedd gwybyddol y plentyn neu'r person ifanc, ei alluoedd corfforol, ei ymddygiad neu ei gyflwr emosiynol. Hefyd, gall yr effaith fod yn un anuniongyrchol, er enghraifft drwy amharu ar allu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn addysg yn sgil effeithiau annymunol triniaeth neu drwy'r effeithiau seicolegol y gall salwch difrifol neu gronig neu anabledd eu cael ar blentyn neu berson ifanc a'i deulu.

6.41 Bydd yn hanfodol sicrhau bod proses ymgynghori a thrafod agored yn mynd rhagddi rhwng y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc a'r ysgol neu'r SAB (ac unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol) er mwyn sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwneud y cynnydd mwyaf posibl. Hefyd, dylai ysgolion a SAB sicrhau bod ganddynt eu trefniadau bugeiliol eu hunain i drafod problemau iechyd a phroblemau eraill.

6.42 Mae ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol yn gallu llunio, adolygu neu ddiwygio CDU ar yr un pryd â'u bod nhw, neu gorff arall, yn llunio, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall yn ymwneud â'r unigolyn. Hefyd, gall yr awdurdod lleol gynnwys y cynllun hwnnw yn y CDU.[30] Mae hyn yn sicrhau, er enghraifft, bod modd cynllunio a chyflwyno darpariaeth mewn ffordd gydgysylltiedig ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd â chynllun gofal iechyd unigol neu gynllun

[28] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/
[29] http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/medicalneeds/?skip=1&lang=cy
[30] Adran 23 o'r Ddeddf.

DRAFT

gofal iechyd parhaus a CDU: dylid adolygu'r CDU a'r gofal iechyd unigol neu'r pecyn gofal iechyd parhaus ar yr un pryd, gan integreiddio cynlluniau a/neu ddarpariaeth lle bo hynny'n briodol. Mae'n bosibl y bydd angen dull gweithredu amlddisgyblaeth ar gyfer hyn (am ragor o wybodaeth ewch i Bennod 12: gwaith amlasiantaeth).

## *Nodi ADY posibl – Pwy sy'n gallu helpu?*

6.43 Mae'n bwysig nodi ADY yn gynnar. Gall llawer o asiantaethau, gweithwyr proffesiynol ac unigolion helpu i nodi plant a phobl ifanc a all fod ag ADY, gan gynnwys:

- rhieni/gofalwyr;
- gofalwr maeth;
- ymwelwyr iechyd;
- paediatregwyr;
- Rhaglen Sgrinio Clyw Babanod Cymru;
- meddygon teulu;
- staff Dechrau'n Deg;
- staff Teuluoedd yn Gyntaf;
- Portage;
- y sector gwirfoddol;
- darparwyr gofal plant;
- staff mewn lleoliadau cyn ysgol;
- staff addysgu;
- cynorthwywyr dysgu a chymorth;
- athrawon arbenigol/athrawon cynghorol;
- Cydlynwyr ADY;
- aelodau cyrff llywodraethu;
- nyrsys ysgol;
- therapyddion galwedigaethol;
- therapyddion lleferydd ac iaith;
- ffisiotherapyddion;
- gweithwyr cymdeithasol;
- ymgynghorwyr;
- seicolegwyr addysg;
- gwasanaethau cwnsela;
- swyddogion lles addysg;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS);
- timau troseddau ieuenctid;
- mentoriaid a chynghorwyr gyrfa;
- tiwtoriaid.

6.44 Mae asiantaethau yn gallu helpu i nodi ADY drwy gynnig cyngor a chynorthwyo staff gyda strategaethau neu drwy ddod o hyd i ragor o wybodaeth. Gall arbenigwyr gwblhau asesiadau a/neu arsylwadau os oes angen er mwyn darparu mwy o wybodaeth am anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Gall hyn gynnwys asesu a gwneud diagnosis o anawsterau dysgu penodol.

6.45 Hefyd, gall asiantaethau allanol awgrymu ymyriadau perthnasol ac ystyried dulliau darpariaeth amgen. Gall asiantaethau allanol ddarparu'r cymorth, y therapïau neu'r ddarpariaeth ofynnol yn uniongyrchol.

6.46 Hefyd, gall asiantaethau allanol ddarparu gwybodaeth am unrhyw arsylwadau, asesiadau neu ddarpariaeth flaenorol y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'u derbyn er mwyn creu darlun mwy cyflawn o'r plentyn neu'r person ifanc. Gall hyn gynorthwyo unrhyw benderfyniadau. Hefyd, bydd asiantaethau'n mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth i ddarparu gwybodaeth berthnasol a chefnogi'r broses o gydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill.

6.47 Mewn rhai achosion, bydd asiantaethau'n atgyfeirio'r plentyn neu'r person ifanc i gael cyngor mwy arbenigol a/neu asesiad. Gall hyn ddigwydd os oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion neilltuol o gymhleth, difrifol a/neu lai cyffredin, lle nad yw'n glir pa anawsterau y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn eu hwynebu a lle mae angen rhagor o wybodaeth am union natur ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu ei anghenion.

6.48 Gall gwasanaethau ac asiantaethau gwahanol helpu i gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc, a byddant yn dod i adnabod y plentyn neu'r person ifanc a'i anghenion. Dylid rhannu'r wybodaeth hon mewn ffordd briodol a chyfreithlon er mwyn creu darlun holistaidd o anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

6.49 O safbwynt plant, bydd rhieni yn gwneud cyfraniad allweddol at arsylwi ar ddatblygiad eu plentyn a'i fonitro os yw hynny'n briodol. Dylent fynegi unrhyw bryderon i leoliad addysg y plentyn yn y lle cyntaf, ond gallant gysylltu â'r awdurdod lleol os oes angen. Dylai rhieni wneud hyn os nad yw'r plentyn yn mynychu lleoliad addysg eto.

6.50 Mae dyletswyddau ysgolion a gynhelir, SAB ac awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan unigolyn ADY yn berthnasol pan fo'n cael ei dwyn i'w sylw, neu pan fo'n ymddangos iddynt fel arall, y gall fod gan yr unigolyn ADY.[31] Nid yw'n ofynnol i ysgolion a gynhelir, SAB ac awdurdodau lleol – ac ni ddylent - aros nes bod unigolyn neu riant yn gofyn am gymorth cyn gweithredu.

[31] Adran 9(1) a 11(1) o'r Ddeddf.

## A OES GAN BLENTYN SYDD O DAN OEDRAN YSGOL GORFODOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL?

**Dilynwch y siart llif hon wrth benderfynu a oes gan blentyn o dan oedran ysgol orfodol ADY**

<u>A oes gan y plentyn anhawster neu anabledd dysgu?</u>

Os na fydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gynnig pan fydd y plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol, a ydynt yn debygol o:

- gael anhawster sylweddol fwy wrth dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed; a/neu
- cael anabledd sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oed mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir?

**NAC OES** → Nid oes gan y plentyn ADY

**OES** ↓

A yw'r anhawster neu anabledd dysgu yn galw am ddarpariaeth dysgu ychwanegol h.y.

- unrhyw darpariaeth addysgol os yw'r plentyn o dan 3 oed;
- darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn mannau yng Nghymru lle darperir addysg feithrin.

**NAC YDY** → Nid oes gan y plentyn ADY

**YDY** ↓

Mae gan y plentyn ADY

DRAFT

## A OES GAN BLENTYN NEU BERSON IFANC ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL?

**Dilynwch y siart llif hon wrth benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY (oni bai bod y plentyn o dan oedran ysgol orfodol)**

<u>A oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster neu anabledd dysgu?</u>

- A yw'n cael anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed; a/neu
- A oes ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oed mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu SAB prif ffrwd?

**NAC OES** → Nid oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY

**OES** ↓

Ydy'r anhawster neu'r anabledd dysgu'n galw am ddarpariaeth dysgu ychwanegol h.y. ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oed mewn:

- ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru; neu
- SAB prif ffrwd yng Nghymru.

**NAC YDY** → Nid oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY

**YDY** ↓

Mae gan y plentyn neu'r person ifanc ADY

# Pennod 7.1: Nodi ADY unigolion sy’n iau na’r oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir

7.1.1 Mae’r tair Pennod ganlynol wedi’u rhannu er mwyn nodi ADY yn unol â’r lleoliad y mae’r plentyn neu’r person ifanc yn ei fynychu. Felly, mae’r Penodau yn cynnwys gwybodaeth debyg. Bydd angen i ymarferwyr ddarllen y Bennod sy’n berthnasol iddyn nhw yn unig.

## *Crynodeb*

7.1.2 Mae’r Bennod hon yn darparu canllawiau penodol ar nodi ADY unigolion sy’n iau na’r oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir, gan gynnwys y rhai sy’n mynychu lleoliad cyn ysgol o bosibl. Mae Pennod 20 yn ymdrin yn benodol ag addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ac addysg ddewisol yn y cartref.

7.1.3 Wrth benderfynu a oes gan ddisgybl ADY, mae angen ystyried amrywiaeth o ffactorau. Dylai ymarferwyr gyfeirio yn ôl at y diffiniad o ADY yn adran 2 o’r Ddeddf, rhoi sylw i’r canllawiau ar ddefnyddio’r diffiniad hwn a nodir ar ddechrau Pennod 6, a’u cymhwyso i amgylchiadau unigol yr achos.

## *Sut mae Proffil y Cyfnod Sylfaen yn gallu helpu i nodi plant ag ADY*

7.1.4 Gall plentyn dderbyn addysg mewn lleoliad cyn cyrraedd yr oedran ysgol gorfodol. Mae’n hanfodol bwysig olrhain cyfraddau cynnydd plant rhwng oedran mynediad ac oedran ysgol gorfodol. Gall y broses olrhain hon helpu i nodi plant ag ADY a helpu i ddeall eu cynnydd datblygiadol.

7.1.5 Gall Proffil y Cyfnod Sylfaen helpu i olrhain cynnydd datblygiadol plentyn. Os yw sgôr plentyn yn is na’r disgwyl, gall hynny awgrymu bod ganddo ADY.  Dylid ategu hyn â data arall sydd ar gael, fel gwybodaeth gan ymwelwyr iechyd, sgrinio yn y blynyddoedd cynnar, unrhyw wybodaeth sy’n deillio o’r ffaith fod y plentyn wedi’i gynnwys mewn ardal Dechrau’n Deg (fel gwybodaeth sy’n deillio o Asesiad o’r Amserlen Sgiliau Tyfu). Hefyd, wrth gyflawni eu dyletswyddau gall cyrff iechyd nodi, gwneud diagnosis ac asesu cyflyrau a all ddangos bod gan blentyn ADY.

## *Nodi plant sy’n iau na’r oedran ysgol gorfodol*

7.1.6 Mae’r prawf i nodi ADY ychydig yn wahanol ar gyfer plant sy’n iau na’r oedran ysgol gorfodol (gweler Pennod 6). Fodd bynnag, mae’r adnoddau a’r dulliau o nodi ADY yn debyg iawn. Mae angen ystyried datblygiad plentyn o

DRAFT

gymharu â'i oedran cronolegol; hefyd, gall gwybodaeth ddeillio o adnoddau sgrinio ac o asesu sgiliau plentyn mewn meysydd amrywiol, fel sgiliau cyn llefaru.

7.1.7 Dylai dysgu ddatblygu profiadau cynnar plant yn y cartref gyda'u rhieni. Dylent gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r byd drwy chwarae archwiliadol a phrofiadau. Mae chwarae a datblygiad iaith yn hanfodol. Dylai chwarae archwiliadol hwyluso datblygiad ym mhob maes, gan gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol, iaith a rhyngweithio. Gall ADY rhai plant gael eu nodi adeg eu geni; bydd anghenion plant eraill yn cael eu nodi cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol.

7.1.8 Mae'n bosibl y bydd angen cymorth sylweddol ar blant gan oedolion er mwyn manteisio ar gyfleoedd/gweithgareddau chwarae priodol. Efallai y bydd angen addasiadau sylweddol i alluogi chwarae archwiliadol a datblygu sgiliau cyfathrebu cynnar. Gall anghenion sylweddol mewn un maes datblygu effeithio ar feysydd eraill, gan gynnwys datblygiad corfforol a synhwyraidd.

7.1.9 Gall rhieni ac amrywiaeth eang o leoliadau nodi ADY plentyn (gweler y Bennod flaenorol). Gall ADY posibl plant nad ydynt wedi dechrau addysg gael eu nodi am y tro cyntaf gan wasanaethau fel gwasanaethau addysg penodol a ddarperir gan awdurdodau lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol, cyrff iechyd a gwasanaethau iechyd penodol fel awdioleg a Therapyddion Iaith a Lleferydd a/neu ymwelwyr iechyd. Hefyd, gall y sector gwirfoddol helpu i nodi ADY posibl. Mae Adran 6 o'r Ddeddf a Phennod 3 o'r Cod hwn yn disgrifio dyletswyddau rhieni a phlant, gan nod bod yn **rhaid** iddynt gael eu cynnwys a'u cefnogi.

**Tystiolaeth**

7.1.10 Dylai'r broses o nodi ADY plentyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Gall y dystiolaeth hon ddod gan rieni, gan staff mewn sefydliad lle mae'r plentyn yn cael ei addysgu, neu gan wasanaethau eraill sydd wedi cael cysylltiad â'r plentyn.

7.1.11 Gall ddod i'r amlwg bod yna anawsterau penodol neu feysydd sy'n peri problemau a all effeithio ar allu'r plentyn i fanteisio ar y cwricwlwm, gan gynnwys y canlynol:

- tystiolaeth o letchwithdod;
- anawsterau sylweddol i roi pethau mewn dilyniant neu o ran canfyddiad gweledol;
- diffygion yn y cof gwaith;
- arafwch sylweddol o ran gweithrediad iaith;
- unrhyw dystiolaeth o anawsterau o ran rhyngweithio cymdeithasol neu gyfathrebu neu o stoc gyfyngedig iawn o weithgareddau, diddordebau a datblygiad y dychymyg;
- tystiolaeth o anawsterau emosiynol neu ymddygiadol o bwys, fel y dengys enghreifftiau sydd wedi'u cofnodi'n glir o ymddygiad encilgar neu aflonyddol;

- analluamlwg a pharhaus i ganolbwyntio;
- arwyddion bod y plentyn yn profi rhwystredigaeth neu loes sylweddol oherwydd ei anawsterau dysgu;
- diagnosis meddygol, fel byddardod a nam ar y golwg;
- anawsterau i sefydlu a chynnal perthnasau cytbwys gyda'i gyd-ddisgyblion neu gydag oedolion;
- unrhyw dystiolaeth arall bod yna arafwch sylweddol o ran datblygu sgiliau byw a sgiliau cymdeithasol.

7.1.12 Gall pryderon ddod i'r amlwg, er enghraifft, mewn perthynas â phlentyn sydd, er ei fod yn cael profiadau addysg priodol:

- yn gwneud fawr ddim cynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, tuag at wireddu ei botensial, hyd yn oed pan fydd y dulliau addysgu'n cael eu targedu'n benodol at faes gwan dynodedig y plentyn;
- yn dal i weithio ar lefelau sy'n sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir gan blant o oed cyffelyb, neu'n is na'r lefelau a ddisgwylir gan yr unigolyn ei hun;
- yn amlygu anawsterau emosiynol neu ymddygiadol parhaus nad ydynt yn gwella o ddefnyddio'r technegau rheoli ymddygiad a arferir fel arfer;
- yn amlygu datblygiad personol a chymdeithasol araf, nad yw'n gwella o ddefnyddio'r strategaethau a'r technegau a arferir fel arfer;
- yn amlygu datblygiad corfforol araf neu ddatblygiad creadigol araf, nad yw'n gwella o ddefnyddio'r strategaethau a'r technegau a arferir fel arfer;
- yn cael problemau synhwyraidd neu gorfforol, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, yn erbyn yr hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddo, er bod cyfarpar arbenigol wedi ei ddarparu ar ei gyfer;
- yn cael anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithio, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, er gwaethaf defnyddio strategaethau a thechnegau a arferir fel arfer.

7.1.13 Mae defnyddio data i olrhain cynnydd disgyblion yn allweddol bwysig. Gall y data hwn ddeillio o fesur cynnydd yn erbyn targedau rhesymol sy'n ystyried data sylfaenol, a meincnodau unigol clir.

7.1.14 Disgwylir y bydd cyfraddau cynnydd plant yn amrywio. Bydd rhai plant â lefelau gallu is yn gwneud cynnydd arafach ond cadarn. Bydd angen cymorth arnynt i wneud cynnydd addas. Wrth ystyried anghenion y plentyn, gall ddod i'r amlwg bod y plentyn yn gwneud cynnydd da mewn gwirionedd o sylfaen isel.

7.1.15 Hefyd, gall rhieni'r plentyn fynegi pryderon. Mae arsylwadau rhieni o'u plentyn yn hanfodol yn aml i nodi ADY yn gynnar; dylai lleoliadau ac awdurdodau lleol fod yn agored ac yn ymatebol i rieni sy'n mynegi'r cyfryw bryderon ac ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir.

DRAFT

7.1.16 Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried a yw’r dystiolaeth yn awgrymu bod yna resymau eraill am danberfformio sy’n wahanol i ADY, ac felly a oes angen dulliau amgen a mwy priodol o gynorthwyo’r plentyn i ddysgu, fel ei atgyfeirio i seicolegydd addysg, gwasanaethau lles addysg, gwasanaethau cymdeithasol neu gyrff iechyd.

Ffactorau eraill

7.1.17 Dylid cofio bod rhai ffactorau, gan gynnwys problemau yn amgylchiadau cartref neu deuluol y plentyn, yn gallu cyfrannu at dangyflawni ond nid ydynt bob amser o reidrwydd yn dangos bod ganddo ADY. Felly, dylai awdurdodau lleol geisio canfod unrhyw dystiolaeth am ffactorau amlwg o’r fath a allai effeithio ar ddeilliannau dysgu gan gynnwys:

- tystiolaeth bod perfformiad y plentyn yn wahanol mewn amgylcheddau gwahanol;
- tystiolaeth am broblemau meddygol sy’n cyfrannu at yr anawsterau;
- tystiolaeth o asesiadau neu ymyriadau gan asiantaethau allanol.

7.1.18 Gall fod yn ddefnyddiol ystyried a yw ymddygiad neu allu dysgu’r plentyn yn wahanol mewn lleoliadau ac amgylcheddau gwahanol. Bydd modd deall anghenion y plentyn yn well drwy ystyried y dystiolaeth mewn ffordd holistaidd a thrwy ystyried a oes gwahaniaeth sylweddol yn y dystiolaeth sy’n cael ei darparu gan unigolion/asiantaethau gwahanol a phan fydd y plentyn mewn lleoliadau gwahanol. Os oes gwahaniaeth sylweddol yn dod i’r amlwg, mae’n bosibl y bydd angen ymgynghori â gwasanaethau sydd ag arbenigedd mewn ystyried anghenion plant mewn ffordd holistaidd.

7.1.19 Os nad yw’r plentyn yn gwneud cynnydd yn unol â’r disgwyl, dylid ystyried y posibilrwydd bod ganddo ADY.

7.1.20 Pan fydd awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol o’r posibilrwydd bod gan blentyn ADY, gall benderfynu trefnu cyfarfod amlasiantaeth gydag asiantaethau eraill, fel cyrff iechyd a gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol, er mwyn trafod anghenion y plentyn. Dylai tîm canolog yr awdurdod lleol weithio mewn partneriaeth agos â rhieni a staff sy’n gweithio gyda’r plentyn yn y lleoliad nas cynhelir er mwyn helpu i nodi a diwallu anghenion plant.

7.1.21 Os yw’r plentyn yn derbyn addysg, gall yr awdurdod lleol ystyried darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y lleoliad, mewn meithrinfa cyn ysgol nas cynhelir er enghraifft, er mwyn helpu’r lleoliad i gyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol a strategaethau perthnasol.

## *Cyfrifoldebau awdurdodau lleol*

7.1.22 Pan fydd plentyn yn iau na’r oedran ysgol gorfodol a’i fod mewn lleoliad gwahanol i ysgol a gynhelir, a phan fydd yn dod i sylw awdurdod lleol, neu’n

ymddangos iddo fel arall, y gall fod gan blentyn y mae'n gyfrifol amdano ADY, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY, oni bai:

- bod CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn eisoes;
- bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen, ei fod wedi'i fodloni nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw; neu
- bod y plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol arall yng Nghymru.[32] (Mae rhagor o ganllawiau ar blant sy'n derbyn gofal wedi'u cynnwys ym Mhennod 20).

7.1.23 Mae manteision nodi ADY yn gynnar yn cael eu cydnabod yn eang. Mae nodi anghenion mor gynnar â phosibl ac yna mynd ati i wneud darpariaeth effeithiol yn gwella'r cyfle i'r plentyn wireddu ei botensial yn sylweddol. Po gynharaf y gweithredir, y mwyaf y mae'r unigolyn yn debygol o ymateb, ac mae'r ymyriad gofynnol yn debygol o fod yn llai dwys a mwy cost-effeithiol.

## *Plant sy'n Iau na'r Oedran Ysgol Gorfodol – Rôl Cyrff Iechyd a'r Pŵer i Hysbysu*

7.1.24 Mae cyrff iechyd yn helpu i nodi plant ifanc a all fod ag ADY drwy ddarparu gwasanaethau amrywiol. Gall plant sydd ag anghenion datblygiadol a synhwyraidd mwy cymhleth gael eu nodi adeg eu geni. Yn aml, mae gweithwyr iechyd proffesiynol, fel paediatregwyr ac ymwelwyr iechyd, yn dod i gysylltiad â'r plentyn cyn gweithwyr addysg proffesiynol. Felly, yn aml maen nhw mewn sefyllfa dda i nodi ADY cyn unrhyw un arall. Mae modd defnyddio asesiadau iechyd safonol, fel y prawf sgrinio clyw, a ddefnyddir i archwilio clyw pob baban newydd-anedig, er mwyn canfod amrywiaeth o anawsterau meddygol a chorfforol yn gynnar iawn.

7.1.25 Mae Adran 57 o'r Ddeddf yn pennu swyddogaethau cyrff iechyd mewn perthynas â nodi ADY ar gyfer plant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol.

7.1.26 Mae'n berthnasol i'r cyrff iechyd canlynol (mae rhai ohonynt yn gyrff yn Lloegr):

- Byrddau Iechyd;
- Ymddiriedolaethau GIG;
- Grwpiau Comisiynu Clinigol
- Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG; ac
- Awdurdod Iechyd Arbennig[33].

[32] Adran 11(4) o'r Ddeddf.
[33] Adran 57(2) o'r Ddeddf.

7.1.27 Wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol, ac y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdano, gall corff iechyd (gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio i'r corff iechyd) ffurfio barn bod gan y plentyn (neu ei bod yn debygol bod gan y plentyn) ADY.

7.1.28 Ar yr adeg hon mae'n **rhaid** i'r corff iechyd roi gwybod i riant y plentyn am ei farn ac am ei bŵer i hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol[34]. Hefyd, mae'n **rhaid** iddo roi cyfle i'r rhiant drafod y mater cyn hysbysu'r awdurdod lleol[35].

7.1.29 Caiff y corff iechyd ddwyn y mater i sylw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn (neu os yw'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal, i sylw'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn) os yw'r corff iechyd wedi ei fodloni y byddai gwneud hynny er budd pennaf y plentyn[36].

7.1.30 Y corff iechyd a fydd yn penderfynu a yw hysbysu'r awdurdod lleol er budd pennaf y plentyn. Dyma enghreifftiau o ffactorau y gellid eu hystyried wrth benderfynu a fydd hysbysu'r awdurdod lleol er budd pennaf y plentyn:

- bydd hysbysu'r awdurdod lleol yn helpu'r awdurdod i gynllunio darpariaeth ar gyfer y plentyn pan fydd yn mynychu lleoliad blynyddoedd cynnar neu ysgol gynradd;
- o ganlyniad, mae'r awdurdod lleol yn gallu gwneud darpariaeth cyn i'r plentyn gyrraedd yr oedran ysgol gorfodol – gall yr ymyriad cynnar hwn leihau effaith debygol ADY ar y plentyn neu sicrhau nad yw effaith ADY ar y plentyn yn dwysau; neu
- byddai'r awdurdod lleol yn gallu rhoi ymyriad cynnar ar waith i gynorthwyo rhieni i gefnogi eu plentyn – gall cymorth o'r fath fod yn gymorth emosiynol neu gymorth i hwyluso ymddiriedaeth a pherthynas gadarnhaol rhwng yr awdurdod lleol a'r rhiant.

7.1.31 Os yw'r corff iechyd o'r farn bod sefydliad gwirfoddol penodol yn debygol o allu rhoi cyngor neu gymorth arall i'r rhiant mewn cysylltiad ag ADY y plentyn, **rhaid** iddo roi gwybod i'r rhiant am y sefydliad gwirfoddol hwnnw[37].

7.1.32 Pan fydd corff iechyd yn cysylltu ag awdurdod lleol yn y modd hwn, bydd yr awdurdod lleol wedi cael gwybod bod gan y plentyn ADY, neu y gall fod ganddo ADY. Pan fydd hynny'n digwydd, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY yn unol â'i ddyletswyddau o dan adran 11(1) o'r Ddeddf (gweler Pennod 8) neu adran 16(1) o'r Ddeddf, yn amodol ar unrhyw eithriadau i'r darpariaethau hynny.

[34] Adran 57(3) o'r Ddeddf.
[35] Adran 57(4) o'r Ddeddf.
[36] Adran 57(4) o'r Ddeddf.
[37] Adran 57(5) o'r Ddeddf.

7.1.33 Yn ddiweddarach yn y broses, gall cyrff iechyd ddarparu gwasanaethau diagnostig, ymgymryd ag asesiadau, gwneud atgyfeiriadau yn y sector iechyd a darparu adroddiadau iechyd i helpu i lunio CDU, a sicrhau triniaeth neu wasanaethau priodol yn y pen draw – gweler Pennod 12 am ragor o fanylion.

## *Plant sy'n mynychu lleoliadau nas cynhelir*

7.1.34 Mae llawer o blant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol yn mynychu lleoliadau nas cynhelir fel cylchoedd chwarae neu feithrinfeydd preifat neu wirfoddol. Os oes gan rieni plant bryderon, mae ganddynt hawl i gysylltu â'r awdurdod lleol a gofyn iddo benderfynu a oes gan y plentyn ADY. Fel arfer, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol benderfynu wedyn a oes gan y plentyn ADY.[38] (Gweler Penodau 8 i 9.3).

7.1.35 Dylai awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr addysg feithrin a gofal plant eraill fel eu bod nhw'n gallu nodi a rhoi gwybod am ADY hefyd.

[38] Adran 11(1) a 11(6) o'r Ddeddf

DRAFT

# Pennod 7.2: Nodi ADY – mewn ysgolion

## *Crynodeb*

7.2.1 Mae'r Bennod hon yn cyflwyno canllawiau penodol ar nodi ADY disgyblion mewn ysgolion. Mewn llawer o achosion, gall nodi ADY ac ymyrryd yn gynnar leihau'n sylweddol yr angen am ymyriadau (mwy costus o bosibl) maes o law, gan arwain at ddeilliannau llawer mwy effeithiol mewn rhai achosion.

## *Disgyblion mewn Ysgolion a Gynhelir*

7.2.2 Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ddyletswyddau o dan y Ddeddf i nodi ac ymdrin ag ADY y disgyblion cofrestredig. Felly, dylai pob ysgol a gynhelir weithredu mewn ffordd glir, gadarn a thryloyw er mwyn nodi ac ymateb i ADY.

7.2.3 Mae'n **rhaid** i'r ysgol benderfynu a oes gan ddisgybl ADY pan fo'n cael ei dwyn i'w sylw, neu pan fo'n ymddangos iddi, y gall fod gan un o'i disgyblion ADY[39]. Mae'r canlynol yn eithriadau i'r gofyniad hwn:

- Mae CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y disgybl.
- Mae'r ysgol wedi gwneud penderfyniad ar y mater o'r blaen, mae wedi'i bodloni nad yw anghenion y disgybl wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.
- Mae'r disgybl yn berson ifanc (sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) nad yw'n cydsynio i'r penderfyniad.
- Mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn dau le – hynny yw, mae wedi'i gofrestru mewn ysgol arall neu wedi'i ymrestru mewn SAB (hyd yn oed os yw hwnnw yn Lloegr) ac mae awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc (h.y. nid yw'r plentyn yn preswylio fel arfer yn Lloegr). Os yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn dau le, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu gyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol. Gweler Pennod 20.
- Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth (gweler Pennod 20).
- Mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal Cynllun AIG ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, sef cynllun addysg, iechyd a gofal o dan Ran 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Byddai hyn ond yn berthnasol os yw'r disgybl yn preswylio fel arfer yn Lloegr.
- Mae'r disgybl yn blentyn sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol oni bai bod y plentyn yn preswylio fel arfer yn Lloegr (gweler Pennod 20).[40]

---

[39] Adran 9(1) o'r Ddeddf.
[40] Adran 9(3) a (5) o'r Ddeddf.



DRAFT

7.2.4 Mae manteision nodi ADY yn gynnar yn cael eu cydnabod yn eang. Mae nodi anghenion mor gynnar â phosibl ac yna mynd ati i wneud darpariaeth effeithiol yn gwella'r cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc wireddu ei botensial yn sylweddol. Po gynharaf y gweithredir, y mwyaf y mae'r unigolyn yn debygol o ymateb, ac mae'r ymyriad gofynnol yn debygol o fod yn llai dwys a mwy costeffeithiol.

## *Polisi ADY*

7.2.5 Er mwyn helpu ysgolion i weithredu mewn ffordd glir, gadarn a thryloyw wrth nodi ac ymateb i ADY, dylai ysgolion lunio polisi ADY. Dylai polisi ysgol gynnwys gwybodaeth am sut bydd yr ysgol yn nodi ADY disgyblion, sut bydd yn monitro'r broses o nodi ADY a sut bydd y plentyn neu'r person ifanc yn derbyn y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ofynnol. Gallai polisi ysgol gynnwys y canlynol hefyd:

- Sut caiff CDU eu hadolygu.
- Sut caiff gwybodaeth a data yn ymwneud ag ADY eu defnyddio a'u storio.
- Rolau a chyfrifoldebau staff gwahanol.
- Sut bydd yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion ag ADY yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd bob dydd yr ysgol.
- Gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael i'r ysgol a sut i gael gafael arnynt.
- Hyfforddiant staff mewn perthynas â disgyblion ag ADY.
- Gwybodaeth am sut mae staff ac adnoddau yn cael eu defnyddio i gynorthwyo disgyblion ag ADY.

7.2.6 [*Bydd enghraifft o Bolisi ADY ysgol yn cael ei chynnwys fel Atodiad mewn copïau drafft o'r Cod yn y dyfodol.*]

## *Plant a Phobl Ifanc – Ysgolion Annibynnol*

7.2.7 Mae rhai plant a phobl ifanc yn mynychu ysgolion annibynnol (nas cynhelir). Os oes gan blant, eu rhieni neu bobl ifanc mewn lleoliad o'r fath bryderon, mae ganddynt hawl i gysylltu â'r awdurdod lleol a gofyn iddo benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Fel arfer, bydd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i benderfynu wedyn a oes gan y person ADY (a llunio CDU os yw hynny'n berthnasol).[41]

7.2.8 Rydym yn rhagweld y bydd ysgolion annibynnol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i gyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen ar y plentyn neu'r person ifanc. Hefyd, rydym yn rhagweld y bydd ysgolion annibynnol yn llunio polisi ADY a fydd yn disgrifio eu darpariaeth.

[41] Adrannau 11 a 12 o'r Ddeddf



DRAFT

7.2.9 Mae'n rhaid i ysgolion annibynnol yng Nghymru gydymffurfio ag unrhyw safonau a gweithdrefn gofrestru sy'n ofynnol o dan neu yn rhinwedd Rhan 10 o Ddeddf Addysg 2002. *[Caiff y rheoliadau hyn eu diwygio i sicrhau bod yn rhaid i ysgolion annibynnol ddarparu addysg effeithiol fel bod pob disgybl mewn dosbarth yn gallu gwneud cynnydd, gan gynnwys disgyblion â CDU.]*

## *Sut mae Proffil y Cyfnod Sylfaen yn gallu helpu i nodi plant ag ADY*

7.2.10 Mae'n hanfodol bwysig olrhain cyfraddau cynnydd plant rhwng oedran mynediad ac oedran ysgol gorfodol. Gall y broses olrhain hon helpu i nodi plant ag ADY a helpu i ddeall eu cynnydd datblygiadol.

7.2.11 Gall Proffil y Cyfnod Sylfaen helpu i olrhain cynnydd datblygiadol plentyn. Os yw sgôr plentyn yn is na'r disgwyl, gall hynny awgrymu bod ganddo ADY. Dylid ategu hyn â data arall sydd ar gael, fel gwybodaeth gan ymwelwyr iechyd, sgrinio yn y blynyddoedd cynnar, unrhyw wybodaeth sy'n deillio o'r ffaith fod y plentyn wedi'i gynnwys mewn ardal Dechrau'n Deg (fel gwybodaeth sy'n deillio o Asesiad o'r Amserlen Sgiliau Tyfu), a chynnydd academaidd fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Hefyd, wrth gyflawni eu dyletswyddau gall cyrff iechyd nodi, gwneud diagnosis ac asesu cyflyrau a all ddangos bod gan blentyn ADY.

## *Nodi ADY yn gynnar*

7.2.12 Gall amrywiaeth eang o gyrff nodi ADY (gweler y Bennod flaenorol). Gall hyn gynnwys gwasanaethau fel gwasanaethau addysg penodol a ddarperir gan awdurdodau lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol, cyrff iechyd a gwasanaethau iechyd penodol fel awdioleg a Therapyddion Iaith a Lleferydd, a all fod yr unigolion cyntaf i nodi ADY posibl. Hefyd, gall y sector gwirfoddol helpu i nodi ADY posibl.

7.2.13 Staff ysgol sy'n debygol o wneud penderfyniad cychwynnol; gallai hyn gynnwys derbyn cyngor gan asiantaethau eraill. Hefyd, mae'n **rhaid** ymgynghori â'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, cynnwys yr unigolion hyn ac ystyried eu safbwyntiau.[42]

**<u>Tystiolaeth</u>**

7.2.14 Dylai'r broses o nodi ADY fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Gall y dystiolaeth hon gael ei darparu gan staff yn yr ysgol, gwasanaethau eraill sydd wedi cael cyswllt â'r plentyn, y plentyn ei hun, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc ei hun.

7.2.15 Gall ddod i'r amlwg bod yna anawsterau penodol neu feysydd sy'n peri problemau a all effeithio ar allu'r plentyn neu'r person ifanc i fanteisio ar y

[42] Adran 6 o'r Ddeddf. [Gweler Pennod 3 hefyd]

cwricwlwm, gan gynnwys y canlynol:

- tystiolaeth o letchwithdod;
- anawsterau sylweddol i roi pethau mewn dilyniant neu o ran canfyddiad gweledol;
- diffygion yn y cof gwaith;
- arafwch sylweddol o ran gweithrediad iaith;
- unrhyw dystiolaeth o anawsterau o ran rhyngweithio cymdeithasol neu gyfathrebu neu o stoc gyfyngedig iawn o weithgareddau, diddordebau a datblygiad y dychymyg;
- tystiolaeth o anawsterau emosiynol neu ymddygiadol o bwys, fel y dengys enghreifftiau sydd wedi'u cofnodi'n glir o ymddygiad encilgar neu aflonyddol;
- anallu amlwg a pharhaus i ganolbwyntio;
- arwyddion bod y plentyn neu'r person ifanc yn profi rhwystredigaeth neu loes sylweddol oherwydd ei anawsterau dysgu;
- diagnosis meddygol, fel byddardod a nam ar y golwg;
- anawsterau i sefydlu a chynnal perthnasau cytbwys gyda'i gyd-ddisgyblion neu gydag oedolion;
- unrhyw dystiolaeth arall bod yna arafwch sylweddol o ran datblygu sgiliau byw a sgiliau cymdeithasol.

7.2.16 Gall pryderon ddod i'r amlwg, er enghraifft, mewn perthynas â phlentyn sydd, er ei fod yn cael profiadau addysg priodol:

- yn gwneud fawr ddim cynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, tuag at wireddu ei botensial, hyd yn oed pan fydd y dulliau addysgu'n cael eu targedu'n benodol at faes gwan dynodedig y plentyn neu'r person ifanc;
- yn dal i weithio ar lefelau sy'n sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir gan blant neu bobl ifanc o oed cyffelyb, neu'n is na'r lefelau a ddisgwylir gan yr unigolyn ei hun, fel dangos arwyddion o anhawster i ddatblygu sgiliau llythrennedd neu fathemateg, gan arwain at gyrhaeddiad gwael ym meysydd y cwricwlwm;
- yn amlygu anawsterau emosiynol neu ymddygiadol parhaus nad ydynt yn gwella o ddefnyddio'r technegau rheoli ymddygiad a arferir gan yr ysgol fel arfer;
- yn amlygu datblygiad personol a chymdeithasol araf, nad yw'n gwella o ddefnyddio'r strategaethau a'r technegau a arferir gan yr ysgol fel arfer;
- yn amlygu datblygiad corfforol araf neu ddatblygiad creadigol araf, nad yw'n gwella o ddefnyddio'r strategaethau a'r technegau a arferir gan yr ysgol fel arfer;
- yn cael problemau synhwyraidd neu gorfforol, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, yn erbyn yr hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddo, er bod cyfarpar arbenigol wedi ei ddarparu ar ei gyfer;
- yn cael anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithio, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, er gwaethaf darparu cwricwlwm gwahaniaethol.

DRAFT

## Defnyddio data

7.2.17 Mae olrhain data disgyblion yn allweddol bwysig. Dylai ysgolion olrhain cynnydd pob disgybl, gan ddefnyddio data yn ddeallus i'w cynorthwyo. Gall y data hwn ddeillio o olrhain disgyblion ar lefel ysgol gyfan, targedau unigol sy'n cael eu datblygu ar y cyd o bosibl gan yr ysgol, y plentyn a'i rieni neu'r person ifanc, mesurau cynnydd yn erbyn targedau rhesymol sy'n ystyried data sylfaenol, a meincnodau unigol clir.

7.2.18 Pan fydd ysgol a gynhelir yn derbyn plentyn, dylai'r ysgol asesu lefel cyrhaeddiad bresennol y plentyn er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i ddatblygu'r patrwm dysgu a phrofiad a sefydlwyd eisoes. Dylai ysgolion a gynhelir wneud defnydd llawn o wybodaeth a drosglwyddir iddynt o leoliadau'r blynyddoedd cynnar neu unrhyw ysgol flaenorol. Dylai'r broses hon sicrhau bod unrhyw ADY posibl yn cael eu nodi'n gynnar, a fydd yn sbarduno dyletswydd yr ysgol i wneud penderfyniad.

7.2.19 Trwy asesu yn erbyn disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob pwnc, gall yr ysgol ystyried cyrhaeddiad y plentyn unigol a'i gynnydd yn erbyn y lefelau disgwyliedig ar gyfer disgyblion o'r un oedran. Yn yr un modd, bydd ysgol yn mynd ati'n rheolaidd i asesu cynnydd mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd a hysbysu rhieni am y cynnydd hwn. Ymysg pethau eraill, bydd hyn yn cynnwys asesu drwy brofion darllen a rhifedd cenedlaethol ac asesu yn erbyn Proffil y Cyfnod Sylfaen. Efallai bod ADY gan blant y mae eu cyrhaeddiad cyffredinol neu eu cyrhaeddiad mewn pynciau penodol yn sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir. Hefyd, dylid rhoi ystyriaeth ehangach i a yw'r dysgwr yn gwireddu ei botensial unigol.

7.2.20 Hefyd, gall ysgolion fesur cynnydd plant drwy'r dulliau canlynol:

- eu perfformiad, gan gynnwys a ydynt yn gwireddu eu potensial unigol, sy'n cael ei fonitro gan yr athro fel rhan o'i waith arsylwi ac asesu cyson;
- eu cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd a meysydd eraill o'r cwricwlwm;
- eu perfformiad yn erbyn disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd y cyfnod allweddol;
- ansawdd eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth, o ran safon y gwaith a faint o waith y maen nhw'n ei wneud;
- data sy'n seiliedig ar arsylwi;
- rhestri gwirio, gan gynnwys rhestri gwirio datblygiadol;
- holiaduron graddio;
- asesiadau gan asiantaethau eraill, fel cyrff iechyd;
- holiaduron ymddygiad ac emosiynol cymdeithasol a phrofion safonedig;
- adnoddau a fframweithiau sgrinio neu asesu safonedig.

7.2.21 Bydd system ysgol ar gyfer arsylwi ar gynnydd plant a phobl ifanc unigol, a'i asesu, yn darparu gwybodaeth am feysydd lle nad yw plentyn neu berson ifanc yn gwneud cynnydd boddhaol. Dylai athrawon dosbarth ac athrawon pwnc dderbyn cymorth gan yr uwch dîm arwain i asesu cynnydd pob dysgwr yn rheolaidd. Dylai'r asesiadau hyn geisio nodi dysgwyr sy'n gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl, sef cynnydd:

- sy'n sylweddol is na chynnydd eu cyfoedion, gan gychwyn o'r un llinell sylfaen;
- sy'n methu cyrraedd neu ragori ar gyfradd gynnydd flaenorol y plentyn neu'r person ifanc; neu
- sy'n methu cau, neu'n lledu, y bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfoedion.

7.2.22 Mae'n gallu cynnwys cynnydd mewn meysydd eraill ar wahân i gyrhaeddiad, er enghraifft os oes angen i ddysgwr ddatblygu ymddygiad cymdeithasol neu emosiynol ehangach er mwyn trosglwyddo'n llwyddiannus i fyd oedolion. Wrth wneud penderfyniad ynglŷn ag anghenion y plentyn neu'r person ifanc, mae angen ystyried ei gynnydd mewn sawl maes datblygiad, gan gynnwys datblygiad dysgu, cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

7.2.23 Mae'n rhaid penderfynu ym mhob achos beth y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol i blentyn neu berson ifanc penodol ei gyflawni. Os nad yw cynnydd yn ddigonol, bydd angen rhoi camau gweithredu ychwanegol neu wahanol ar waith fel bod y dysgwr yn gallu dysgu'n fwy effeithiol.

## Addysgu gwahaniaethol

7.2.24 Yr ymateb cyntaf i gynnydd annigonol yw addysgu o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar feysydd gwan disgyblion. Ni ddylai ysgolion oedi cyn cyflwyno dulliau addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau penodol eraill i geisio gwella cynnydd ei holl ddisgyblion, lle bo hynny'n briodol. Mae hon yn elfen hanfodol o addysgu o ansawdd uchel – addysgu arferol. Mae angen ystyried a oes strategaethau addysgu addas wedi'u defnyddio. Fodd bynnag, os yw cynnydd plentyn yn parhau i fod yn llai na'r disgwyl, efallai y bydd yr athro dosbarth neu'r athro pwnc yn casglu bod gan y disgybl ADY. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n **rhaid** i'r corff llywodraethu gydweithio â'r Cydlynydd ADY i wneud penderfyniad ynglŷn â'r mater (oni bai bod un o'r eithriadau yn berthnasol – gweler uchod).

7.2.25 Disgwylir y bydd cyfraddau cynnydd plant a phobl ifanc mewn dosbarth neu ysgol yn amrywio. Bydd rhai plant a phobl ifanc â lefelau cyrhaeddiad a gallu is yn gwneud cynnydd arafach ond cadarn. Bydd angen darparu cymorth fel y gallant fanteisio ar gwricwlwm gwahaniaethol a gwneud cynnydd addas. Wrth ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc, gall ddod i'r amlwg bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwneud cynnydd da mewn gwirionedd o sylfaen isel.

## Pryderon cyson

7.2.26 Os oes gan staff addysgu unrhyw bryderon, dylent ystyried hysbysu Cydlynydd ADY yr ysgol er mwyn derbyn rhagor o gefnogaeth a chymorth. Dylid sicrhau bod prosesau clir ar waith mewn ysgolion fel bod staff yn gallu rhoi gwybod am eu pryderon a gofyn am ragor o gyngor a chymorth. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen gofyn am gyngor allanol hefyd.

7.2.27 Hefyd, gall y plentyn, ei rieni neu'r person ifanc fynegi pryderon. Mae arsylwadau rhieni o'u plentyn, ac arsylwadau plant a phobl ifanc eu hunain, yn hanfodol yn aml i nodi ADY yn gynnar. Dylai ysgolion fod yn agored ac yn barod i ymateb i'r cyfryw fynegiant o bryderon ac ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir.

7.2.28 Os oes gan yr ysgol bryderon ynglŷn â chynnydd y plentyn neu'r person ifanc a'i bod yn credu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, neu y gall fod ganddo ADY, mae'n **rhaid** i'r ysgol gynnwys y plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc ac ystyried eu safbwyntiau.[43] Gall trafodaeth gynnwys strategaethau cymorth, a ddylai gynnwys rhannu gwybodaeth am olrhain cynnydd a gwybodaeth allweddol arall â'r plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc.

## Ffactorau eraill

7.2.29 Mae'n bwysig cofio bod pethau eraill yn cyfrannu at berfformiad academaidd gwael, fel ffactorau ac amgylchiadau allanol. Gall y ffactorau hyn gynnwys presenoldeb gwael, diffyg cyfleoedd dysgu digonol, newid ysgol yn aml neu newidiadau o ran staff addysgu/amgylchedd dysgu a heriau cymdeithasol a theuluol ehangach. Nid yw'r rhain yn dangos o reidrwydd bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Bydd y rhai sy'n ystyried y dystiolaeth, fel Cydlynwyr ADY, yn gorfod ystyried ar sail y dystiolaeth a oes gan y plentyn ADY (yn unol â'r diffiniad)[44], waeth beth yw'r ffactorau sydd wedi cyfrannu o bosibl at ADY yr unigolyn. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl mai ffactorau sylfaenol eraill sy'n gyfrifol am gynnydd academaidd gwael yn hytrach nag ADY. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y bydd modd darparu mathau eraill o gymorth i'r plentyn neu'r person ifanc, neu efallai y bydd angen cynnwys gwasanaethau eraill ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc.

7.2.30 Gall fod yn ddefnyddiol ystyried a yw ymddygiad neu allu dysgu'r plentyn neu'r person ifanc yn wahanol mewn lleoliadau ac amgylcheddau gwahanol. Bydd modd deall anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn well drwy ystyried y dystiolaeth mewn ffordd holistaidd a thrwy ystyried a oes gwahaniaeth sylweddol yn y dystiolaeth sy'n cael ei darparu gan unigolion/asiantaethau gwahanol a phan fydd y plentyn neu'r person ifanc

[43] Adran 6 o'r Ddeddf. [Gweler Pennod 3.]
[44] Anhawster dysgu neu anabledd sy'n golygu bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol. Gweler Pennod 6 am fwy o wybodaeth am y diffiniad.

mewn lleoliadau gwahanol. Os oes gwahaniaeth sylweddol yn dod i'r amlwg, mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â rhywun y tu allan i'r ysgol sy'n gallu ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd holistaidd.

7.2.31 Fodd bynnag, os oes disgwyl i'r plentyn neu'r person ifanc wneud cynnydd gwell na'i gynnydd presennol, ar sail ei botensial ac o dderbyn cymorth digonol, dylid mynd ati i ystyried a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

## Dyletswydd i benderfynu


7.2.32 Os yw'r ysgol yn credu y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, mae'n **rhaid** i'r corff llywodraethu benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY (oni bai bod yr eithriadau a restrir ar ddechrau'r Bennod hon yn berthnasol.)[45] Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae angen ystyried ffactorau amrywiol. Dylai ymarferwyr gyfeirio yn ôl at y diffiniad o ADY yn adran 2 o'r Ddeddf, rhoi sylw i'r canllawiau ar ddefnyddio'r diffiniad hwn a nodir ar ddechrau Pennod 6, a'u cymhwyso i amgylchiadau unigol yr achos.

7.2.33 Os penderfynir bod gan y disgybl ADY, mae'n **rhaid** i gorff llywodraethu'r ysgol lunio a chynnal CDU, ac eithrio o dan amgylchiadau penodol.[46] Gweler Penodau 9.1 i 16 am ragor o wybodaeth am CDU.

[45] Adran 9 o'r Ddeddf.
[46] Adran 10 o'r Ddeddf.

## PENDERFYNIAD AR ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**Pan ddaw i sylw ysgol a gynhelir, neu os yw'n ymddangos i'r ysgol, y gallai fod gan ddisgybl ADY ond nad oes ganddo CDU, rhaid dilyn y broses ganlynol** (Mae yna trefniadau gwahanol os mae'r disgybl wedi eu cofrestru mewn mwy nag un sefydliad, yn derbyn gofal, yn cael ei gadw'n gaeth, yn preswylio fel arfer yn Lloegr neu mae cynllun AIG yn cael ei cynnal) **:**



# Pennod 7.3: Nodi ADY - SAB

## *Crynodeb*

7.3.1 Mae'r Bennod hon yn cyflwyno canllawiau penodol ar nodi ADY pobl ifanc mewn SAB. Mae nodi ADY yn gynnar, ac ymyrryd mewn ffordd amserol, yn gallu arwain at ddeilliannau llawer mwy effeithiol yn aml.

## *Pobl ifanc mewn SAB*

7.3.2 Mae gan gorff llywodraethu pob SAB yng Nghymru ddyletswyddau o dan y Ddeddf i nodi ac ymdrin ag ADY pobl ifanc sydd wedi'u hymrestru gyda nhw fel myfyrwyr. Dylai pob SAB weithredu mewn ffordd glir, gadarn a thryloyw er mwyn nodi ac ymateb i ADY.

7.3.3 Mae'n **rhaid** i'r SAB benderfynu a oes gan fyfyriwr sydd wedi'i ymrestru (sy'n berson ifanc) ADY pan fydd yn dod i'w sylw, neu'n ymddangos iddo fel arall, y gall y person ifanc fod ag ADY[47]. Mae'r canlynol yn eithriadau i'r gofyniad hwn:

- Mae CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc.
- Mae'r SAB wedi gwneud penderfyniad ar y mater o'r blaen, mae wedi'i fodloni nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.
- Mae penderfyniad yn cael ei wneud heb gydsyniad y myfyriwr.
- Mae'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn dau le – hynny yw, mae wedi'i gofrestru mewn ysgol neu wedi'i ymrestru mewn SAB arall hefyd (hyd yn oed os yw hwnnw yn Lloegr) ac mae awdurdod lleol yn gyfrifol am y person ifanc (h.y. nid yw'r person ifanc yn preswylio fel arfer yn Lloegr). Os yw'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn dau le, mae'n rhaid i gorff llywodraethu'r SAB gyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol. Gweler Pennod 20.
- Mae'r person ifanc yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth. Gweler Pennod 20.
- Mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal Cynllun AIG ar gyfer y person ifanc, sef cynllun addysg, iechyd a gofal o dan Ran 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Byddai hyn ond yn berthnasol os yw'r myfyriwr yn preswylio fel arfer yn Lloegr.

7.3.4 Mae manteision nodi ADY yn gynnar yn cael eu cydnabod yn eang. Mae nodi anghenion mor gynnar â phosibl ac yna mynd ati i wneud darpariaeth effeithiol yn gwella'r cyfle i'r person ifanc wireddu ei botensial yn sylweddol. Po gynharaf y gweithredir, y mwyaf y mae'r person ifanc yn debygol o ymateb, ac mae'r ymyriad gofynnol yn debygol o fod yn llai dwys a mwy costeffeithiol.

[47] Adran 10(1) o'r Ddeddf.

## *Polisi ADY*

7.3.5 Er mwyn helpu SAB i weithredu mewn ffordd glir, gadarn a thryloyw wrth nodi ac ymateb i ADY, dylai SAB lunio polisi ADY. Dylai'r polisi gynnwys gwybodaeth am sut bydd y SAB yn nodi ADY, sut bydd yn monitro'r broses o nodi ADY a sut bydd y person ifanc yn derbyn y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ofynnol. Gallai'r polisi gynnwys y canlynol hefyd:

- Sut caiff CDU eu hadolygu.
- Sut caiff gwybodaeth a data yn ymwneud ag ADY eu defnyddio a'u storio.
- Rolau a chyfrifoldebau staff gwahanol.
- Sut bydd y SAB yn sicrhau bod y rhai ag ADY yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd bob dydd y SAB.
- Gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael i'r SAB a sut i gael gafael arnynt.
- Hyfforddiant staff mewn perthynas â myfyrwyr ag ADY.
- Gwybodaeth am sut mae staff ac adnoddau yn cael eu defnyddio i gynorthwyo myfyrwyr ag ADY.

## Nodi ADY yn gynnar

7.3.6 Bydd ADY y rhan fwyaf o bobl ifanc ag ADY sydd newydd adael yr ysgol ac sy'n ymrestru gyda SAB wedi'u nodi pan oeddent yn yr ysgol. Dylai SAB gyfrannu at y gwaith o gynllunio ar gyfer trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r SAB, a rhwng y SAB a darparwyr ôl-16 eraill, fel y gallant ddeall anghenion y dysgwr a pharatoi i'w diwallu (er enghraifft, trafodaethau a chyfarfodydd rhwng Cydlynwyr ADY mewn ysgolion a SAB).

7.3.7 Bydd angen i SAB fod yn effro i'r ffaith fod anghenion pobl ifanc yn newid dros amser. Mae'n bosibl na fydd gan rai ohonynt ADY bellach, ac na fydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt; efallai y bydd angen math gwahanol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar rai; ac efallai y bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar eraill am y tro cyntaf.

7.3.8 Wrth asesu ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol bosibl y dysgwr, dylai SAB ystyried lefelau gallu ac anawsterau'r person ifanc; lefel a natur y cwrs y mae'n gwneud cais amdano; i ba raddau y gall sgiliau'r staff addysgu presennol ddiwallu ei anghenion, ac unrhyw ffactorau eraill a all effeithio ar lwyddiant tebygol y myfyriwr.

7.3.9 Dylai pob ymgeisydd a dysgwr sydd wedi'i ymrestru gael cyfle wrth wneud cais, wrth ymrestru ac yn ystod y cwrs i roi gwybod a oes ganddo angen dysgu ychwanegol. Os yw dysgwr yn rhoi gwybod i SAB bod ganddo ADY, dylai'r SAB fynd ati i drafod â'r dysgwr sut y bydd yn darparu cymorth. Dylai unrhyw waith sgrinio ac asesu sy'n cael ei wneud gan y SAB fod yn wahaniaethol ac yn gymesur i lefel debygol yr ADY.

7.3.10 Mae'n bosibl na fydd rhai anghenion dysgu yn dod i'r amlwg nes bod dysgwr wedi dechrau ei raglen astudio. Dylai staff addysgu weithio gyda gwasanaethau cymorth myfyrwyr i ganfod a yw anawsterau dysgwr i'w priodoli i ADY. Ni ddylid rhagdybio bod gan ddysgwr ADY dim ond oherwydd bod ei lefelau cyrhaeddiad yn is na lefelau cyrhaeddiad y rhan fwyaf o'i gyfoedion. Yn yr un modd, ni ddylid rhagdybio nad oes gan ddysgwyr sy'n astudio cyrsiau lefel uwch ADY. Os yw dysgwr yn ei chael yn anodd ymdopi â'i gwrs, dylai staff addysgu ystyried yn y lle cyntaf a yw'r broblem yn deillio o'r ffaith nad yw gallu academaidd cyffredinol y dysgwr yn gweddu i ofynion a lefel y cwrs. Dylai SAB ddarparu arweiniad digonol i staff addysgu fel y gallant nodi arwyddion posibl o ADY. Dylai polisïau'r SAB nodi'r hyn y dylai staff a/neu'r Cydlynydd ADY ei wneud i ymateb i'r cyfryw bryderon.

**Tystiolaeth**

7.3.11 Os yw SAB yn credu bod gan y person ifanc ADY, neu y gall fod ganddo ADY, dylai ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael. Gall y dystiolaeth hon gael ei darparu gan staff y SAB, y person ifanc ei hun neu wasanaethau eraill sy'n cynorthwyo'r person ifanc, neu sydd wedi'i gynorthwyo.

7.3.12 Gall ddod i'r amlwg bod yna anawsterau penodol neu feysydd sy'n peri problemau a all effeithio ar allu'r person ifanc i ddysgu, gan gynnwys y canlynol:

- tystiolaeth o letchwithdod;
- anawsterau sylweddol i roi pethau mewn dilyniant neu o ran canfyddiad gweledol;
- diffygion yn y cof gwaith;
- arafwch sylweddol o ran gweithrediad iaith;
- unrhyw dystiolaeth o anawsterau o ran rhyngweithio cymdeithasol neu gyfathrebu neu o stoc gyfyngedig iawn o weithgareddau, diddordebau a datblygiad y dychymyg;
- tystiolaeth o anawsterau emosiynol neu ymddygiadol o bwys, fel y dengys enghreifftiau sydd wedi'u cofnodi'n glir o ymddygiad encilgar neu aflonyddol;
- anallu amlwg a pharhaus i ganolbwyntio;
- diagnosis meddygol, fel byddardod a nam ar y golwg;
- arwyddion bod y person ifanc yn profi rhwystredigaeth neu loes sylweddol oherwydd ei anawsterau dysgu;
- anawsterau i sefydlu a chynnal perthnasau cytbwys gyda'i gyd-ddisgyblion neu gydag oedolion.

7.3.13 Gall pryderon ddod i'r amlwg, er enghraifft, mewn perthynas â pherson ifanc sydd, er ei fod yn cael profiadau addysg priodol:

- yn gwneud fawr ddim cynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, tuag at wireddu ei botensial, hyd yn oed pan fydd y dulliau addysgu'n cael eu targedu'n benodol i wella maes gwan dynodedig y person ifanc;
- yn dal i weithio ar lefelau sy'n sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir, neu sy'n is na'r lefelau a ddisgwylir gan yr unigolyn ei hun;
- yn amlygu anawsterau emosiynol neu ymddygiadol parhaus nad ydynt yn gwella o ddefnyddio'r technegau rheoli ymddygiad;
- yn cael problemau synhwyraidd neu gorfforol, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl, yn erbyn yr hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddo, er bod cyfarpar arbenigol wedi ei ddarparu ar ei gyfer;
- yn cael anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithio, ac yn parhau i wneud fawr ddim cynnydd, neu ddim cynnydd o gwbl.

## Defnyddio data

7.3.14 Mae olrhain data myfyrwyr yn allweddol bwysig. Dylai SAB olrhain cynnydd pob myfyriwr, gan ddefnyddio data yn ddeallus i'w cynorthwyo. Gall y data hwn ddeillio o olrhain myfyrwyr ar lefel SAB cyfan, targedau unigol sy'n cael eu datblygu ar y cyd o bosibl gan y SAB a'r person ifanc, mesurau cynnydd yn erbyn targedau rhesymol sy'n ystyried data sylfaenol, a meincnodau unigol clir.

7.3.15 Pan fydd SAB yn derbyn person ifanc, dylai'r SAB asesu lefel cyrhaeddiad y person ifanc er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddatblygu'r patrwm dysgu a phrofiad a sefydlwyd eisoes. Dylai SAB wneud defnydd llawn o wybodaeth a drosglwyddir iddynt o ysgolion, gan gynnwys unrhyw CDU sy'n cael eu trosglwyddo iddynt.

7.3.16 Hefyd, gall SAB fesur cynnydd pobl ifanc drwy'r dulliau canlynol:

- perfformiad y person ifanc, gan gynnwys a yw'n gwireddu ei botensial unigol;
- ansawdd y gwaith, o ran safon y gwaith a faint o waith y mae'n ei wneud;
- data sy'n seiliedig ar arsylwi;
- holiaduron graddio;
- asesiadau gan asiantaethau eraill, fel cyrff iechyd;
- holiaduron ymddygiad ac emosiynol cymdeithasol a phrofion safonedig, lle bo hyn yn helpu i ganfod ADY;
- adnoddau a fframweithiau sgrinio ac asesu safonedig.

7.3.17 Bydd system SAB ar gyfer arsylwi ar gynnydd pobl ifanc unigol, a'i asesu, yn darparu gwybodaeth am feysydd lle nad yw person ifanc yn gwneud cynnydd boddhaol. Gall olrhain data helpu i nodi dysgwyr sy'n gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl, sef cynnydd:

- sy'n sylweddol is na chynnydd eu cyfoedion, gan gychwyn o'r un llinell sylfaen;
- sy'n methu cyrraedd neu ragori ar gyfradd gynnydd flaenorol y person ifanc; neu
- sy'n methu cau, neu'n lledu, y bwlch cyrhaeddiad rhwng y person ifanc a'i gyfoedion.

7.3.18 Mae'n gallu cynnwys cynnydd mewn meysydd eraill ar wahân i gyrhaeddiad, er enghraifft os oes angen i berson ifanc ddatblygu ymddygiad cymdeithasol neu emosiynol ehangach er mwyn trosglwyddo'n llwyddiannus i fyd oedolion. Wrth wneud penderfyniad ynglŷn ag anghenion y person ifanc, mae angen ystyried ei gynnydd mewn sawl maes datblygiad, gan gynnwys datblygiad dysgu, cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

7.3.19 Mae'n rhaid penderfynu ym mhob achos beth y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol i berson ifanc penodol ei gyflawni. Os nad yw cynnydd yn ddigonol, bydd angen rhoi camau gweithredu ychwanegol neu wahanol ar waith fel bod y dysgwr yn gallu dysgu'n fwy effeithiol.

## Addysgu gwahaniaethol

7.3.20 Yr ymateb cyntaf i gynnydd annigonol yw addysgu o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar feysydd gwan myfyrwyr. Ni ddylai SAB oedi cyn cyflwyno dulliau addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau penodol eraill i geisio gwella cynnydd ei holl fyfyrwyr, lle bo hynny'n briodol. Mae hon yn elfen hanfodol o addysgu o ansawdd uchel – addysgu arferol. Mae angen ystyried a oes strategaethau addysgu addas wedi'u defnyddio. Fodd bynnag, os yw cynnydd plentyn yn parhau i fod yn llai na'r disgwyl, efallai y bydd y staff yn casglu bod gan y myfyriwr ADY. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n **rhaid** i'r SAB gydweithio â'r Cydlynydd ADY i wneud penderfyniad ynglŷn â'r mater (oni bai bod un o'r eithriadau yn berthnasol – gweler uchod).

7.3.21 Disgwylir y bydd cyfraddau cynnydd pobl ifanc yn amrywio. Bydd rhai pobl ifanc â lefelau cyrhaeddiad a gallu is yn gwneud cynnydd arafach ond cadarn. Wrth ystyried anghenion y person ifanc, gall ddod i'r amlwg bod y person ifanc yn gwneud cynnydd da mewn gwirionedd o sylfaen isel.

## Pryderon cyson

7.3.22 Os oes gan staff addysgu unrhyw bryderon, dylent ystyried hysbysu'r Cydlynydd ADY er mwyn derbyn rhagor o gefnogaeth a chymorth. Dylid sicrhau bod prosesau clir ar waith mewn SAB fel bod staff yn gallu rhoi gwybod am eu pryderon a gofyn am ragor o gyngor a chymorth. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen gofyn am gyngor allanol hefyd.

DRAFT

7.3.23 Hefyd, gall y person ifanc fynegi pryderon. Dylai SAB fod yn agored ac yn barod i ymateb i'r cyfryw fynegiant o bryderon ac ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir.

7.3.24 Os oes gan staff bryderon ynglŷn â chynnydd y person ifanc, a'u bod yn credu bod gan y person ifanc ADY, neu y gall fod ganddo ADY, mae'n **rhaid** i'r staff gynnwys y person ifanc[48]. Gall trafodaeth gynnwys strategaethau cymorth, a ddylai gynnwys rhannu gwybodaeth am olrhain cynnydd a gwybodaeth allweddol arall â'r person ifanc. Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i berson ifanc beidio â chydsynio i benderfyniadau yn ymwneud ag a oes ganddo ADY. Felly, mae angen canfod a chofnodi barn pobl ifanc ar y materion hyn, yn enwedig os nad ydynt yn cydsynio â phenderfyniad. Mewn sefyllfa o'r fath, ni fyddai angen ystyried neu drafod ADY ymhellach.

7.3.25 Os oes gan SAB staff sydd â'r hyfforddiant a'r cymwysterau i asesu a gwneud diagnosis addysgol mewn meysydd penodol, dylid eu defnyddio i ystyried anghenion y person ifanc a sut i'w diwallu. Os nad oes gan staff y SAB yr arbenigedd gofynnol ac na allant asesu anghenion y person ifanc, dylai'r SAB ystyried atgyfeirio'r person ifanc i wasanaethau allanol.

## Ffactorau eraill

7.3.26 Mae'n bwysig cofio bod pethau eraill yn cyfrannu at berfformiad academaidd gwael, fel ffactorau ac amgylchiadau allanol. Gall y ffactorau hyn gynnwys presenoldeb gwael, diffyg cyfleoedd dysgu digonol, newid lleoliad addysg yn aml neu newidiadau o ran staff addysgu/amgylchedd dysgu a heriau cymdeithasol a theuluol ehangach. Nid yw'r rhain yn dangos o reidrwydd bod gan y person ifanc ADY. Bydd y rhai sy'n ystyried y dystiolaeth yn gorfod ystyried a yw'r dystiolaeth yn amlygu anghenion sylfaenol eraill ac a oes modd darparu mathau eraill o gymorth i'r person ifanc a gwasanaethau eraill gofynnol ym mywyd y person ifanc.

7.3.27 Gall fod yn ddefnyddiol ystyried a yw ymddygiad neu allu dysgu'r person ifanc yn wahanol mewn lleoliadau ac amgylcheddau gwahanol. Bydd modd deall anghenion y person ifanc yn well drwy ystyried y dystiolaeth mewn ffordd holistaidd a thrwy ystyried a oes gwahaniaeth sylweddol yn y dystiolaeth sy'n cael ei darparu gan unigolion/asiantaethau gwahanol a phan fydd y person ifanc mewn lleoliadau gwahanol. Os oes gwahaniaeth sylweddol yn dod i'r amlwg, mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â rhywun y tu allan i'r SAB sy'n gallu ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd holistaidd.

---

[48] Adran 6 o'r Ddeddf. Hefyd, nid yw'r dyletswyddau yn adrannau 9 a 10 o'r Ddeddf (i benderfynu, llunio a chynnal CDU) yn berthnasol i berson ifanc nad yw'n cydsynio â'r penderfyniad nac yn cydsynio â llunio neu gynnal y cynllun (fel sy'n briodol).

7.3.28 Fodd bynnag, os oes disgwyl i'r person ifanc wneud cynnydd gwell na'i gynnydd presennol, ar sail ei botensial ac o dderbyn cymorth digonol, dylid mynd ati i ystyried a oes gan y person ifanc ADY.

## Dyletswydd i benderfynu

7.3.29 Os yw'r SAB yn credu y gall fod gan y person ifanc ADY, mae'n **rhaid** i'r SAB benderfynu a oes gan y person ifanc ADY (oni bai bod yr eithriadau a restrir ar ddechrau'r Bennod hon yn berthnasol.) Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae angen ystyried ffactorau amrywiol. Dylai ymarferwyr gyfeirio yn ôl at y diffiniad o ADY yn adran 2 o'r Ddeddf, rhoi sylw i'r canllawiau ar ddefnyddio'r diffiniad hwn a nodir ar ddechrau Pennod 6, a'u cymhwyso i amgylchiadau unigol yr achos.


7.3.30 Os penderfynir bod gan y disgybl ADY, mae'n **rhaid** i gorff llywodraethu'r SAB lunio a chynnal CDU, ac eithrio o dan amgylchiadau penodol.[49] Gweler Penodau 9.1 i 16 ar gyfer rhagor o wybodaeth am CDU.

DRAFT

[49] Adran 10 o'r Ddeddf a gweler yr amgylchiadau a restrir yn is-adran (2).

## PENDERFYNIAD AR ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**Pan ddaw i sylw SAB, neu os yw'n ymddangos i SAB bod gan fyfyriwr cofrestredig ADY ond nad oes ganddo CDU, rhaid dilyn y broses ganlynol** (Mae yna trefniadau gwahanol os mae'r myfyrwyr wedi eu cofrestru mewn mwy nag un sefydliad, yn derbyn gofal, yn cael ei gadw'n gaeth, yn preswylio fel arfer yn Lloegr neu mae cynllun AIG yn cael ei cynnal)**:**



# Pennod 8: Penderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY

## *Crynodeb*

8.1 Mae'r Bennod hon yn ymdrin â'r goblygiadau a'r camau gweithredu sy'n deillio o benderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.

### Hysbysu plant

8.2 Mae'r Bennod hon yn cynnwys cyfeiriadau gwahanol at hysbysu plentyn. Fodd bynnag, ni fydd angen gwneud hyn ym mhob achos; mae'n dibynnu ar alluedd y plentyn i ddeall y mater ac a yw cyfaill achos wedi'i benodi ar gyfer y plentyn.[50] Mae'r cyfeiriadau at hysbysu plentyn ond yn berthnasol os oes gofyniad i hysbysu'r plentyn neu gyfaill achos.

## *Penderfyniadau gan Ysgolion a Gynhelir*

8.3 Mae Pennod 9.2 yn ymwneud â phan fydd yn **rhaid** i ysgol a gynhelir benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.[51] Mewn rhai achosion, bydd yr ysgol yn penderfynu nad oes gan yr unigolyn ADY. Os yw hynny'n digwydd, mae'n **rhaid** i'r ysgol hysbysu'r plentyn[52] a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau amdano.[53]

8.4 Dylid hysbysu'r unigolion perthnasol cyn gynted ag y bo modd yn unol â'r terfyn amser a nodir ym Mhennod 10.

8.5 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau amdano, mae'n **rhaid** i'r hysbysiad gynnwys:

- enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY yr ysgol;
- gwybodaeth am sut i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor yn ymwneud ag ADY a'r system ADY[54] [Gellid gwneud hyn drwy gynnwys taflen yr awdurdod lleol ynglŷn â'r system ADY neu dudalennau gwe'r awdurdod lleol a nodi sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor];
- manylion trefniadau'r awdurdod lleol[55] ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau, yn ogystal â'i wasanaethau eirioli annibynnol; a
- gwybodaeth am yr hawl i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y mater.[56]

---

[50] Adrannau 75 a 76 o'r Ddeddf.
[51] Adran 9(1)
[52] Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar alluedd y plentyn i ddeall – gweler Pennod 3.
[53] Adran 9(4)
[54] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 7 o'r Ddeddf.
[55] Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc (h.y. yr awdurdod lleol lle mae'r unigolyn yn preswylio). O safbwynt plentyn sy'n derbyn gofal, efallai mai'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn fydd hwn, os yw'r awdurdod yn wahanol. O safbwynt plentyn neu berson ifanc sy'n preswylio fel arfer yn Lloegr, yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol sy'n gyfrifol.



DRAFT

8.6 Hefyd, dylai'r hysbysiad gynnwys amlinelliad o'r hyn y bydd yr ysgol yn ei wneud i sicrhau bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu. Gall hyn gynnwys unrhyw strategaethau neu gyfleusterau sy'n rhan o'r dulliau addysgu gwahaniaethol posibl yn yr ystafell ddosbarth. Dylai'r hysbysiad hwn ddiwallu unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gan y teulu (er enghraifft, cyswllt e-bost neu gyswllt ffôn yn hytrach na chyswllt drwy lythyr, dewisiadau iaith, a gofynion hygyrchedd).

8.7 Mae'n bosibl y bydd yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, fynychu cyfarfod i drafod y mater ymhellach.

DRAFT

[56] Dyma'r hawl o dan adran 24 o'r Ddeddf. Mae'r cais yn mynd i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr unigolyn (h.y. yn yr ardal lle mae'r unigolyn yn preswylio) (adran 24(1)(a)), oni bai bod yr unigolyn yn preswylio fel arfer yn Lloegr, pan fydd y cais yn mynd i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (adran 77(2)).

**Enghraifft – llythyr at riant plentyn (gellid addasu hwn yn llythyr at y plentyn neu'r person ifanc)**

Annwyl,

Yn dilyn ein gohebiaeth ddyddiedig xxx, gallaf eich hysbysu bellach ein bod wedi penderfynu nad oes gan xxx anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes gan y person hwnnw anhawster dysgu neu anabledd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae rhagor o wybodaeth am beth mae hyn yn ei olygu ar gael yn y daflen amgaeedig.

Rydym wedi gwneud y penderfyniad hwn ar ôl ystyried [datblygiad ac anghenion?] xxx. Nid ydym yn credu bod gan xxx anghenion dysgu ychwanegol oherwydd *[nodwch y rhesymau am y penderfyniad]*.

Er mwyn cynorthwyo xxx byddwn ni'n rhoi'r camau canlynol ar waith:

*[disgrifiad o'r camau y bydd yr ysgol yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu. Gall hyn gynnwys unrhyw strategaethau neu gyfleusterau sy'n rhan o'r dulliau addysgu gwahaniaethol posibl yn yr ystafell ddosbarth.]*

Os hoffech chi drafod y mater hwn ymhellach mae croeso i chi gysylltu â [enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY yr ysgol.]

Mae'r awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth a chyngor ar anghenion dysgu ychwanegol. Rwy'n amgáu [taflen ar …] ac mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael [ar wefan neu drwy ffonio'r llinell gymorth …] *[nid oes angen amgáu taflen, ond mae'n rhaid darparu gwybodaeth am sut i gael gafael ar y wybodaeth a'r cyngor]*.

Mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau. Gallwch chi wneud hyn drwy *[nodwch sut mae plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn gallu cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau.]* Hefyd, mae'ch awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n bwriadu cymryd rhan yn y trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghydfodau neu sy'n ystyried cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Addysg. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyngor a chymorth i'r plentyn neu'r person ifanc neu i gyfaill achos plentyn. *[nodwch fanylion gwasanaeth eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.]*

Mae gennych chi'r hawl i ofyn [i'ch awdurdod lleol/i awdurdod lleol x] ailystyried y penderfyniad hwn *[nodwch y manylion perthnasol ynglŷn â sut i wneud hyn.]*

## *Penderfyniadau Ysgolion a Gynhelir – Awdurdodau Lleol yn Ailystyried*

8.8 Os nad yw plentyn neu ei riant, neu berson ifanc, yn cytuno â phenderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan yr unigolyn perthnasol ADY, mae'n bosibl y byddant yn dymuno cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau a/neu (i blentyn neu berson ifanc) dderbyn gwasanaethau eirioli annibynnol yr awdurdod lleol, gyda'r nod o ddatrys y mater ar lefel ysgol.

8.9 Fel arall, gall yr unigolyn ofyn i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad ar y mater o dan adran 24 o'r Ddeddf. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad ei hun ynglŷn ag a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY[57]. Nid oes unrhyw derfyn amser i blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad.

8.10 Cyn i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad hwn, mae'n **rhaid** iddo hysbysu'r ysgol a'i gwahodd i gyflwyno sylwadau[58].

8.11 Dylai awdurdodau lleol ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael a chael gafael ar unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn gwneud yr un penderfyniad neu'n penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

8.12 Nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY os yw'r awdurdod lleol wedi ailystyried cyfryw benderfyniad ysgol a gynhelir o'r blaen mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc a'i fod wedi'i fodloni nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad blaenorol ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.[59]

8.13 Hefyd, nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan y plentyn ADY os yw'r cais yn ymwneud â phlentyn sydd bellach yn derbyn gofal gan awdurdod lleol.[60] Hefyd, nid yw'n ofynnol iddo ailystyried y cyfryw benderfyniad gan ysgol os yw'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc sydd bellach yn cael ei gadw'n gaeth.[61] O dan yr amgylchiadau hyn, mae dyletswyddau eraill tebyg yn y Ddeddf yn debygol o fod yn berthnasol.

---

[57] Adran 24(2) o'r Ddeddf.
[58] Adran 24(3) o'r Ddeddf.
[59] Adran 27(2).
[60] Adran 27(2).
[61] Adran 27(2).

## *Penderfyniadau Awdurdodau Lleol*

8.14 Mae gan awdurdod lleol ddyletswyddau amrywiol i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY: adran 11 (dyletswydd i benderfynu); adran 16 (dyletswydd i benderfynu mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod); adran 24 (ailystyried penderfyniad ysgol ynglŷn ag a oes gan blentyn ADY) ac adran 37 (dyletswydd i benderfynu mewn perthynas â pherson sy'n cael ei gadw'n gaeth). [Mae'r rhan hon o'r Cod yn ymdrin â phenderfyniadau o dan adrannau 11 a 24.[62]]

8.15 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan yr unigolyn ADY, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad.[63] Hefyd, dylid anfon hysbysiad o'r penderfyniad i'r lleoliad addysg perthnasol a'r swyddog adolygu annibynnol mewn achosion yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal.

8.16 Dylid gwneud yr hysbysiad cyn gynted ag y bo modd, yn unol â'r terfyn amser a nodir ym Mhennod 10.

8.17 Yn ogystal ag amlinellu'r penderfyniad a'r rheswm/rhesymau drosto, mae'n **rhaid** i'r hysbysiad gynnwys:

- enw a manylion cyswllt unigolyn cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol priodol;
- copïau o'r wybodaeth a'r cyngor perthnasol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol, neu wybodaeth am sut i gael gafael arnynt[64];
- manylion trefniadau osgoi a datrys anghytundebau'r awdurdod lleol, yn ogystal â'i wasanaethau eirioli annibynnol mewn perthynas â phlant, cyfeillion achos a phobl ifanc; a
- gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

8.18 Hefyd, dylai'r hysbysiad gynnwys amlinelliad o'r hyn y bydd yr ysgol a/neu'r awdurdod lleol yn ei wneud i sicrhau bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu. Gall hyn gynnwys unrhyw strategaethau neu gyfleusterau sy'n rhan o'r dulliau addysgu gwahaniaethol posibl yn yr ystafell ddosbarth. Dylai'r hysbysiad hwn ddiwallu unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gan y teulu.

8.19 Mae'n bosibl y bydd yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, fynychu cyfarfod i drafod y mater ymhellach.

8.20 Mae modd cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan unigolyn ADY – gweler Pennod 19.

---

[62] Gweler Pennod 20 ar gyfer [dyletswyddau tuag at blant sy'n derbyn gofal a phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth.]
[63] Adran 11(3) o'r Ddeddf.
[64] Adran 7 o'r Ddeddf.

Annwyl,

Yn dilyn ein gohebiaeth ddyddiedig xxx, gallaf eich hysbysu bellach ein bod wedi penderfynu nad oes gan xxx anghenion dysgu ychwanegol. Rydym wedi gwneud y penderfyniad hwn ar ôl ystyried unrhyw anghenion a dod i'r casgliad nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ADY *[nodwch y rhesymau dros wneud y penderfyniad]*. Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes gan y person hwnnw anhawster dysgu neu anabledd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae rhagor o wybodaeth am beth mae hyn yn ei olygu ar gael yn y daflen amgaeedig.

Er mwyn cynorthwyo xx bydd yr ysgol a/neu byddwn ni'n rhoi'r camau canlynol ar waith:

*[disgrifiad o'r camau y bydd yr ysgol a/neu'r awdurdod lleol yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu. Gall hyn gynnwys unrhyw strategaethau neu gyfleusterau sy'n rhan o'r dulliau addysgu gwahaniaethol posibl yn yr ystafell ddosbarth.]*

Os hoffech chi drafod y mater hwn ymhellach mae croeso i chi gysylltu â *[enw a manylion cyswllt unigolyn cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol.]*

Mae'n bosibl y bydd gennych chi ddiddordeb yn y wybodaeth a'r cyngor rydym yn eu darparu yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol a'r system ar gyfer eu diwallu. … *[gall y wybodaeth a'r cyngor gael eu darparu ochr yn ochr â'r hysbysiad hwn, neu fel arall bydd angen cynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar wybodaeth a chyngor yr awdurdod lleol]*.

Mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno cymryd rhan yn ein trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau. Gallwch chi wneud hyn drwy *[nodwch sut mae plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn gallu cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau.]* Hefyd, mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno defnyddio ein gwasanaeth eirioli annibynnol. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyngor a chymorth i'r plentyn neu'r person ifanc. *[rhowch wybodaeth am wasanaeth eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.]*

## *Penderfyniadau SAB*

8.21 Mae Pennod 9.3 yn sôn am pan fydd **rhaid** i SAB benderfynu a oes gan berson ifanc ADY. Mewn rhai achosion, bydd y SAB yn penderfynu nad oes gan yr unigolyn ADY. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n **rhaid** i'r SAB hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad[65].

8.22 Dylid gwneud yr hysbysiad cyn gynted ag y bo modd, yn unol â'r terfyn amser a nodir ym Mhennod 10.

8.23 Yn ogystal ag amlinellu'r penderfyniad a'r rheswm/rhesymau drosto, mae'n **rhaid** i'r hysbysiad gynnwys:

- enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY y SAB;
- copïau o'r wybodaeth a'r cyngor perthnasol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol priodol, neu wybodaeth am sut i gael gafael arnynt;
- manylion trefniadau osgoi a datrys anghytundebau'r awdurdod lleol, yn ogystal â gwasanaethau eirioli annibynnol yr awdurdod lleol; a
- gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

8.24 Hefyd, dylai'r hysbysiad gynnwys amlinelliad o'r hyn y bydd y SAB yn ei wneud i sicrhau bod anghenion y person ifanc yn cael eu diwallu. Gall hyn gynnwys unrhyw strategaethau neu gyfleusterau sy'n rhan o'r dulliau addysgu gwahaniaethol posibl yn yr ystafell ddosbarth. Dylai'r hysbysiad hwn ddiwallu unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gan y teulu.

8.25 Mae'n bosibl y bydd yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r person ifanc fynychu cyfarfod i drafod y mater ymhellach.

8.26 Mae modd cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad SAB nad oes gan unigolyn ADY – gweler Pennod 19.

---

[65] Adran 9(4) o'r Ddeddf.

Enghraifft

Annwyl,

Yn dilyn ein gohebiaeth ddyddiedig xxx, gallaf eich hysbysu bellach ein bod wedi penderfynu nad oes gennych chi anghenion dysgu ychwanegol. Rydym wedi gwneud y penderfyniad hwn ar ôl ystyried eich anghenion a dod i'r casgliad nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ADY *[nodwch y rhesymau dros wneud y penderfyniad]*. Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes gan y person hwnnw anhawster dysgu neu anabledd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae rhagor o wybodaeth am beth mae hyn yn ei olygu ar gael yn y daflen amgaeedig.

Er mwyn eich cynorthwyo, byddwn yn trafod â chi i gytuno ar rai o'r camau gweithredu canlynol, neu bob un ohonyn nhw:

*[disgrifiad o'r camau gweithredu y gall/y bydd y SAB yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod anghenion y person ifanc yn cael eu diwallu. Gall hyn gynnwys unrhyw strategaethau neu gyfleusterau sy'n rhan o'r dulliau addysgu gwahaniaethol posibl yn yr ystafell ddosbarth.]*

Os hoffech chi drafod y mater hwn ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â [*enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY y SAB.]*

Mae'n bosibl y bydd gennych chi ddiddordeb yn y wybodaeth a'r cyngor sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol yn ymwneud â'r mater hwn *[gall y wybodaeth a'r cyngor gael eu darparu ochr yn ochr â'r hysbysiad hwn, neu fel arall bydd angen cynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar wybodaeth a chyngor yr awdurdod lleol]*.

Mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau. Gallwch chi wneud hyn drwy *[nodwch sut mae person ifanc yn gallu cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau.]* Hefyd, mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyngor a chymorth i bobl ifanc. *[Rhowch wybodaeth am wasanaeth eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.]*

Os nad ydych chi'n cytuno â'n penderfyniad ynglŷn â'ch ADY, mae gennych chi hawl i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Addysg. Gallwn ni ddarparu rhagor o wybodaeth am y mater hwn.

## PENDERFYNIAD GAN YSGOL A GYNHELIR NAD OES GAN BLENTYN NEU BERSON IFANC ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**Os yw ysgol a gynhelir yn penderfynu nad oes gan berson ifanc ADY, bydd rhaid gwneud y canlynol**

Ysgol yn penderfynu a oes gan berson ifanc ADY?

OES → Paratoi CDU os nad oes eithriadau'n gymwys

NAC OES ↓

Anfon hysbysiad am y penderfyniad, gan gynnwys:

- Y rhesymau dros y penderfyniad
- Enw a manylion cyswllt Cydlynydd SAB yr ysgol;
- Gwybodaeth am sut i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY;
- Manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau yn ogystal â'i wasanaethau eirioli annibynnol;

**YMATEB I HYSBYSIAD**

Mae'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn derbyn hysbysiad am y penderfyniad. Ydy'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn fodlon â'r penderfyniad?

YDY ↓ Y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn fodlon ↓ Dim camau pellach

NAC YDY ↓ Gall y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad

NAC YDY ↓ Y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn ymgysylltu â threfniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau a/neu ei wasanaethau eirioli annibynnol ↓ Y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn fodlon

- YDY ↓ Dim camau pellach
- NAC YDY → Gall y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad

↓ Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r ysgol a gwahodd cynrychiolwyr.

↓ Mae'r awdurdod lleol yn penderfynu os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY (ac eithrio lle mae'r person o dan warchodaeth neu'n blentyn sy'n derbyn gofal, neu mewn rhai amgylchiadau lle mae'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad o'r fath yn y gorffennol)


OES ↓ Rhaid i awdurdod lleol baratoi CDU neu gyfarwyddo'r ysgol i wneud hynny

NAC OES ↓ Anfon hysbysiad am y penderfyniad a'r rhesymau, yn ogystal â'r canlynol:

- Enw a manylion cyswllt o'r person perthnasol yn yr awdurdod lleol;
- Copïau o gyngor a gwybodaeth berthnasol a gafwyd gan yr awdurdod lleol neu fanylion ynghylch sut i gael gafael arnynt;
- Manylion trefniadau osgoi a datrys anghytundeb yr awdurdod lleol a'i wasanaethau eirioli annibynnol;
- Gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg.

## PENDERFYNIAD GAN SEFYDLIAD ADDYSG BELLACH NAD OES GAN BERSON IFANC ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**Os yw SAB yn penderfynu nad oes gan berson ifanc ADY, bydd rhaid gwneud y canlynol**



# Pennod 9.1: Dyletswyddau awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan blentyn sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol ac nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir ADY, a'u dyletswyddau i lunio CDU

## *Crynodeb*

9.1.1 Mae'r Bennod hon yn amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag ADY a llunio CDU pan nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru eto. Yn benodol, mae'r Bennod yn nodi pryd y gall fod angen i awdurdodau lleol wneud ac adolygu penderfyniadau yn ymwneud ag ADY a CDU, a'r camau y mae'n **rhaid** iddynt eu rhoi ar waith wedyn.

9.1.2 Mae awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau canolog i helpu i ganfod unrhyw ADY a helpu i gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i wireddu ei botensial.

## *Cyflwyniad*

9.1.3 Os nad yw plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru eto ac y credir bod gan y plentyn ADY, neu y gall fod ganddo ADY, mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu a oes gan y plentyn ADY ac am roi CDU ar waith ar gyfer y plentyn os yw'n penderfynu bod ganddo ADY.[66]

## *Dyletswydd Awdurdodau Lleol i benderfynu a oes gan blentyn ADY o dan adran 11*

9.1.4 Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol, neu pan fo'n ymddangos iddo, y gall fod gan blentyn y mae'n gyfrifol amdano ADY, ac nad oes CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y person hwnnw, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan yr unigolyn ADY (oni bai bod yr eithriadau isod yn berthnasol). Mae manylion y ddyletswydd hon i'w gweld isod.[67]

*'Yn cael ei dwyn i sylw awdurdod lleol / yn ymddangos iddo'*

9.1.5 Gall achos unigolyn gael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Nid yw'r rhestr ganlynol o sefyllfaoedd posibl yn hollgynhwysfawr:

- Mae rhiant plentyn wedi gwneud cais uniongyrchol i'r awdurdod lleol.

DRAFT

[66] Adrannau 11 a 12 o'r Ddeddf.
[67] Adran 11 o'r Ddeddf.

- Mae corff iechyd o'r farn fod gan blentyn sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol ADY, neu y gall fod ganddo ADY, ac mae wedi dwyn y mater i sylw'r awdurdod lleol (gweler adran 57 o'r Ddeddf).

- Mae trydydd parti, fel ffrind neu aelod o'r teulu er enghraifft, wedi hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn credu y gall fod gan y plentyn ADY.

***Unigolion y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt***

9.1.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn amlwg iawn pwy y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano. Bydd awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn os yw'r plentyn yn ardal yr awdurdod,[68] sy'n dibynnu ar ble mae'r plentyn yn preswylio.

9.1.7 Mae hyn yn golygu y gall yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn fod yn wahanol i'r awdurdod lleol lle mae lleoliad cyn ysgol wedi'i leoli, sef pan fydd y plentyn yn mynychu lleoliad mewn awdurdod lleol sy'n wahanol i'r awdurdod lleol lle mae'n byw. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth a mathau eraill o gymorth gan bersonau eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol.[69]

***Amgylchiadau lle na fydd angen i'r Awdurdod Lleol wneud unrhyw benderfyniad***

9.1.8 Ni fydd y ddyletswydd i benderfynu a oes gan y plentyn ADY yn berthnasol o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- Mae CDU yn cael ei gynnal eisoes ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc perthnasol.
- Mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac wedi'i fodloni nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw[70].
- Mae'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol arall – wedyn mae'n **rhaid** iddo atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn (gweler Pennod 20).

## ***Penderfyniad yr Awdurdod Lleol ar ADY – Y Camau Nesaf***

9.1.9 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn ADY, mae'n **rhaid** iddo hysbysu'r rhiant ac unrhyw gyfaill achos am y penderfyniad

[68] Adran 86(4) o'r Ddeddf.
[69] Adran 58 o'r Ddeddf.
[70] Adrannau 11(2) a 76 o'r Ddeddf.

a'r rhesymau dros y penderfyniad[71]. Mae Pennod 8 yn ymwneud â'r broses o hysbysu am benderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau awdurdodau lleol, nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.

9.1.10 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU.[72] Os yw'r plentyn yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru yn ddiweddarach, caiff yr awdurdod lleol gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i gynnal y cynllun.[73]

DRAFT

[71] Adran 11(3) o'r Ddeddf.
[72] Adran 12 o'r Ddeddf.
[73] Adran 12(4) o'r Ddeddf.

# Pennod 9.2: Dyletswyddau ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc mewn ysgol a gynhelir ADY, a'u dyletswyddau i lunio CDU

## *Crynodeb*

9.2.1 Mae'r Bennod hon yn amlinellu cyfrifoldebau ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag ADY a rhoi CDU ar waith. Yn benodol, mae'r Bennod yn sôn am pan fydd angen i awdurdodau lleol wneud ac adolygu penderfyniadau yn ymwneud ag ADY a CDU, a'r camau y dylent neu y mae'n rhaid iddynt eu rhoi ar waith wedyn.

9.2.2 Mae awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau canolog i helpu i ganfod unrhyw ADY a helpu i gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i wireddu ei botensial.

## *Cyflwyniad*

9.2.3 Gall CDU gael eu llunio a'u cynnal gan awdurdodau lleol neu ysgolion a gynhelir gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

9.2.4 Yn y rhan fwyaf o achosion, os yw ysgol a gynhelir wedi penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, bydd yr ysgol a gynhelir y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei mynychu yn gyfrifol am lunio a chynnal CDU.

9.2.5 Fel arfer, ni fydd awdurdodau lleol yn llunio neu'n cynnal CDU oni bai bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn fwy difrifol neu gymhleth. Y prif eithriadau yw pan fydd plentyn yn derbyn gofal neu'n cael ei gadw'n gaeth.

## *Dyletswydd i lunio a chynnal CDU, gan gynnwys Atgyfeiriadau Ysgolion i Awdurdodau Lleol*

9.2.6 Pan fydd ysgol a gynhelir yn dod yn ymwybodol y gall fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, mae'n **rhaid** i'r ysgol wneud penderfyniad ar y mater hwn, ac eithrio o dan amgylchiadau penodol (gweler Pennod 7.2 am y manylion llawn).[74]

9.2.7 Os yw'r ysgol wedi penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ADY, mae'n **rhaid** iddi lunio CDU oni bai bod yr ysgol:

- yn credu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY a all alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol iddi ei chynnig, neu nad yw'n gallu pennu graddau neu natur yr ADY yn ddigonol, neu

[74] Adran 9(1) a 9(3) o'r Ddeddf.

nad yw'n gallu pennu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn ddigonol; ac

- ei bod yn gofyn i'r awdurdod lleol cyfrifol wneud ei benderfyniad ei hun;
- mae'r person yn berson ifanc nad yw'n cydsynio bod y cynllun yn cael ei lunio;
- mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac mae'r ysgol yn gofyn i'r awdurdod lleol sicrhau asesiad o anghenion AIG ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc;[75]
- mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun AIG ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

9.2.8 Mae'n **rhaid** i'r ysgol gynnal y CDU wedyn oni bai bod y CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n cydsynio bod y CDU yn cael ei gynnal, neu fod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun AIG ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Gweler Pennod 15 ar gyfer amgylchiadau eraill lle mae'r ddyletswydd i gynnal CDU yn dod i ben.

9.2.9 Gall ysgol benderfynu na fyddai'n rhesymol iddi sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r ysgol (h.y. ei lleoliad, ei maint, ei chyllideb ac ati), er enghraifft, o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os oes gan y plentyn neu'r person ifanc gyflwr llai cyffredin / cyflwr prin y mae angen arbenigedd ar ei gyfer na all yr ysgol ei ddarparu;
- mae'r plentyn neu'r person ifanc angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol yn ogystal â'r cyngor a'r cymorth sy'n gallu cael eu trefnu'n rhesymol gan yr ysgol neu y mae'r ysgol yn gallu cael gafael arnynt;
- mae angen cyfarpar ar y plentyn neu'r person ifanc sydd ond yn gallu cael ei ddefnyddio gan un plentyn neu berson ifanc / na ellir ei ailddefnyddio / sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol; neu
- mae angen cymorth dwys iawn bob dydd ar y plentyn neu'r person ifanc na ellir ei ariannu neu ei sicrhau yn rhesymol gan gyllideb yr ysgol.

9.2.10 Cyn atgyfeirio achos i'r awdurdod lleol, dylai'r ysgol ystyried ymgynghori â seicolegydd addysg i gadarnhau bod y cam hwn yn briodol. Os caiff achos ei atgyfeirio i awdurdod lleol yn y modd hwn, bydd dyletswyddau'r awdurdod lleol o dan adran 11 o'r Ddeddf (a nodir yn fanwl yn nes ymlaen yn y Bennod hon) yn berthnasol.

9.2.11 Os yw ysgol yn atgyfeirio penderfyniad yn ymwneud ag ADY i'r awdurdod lleol, dylai ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ganddi am y plentyn neu'r person ifanc a allai helpu'r awdurdod lleol i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu sydd eisoes ar waith i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc, fel unrhyw adnoddau neu drefniadau arbennig sydd ar waith. Hefyd,

[75] O dan adran 36(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014

bydd yn cynnwys unrhyw adroddiadau neu gyngor ysgrifenedig sydd wedi’u derbyn eisoes gan asiantaethau allanol.

9.2.12 Ar ôl derbyn atgyfeiriad, mae’n **rhaid** i’r awdurdod lleol ymgysylltu â seicolegydd addysg.

**Enghraifft o arfer da**

Ar ôl ystyried y mater, mae ysgol yn penderfynu bod gan blentyn ADY ac mae'n ystyried sut i ddiwallu anghenion y plentyn. Mae'r ysgol yn credu bod y plentyn yn debygol o angen offer drud iawn a fyddai ond yn gallu cael ei ddefnyddio gan y plentyn dan sylw, ac nad oes gan yr ysgol yr adnoddau i'w brynu. Mae'r ysgol hefyd yn credu bod y plentyn angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol sy'n fwy na'r hyn y gellid, yn rhesymol, ei drefnu gan yr ysgol.

Felly, mae'n gofyn cyngor seicolegydd addysg sy'n argymell strategaethau eraill y gellir eu gweithredu. Penderfynir hefyd yn dilyn trafodaeth â'r seicolegydd addysg bod anghenion y plentyn yn gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei threfnu. Felly, mae'r ysgol yn cyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol ac mae Tîm ADY yr awdurdod lleol yn ystyried y mater.

Mae’r Tîm ADY yn cyfeirio cais i'w Panel Adnoddau ADY sy'n cwrdd bob hanner tymor. Mae'r Panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm ADY yr awdurdod lleol gan gynnwys rheolwyr, athrawon cynghori, seicolegwyr addysg, swyddogion cyllid, cynrychiolwyr o ysgolion (penaethiaid a Chydlynwyr ADY) a chynrychiolwyr o asiantaethau eraill megis y trydydd sector, y gwasanaethau cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'r ysgol yn darparu tystiolaeth o'r cymorth y maent wedi'i ddarparu, gan gynnwys unrhyw CDU presennol/blaenorol sy'n cynnwys y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, ac effaith y cymorth/darpariaeth dan sylw.

Mae'r panel yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ysgol ac unrhyw asesiad neu wybodaeth a ddarparwyd gan wasanaethau cynorthwyol neu asiantaethau allanol, ac mae'r awdurdod lleol yn cytuno bod gan y plentyn ADY.

Wedyn, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes angen cymorth ychwanegol ar y plentyn ar ffurf darpariaeth ddysgu ychwanegol sydd y tu hwnt i'r hyn y gall yr ysgol, yn rhesymol, ei ddarparu. Os felly, rhaid iddynt benderfynu a ddylid dyrannu adnoddau ychwanegol o'r gyllideb ganolog a/neu ddarparu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn uniongyrchol. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn penderfynu a ddylai gyfarwyddo'r ysgol i baratoi a chynnal y Cynllun Datblygu Unigol, a ddylai baratoi CDU ei hun a chyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal, neu a ddylai gymryd y cyfrifoldeb am baratoi a chynnal y CDU. Fel rhan o'r broses, mae'r awdurdod lleol a'r ysgol yn cytuno ar eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u trefniadau cyllid.

## *Dyletswydd Awdurdodau Lleol i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY o dan Adran 11*

9.2.13 Gall fod angen i awdurdodau lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ADY mewn amgylchiadau eraill, heb fod angen atgyfeiriad gan ysgol.

9.2.14 Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall, y gall fod gan blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano ADY, ac nad oes CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y person hwnnw, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan yr unigolyn ADY (oni bai bod un o'r eithriadau a nodir isod yn berthnasol).[76] Mae manylion y ddyletswydd hon i'w gweld isod.

*'Yn cael ei dwyn i sylw awdurdod lleol / yn ymddangos iddo'*

9.2.15 Gall achos unigolyn gael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Nid yw'r rhestr ganlynol o sefyllfaoedd posibl yn hollgynhwysfawr:

- Mae plentyn neu ei riant, neu berson ifanc, wedi gwneud cais uniongyrchol i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad ysgol a gynhelir ynglŷn ag ADY[77]. Mae hyn yn sicrhau bod modd effeithiol i blant a'u rhieni, a phobl ifanc herio penderfyniad ysgol a gynhelir.

- Mae lleoliad nas cynhelir wedi hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn credu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, neu y gall fod ganddo ADY.

- Mae trydydd parti, fel ffrind neu aelod o'r teulu er enghraifft, wedi hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn credu y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

## *Unigolion y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt*

9.2.16 Mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc yn ei ardal.[78] Fel arfer, yr awdurdod lleol hwn yw'r awdurdod lleol lle mae'r person yn preswylio – a bydd yn amlwg pa awdurdod lleol yw hwn yn y rhan fwyaf o achosion.

9.2.17 Ar gyfer achosion sydd ag elfen drawsffiniol, mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio'r term yn rhannol – nid yw person mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru os yw'r person yn preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.[79] Fodd bynnag, pe bai person wedi bod mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru oni bai am y ffaith ei fod wedi'i leoli mewn sefydliad preswyl

---

[76] Adran 11 o'r Ddeddf.
[77] Adran 24(1) o'r Ddeddf. Caiff penderfyniad yr awdurdod lleol ei drin fel un wedyn o dan adran 11 o'r Ddeddf.
[78] Adran 86(4).
[79] Adrannau 579(3A) a (3B). Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i'r Ddeddf: adran 86(6) o'r Ddeddf.

yn Lloegr i dderbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol, mae'r person yn aros yn ardal yr awdurdod lleol yng Nghymru, hyd yn oed os yw'n byw am y rhan fwyaf o'r flwyddyn neu am y flwyddyn gyfan yn y sefydliad preswyl yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.[80]

9.2.18 Yn yr un modd, os yw awdurdod lleol yn gosod person y mae'n gyfrifol amdano mewn sefydliad preswyl mewn ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru er mwyn bodloni gofynion darpariaeth ddysgu ychwanegol y person, dylai'r awdurdod lleol sy'n gosod y person barhau i fod yn gyfrifol o dan y Ddeddf.

9.2.19 Mae hyn yn golygu y gall ardal awdurdod lleol ysgol fod yn wahanol i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i hwyluso cydweithio rhwng awdurdodau lleol o dan amgylchiadau fel hyn.[81]

***Amgylchiadau lle na fydd angen i'r Awdurdod Lleol wneud unrhyw benderfyniad o dan adran 11***

9.2.20 Ni fydd dyletswydd yr awdurdod lleol i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY yn berthnasol o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- Mae CDU yn cael ei gynnal eisoes ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc perthnasol.[82]

- Mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac wedi'i fodloni nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.[83]

- Mae'r awdurdod lleol wedi'i fodloni bod y mater eisoes yn cael ei benderfynu gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir[84]. Mae'r eithriad hwn yn sicrhau nad oes unrhyw adnodd yn cael ei ddyblygu, ac mai un penderfyniad sy'n dilyn.

- Mae'r unigolyn yn berson ifanc nad yw'n cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud.[85]

- Mae'r penderfyniad yn ymwneud â pherson ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr mewn SAB yng Nghymru, nad yw wedi

DRAFT

---

[80] Adran 579(3A) a (3B) fel y'u diwygiwyd gan adran 82 o'r Ddeddf.
[81] Adrannau 35 a 58.
[82] Adran 11(2)(a) o'r Ddeddf.
[83] Adran 11(2)(b) o'r Ddeddf.
[84] Adran 11(2)(c) o'r Ddeddf.
[85] Adran 11(2)(d) o'r Ddeddf.

cofrestru mewn dau sefydliad[86] ac nad oes unrhyw gais wedi'i wneud gan y SAB neu'r awdurdod lleol i benderfynu ar y mater.[87]

- Mae'r plentyn neu'r person ifanc yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth[88].

- Mae'r plentyn yn derbyn gofal.[89] Os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol arall, mae'n rhaid i'r awdurdod hwnnw atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn.[90] Os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn, bydd rhaid i'r awdurdod hwnnw benderfynu ar y mater o dan adran 16 o'r Ddeddf ac yn amodol ar ei heithriadau. Gweler Pennod 22 am ragor o wybodaeth am blant sy'n derbyn gofal.

9.2.21 Hefyd, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY o dan adran 24 o'r Ddeddf fel ailystyriaeth o benderfyniad corff llywodraethu ysgol a gynhelir ar y mater (neu wrthodiad i wneud y cyfryw benderfyniad). Mae modd cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i'r Tribiwnlys Addysg.[91]

## *Penderfyniad yr Awdurdod Lleol ar ADY – Y Camau Nesaf*

9.2.22 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, mae'n **rhaid** iddo hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad[92]. Mewn achosion yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid hysbysu'r swyddog adolygu annibynnol hefyd. Gweler Pennod 8 am ragor o wybodaeth am hyn.

9.2.23 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, bydd y camau nesaf yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, fel y nodir isod. Mae'r canlynol yn berthnasol i benderfyniadau o dan adran 11 a phenderfyniadau ailystyriaeth o dan adran 24.

### *Plant a Phobl Ifanc sy'n mynychu neu a fydd yn mynychu ysgol a gynhelir*

9.2.24 Os yw plentyn neu berson ifanc yn mynychu ysgol a gynhelir [yng Nghymru], mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol wneud un o'r canlynol:

---

[86] Gweler Pennod 20.
[87] Adran 11(2)(e) o'r Ddeddf.
[88] Adran 11(2)(f) o'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod lleol benderfynu ar y mater o hyd, ond o dan adran 37 o'r Ddeddf fel yr "awdurdod cartref". Gweler hefyd Bennod 20.
[89] Adran 11(4) o'r Ddeddf
[90] Adran 15 o'r Ddeddf.
[91] Adran 63 o'r Ddeddf
[92] Adrannau 11(4) o'r Ddeddf.

- llunio a chynnal CDU;
- llunio CDU a chyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal; neu
- gyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal CDU[93]

oni bai, os yw'r achos yn ymwneud â pherson ifanc, nad yw'r person ifanc yn cydsynio.[94]

9.2.25 Gall awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol a gynhelir os yw'n credu bod hynny'n briodol. Os yw'r ysgol a gynhelir mewn ardal awdurdod lleol wahanol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod lleol arall yn gyntaf ynglŷn â'i gynnig i gyfarwyddo'r ysgol.[95]

9.2.26 Fodd bynnag, os yw'r CDU yn cynnwys darpariaeth arall o dan adran 12(6) (lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall, neu ddarpariaeth bwyd a llety, neu unrhyw ddarpariaeth arall a all gael ei rhagnodi yn y rheoliadau), mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol lunio a chynnal y CDU – ni all gyfarwyddo ysgol i wneud hynny[96]. Gweler hefyd Bennod 10 ar lunio CDU.

9.2.27 Hefyd, os yw penderfyniad o'r math hwn yn cael ei wneud yn dilyn ailystyriaeth o benderfyniad gwreiddiol gan ysgol a gynhelir (hynny yw, mae'r awdurdod lleol wedi derbyn cais gan blentyn, ei riant neu berson ifanc i ystyried y mater), bydd penderfyniad yr awdurdod lleol yn disodli penderfyniad yr ysgol a gynhelir[97].

***Plant sy'n mynychu neu a fydd yn mynychu lleoliad nas cynhelir***

9.2.28 Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â phlentyn nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol baratoi a chynnal CDU[98].

## *Ailystyriaeth Awdurdodau Lleol o CDU Ysgolion a Gynhelir*

9.2.29 Mae adran 25 o'r Ddeddf yn nodi'r amgylchiadau pan fydd **rhaid** i awdurdod lleol ailystyried CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol a gynhelir yng Nghymru. Gall plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc ofyn i awdurdod lleol ailystyried CDU, gyda golwg ar ei ddiwygio. Mae hyn yn sicrhau bod gan blant, eu rhieni a phobl ifanc fodd effeithiol o herio cynnwys y CDU sydd wedi'i roi ar waith iddynt gan yr ysgol.

9.2.30 Yn dilyn cais o'r fath, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r ysgol a gwahodd sylwadau ganddi cyn i'r awdurdod lleol benderfynu a yw am ddiwygio'r CDU[99].

[93] Adran 12(2) o'r Ddeddf.
[94] Adran 12(3).
[95] Adran 35 o'r Ddeddf.
[96] Adran 12(9) o'r Ddeddf.
[97] Adran 24(5) o'r Ddeddf.
[98] Adran 12 o'r Ddeddf.
[99] Adran 25(3) o'r Ddeddf.

9.2.31 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu na fydd yn diwygio'r CDU, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau drosto[100].

9.2.32 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod angen diwygio'r CDU, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol lunio cynllun diwygiedig a naill ai:

- cyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal; neu
- cymryd drosodd y cyfrifoldeb am ei gynnal (gweler isod)[101].

9.2.33 Dylai'r awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol a gynhelir i gynnal y CDU os yw'n credu y gellir disgwylir yn rhesymol i'r ysgol roi cynnwys y CDU ar waith. Lle na fyddai hyn yn rhesymol, dylai'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun.

9.2.34 Nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol ailystyried CDU sydd wedi'i roi ar waith gan ysgol a gynhelir yng Nghymru os yw'r awdurdod lleol wedi ailystyried cynllun y plentyn neu'r person ifanc o'r blaen a'i fod wedi'i fodloni nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad blaenorol ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.[102]

9.2.35 Hefyd, nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol ailystyried CDU sydd wedi'i roi ar waith gan ysgol a gynhelir os yw'r cais yn ymwneud â phlentyn sydd bellach yn derbyn gofal gan awdurdod lleol neu sydd bellach yn cael ei gadw'n gaeth.[103]

### *Awdurdod Lleol yn Cymryd Drosodd y Cyfrifoldeb am CDU*

9.2.36 Gall ysgolion a gynhelir, yn ogystal â phlant, eu rhieni a phobl ifanc, ofyn i awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol ar hyn o bryd.[104]

9.2.37 Gall ysgol ofyn i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU os, er enghraifft, yw'r ysgol yn credu na fyddai'n rhesymol bellach iddi gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu ADY plentyn neu berson ifanc.

9.2.38 Gall yr ysgol ystyried ymgynghori â seicolegydd addysg os yw'n bwriadu gofyn i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU, os yw hynny'n briodol.

9.2.39 Gall plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc ofyn i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU os nad ydynt yn credu bod yr ysgol yn

[100] Adran 25(4) o'r Ddeddf
[101] Adran 25(5) o'r Ddeddf.
[102] Adran 27(2) o'r Ddeddf.
[103] Adran 27(2) o'r Ddeddf.
[104] Adran 26 o'r Ddeddf.

gallu diwallu eu hanghenion yn llawn, neu eu bod yn credu bod angen rhagor o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt, neu ddarpariaeth amgen, na all yr ysgol ei darparu.

9.2.40 Os yw'r ysgol wedi gofyn i'r awdurdod lleol ystyried cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, a gwahodd sylwadau[105]. Os yw'r cais wedi'i wneud gan blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r ysgol a gwahodd sylwadau[106]. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod pob pawb sydd â diddordeb yn y mater yn gallu cyfrannu at benderfyniad yr awdurdod lleol.

9.2.41 Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol benderfynu wedyn a yw am gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun. Yn dilyn atgyfeiriad i'r awdurdod lleol, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol ymgynghori â seicolegydd addysg.

9.2.42 Hefyd, gall awdurdod lleol benderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal cynllun os yw'n penderfynu y dylai cynllun gael ei ddiwygio.[107]

9.2.43 Mae'n **rhaid** i blentyn a'i riant, neu berson ifanc a'r ysgol gael gwybod am unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod lleol ar y mater ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad[108].

9.2.44 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb yn dilyn cais, gall y plentyn a/neu ei riant neu'r person ifanc wneud apêl yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys Addysg[109].

9.2.45 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb, o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, nid yw'n ofynnol i'r ysgol gynnal y cynllun bellach.[110] Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb, dylai'r ysgol ddarparu'r holl wybodaeth ofynnol i'r awdurdod lleol.

9.2.46 Nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU os yw'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad o'r fath o'r blaen mewn perthynas â chynllun y plentyn neu'r person ifanc a'i fod wedi'i fodloni nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad blaenorol ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.[111]

9.2.47 Hefyd, nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb os yw'r cais yn ymwneud â phlentyn sydd bellach yn

[105] Adran 26(4) o'r Ddeddf.
[106] Adran 26(5) o'r Ddeddf.
[107] Adran 26(6) o'r Ddeddf.
[108] Adran 26(7) o'r Ddeddf.
[109] Adran 63 o'r Ddeddf.
[110] Adran 26(8) o'r Ddeddf.
[111] Adran 27(2) o'r Ddeddf.

DRAFT

derbyn gofal gan awdurdod lleol neu blentyn sydd bellach yn cael ei gadw'n gaeth.[112]

### *Dyletswyddau Ysgol a Gynhelir mewn perthynas â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol*

9.2.48 Mae'n **rhaid** i ysgol neu awdurdod lleol sy'n cynnal CDU sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir ynddo.[113] Os yw CDU yn nodi bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg, mae'n **rhaid** rhoi pob cam rhesymol ar waith i sicrhau darpariaeth Gymraeg.

9.2.49 Os yw'r CDU yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol, mae'n **rhaid** i'r ysgol a gynhelir yng Nghymru y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei mynychu gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir ynddo.[114]

9.2.50 Fodd bynnag, os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, ond nad oes ganddo CDU, mae'n **rhaid** i'r ysgol, wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn galw amdani yn cael ei gwneud.[115]

9.2.51 Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, os yw'r ysgol wedi gofyn i'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad ei hun o dan adran 11 a bod y CDU yn y broses o gael ei ddatblygu gan yr awdurdod lleol, neu os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn preswylio yn Lloegr ac, yn dilyn cais gan yr ysgol, mae awdurdod lleol yn Lloegr yn cwblhau asesiad anghenion AIG neu'n llunio cynllun AIG.[116]

9.2.52 Mae hyn yn helpu i sicrhau bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu o hyd, er nad oes ganddo CDU.

DRAFT

[112] Adran 27(2) o'r Ddeddf, er mae'n bosibl y bydd gan yr awdurdod lleol ddyletswyddau eraill yn y sefyllfaoedd hyn.
[113] Adrannau 10(6) a 12(10) o'r Ddeddf.
[114] Adran 41(3) a (4) o'r Ddeddf.
[115] Adran 41(1) a (2) o'r Ddeddf.
[116] Os yw hyn yn digwydd, nid yw dyletswydd yr ysgol i lunio CDU yn berthnasol: adran 10(2)(c) o'r Ddeddf.

# Pennod 9.3: Dyletswyddau SAB ac awdurdodau lleol i benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac i baratoi CDU

## *Crynodeb*

9.3.1 Mae'r Bennod hon yn amlinellu cyfrifoldebau SAB ac awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag ADY a CDU ar gyfer pobl ifanc. Yn benodol, mae'r Bennod yn sôn am pan fydd angen o bosibl i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau yn ymwneud ag ADY a CDU yn ehangach na mewn SAB yn unig.

9.3.2 Mae awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau canolog (er enghraifft, seicolegwyr addysg) i helpu SAB i nodi unrhyw ADY a helpu i gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i wireddu ei botensial.

## *Cyflwyniad*

9.3.3 Yn y rhan fwyaf o achosion, os yw'n dod i sylw SAB bod gan un o'i fyfyrwyr ADY o bosibl, bydd y SAB yn gyfrifol am benderfynu a oes gan y person ADY ac am lunio a chynnal CDU.

9.3.4 Ni fydd gan awdurdod lleol y dyletswyddau hyn oni bai bod y SAB wedi gofyn iddo benderfynu ar y mater (fel arfer mewn achosion lle bo gan berson ifanc anghenion mwy difrifol neu gymhleth),[117] os yw'r myfyriwr wedi'i ymrestru mewn dau sefydliad,[118] neu os yw'r myfyriwr yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth.[119] Hefyd, gall awdurdodau lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb gan SAB am gynnal CDU.[120]

## *Dyletswyddau SAB i lunio a chynnal CDU, gan gynnwys Atgyfeiriadau SAB i Awdurdodau Lleol*

9.3.5 Os yw SAB yn dod yn ymwybodol y gall person ifanc sy'n un o'i fyfyrwyr fod ag ADY, mae'n **rhaid** iddo benderfynu a oes ganddo ADY, oni bai bod unrhyw amgylchiadau penodol yn berthnasol (gweler Pennod 8 am fanylion llawn).[121]

---

[117] O dan adran 10(2)(a) o'r Ddeddf.
[118] Adrannau 9(3)(d) a 28(1) a (2) o'r Ddeddf.
[119] Adran 9(3)(e), adran 37 (dyletswydd i benderfynu ar yr awdurdod lleol cartref) ac adran 39 (dyletswydd i gadw, yn hytrach na chynnal, CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth) ac adran 40 (dyletswydd i gynnal CDU ar ôl rhyddhau person sy'n cael ei gadw'n gaeth) o'r Ddeddf.
[120] Adran 26 o'r Ddeddf.
[121] Adran 9(2) a (3) o'r Ddeddf.

9.3.6 Os yw'r SAB wedi penderfynu bod gan y person ifanc ADY, mae'n **rhaid** iddo lunio CDU oni bai:[122]

- bod y SAB yn credu bod gan y person ifanc ADY a allai ofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol iddo ei chynnig, neu nad yw'n gallu pennu graddau neu natur yr ADY yn ddigonol, neu nad yw'n gallu pennu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn ddigonol;
- bod y SAB yn gofyn i'r awdurdod lleol cyfrifol wneud ei benderfyniad ei hun o dan adran 11(1);
- nad yw'r person ifanc yn cydsynio bod y cynllun yn cael ei lunio;
- bod y person ifanc yn byw mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr a bod y SAB yn gofyn i'r awdurdod sicrhau asesiad anghenion AIG;[123]
- bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal Cynllun AIG ar gyfer y person ifanc.

9.3.7 Mae'n **rhaid** i'r SAB gynnal y CDU. Yr eithriadau i hyn yw os nad yw'r person ifanc yn cydsynio (ar unrhyw adeg) bod y cynllun yn cael ei gynnal, neu, os yw'r person ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, bod yr awdurdod lleol hwnnw yn cynnal cynllun AIG ar gyfer y person maes o law. Gweler Pennod 15 hefyd ar gyfer sefyllfaoedd eraill lle mae dyletswydd SAB i gynnal CDU yn dod i ben.

9.3.8 Gall SAB benderfynu na fyddai'n rhesymol iddo sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol oherwydd ei amgylchiadau (h.y. ei leoliad, maint, cyllideb ac ati). Er enghraifft, os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i'r person ifanc:

- mae ganddo gyflwr llai cyffredin sy'n gofyn am wybodaeth neu gymorth arbenigol na all y SAB eu darparu yn rhesymol;
- mae angen cyngor a chymorth rheolaidd arno gan asiantaethau allanol yn ogystal â'r cyngor a'r cymorth sy'n gallu cael eu trefnu'n rhesymol gan y lleoliad addysg neu y gall y lleoliad addysg gael gafael arnynt;
- mae angen cyfarpar arno sydd ond yn gallu cael ei ddefnyddio gan un person ifanc / na ellir ei ailddefnyddio / sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol y SAB; neu
- mae angen cymorth dwys iawn bob dydd arno na ellir ei ariannu neu ei sicrhau yn rhesymol gan gyllideb y SAB.

9.3.9 Cyn atgyfeirio achos i'r awdurdod lleol, dylai'r SAB ystyried ymgynghori â seicolegydd addysg i gadarnhau bod y cam hwn yn briodol. Os caiff achos ei atgyfeirio i awdurdod lleol yn y modd hwn, bydd dyletswyddau'r awdurdod

---

[122] Adran 10(2) o'r Ddeddf.

[123] O dan adran 36(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Fodd bynnag, os yw'r awdurdod lleol yn Lloegr yn hysbysu'r SAB wedyn nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun AIG ar gyfer y plentyn (waeth a yw wedi cwblhau asesiad anghenion AIG ai peidio), mae'n rhaid i'r SAB lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc (os nad yw'r person hwnnw yn cydsynio, neu os yw cynllun AIG yn cael ei gynnal wedyn): adran 10(4).

lleol o dan adran 11 o'r Ddeddf (a nodir yn fanwl yn nes ymlaen yn y Bennod hon) yn berthnasol.

9.3.10 Os yw SAB yn atgyfeirio penderfyniad yn ymwneud ag ADY i'r awdurdod lleol, dylai ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ganddo am y person ifanc a allai helpu'r awdurdod lleol i benderfynu a oes gan y person ifanc ADY. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu sydd eisoes ar waith i ddiwallu anghenion y person, fel unrhyw adnoddau neu drefniadau arbennig sydd ar waith. Hefyd, bydd yn cynnwys unrhyw adroddiadau neu gyngor ysgrifenedig sydd wedi'u derbyn eisoes gan asiantaethau allanol.

9.3.11 Os yw SAB yn atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol, rydym yn disgwyl y bydd y SAB yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau. Os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc sydd wedi'i ymrestru mewn SAB, mae'n **rhaid** i'r SAB gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir ynddo.[124]

## *Dyletswydd Awdurdodau Lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY o dan Adran 11*

9.3.12 Gall fod angen i awdurdodau lleol benderfynu a oes gan berson ADY mewn amgylchiadau eraill, heb fod angen atgyfeiriad gan sefydliad addysgol.

9.3.13 Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall, y gall fod gan berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano ADY, ac nad oes CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y person hwnnw, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan yr unigolyn ADY (oni bai bod un o'r eithriadau a nodir isod yn berthnasol) [125]. Mae manylion y ddyletswydd hon i'w gweld isod.

*'Yn cael ei dwyn i sylw awdurdod lleol / yn ymddangos iddo'*

9.3.14 Gall achos unigolyn gael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Nid yw'r rhestr ganlynol o sefyllfaoedd posibl yn hollgynhwysfawr:

- Mae person ifanc wedi gwneud cais uniongyrchol i'r awdurdod lleol
- Mae trydydd parti, fel ffrind neu aelod o'r teulu er enghraifft, wedi hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn credu y gall fod gan y person ifanc ADY.

### *Unigolion y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt*

9.3.15 Mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc yn ei ardal.[126] Fel arfer, yr awdurdod lleol hwn yw'r awdurdod lleol lle mae'r person

[124] Adran 41(4) o'r Ddeddf.
[125] Adran 11
[126] Adran 86(4).



DRAFT

yn preswylio – a bydd yn amlwg pa awdurdod lleol yw hwn yn y rhan fwyaf o achosion.

9.3.16 Ar gyfer achosion sydd ag elfen drawsffiniol, mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio'r term yn rhannol – nid yw person mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru os yw'r person yn preswylio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.[127] Fodd bynnag, pe bai person wedi bod mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru oni bai am y ffaith ei fod wedi'i leoli mewn sefydliad preswyl yn Lloegr i dderbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol, mae'r person yn aros yn ardal yr awdurdod lleol yng Nghymru, hyd yn oed os yw'n byw am y rhan fwyaf o'r flwyddyn neu am y flwyddyn gyfan yn y sefydliad preswyl yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.[128]

9.3.17 Yn yr un modd, os yw awdurdod lleol yn gosod person y mae'n gyfrifol amdano mewn sefydliad preswyl mewn ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru er mwyn bodloni gofynion darpariaeth ddysgu ychwanegol y person, mae'r awdurdod lleol sy'n gosod y person yn parhau i fod yn gyfrifol.

9.3.18 Mae hyn yn golygu y gall SAB gael ei leoli mewn ardal awdurdod lleol sy'n wahanol i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am un o'i fyfyrwyr. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol a SAB yn cydweithio o dan amgylchiadau fel hyn.

***Amgylchiadau lle na fydd angen i'r awdurdod lleol wneud unrhyw benderfyniad***

9.3.19 Ni fydd y ddyletswydd i benderfynu a oes gan y person ifanc ADY yn berthnasol o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- mae CDU yn cael ei gynnal eisoes ar gyfer y person ifanc;[129]
- mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac wedi'i fodloni nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;[130]
- nid yw'r person ifanc yn cydsynio bod y penderfyniad yn cael ei wneud;[131]
- mae'r person ifanc wedi'i ymrestru mewn SAB, nid yw wedi cofrestru mewn dau sefydliad ac nid oes unrhyw gais wedi'i

[127] Adrannau 579(3A) a (3B). Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i'r Ddeddf: adran 86(6) o'r Ddeddf.
[128] Adran 579(3A) a (3B) fel y'u diwygiwyd gan adran 82 o'r Ddeddf.
[129] Adran 11(2)(a) o'r Ddeddf.
[130] Adran 11(2)(b) o'r Ddeddf.
[131] Adran 11(2)(d) o'r Ddeddf.

wneud gan y SAB i'r awdurdod lleol ystyried a oes gan y person ifanc ADY;[132]

- mae'r person ifanc yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth.[133]

## *Penderfyniad yr Awdurdod Lleol ar ADY – Y Camau Nesaf*

9.3.20 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y person ifanc ADY, mae'n **rhaid** iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad[134]. Gweler Pennod 8 am ragor o wybodaeth am hyn.

### *Pobl ifanc sydd wedi'u hymrestru mewn SAB*

9.3.21 Os yw person ifanc wedi'i ymrestru fel myfyriwr mewn SAB, a bod awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad bod gan y person ifanc ADY, mae'n **rhaid** iddo lunio a chynnal CDU (oni bai nad yw'r person yn cydsynio)[135].

### *Pobl Ifanc Eraill*

9.3.22 Mae adran 12(1)(c) o'r Ddeddf yn nodi bod yn **rhaid** i'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw wedi'i ymrestru fel myfyriwr mewn SAB os yw'n penderfynu yn unol â'r rheoliadau bod angen gwneud hyn er mwyn diwallu anghenion rhesymol yr unigolyn am addysg neu hyfforddiant. Y bwriad presennol yw y bydd y rheoliadau yn cynnwys unigolion sydd ag anghenion difrifol a/neu gymhleth sydd ond yn gallu cael eu diwallu mewn Sefydliad Ôl-16 Arbennig Annibynnol. Bydd rhagor o ganllawiau ar y mater hwn yn cael eu cynnwys yn y Cod maes o law.

## *Awdurdod Lleol yn Cymryd Drosodd y Cyfrifoldeb am CDU*

9.3.23 Gall SAB, yn ogystal â phobl ifanc, ofyn i awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU sy'n cael ei gynnal gan y SAB ar hyn o bryd.[136]

9.3.24 Gall SAB ofyn i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU os, er enghraifft, yw'r SAB yn credu na fyddai'n rhesymol iddo gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu ADY person ifanc.

9.3.25 Fel arall, gall person ifanc ofyn i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU os nad yw'n credu bod y SAB wedi diwallu ei anghenion yn llawn, neu ei fod yn credu bod angen rhagor o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol arno, neu ddarpariaeth amgen.

---

[132] Adran 11(2)(e) o'r Ddeddf.
[133] Adran 11(2)(f) o'r Ddeddf.
[134] Adrannau 11(3) o'r Ddeddf.
[135] Adran 12(1) – (3) o'r Ddeddf.
[136] Adran 26 o'r Ddeddf

9.3.26 Os yw'r SAB wedi gofyn i'r awdurdod lleol ystyried cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r person ifanc, a gwahodd sylwadau[137]. Os yw'r cais wedi'i wneud gan berson ifanc, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r SAB a gwahodd sylwadau[138]. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod pob pawb sydd â diddordeb yn y mater yn gallu cyfrannu at benderfyniad yr awdurdod lleol.

9.3.27 Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol benderfynu wedyn a yw am gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun.

9.3.28 Mae'n **rhaid** i berson ifanc a SAB gael gwybod am unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod lleol ar y mater ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad[139].

9.3.29 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb, gall y person ifanc wneud apêl yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys Addysg[140].

9.3.30 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb, o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, nid yw'n ofynnol i'r SAB gynnal y cynllun bellach. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb, dylai'r SAB ddarparu'r holl wybodaeth ofynnol i'r awdurdod lleol.

9.3.31 Nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU sy'n cael ei gynnal gan SAB yng Nghymru ar hyn o bryd:

- os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu peidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynllun y person o'r blaen a'i fod wedi'i fodloni nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad blaenorol ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw, neu
- os yw'r person yn cael ei gadw'n gaeth bellach.[141]

## *SAB – dyletswyddau mewn perthynas â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol*

9.3.32 Mae'n **rhaid** i SAB neu awdurdod lleol sy'n cynnal CDU sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir ynddo. [142]

[137] Adran 26(4) o'r Ddeddf.
[138] Adran 26(5) o'r Ddeddf.
[139] Adran 26(7) o'r Ddeddf.
[140] Adran 63(2)(i) o'r Ddeddf.
[141] Adran 27 o'r Ddeddf. Os yw'r person yn cael ei gadw'n gaeth bellach, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i gadw'r CDU os mai'r awdurdod yw'r awdurdod cartref: adran 39 o'r Ddeddf.
[142] Adrannau 10(6) a 12(10) o'r Ddeddf.

9.3.33 Os yw'r CDU yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol, mae'n **rhaid** i'r SAB yng Nghymru y mae'r person ifanc yn ei fynychu gymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir ynddo.[143]

9.3.34 Fodd bynnag, os oes gan berson ifanc ADY, ond nad oes ganddo CDU, mae'n **rhaid** i'r SAB, wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r SAB, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ADY y person ifanc yn galw amdani yn cael ei gwneud.[144]

9.3.35 Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, os yw'r SAB wedi gofyn i'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad ei hun o dan adran 11 a bod y CDU yn y broses o gael ei lunio gan yr awdurdod lleol, neu os yw'r person ifanc yn preswylio yn Lloegr ac, yn dilyn cais gan y SAB, mae'r awdurdod lleol yn Lloegr yn cwblhau asesiad anghenion AIG neu'n llunio cynllun AIG. [145]

9.3.36 Mae hyn yn helpu i sicrhau bod anghenion y person ifanc yn cael eu diwallu o hyd, er nad oes ganddo CDU.

DRAFT

[143] Adran 41(3) a (4) o'r Ddeddf.
[144] Adran 41(1) a (2) o'r Ddeddf.
[145] Os yw hyn yn digwydd, nid yw dyletswydd y SAB i lunio CDU yn berthnasol: adran 10(2)(c) o'r Ddeddf.

# Pennod 10: Llunio CDU

## Crynodeb

10.1 Mae'r Bennod hon yn amlinellu'r broses mewn perthynas â llunio CDU. Mae'r Bennod yn cyflwyno'r dyletswyddau gorfodol a ragnodir yn y Ddeddf, mae'n nodi rhagor o ofynion, ac mae'n darparu canllawiau ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r broses o ddatblygu CDU, cyfarfodydd ac amserlenni CDU a datgelu CDU. Dylid ei darllen ar y cyd â Phennod 11.

10.2 *[Mae'r amserlenni a gyflwynir yn y Bennod hon wedi'u datblygu yn dilyn mewnbwn gan randdeiliaid. Fodd bynnag, mae trafodaethau ar yr amserlenni yn parhau, ac nid ydynt wedi'u pennu eto.]*

## Llunio CDU – Ystyriaethau ym mhob achos

### Camau Cychwynnol

10.3 Pan fydd yn dechrau dod yn amlwg i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, neu ei bod yn debygol bod ganddo ADY, mae'n **rhaid** dynodi person i fod yn gyfrifol am gydlynu a llunio'r CDU ('y Cydlynydd CDU'). Gall yr unigolyn fod yn Gydlynydd ADY, ond nid o reidrwydd. Mae'n **rhaid** i'r plentyn, rhiant y plentyn a'r person ifanc gael gwybod enw'r cydlynydd a sut i gysylltu ag ef.

### Cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni wrth lunio CDU

10.4 Mae Pennod 3 yn disgrifio'r ddyletswydd i gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.[146]

10.5 Mae sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i'r broses sy'n nodi ei ADY ac yn pennu ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn hanfodol i'r system gymorth a gyflwynir yn y Ddeddf. Dylid gwahodd y plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan yn y broses a'u gwahodd i unrhyw gyfarfodydd ffurfiol sy'n trafod ADY neu CDU y plentyn neu'r person ifanc.

10.6 Er mwyn sicrhau bod y plentyn, ei riant neu'r person ifanc yn helpu i gynllunio'r cymorth ar gyfer ei ADY, dylai'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am lunio CDU wneud y canlynol:

- canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gasglu a chyflwyno gwybodaeth; a
- datblygu a diwygio CDU mewn cyfarfod CDU sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

10.7 Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sicrhau bod y plentyn, rhiant y plentyn (yn enwedig, ond nid yn unig os yw'r plentyn yn ifanc iawn) neu'r person ifanc yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau. Hefyd,

[146] Adran 6 o'r Ddeddf

mae'n sicrhau bod cyfarfodydd yn canolbwyntio ar safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolion hyn.

10.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adnoddau amrywiol i helpu ymarferwyr i ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent ar gael ar wefan Dysgu Cymru.

> *Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru* (http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-practice-guide/?skip=1&lang=cy)
>
> *Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion: offeryn hunanasesu a chamau arferol ar gyfer cynnydd* (http://learning.gov.wales/resources/browse-all/developing-as-a-person-centred-organisation/?skip=1&lang=cy)
>
> *Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru* (http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-reviews-toolkit/?skip=1&lang=cy)

10.9 Os yw plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc yn dymuno cymryd rhan yn y broses o lunio CDU drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd angen i'r corff sy'n llunio'r CDU gydymffurfio â'r rhwymedigaethau perthnasol yn ymwneud â'r Gymraeg.[147]

### *Cymryd rhan mewn cyfarfodydd i bennu'r ADY a/neu lunio'r CDU*

10.10 Mae'n hanfodol bod pawb sy'n gallu cyflwyno gwybodaeth berthnasol i lywio penderfyniadau yn ymwneud ag ADY plentyn neu berson ifanc, a llunio ac adolygu'r CDU wedyn, yn mynd ati i wneud hynny. Gorau oll os yw unigolion yn gallu cyflwyno gwybodaeth eu hunain mewn cyfarfodydd, ond fel arall byddant yn cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig ymlaen llaw. Dylai cyfraniadau at y cyfarfodydd gynnwys pob agwedd ar ADY y plentyn neu'r person ifanc.

10.11 Yng nghyd-destun cyfarfodydd sy'n trafod CDU, gall fod yn ddefnyddiol trefnu'r wybodaeth o dan y penawdau canlynol:

- beth sy'n bwysig i'r dysgwr;
- beth sy'n bwysig ar gyfer y dysgwr;
- beth sy'n llwyddo ac angen ei ddatblygu;
- beth sy'n methu ac angen ei newid; a

[147] O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Safonau'r Gymraeg a'r hysbysiadau cydymffurfio cysylltiedig. Er enghraifft, gweler Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a'r hysbysiadau cydymffurfio cysylltiedig a gyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â'r safonau unigol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol, e.e. ar gyfer gohebu a chyfarfodydd.

- blaenoriaethau.

10.12 Yn achos rhai plant neu bobl ifanc, ni fydd angen i lawer o bobl fynychu’r cyfarfod i gynllunio’r CDU. Er enghraifft, gall cyfarfod ar gyfer plentyn o dan 16 oed nad oes ganddo anghenion difrifol neu gymhleth gynnwys y plentyn, ei riant/rhieni a rhywun o’r ysgol yn unig. Gall cyfarfod ar gyfer person ifanc gynnwys y person ifanc, rhywun o’r SAB a pherson arall o bosibl, fel rhiant, sy’n mynychu ar gais y person ifanc.

10.13 Ni fydd angen i fwy o weithwyr proffesiynol fynychu’r cyfarfod oni bai bod angen cyfraniadau gan amrywiaeth eang o asiantaethau.

10.14 Dylid gwahodd asiantaethau a gweithwyr proffesiynol i fynychu cyfarfodydd ac adolygiadau mor fuan â phosibl fel bod ganddynt ddigon o rybudd i allu mynychu neu gyflwyno cyngor.

10.15 Dylid hysbysu gweithwyr proffesiynol am fformat y cyfarfod a sut y bydd modd iddynt gyfrannu, naill ai drwy fynychu’r cyfarfod neu drwy gyfraniad ysgrifenedig. Bydd angen cynnwys y wybodaeth hon gyda phob cais am gyfranogiad.

10.16 Os oes modd ac os yw’n briodol, dylid rhannu gwybodaeth â’r plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc cyn y cyfarfod fel bod y plentyn, rhiant y plentyn a’r person ifanc yn gallu cyfrannu’n llawn at y drafodaeth. Mewn rhai achosion, efallai y penderfynir y bydd yn well trafod y wybodaeth yn y cyfarfod fel bod modd clywed safbwyntiau gwahanol.

## *Y rhai â chynlluniau lluosog*

10.17 Gall ysgol, SAB neu awdurdod lleol lunio, adolygu neu ddiwygio CDU ar yr un pryd ag y byddan nhw, neu gorff arall, yn llunio, yn adolygu neu’n diwygio dogfen arall yn ymwneud â’r unigolyn perthnasol. Gall yr ysgol, y SAB neu’r awdurdod lleol gynnwys y ddogfen arall yn y CDU ac i’r gwrthwyneb[148].

10.18 Pŵer yn hytrach na gofyniad yw hwn, a gall arfer y pŵer fod yn amodol ar gyfyngiadau ynglŷn â’r hyn y gellir ei wneud mewn perthynas â’r ddogfen arall. Lle y bo’n berthnasol, dylai’r awdurdod lleol neu’r corff llywodraethu ystyried a yw’n briodol cydgysylltu’r ddau fater.

10.19 Yn gyffredinol, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, dylai prosesau CDU gyd-fynd i’r graddau posibl ag unrhyw brosesau cynllunio neu adolygu eraill sydd eu hangen ar gyfer plentyn neu berson ifanc. Gallai hyn olygu cynnal un cyfarfod i drafod ADY y plentyn neu’r person ifanc ac unrhyw anghenion neu ofynion eraill. Bydd hyn yn galluogi dulliau cynllunio integredig ac yn hwyluso atebion holistaidd. Gallai hyn fod yn briodol, er enghraifft, ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy’n cael eu gwneud o dan ran 4 o Ddeddf

[148] Adran 23 o’r Ddeddf.

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid oes angen i'r un corff fod yn gyfrifol am gynnal y cynlluniau gwahanol o reidrwydd.

10.20 Hefyd, bydd y dull gweithredu hwn yn sicrhau nad yw'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn mynychu cyfres o gyfarfodydd tebyg yn ddiangen, gan leihau'r angen i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ailadrodd yr un wybodaeth i bobl wahanol. Hefyd, bydd yn fanteisiol i weithwyr proffesiynol drwy leihau nifer y cyfarfodydd y mae angen iddynt eu mynychu.

10.21 Os oes modd, dylai'r Cydlynydd CDU fynychu pob cyfarfod sy'n ymwneud ag anghenion ehangach y plentyn neu'r person ifanc, fel bod ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion ehangach yr unigolyn. Er enghraifft, gall fod yn briodol i'r Cydlynydd CDU fynychu cyfarfodydd diogelu yn ymwneud â phlentyn ag ADY, yn ogystal â chyfarfod CDU y plentyn.

## *Cludiant*

10.22 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud yn benodol â darpariaethau teithio a chludiant ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru.

10.23 *[Mae'r pwnc hwn, a sut mae'n cael ei gynnwys yn y Cod, yn cael ei ystyried o hyd.]*

## *Ffactorau eraill*

10.24 Pan fydd y corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol yn ystyried anghenion yr unigolyn, efallai y bydd angen iddynt ystyried mesurau eraill i gynorthwyo â'i anghenion, a'u rhoi ar waith o bosibl. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen gwneud addasiadau er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys sicrhau amgylchedd acwstig da.

10.25 Yn yr un modd, wrth bennu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, gall fod yn briodol ystyried materion eraill yn ymwneud â'r ddarpariaeth, fel manylion cynnal a chadw neu yswirio unrhyw gyfarpar arbenigol, a phwy sy'n gyfrifol am hynny.

### *Pobl ifanc nad ydynt eisiau CDU*

10.26 Mae'n bosibl na fydd person ifanc yn cydsynio bod penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn ag a oes ganddo ADY, neu na fydd yn cydsynio bod CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer. Mae'n **rhaid** i bobl ifanc dderbyn y wybodaeth sy'n eu galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth, gan gynnwys eglurhad o'u hawliau yn ymwneud â'r CDU a'r deilliannau a ddaw yn sgil CDU.

DRAFT

10.27 Bydd angen i'r ysgol neu'r SAB roi gweithdrefnau syml ond cadarn ar waith i ymdrin â'r penderfyniadau hyn a'u cofnodi; gall hyn gynnwys gofyn i'r dysgwr lofnodi i gadarnhau'r penderfyniad. Hyd yn oed os yw pobl ifanc yn gwrthod cydsynio, bydd angen darparu cymorth priodol ar eu cyfer. Dylid hysbysu'r person ifanc ei fod yn gallu newid ei feddwl.

## *Amserlenni*

### *Amserlenni ar gyfer paratoi CDU*

10.28 *[Mae'r amserlenni a gyflwynir yn y Bennod hon wedi'u datblygu yn dilyn mewnbwn gan randdeiliaid. Fodd bynnag, mae trafodaethau ar yr amserlenni yn parhau, ac nid ydynt wedi'u pennu eto.]*

10.29 Mae'r bennod hon yn cyflwyno gofynion yn ymwneud ag amserlenni i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, ac ar sail y penderfyniad hwnnw, naill ai rhoi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, neu benderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ac anfon hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw.

10.30 Mae'n bwysig cofio mai'r rhain yw'r amserlenni hiraf, ac mewn llawer o achosion bydd modd llunio a chyhoeddi CDU cyn y dyddiad terfyn gofynnol. Dylid llunio a rhoi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn syth ar ôl ei gwblhau.[149] Er bod disgwyl i gyfnod yr amserlenni fod yn ddigon hir i sicrhau bod yr holl gyfarfodydd paratoi a gweithgareddau casglu tystiolaeth yn cael eu cwblhau, mae'n bosibl na fydd hyn yn digwydd bob tro. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid cwblhau'r CDU erbyn y dyddiad penodedig ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Os oes rhagor o wybodaeth ar gael maes o law, bydd modd adolygu a diwygio'r CDU yn unol â'r trefniadau ym Mhennod 14.

10.31 Yng nghyd-destun person ifanc, ni ellir llunio CDU cyn gofyn am, a sicrhau ei gydsyniad, sy'n golygu wedyn bod modd gwneud penderfyniad ynglŷn ag a oes ganddo ADY[150].

10.32 Mae'r amserlenni yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc, ee:

- Plentyn neu berson ifanc sy'n mynychu ysgol neu SAB (dim atgyfeiriad i'r awdurdod lleol).
- Plentyn neu berson ifanc sy'n mynychu ysgol a gynhelir (a bod yr ysgol yn atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol).

---

[149] Mae adran 20(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol sy'n llunio CDU roi copi ohono i'r plentyn neu'r person ifanc perthnasol, ac os yw'r CDU ar gyfer plentyn, rhaid rhoi copi i riant y plentyn. Os yw'r CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi copi ohono i swyddog adolygu annibynnol y plentyn hefyd (adran 20(3)).
[150] Adran 11 o'r Ddeddf.

- Person ifanc sy'n mynychu SAB (a bod y SAB yn atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol).
- Gofyniad i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY (ac eithrio lle bo'r plentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol).
- Gofyniad i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol ADY.

**Plentyn neu berson ifanc sy'n mynychu ysgol neu SAB (dim atgyfeiriad i'r awdurdod lleol)**

10.33 Pan fydd yr adran hon yn cyfeirio at wythnosau a dyddiau, mae'n cyfeirio yn gyffredinol at gyfnodau amser yn ystod y tymor, ac eithrio penwythnosau.

10.34 Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw ysgol a gynhelir neu SAB, neu pan fo'n ymddangos iddynt fel arall, bod gan, neu y gall fod gan blentyn neu berson ifanc (ar yr amod bod y person ifanc yn cydsynio) ADY, (ac nad oes unrhyw un o'r eithriadau a amlinellwyd ym Mhennod 7.2 neu Bennod 7.3 yn berthnasol), mae'n rhaid i'r corff wneud un o'r canlynol o fewn **7 wythnos (35 diwrnod)** i'r dyddiad hwnnw:

- Penderfynu a oes gan y person ADY, llunio CDU a rhoi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc;

- Penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY a rhoi gwybod am y penderfyniad.

  Neu, ymhen dwy wythnos (10 diwrnod), penderfynu nad oes gan y person ADY ac atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol o dan adran 10(2)(a) (gweler Pennod 9.2 a Phennod 9.3).

**Plentyn neu berson ifanc sy'n mynychu ysgol a gynhelir (a bod yr ysgol yn atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol)**

10.35 Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw ysgol a gynhelir, neu pan fo'n ymddangos iddi fel arall, bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, neu y gall fod ganddo ADY, a'i bod yn ofynnol i'r ysgol benderfynu ar y mater, mae'r amserlenni canlynol yn berthnasol.

10.36 Os yw'r ysgol wedi penderfynu bod gan y person ADY ond ei bod yn credu nad yw'n gallu pennu graddau neu natur yr ADY neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn ddigonol, neu na fyddai'n rhesymol iddi sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a all fod yn ofynnol, mae'n gallu atgyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol. Mae'n **rhaid** i'r ysgol wneud unrhyw atgyfeiriad o'r fath ymhen **2 wythnos (10 diwrnod)** ar y mwyaf.

10.37 Ar ôl i'r awdurdod lleol gael ei hysbysu gan yr ysgol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydnabod y cais o fewn **2 wythnos (10 diwrnod)**. Hefyd, mae'n **rhaid** i'r nodyn cydnabod hwn roi gwybod i'r ysgol a yw'r awdurdod lleol yn bwriadu arfer ei bŵer o dan adran 12(2)(b)(ii) i gyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal y cynllun.

10.38 Os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu arfer ei bŵer o dan adran 12(2)(b)(ii), mae'n rhaid i'r ysgol lunio CDU a rhoi copi ohono i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc o fewn **5 wythnos (25 diwrnod)** i'r hysbysiad.

10.39 Os nad yw'r awdurdod lleol yn bwriadu arfer ei bŵer o dan adran 12(2)(b)(ii), mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud un o'r canlynol o fewn **10 wythnos (50 diwrnod)** i dderbyn hysbysiad gan yr ysgol:

- Penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, llunio CDU a rhoi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc;

- Penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, llunio CDU a rhoi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc a chyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU (er bod modd cyflwyno'r cyfarwyddyd hwn yn ddiweddarach); neu

- Benderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ac anfon hysbysiad o'r penderfyniad.

**<u>Person ifanc sy'n mynychu SAB (a bod y SAB yn atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol)</u>**

10.40 Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw SAB, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall, bod gan y person ifanc ADY, neu y gall fod ganddo ADY, a'i bod yn ofynnol i'r SAB benderfynu ar y mater, mae'r amserlenni canlynol yn berthnasol.

10.41 Os yw'r SAB yn penderfynu bod gan y person ADY, ond nad yw'n gallu pennu graddau neu natur yr ADY neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn ddigonol, neu na fyddai'n rhesymol o bosibl iddo sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a all fod yn ofynnol, mae'n gallu atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol. Mae'n **rhaid** i'r SAB wneud unrhyw atgyfeiriad o'r fath ymhen **2 wythnos (10 diwrnod)** ar y mwyaf.

10.42 Ar ôl i'r awdurdod lleol gael ei hysbysu gan y SAB, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydnabod y cais o fewn **2 wythnos (10 diwrnod)**.

10.43 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud un o'r canlynol o fewn **10 wythnos (50 diwrnod)** i dderbyn hysbysiad gan y SAB:

- Penderfynu bod gan y person ifanc ADY, llunio CDU a rhoi copi o'r CDU i'r person ifanc; neu

- Benderfynu nad oes gan y person ifanc ADY a'i hysbysu am y penderfyniad.

**<u>Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu neu ailystyried a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY (oni bai bod y plentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol).</u>**

10.44 Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall, bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, neu y gall fod ganddo

ADY, neu os gofynnir i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad a wnaed gan ysgol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu ar y mater yn unol â'r amserlenni canlynol.

10.45 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud un o'r canlynol ymhen **10 wythnos (50 diwrnod)** ar y mwyaf:

- Penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, llunio CDU a rhoi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc;
- Penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, llunio CDU a rhoi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc a chyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU (er bod modd cyflwyno'r cyfarwyddyd hwn yn ddiweddarach); neu
- Benderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ac anfon hysbysiad o'r penderfyniad.

10.46 Os yw'r plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru, mae awdurdod lleol yn gallu cyfarwyddo'r ysgol i lunio CDU. Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol wneud hyn o fewn **2 wythnos (10 diwrnod)** ar ôl i'r mater ddod i'w sylw. (Gweler uchod).

**Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol ac nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir ADY.**

10.47 Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall, bod gan blentyn sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol ac nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir ADY, neu y gall fod ganddo ADY, ac mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol benderfynu ar y mater, mae'r amserlenni canlynol yn berthnasol.

10.48 Byddai awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol o'r posibilrwydd bod gan blentyn sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol ADY mewn sawl ffordd bosibl, er enghraifft drwy atgyfeiriad gan weithiwr iechyd proffesiynol, gweithiwr cymdeithasol neu riant. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydnabod yr atgyfeiriad o fewn **wythnos**. Dylai wneud hyn ar ffurf ysgrifenedig.

10.49 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud un o'r canlynol o fewn **7 wythnos**:

- Penderfynu bod gan y plentyn ADY, paratoi CDU a rhoi copi o'r CDU i riant y plentyn (neu i'r cyfaill achos os yw hynny'n berthnasol); neu
- Benderfynu nad oes gan y plentyn ADY ac anfon hysbysiad o'r penderfyniad.

### *Adroddiadau nas cwblhawyd*

10.50 Mae'n bosibl na fydd rhai o'r adroddiadau y gofynnwyd amdanynt wedi'u cwblhau erbyn diwedd yr amser penodedig. Ni ddylai hyn atal yr ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol rhag mynd ati yn unol â'r amserlenni rhagnodedig uchod i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, a llunio a chyhoeddi'r CDU os penderfynir bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

10.51 Pan fydd adroddiadau'n dod i law, mae'n **rhaid** hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ganlyniadau'r adroddiadau. Mae'n **rhaid** i'r corff sy'n gyfrifol am gynnal y CDU ystyried y dystiolaeth yn yr adroddiadau hyn ac ystyried a yw'r dystiolaeth ychwanegol wedi newid y sefyllfa, gan ganolbwyntio ar a oes angen adolygu'r CDU. Os penderfynir nad oes angen adolygu'r CDU ar sail y dystiolaeth newydd, dylid cwblhau'r adolygiad cyn gynted â phosibl. (Gweler Pennod 14 ar gyfer gwybodaeth am adolygiadau.)

## *Cwblhau CDU yn derfynol*

### *Dyletswydd i ddarparu copi terfynol o CDU*

10.52 Ar ôl llunio CDU, mae'n **rhaid** i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc.[151]

10.53 Hefyd, mae'n **rhaid** i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am lunio'r CDU roi'r canlynol i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc:

- Enw a manylion cyswllt y Cydlynydd ADY yn yr ysgol neu'r SAB, neu unigolyn cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol;
- Gwybodaeth am drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl yn ymwneud ag ADY a'r system ADY.[152] [Gellid gwneud hyn drwy amgáu taflen yr awdurdod lleol sy'n egluro'r system ADY neu drwy nodi bod rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael ar wefan yr awdurdod.]
- Manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau, a gwybodaeth am wasanaethau eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.

10.54 Hefyd, mae'n **rhaid** i ysgol a gynhelir roi gwybod i'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am ei hawl o dan adran 24 (mewn perthynas â phenderfyniad ynglŷn ag a oes gan berson ADY) neu adran 25 (mewn perthynas â CDU) i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y mater.

10.55 Mae'n **rhaid** i SAB neu awdurdod lleol roi gwybod i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ei hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

---

[151] Adran 20(1). Os yw awdurdod lleol yn llunio'r CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid iddo anfon copi at swyddog adolygu annibynnol y plentyn hefyd (adran 20(3)).
[152] Mae'n rhaid gwneud y trefniadau hyn o dan adran 7 o'r Ddeddf.

10.56 Dylid gwneud hyn ar ffurf ysgrifenedig mewn fformat sydd ar gael iddynt.

**Llythyr enghreifftiol at riant plentyn**

Annwyl,

Amgaeir CDU xxxx yn dilyn y cyfarfod dyddiedig xx/xx/xxxx.

Os hoffech chi drafod y mater hwn ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â *[enw a manylion cyswllt y Cydlynydd ADY yn yr ysgol/SAB neu unigolyn cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol.]*

Mae'n bosibl y bydd y wybodaeth a'r cyngor sydd wedi'u darparu gan yr awdurdod lleol ynglŷn â'r mater hwn o ddiddordeb i chi *[mae'n **rhaid** cynnwys manylion am sut i ddod o hyd i wybodaeth a chyngor yr awdurdod lleol; hefyd, gellid darparu rhywfaint o'r cyfryw wybodaeth e.e. taflen neu gyfeiriad gwefan]*.

Mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau. Gallwch chi wneud hyn drwy *[nodwch sut mae plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn gallu cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau.]*

Hefyd, mae'r awdurdod lleol wedi trefnu bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael, sy'n darparu cyngor a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ynglŷn ag anghytundebau neu apelau ADY. *[nodwch fanylion gwasanaeth eirioli annibynnol yr awdurdod lleol perthnasol.]*

*[Os yw ysgol a gynhelir wedi anfon copi o'r CDU]* Os ydych chi'n anfodlon â CDU [enw'r plentyn], gallwch chi ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y CDU, a'i ddiwygio o bosibl. Gallwch chi gysylltu â'r awdurdod lleol i drafod y mater ymhellach a gwneud cais ffurfiol i'r awdurdod lleol ailystyried y mater. *[nodwch wybodaeth berthnasol am sut i wneud hyn.]*

*[Os yw SAB neu awdurdod lleol wedi anfon copi o'r CDU]* Os hoffech chi herio'r CDU arfaethedig, mae gennych chi hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad. Gallwn ddarparu rhagor o fanylion am y mater hwn.

Yn gywir,

### *Gofyn am safbwyntiau ar ddogfen y CDU*

10.57 Mae'n bosibl y bydd y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc eisiau gwneud sylw ar gopi drafft o'r CDU. Os yw unrhyw un yn credu nad yw'r copi drafft o'r CDU yn adlewyrchiad cywir o'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod, dylai hysbysu'r unigolyn sy'n gyfrifol am lunio'r CDU cyn gynted ag y bo modd. Dylai'r corff sy'n gyfrifol am lunio'r CDU ystyried y sylwadau a wnaed, ac os yw'n credu bod angen diweddaru'r CDU, dylai wneud hynny cyn gynted ag y bo modd yn unol â'r terfynau amser a ragnodwyd uchod.

10.58 Mae'n rhaid egluro unrhyw benderfyniad a wnaed i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, yn enwedig os yw barn y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn wahanol.

#### *Datgelu CDU*

10.59 *[Mae adran 73 o'r Ddeddf yn nodi bod modd gwneud rheoliadau ynghylch datgelu neu ddefnyddio gwybodaeth at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf neu at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg plentyn neu berson ifanc. Gall hyn gynnwys gwneud darpariaeth ynglŷn â phersonau eraill y mae'n rhaid rhoi copi o CDU iddynt. Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid a chwblhau gwaith i ddatblygu'r rheoliadau hynny, caiff rhagor o wybodaeth ei chynnwys yn y Cod.]*

DRAFT

# Pennod 11: Cynnwys Gorfodol ar gyfer CDU

## *Crynodeb*

11.1 Mae'r Bennod hon yn nodi'r cynnwys gorfodol ar gyfer CDU, hynny yw, y wybodaeth y mae'n **rhaid** i bob CDU ei chynnwys.

11.2 *[Fel rhan o'r gwaith datblygu cyson i roi'r Ddeddf ar waith, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i dempled safonol ar gyfer CDU ynghyd â'r posibilrwydd o ddefnyddio CDU electronig. Pan ymgynghorir ar y cod terfynol maes o law, bydd yn cynnwys y casgliadau a'r penderfyniadau sy'n deillio o'r gwaith hwn.]*

## *Cynnwys CDU – Cyffredinol*

11.3 Bwriedir i CDU fod yn ddogfen hyblyg. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pob CDU yn cynnwys elfennau allweddol penodol. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a chydraddoldeb cyffredinol o ran sut mae dysgwyr yn cael eu trin, a bydd yn sylfaen i gydlyniant y system ADY yn ei chyfanrwydd a chludadwyedd cynlluniau unigol.

11.4 Mae CDU yn ddogfen sy'n cynnwys disgrifiad o ADY y person a disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anhawster dysgu neu anabledd y person yn galw amdani, ac unrhyw beth arall sy'n ofynnol neu sydd wedi ei awdurdodi gan neu o dan Ran 2 o'r Ddeddf.[153] Mae'r Bennod hon yn nodi'r cynnwys sydd ei angen yn unol â darpariaethau eraill y Ddeddf, ac mae'n cyflwyno rhagor o ofynion ar gyfer y cynnwys.

## *Diben CDU*

11.5 Diben CDU yw darparu cofnod o'r ADY sy'n rhwystro plentyn neu berson ifanc rhag gwireddu ei botensial addysgol, a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i oresgyn neu liniaru'r rhwystr. Hefyd, mae'r CDU yn gofnod sydd i'w ddefnyddio i fonitro ac adolygu cynnydd plentyn neu berson ifanc. Mae'n **rhaid** i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal CDU:-

- sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir gan y CDU;
- cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei darparu trwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen gwneud hynny yn ôl y cynllun; a
- (mewn perthynas ag awdurdod lleol) sicrhau'r mathau eraill o ddarpariaeth a allai gael eu pennu gan y CDU,[154] oni bai bod y CDU yn nodi bod angen i gorff y GIG sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (os felly, mae'n rhaid i gorff y GIG ei sicrhau a

[153] Adran 8 o'r Ddeddf
[154] Adrannau 10(6), 12(10) a 17(8) o'r Ddeddf.

chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod triniaeth neu wasanaeth yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'r cynllun yn nodi hynny).[155]

11.6 Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal CDU fod yn ymwybodol nad oes unrhyw werth i CDU oni bai ei fod yn arwain at ddarpariaeth lwyddiannus sy'n diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

11.7 Mae angen sicrhau bod cynnwys CDU:

- yn cael ei greu gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n cydweithio i nodi ADY y plentyn neu'r person ifanc a darparu ar eu cyfer;
- yn cael ei greu drwy gydweithio â'r plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc;
- yn cael ei ddatblygu ar sail hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
- yn cael ei ysgrifennu mewn arddull sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cynllun y plentyn neu'r person ifanc ydyw, a'i fod yn llawer mwy na rhan o'r broses weinyddol yn unig. Dylai'r arddull, a'r iaith os yn bosibl, adlewyrchu oedran y plentyn neu'r person ifanc, gan wahaniaethu'n glir rhwng yr hyn y mae plentyn wedi'i ddweud a'r hyn nad yw wedi'i ddweud;
- yn cael ei ysgrifennu mewn Cymraeg neu Saesneg clir, gan osgoi defnyddio jargon ac egluro perthnasedd unrhyw derminoleg dechnegol sydd angen ei chynnwys;
- yn cael ei adolygu fel sy'n briodol, yn unol â gofynion adrannau 21 a 22 o'r Ddeddf a Phennod 14 o'r Cod hwn.

11.8 Mae CDU plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion llai difrifol neu gymhleth yn debygol o fod yn symlach (ac felly'n fyrrach) na CDU plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth, neu anghenion llai cyffredin, sydd angen mewnbwn a chyngor arbenigol, ac sydd â CDU sy'n cynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth eang o asiantaethau ac yn nodi amrywiaeth llawer ehangach o ymyriadau.

11.9 Hefyd, mae modd cyfuno'r CDU â chynlluniau eraill fel y nodir ym Mhennod 10.

## *Cynnwys Gorfodol mewn CDU*

11.10 Mae'n **rhaid** i bob CDU gynnwys y wybodaeth a nodir isod yn is-baragraffau i-ii ac i-xi.

11.11 Hefyd, mae'n **rhaid** defnyddio'r teitlau sydd mewn llythrennau trwm ac sydd wedi'u tanlinellu fel penawdau yn y CDU.

[155] Adrannau 18(5) a 19(4) o'r Ddeddf.

DRAFT

11.12 Yr un ystyr sydd i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Bennod hon â'u hystyr yn y Ddeddf.

**Cyfrifoldeb am y CDU**

i. Enw'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU;
ii. Enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am gydlynu'r gwaith o lunio'r CDU (gweler Pennod 10) a fydd yn gweithredu fel prif unigolyn cyswllt yr ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU; Enw'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol a luniodd y CDU (os yw'n wahanol i'r corff sy'n ei gynnal ar hyn o bryd), ac enw unrhyw ysgol, SAB neu awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am ei gynnal o'r blaen (os yw'n wahanol i'r corff sy'n ei gynnal ar hyn o bryd); a

**Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol**

i. Enw llawn y plentyn neu'r person ifanc;
ii. Dyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc;
iii. Rhyw'r plentyn neu'r person ifanc;
iv. Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu ysgol, SAB neu sefydliad addysgol arall, enw'r sefydliad hwnnw ac enwau'r sefydliadau blaenorol a fynychodd y plentyn neu'r person ifanc;
v. Cyfeiriad cartref y plentyn neu'r person ifanc;
vi. Pa iaith y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei siarad gartref;
vii. Os yw plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol (at ddibenion y Ddeddf), y ffaith honno;
viii. Enw'r awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn neu'r person ifanc, os yw'r person yng ngofal yr awdurdod lleol;
ix. Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn berson a oedd yn derbyn gofal gynt gan awdurdod lleol (o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), y ffaith honno (ar yr amod, os yw'r person yn berson ifanc, ei fod yn cydsynio);
x. Mewn perthynas â phlentyn, enwau a manylion cyswllt rhieni'r plentyn (er enghraifft, cyfeiriad(au), rhif(au) ffôn a chyfeiriad(au) e-bost os ydynt ar gael);
xi. Mewn perthynas â pherson ifanc sydd wedi cydsynio i'w cynnwys, enwau a manylion cyswllt rhieni'r person ifanc (er enghraifft, cyfeiriad(au), rhif(au) ffôn a chyfeiriad(au) e-bost os ydynt ar gael).

11.13 Diben cynnwys gwybodaeth fywgraffyddol yw sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyson ar gael ledled yr asiantaethau sy'n cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc.

11.14 Fel arfer, mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw yn system rheoli gwybodaeth lleoliad addysg, a disgwylir i'r wybodaeth fywgraffyddol ar gyfer y CDU gael ei darparu ar ffurf adroddiad gan y cyfryw systemau.

DRAFT

11.15 Yn ogystal â'r gofynion gorfodol, dylai'r CDU gynnwys unrhyw ofynion cyfathrebu a/neu ofynion mynediad sy'n berthnasol i'r plentyn, y person ifanc neu ei deulu, sydd angen eu hystyried o bosibl er mwyn hwyluso eu presenoldeb neu eu cyfranogiad mewn cyfarfodydd CDU. Hefyd, gall fod yn ddefnyddiol cynnwys crynodeb o sut i gyfathrebu'n fwy cyffredinol â'r plentyn neu'r person ifanc, a sut i'w gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau.

11.16 Hefyd, dylai'r CDU gynnwys Rhif Unigryw Dysgwr y plentyn neu'r person ifanc os oes rhif wedi'i ddynodi ac os yw'n ddefnyddiol ei gynnwys.

**<u>Safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc</u>**

i. Crynodeb o safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc.[156]

11.17 Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am chwarae, iechyd, annibyniaeth, cyfathrebu, y bobl y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn eu hystyried yn bwysig iddo (teulu, ffrindiau neu staff sy'n derbyn tâl), cyfeillgarwch, dyheadau ar gyfer, er enghraifft, addysg a gyrfa, byw'n annibynnol a chyfranogiad cymunedol, neu unrhyw beth arall sy'n bwysig i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc.

11.18 Dylai'r cynllun nodi'n glir a yw'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei ddyfynnu'n uniongyrchol, naill ai ar sail rhywbeth y mae wedi'i ddweud neu ei ysgrifennu.

11.19 Os yw'r CDU yn ymwneud â pherson ifanc, gall safbwyntiau, dymuniadau a theimladau rhiant y person ifanc gael eu cofnodi yn yr adran hon hefyd, os yw hynny'n briodol ac os yw'r person ifanc yn cydsynio.

**Proffiliau Un Dudalen**

11.20 Un ffordd o ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc yw creu proffil un dudalen.

11.21 Mae'r cyfryw broffiliau yn darparu gwybodaeth allweddol am blentyn neu berson ifanc mewn fformat y mae modd ei rannu a'i ddeall yn gyflym. Maent yn disgrifio cymeriad, doniau a thalentau plentyn neu berson ifanc, yr hyn sy'n bwysig iddo a'r ffordd orau o'i gynorthwyo.

11.22 Mae proffiliau un dudalen yn cael eu datblygu a'u diwygio drwy gynnwys y plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd weithredol er mwyn sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed. Mae'r proffiliau'n creu darlun cadarnhaol a chynhwysfawr o ddiddordebau'r plentyn neu'r person ifanc, gan amlinellu'r hyn sy'n bwysig iddo a'r hyn sy'n bwysig ar ei gyfer. Gall rhieni plant o oedran

[156] Mae'n rhaid i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol ystyried y safbwyntiau hyn wrth baratoi'r CDU. Gweler Pennod 3 am ragor o wybodaeth am y ddyletswydd hon.

ysgol gorfodol helpu i ddatblygu proffiliau un dudalen, a bydd rhieni plant ifanc iawn yn darparu gwybodaeth am ddiddordebau ac anghenion cymorth y plentyn.

11.23 Bydd proffil da un dudalen yn cynnwys:

- beth mae pobl eraill yn ei barchu, ei edmygu a'i werthfawrogi ynghylch y plentyn neu'r person ifanc;
- beth sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc o'i safbwynt ei hun; a
- beth sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc o safbwynt gwrthrychol.

11.24 Mae mwy nag un ffordd o ddatblygu a chyflwyno proffil un dudalen, a dylai'r arddull a'r iaith adlewyrchu cymeriad unigol y plentyn neu'r person ifanc. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y proffil yn gweithio'n effeithiol, mae'n bwysig sicrhau bod popeth yn cael ei nodi yn gywir, yn glir ac mewn ffordd sy'n hawdd i'w darllen. Dylai'r proffil ganolbwyntio ar yr agweddau cadarnhaol a bod yn gryno ac yn benodol. Fodd bynnag, mae angen iddo gynnwys digon o fanylion fel bod unrhyw un yn gallu defnyddio'r wybodaeth yn syth.

**Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU**

i. Cofnod cryno o drafodaethau cyfarfodydd a gynhaliwyd i ddatblygu'r CDU, cyngor perthnasol a chyfoes, a manylion y rhai sydd wedi cyfrannu at ddatblygu neu adolygu'r CDU, neu sydd wedi darparu gwybodaeth neu dystiolaeth yn ymwneud â'r cynllun;

11.25 Nid oes angen i'r cofnod o drafodaethau a gynhaliwyd i ddatblygu neu adolygu'r CDU fod yn gofnod gair-am-air; bydd crynodeb o'r hyn a drafodwyd a chan bwy yn ddigon.

11.26 Bydd y cyngor neu'r dystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys adroddiadau ac asesiadau diweddar a gynhaliwyd gan yr ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y CDU a gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill, fel adroddiadau iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol. Hefyd, mae'n gallu cynnwys unrhyw ddata sy'n helpu i nodi ADY, fel data yn ymwneud â chyrhaeddiad. Gellir cynnwys yr adroddiad(au) llawn mewn atodiad.

11.27 Ar gyfer CDU sydd wedi bodoli ers cryn amser, bydd y wybodaeth hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n deillio o fonitro diweddar o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ac o olrhain data a thargedau, gan gynnwys dadansoddi a yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gofnodwyd wedi arwain at y deilliannau a fwriadwyd.

11.28 Gall fod yn ddefnyddiol trefnu'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu o dan y penawdau canlynol:

- Beth sy'n bwysig <u>i</u>'r dysgwr;
- Beth sy'n bwysig <u>ar gyfer</u> y dysgwr;

- Beth sy’n llwyddo ac angen ei ddatblygu;
- Beth sy’n methu ac angen ei newid.

11.29 Hefyd, gellid cynnwys o dan y penawdau hyn unrhyw wybodaeth sy’n deillio o unrhyw gyflwyniad neu fideo a ddangosir yn y cyfarfod CDU, neu sy’n deillio o unrhyw drafodaeth ar y cyfryw gyflwyniadau neu fideos, gan neu ar ran y plentyn neu’r person ifanc.

11.30 Os oes gan weithwyr proffesiynol, plant, rhieni plant neu bobl ifanc safbwyntiau gwahanol, mae angen eu cofnodi. Dylid eu cofnodi drwy ddefnyddio termau cyffredinol fel rhieni, athrawon neu’r uwch dîm arwain. Ni ddylid defnyddio enwau neu deitlau penodol oni bai bod yr unigolyn sy’n mynegi’r safbwynt yn dymuno hynny. Dylid defnyddio’r adran ‘Rhesymau am y Penderfyniadau a Wnaed’ i egluro’n glir sut mae’r safbwyntiau gwahanol wedi’u hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau, er enghraifft, ynghylch y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

11.31 Os yw rhieni wedi derbyn cyngor gan weithwyr proffesiynol yn uniongyrchol, mae angen ei gofnodi’n glir a’i ystyried yn briodol. Gellir ei gynnwys mewn atodiad wedyn.

**<u>Disgrifiad o ADY y plentyn neu’r person ifanc</u>**

i. Disgrifiad o ADY y plentyn neu’r person ifanc.[157]

11.32 Dylai’r disgrifiad hwn fod mor glir a chynhwysfawr â phosibl a chynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl am effaith yr angen ar ddysgu’r plentyn neu’r person ifanc. Os oes diagnosis perthnasol wedi’i wneud, dylid ei gynnwys fel rhan o’r disgrifiad. Dylai’r rhai sy’n gyfrifol am ddrafftio’r CDU sicrhau nad ydynt yn camgymryd y disgrifiad o ADY am y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu’r anghenion hynny. Mae’n bosibl y bydd y disgrifiad o ADY yn datblygu wrth wneud atgyfeiriadau a derbyn cyngor/asesiadau.

**<u>Disgrifio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn neu’r person ifanc</u>**

i. Y wybodaeth ganlynol ar gyfer pob elfen wahanol o’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gofnodir:

    - disgrifiad o’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i’w chyflwyno;
    - a yw’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i’w chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg;
    - unrhyw driniaeth neu wasanaeth sydd i’w darparu gan y GIG, ac a fyddant yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg;

[157] Adran 8 o’r Ddeddf.

- y sefydliad a fydd yn cyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol;
- enw a theitl swydd yr unigolyn cyswllt yn y sefydliad sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth;
- gwybodaeth am ba mor aml y bydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei chyflwyno (gan gynnwys, er enghraifft, cadarnhad y bydd yn cael ei chyflwyno bob dydd, ar y penwythnos, ar ddiwrnodau ysgol yn unig neu unwaith y tymor ac ati);
- dyddiad cychwyn cyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol;
- dyddiad gorffen cyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (os pennir dyddiad olaf);
- enw'r corff a fydd yn gyfrifol am ariannu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol; ac
- os oes angen cyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, y ffaith honno.

ii. Manylion unrhyw ddatgymhwysiad o ran y Cwricwlwm Cenedlaethol[158];
iii. Unrhyw ddarpariaeth arholi arbennig sydd ei hangen ac y cytunir arni i sicrhau bod gan y plentyn neu'r person ifanc fynediad llawn i'r arholiad er mwyn dangos ei gyrhaeddiad; ac
iv. Enw unrhyw ysgol a enwir gan yr awdurdod lleol at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol, yn unol ag adran 42 o'r Ddeddf, gan nodi bod yr ysgol yn cael ei henwi at y diben hwnnw.

11.33 Dylai'r wybodaeth gael ei hysgrifennu mewn iaith glir nad yw'n cynnwys jargon er mwyn ceisio sicrhau bod pawb sy'n mynychu'r cyfarfod, gan gynnwys y plentyn neu'r person ifanc, yn gallu ei deall.

11.34 Gallai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gofnodir gynnwys gweithgareddau neu fathau o gymorth amrywiol, gan gynnwys:

- gweithiwr proffesiynol yn darparu strategaeth neu hyfforddiant sy'n cael ei roi ar waith wedyn gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc o ddydd i ddydd; neu
- arweiniad neu gymorth ar gyfer y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc gan y lleoliad addysg neu eraill.

11.35 Gall y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n diwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc yn y ffordd orau fod yn wahanol gan ddibynnu ar y math o sefydliad y mae'n ei fynychu. Er enghraifft, gall darpariaeth ysgol arbennig fod yn wahanol i ddarpariaeth ysgol brif ffrwd gan fod ysgol arbennig yn cael ei threfnu'n wahanol.

11.36 Bydd y wybodaeth am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn fwy defnyddiol os yw'n cael ei chyflwyno mewn ffordd glir. Dylai'r wybodaeth fod yn fanwl, yn benodol ac yn fesuradwy. Gall yr eglurdeb hwn ddeillio o ddisgrifio'r tasgau neu'r camau gweithredu penodol; hefyd, gallai nodi'r

[158] O dan neu yn rhinwedd Deddf Addysg 2002.

hyfforddiant neu'r cymwysterau gofynnol ar gyfer aelodau staff. Ni fydd datgan y bydd cymorth yn cael ei ddarparu yn diwallu'r angen i fod yn eglur; mae'n bwysig disgrifio'r tasgau sydd i'w cyflawni neu eu hwyluso gan aelodau staff, nodi eu cyfrifoldebau, ac, os oes angen, nodi'r cymwysterau neu'r hyfforddiant gofynnol ar eu cyfer. Os oes angen defnyddio cyfarpar arbenigol, dylid ystyried unrhyw waith cynnal a chadw rheolaidd neu ddiweddariadau perthnasol, a gall fod yn ddefnyddiol eu cofnodi os ydynt yn hysbys ac wedi'u hargymell.

11.37 Bydd angen i'r wybodaeth fanwl am y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cael ei chynnwys yn y CDU gael ei chytuno ymlaen llaw gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno ac ariannu'r ddarpariaeth. Dylai'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys adlewyrchu'r cytundeb. Er enghraifft, os oes angen therapi lleferydd ac iaith ar blentyn neu berson ifanc, mae'n rhaid cael cytundeb y darparwr gwasanaeth cyn cynnwys manylion fel 'darperir cyfanswm o x sesiwn lleferydd ac iaith'.

11.38 Os yw'r corff sy'n cynnal y CDU yn penderfynu bod angen gwneud unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n **rhaid** cofnodi'r ffaith hon.[159]

11.39 Er mwyn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sicrhau'r deilliant/deilliannau arfaethedig, mae'n bosibl y bydd angen pennu targedau interim a monitro effaith y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gynnydd y plentyn neu'r person ifanc. Gallai hyn gynnwys proses barhaus o olrhain ac, os oes angen, nodi manylion unrhyw asesiad a gynhelir yn rheolaidd yn y lleoliad addysgol. Gall unrhyw bryderon sy'n cael eu mynegi o ganlyniad i'r gwaith monitro hwn arwain at adolygiad o'r CDU yn ei gyfanrwydd (gweler Pennod 14).

11.40 Fel rhan o'r drafodaeth ar bennu darpariaeth ddysgu ychwanegol, dylid trafod unrhyw ffactorau eraill, fel manylion cynnal a chadw ac yswirio unrhyw gyfarpar arbenigol, a phwy sy'n gyfrifol am y materion hyn.

11.41 **Ni ddylai** ysgolion, SAB neu awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i blentyn, rhiant neu berson ifanc dalu am unrhyw ddarpariaeth sydd angen ei sicrhau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan y Ddeddf[160].

**Deilliannau arfaethedig**

i. Cofnod o'r deilliannau arfaethedig o ganlyniad i wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn y CDU.

11.42 Dylai'r deilliannau ganolbwyntio'n gadarn ar ddyheadau'r plentyn a'i rieni neu'r person ifanc.

DRAFT

---

[159] Adrannau 10(5), 12(5), 17(4), 19(3) a 37(6) o'r Ddeddf.
[160] Adran 43 o'r Ddeddf. Nid yw hyn yn berthnasol os mai awdurdod lleol yw'r rhiant.

11.43 Dylai’r deilliannau arfaethedig ganolbwyntio ar alluogi plant a phobl ifanc i symud tuag at ddyheadau hirdymor, waeth a ydynt yn gyflogaeth neu’n addysg bellach neu uwch, byw’n annibynnol a/neu gyfranogiad cymunedol. Hefyd, gall CDU gynnwys deilliannau â ffocws ehangach, fel cydberthnasau cymdeithasol cadarnhaol a chryfder a sefydlogrwydd emosiynol.

11.44 I rai plant a phobl ifanc, gall deilliant arfaethedig ymwneud â lleihau effaith yr amharu ar eu dysgu.

11.45 Wrth gytuno deilliannau arfaethedig, mae’n hanfodol ystyried beth sy’n bwysig i’r plentyn neu’r person ifanc, a beth y mae am ei gyflawni.

11.46 Mae’n rhaid nodi’r holl ddeilliannau arfaethedig yn y CDU mewn ffordd sy’n golygu bod modd mesur a ydynt wedi’u cyflawni’n llwyddiannus, ac a ydynt yn ymarferol ac yn heriol. Er mwyn gwneud hyn, rhaid sicrhau bod deilliannau yn “CAMPUS” (Credadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol).

11.47 Dylai deilliannau arfaethedig fod yn heriol. Bydd deilliant addas ar gyfer y plentyn neu’r person ifanc yn dibynnu ar ei lefel bresennol a’i botensial dros gyfnod penodedig.

11.48 Mae canllawiau ar sut i ddatblygu deilliannau, ynghyd ag enghreifftiau, ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru, *Pecyn cymorth adolygiadau sy’n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru.*[161]

**Trosglwyddo**

11.49 Mae’r adran hon yn darparu gofod i nodi darpariaeth ddysgu ychwanegol bosibl ar gyfer y dyfodol, fel darpariaeth ddysgu ychwanegol y gallai’r plentyn neu’r person ifanc ei derbyn mewn lleoliad newydd.

11.50 Adran ddewisol yw hon ar gyfer nodi darpariaeth ddysgu ychwanegol bosibl yn y dyfodol, a all fod yn ofynnol pan fydd y dysgwr yn symud i gamau addysg eraill (e.e. o’r ysgol uwchradd i SAB).

11.51 Wrth lunio’r CDU, gall yr ysgol, y SAB neu’r awdurdod lleol nodi darpariaeth ddysgu ychwanegol benodol a fydd ei hangen o bosibl yn y dyfodol pan fydd y dysgwr yn symud i leoliad addysgol arall. Os felly, dylid cofnodi’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol bosibl yn y CDU o dan y pennawd “Trosglwyddo”.

11.52 Mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddo ar gael ym Mhennod 17.

## <u>Rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed</u>

[161] http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-cy.pdf

i. Y rhesymau dros enwi ysgol at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol, yn unol ag adran 42 o'r Ddeddf, pan fydd ysgol wedi'i henwi at y diben hwn; a
ii. Pan nad yw ysgol wedi'i henwi at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol yn unol ag adran 42 o'r Ddeddf, er bod y plentyn neu'r rhiant wedi gwneud cais am hynny, y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

11.53 Diben yr adran hon yw amlinellu pam y mae rhai penderfyniadau wedi'u gwneud, yn enwedig os oedd anghytuno ynghylch y mater. Mae'n bosibl y bydd gweithwyr proffesiynol yn anghytuno, neu fod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn anghytuno â'r gweithwyr proffesiynol, neu fod unrhyw un arall yn anghytuno. Er enghraifft, gall yr adran hon nodi bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn un adroddiad yn fwy addas i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc na'r ddarpariaeth mewn adroddiad arall.

11.54 Gallai'r adran hon gynnwys y rhesymau dros benderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, a dylai wneud hynny os oes rhesymau penodol dros benderfyniad na fyddant yn amlwg o bosibl i rywun sy'n ystyried yr achos yn y dyfodol, neu os oedd anghytuno ynghylch yr ADY neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

11.55 Os nad oes anghytuno ynghylch y mater, neu unrhyw angen arall i egluro penderfyniad, gall yr adran hon o'r CDU gyfeirio at gofnod y wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU.

**<u>Amserlen o ddigwyddiadau allweddol</u>**

i. Crynodeb o ddigwyddiadau allweddol ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc, sy'n bwysig iddo neu'n berthnasol i'w ADY, gan gynnwys:

    a. dyddiad y cyfarfod CDU arfaethedig nesaf – mae'r mis a'r flwyddyn yn ddigon, ond **rhaid** cynnwys y dyddiad llawn os yw'n hysbys;
    b. y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r CDU yn unol ag adrannau 21 neu 22 o'r Ddeddf;
    c. cofnod o ddyddiadau a threfnydd cyfarfodydd CDU blaenorol diweddar; a
    d. chofnod o'r lleoliadau addysg a fynychwyd ers y CDU cyntaf.

11.56 Os yw plentyn neu berson ifanc yn derbyn cymorth gan ei leoliad addysg yn unig, mae'n bosibl y bydd y crynodeb hwn ond yn cynnwys y dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd CDU, a dyddiadau'n ymwneud â chyrraedd neu adael lleoliadau addysg. Mae'n allweddol bwysig sicrhau bod y llinell amser yn cynnwys yr holl ddigwyddiadau sy'n arwyddocaol ac yn berthnasol i ddeall ADY y plentyn neu'r person ifanc, cynllunio'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ofynnol a helpu i nodi'r adegau pan fydd angen cynnal adolygiadau.

11.57 Dyma enghreifftiau o ddigwyddiadau posibl:

- atgyfeiriad ar gyfer asesiad/archwiliad gan weithiwr proffesiynol;
- unrhyw asesiad ynghyd â chanlyniadau a/neu gyngor;
- prawf neu arsylwad gan weithiwr proffesiynol a/neu asiantaeth neu gynghorydd allanol;
- diagnosis o gyflwr;
- salwch;
- dechrau defnyddio cyfarpar neu fewnblaniadau newydd i helpu i fanteisio ar addysg; neu
- ddigwyddiad sydd wedi cael effaith emosiynol, ymddygiadol neu effaith ar gyrhaeddiad.

11.58 Nid oes angen cofnodi'r digwyddiadau yn fanwl, ond dylid nodi'r wybodaeth ganlynol:

- beth sydd wedi digwydd neu natur y digwyddiad;
- y sefydliad/gwasanaeth/unigolyn sy'n gyfrifol am y digwyddiad, fel diagnosis, sgrinio neu brawf, lle bo hynny'n briodol; a
- dyddiad y digwyddiad.

11.59 Hefyd, bydd angen cynnwys digwyddiadau cyn datblygu'r CDU cyntaf os ydynt yn ymwneud ag ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ofynnol.

**<u>Llofnodion</u>**

i. Lle i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc lofnodi'r CDU i gadarnhau eu bod yn fodlon ag ef.
ii. Lle i'r person sy'n gyfrifol am gydlynu'r CDU lofnodi'r cynllun.

11.60 Os yw'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn gwrthod llofnodi'r CDU, bydd angen trafod eu rhesymau dros wrthod llofnodi'r ddogfen. Mae'n bosibl y bydd y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc eisiau nodi pam nad ydynt am lofnodi'r CDU. **Ni ddylai** hyn rwystro'r broses o weithredu yn unol â'r amserlenni a ragnodir.

DRAFT

# Pennod 12: Llunio CDU – Gwaith Amlasiantaeth

## *Crynodeb*

12.1 Mae'r Bennod hon yn nodi'r dyletswyddau gorfodol a ragnodir yn y Ddeddf, yn cyflwyno rhagor o ofynion ei hun, ac yn darparu canllawiau ar waith amlasiantaeth yng nghyd-destun llunio CDU, sy'n berthnasol i achosion mwy difrifol a chymhleth yn benodol. Dylid darllen y Bennod hon ochr yn ochr â Phennod 11, sy'n ymdrin â chynnwys CDU.

12.2 Mae rhai o'r asiantaethau a'r gwasanaethau mwyaf cyffredin ym maes ADY wedi'u nodi yn Atodiad C.

## *Gwaith amlasiantaeth*

12.3 Un o egwyddorion allweddol y Cod hwn yw'r angen i bawb sy'n darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY gydweithio er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc (gweler Pennod 2). Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n helpu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc gefnogi egwyddorion ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ym mhob achos, dylai pawb ystyried y posibilrwydd bod asiantaethau eraill eisoes yn cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc, a mynd ati i'w cynnwys yn briodol.

12.4 Dylai gweithwyr proffesiynol sicrhau bod y broses o rannu gwybodaeth yn y cyd-destun hwn yn cyd-fynd â gofynion Deddf Diogelu Data 1998.

12.5 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd lleoliad addysg plant neu bobl ifanc ag ADY yn gallu cyflwyno neu reoli'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mewn sefyllfa o'r fath, nid oes angen cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill neu'r awdurdod lleol yn y gwaith o ddatblygu'r CDU, ei roi ar waith o ddydd i ddydd neu ei adolygu.

12.6 Bydd plant a phobl ifanc eraill angen cymorth a darpariaeth ddysgu ychwanegol gan asiantaethau gwahanol i raddau gwahanol. Er enghraifft, gall asiantaethau allanol gynorthwyo plant a phobl ifanc i fanteisio'n llawn ar ddarpariaeth lleoliadau prif ffrwd. I'r rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth, mae'n bosibl y bydd angen mewnbwn a chymorth asiantaethau gwahanol sy'n cydweithio i roi pecyn cynhwysfawr o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar waith er mwyn diwallu anghenion plentyn neu berson ifanc.

12.7 Gall gwasanaethau arbenigol ddarparu cymorth a chefnogaeth ar ddwy lefel. Gall gwasanaethau arbenigol ddarparu cyngor a chymorth i leoliad y blynyddoedd cynnar, ysgol neu SAB ynglŷn â sut i gynorthwyo plant a phobl ifanc yn y lleoliad. Gall hyn gynnwys datrys problemau ehangach, datblygu gallu yn y lleoliad, a mynd i'r afael â'r amgylchedd. Yn ogystal â diwallu anghenion presennol, gall y dull gweithredu hwn sicrhau na fydd anghenion yn dwysau, gan osgoi'r angen am ddarpariaeth fwy dwys a chostus.



DRAFT

12.8 Yn yr un modd, gall gwasanaethau arbenigol ddarparu cyngor a chymorth ar gyfer plant neu bobl ifanc benodol. Gall ymarferydd penodol, fel seicolegydd addysg, fod yn uniongyrchol gyfrifol am y ddarpariaeth, neu gellir ei dirprwyo i aelod staff priodol. Dylai gweithiwr proffesiynol fynd ati i gynghori, llunio a goruchwylio'r ddarpariaeth berthnasol a monitro cynnydd y plentyn neu'r person ifanc. Gall y gwasanaethau hyn helpu i ddiwallu anghenion presennol unigolyn, a dylid eu defnyddio i atal anghenion yn y dyfodol.

12.9 Gall gwasanaethau arbenigol:

- helpu ysgolion a SAB i nodi a diwallu anghenion plant a phobl ifanc o bob math, gan gynnwys darparu cyngor a chymorth i wahaniaethu'r cwricwlwm a strategaethau;
- darparu hyfforddiant ar lefel ysgol gyfan/SAB cyfan ar ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc wahanol, er enghraifft, diwallu anghenion cyfathrebu drwy gefnogi dull gweithredu ysgol gyfan/SAB cyfan ym meysydd caffael iaith yn gynnar, gwahaniaethu'r cwricwlwm a rhoi strategaethau ar waith;
- darparu cyngor ar CDU a thargedau;
- helpu ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol i nodi anghenion a darparu cyngor ar y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a fydd yn cael ei gwneud, neu sy'n cael ei gwneud ar hyn o bryd;
- darparu asesiadau o anghenion mwy arbenigol er mwyn nodi'r dewisiadau cymorth;
- darparu cyngor ar gyfer y rhai sydd â nam ar y synhwyrau;
- darparu cyngor ar ddefnyddio strategaethau a deunyddiau newydd neu arbenigol a bod yn ffynhonnell ymarfer diweddaraf;
- darparu cyngor ar gyfarpar arbenigol, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion a SAB ar sut i'w ddefnyddio, ei gynnal a'i gadw, a sut i gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i'w ddefnyddio;
- cynorthwyo rhieni i'w helpu i ddeall anghenion eu plentyn a sut i'w gynorthwyo;
- datblygu gallu er mwyn gwella darpariaeth ysgolion a SAB;
- darparu cyswllt gyda sefydliadau arbenigol yn y trydydd sector;
- darparu cymorth penodol pan fydd plentyn neu berson ifanc yn trosglwyddo rhwng lleoliadau, er mwyn ei helpu i drosglwyddo'n llwyddiannus, cynghori'r lleoliadau newydd a helpu i sicrhau bod darpariaethau perthnasol ar waith ac yn gweithio'n effeithiol; a
- hwyluso cydweithio drwy ddwyn ynghyd weithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau prosesau cynllunio a darpariaeth integredig.

12.10 Os yw'n dod i'r amlwg bod diffyg arbenigedd ymysg staff mewn ysgol brif ffrwd neu SAB, dylai'r ysgol neu'r SAB ystyried gofyn am gyngor allanol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, achosion pan fydd gan y plentyn neu'r person ifanc angen llai cyffredin, fel nam ar y golwg neu'r clyw, neu'r ddau, ac nad oes gan y staff y wybodaeth na'r arbenigedd i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc yn briodol. Mewn achosion o'r fath, mae angen sicrhau cyfraniad gan

berson sy'n gymwys i addysgu disgyblion neu fyfyrwyr sydd â'r namau hyn. Bydd plant neu bobl ifanc sydd â'r cyfryw anghenion yn ymddangos ar gofrestr a gynhelir gan yr awdurdod lleol.[162]

12.11 Ar ôl penderfynu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY posibl, dylai'r corff sy'n gyfrifol am lunio CDU ystyried a oes angen mewnbwn gan asiantaethau allanol neu weithwyr proffesiynol eraill sydd â chymwysterau addas. Dylai lefel eu cyfraniad gael ei chytuno gan yr asiantaethau gwahanol. Bydd lefel yr ymgysylltiad a'r cyngor sydd eu hangen gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gwahanol yn amrywio, gan ddibynnu ar natur anghenion ac amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc. Dyma rai enghreifftiau:

- cyngor a gwybodaeth addysgol gan bennaeth neu brifathro lleoliad blynyddoedd cynnar, ysgol neu ôl-16 neu sefydliad arall y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu;
- cyngor gan swyddogion yr awdurdod lleol;
- ymgynghori ag unigolyn sy'n gymwys i addysgu plant neu bobl ifanc sydd â namau penodol, er enghraifft, nam ar y golwg a/neu nam ar y clyw;
- cyngor a gwybodaeth feddygol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n helpu i ddiwallu anghenion iechyd y plentyn neu'r person ifanc;
- cyngor a gwybodaeth seicolegol gan seicolegydd addysg, a ddylai gael ei ddarparu fel arfer gan yr awdurdod lleol os yw'r plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir; dylai'r seicolegydd addysg ymgynghori ag unrhyw seicolegwyr eraill y mae'n hysbys iddynt weithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc lle bo hynny'n briodol;
- cyngor a gwybodaeth gofal cymdeithasol gan, neu ar ran, awdurdod lleol sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc, a/neu os oes gan y plentyn gynllun gofal a chymorth gyda chydlynydd arweiniol;
- ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal – yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn, Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, aelod o staff dynodedig, a lle bo hynny'n briodol, gweithiwr iechyd proffesiynol dynodedig;
- cyngor arbenigol ar yrfaoedd i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i baratoi ar gyfer dysgu pellach, trosglwyddo i fyd oedolion a byw'n annibynnol;
- cyngor gan dîm troseddau ieuenctid os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gadw'n gaeth mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc, os yw'r person ifanc yn bwrw ei ddedfryd yn y gymuned neu os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn hysbys i'r tîm troseddau ieuenctid ac mae mewn perygl o aildroseddu (Pennod 20); ac
- o safbwynt plant aelodau'r Lluoedd Arfog, dylid gofyn am gyngor y Gwasanaeth Cynghori Addysg Plant lle bo hynny'n briodol (Pennod 20).

12.12 Dylai'r corff sy'n gyfrifol am lunio CDU ofyn i'r plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc a oes unrhyw weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'r

[162] Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

plentyn neu'r person ifanc eisoes, neu a oes unrhyw weithwyr proffesiynol neu unigolion eraill y dylid ymgynghori â nhw yn eu barn nhw. Bydd angen cynnal yr ymgynghoriad hwn mor fuan â phosibl i sicrhau bod digon o rybudd ac amser i dderbyn eu mewnbwn.

12.13 Dylai unrhyw asiantaeth sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc sydd ag ADY (neu sy'n credu y gall fod ganddo ADY) gael ei gwahodd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a diweddaru CDU. Mewn achosion mwy cymhleth, dylid gwneud pob ymdrech i symleiddio a chyfuno cynlluniau lle bo hynny'n briodol ac ar ôl derbyn cydsyniad (os oes angen) (gweler Pennod 10).

12.14 Dylai unrhyw weithwyr proffesiynol o asiantaethau allanol sy'n cyfrannu at y gwaith fod â chymwysterau addas ac, os oes modd, cael eu hawdurdodi i wneud penderfyniadau a bod yn atebol amdanynt.

12.15 Os yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o lunio'r CDU yn credu ei bod yn ofynnol cynnwys asiantaethau eraill, mae'n **rhaid** i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc eu bod wedi gofyn am gyngor asiantaethau allanol.

12.16 Fel rhan o'r broses o ddwyn ynghyd yr holl gyngor perthnasol, dylid egluro y gallai fod angen archwilio neu asesu'r plentyn neu'r person ifanc. Os oes bwriad i archwilio neu asesu plentyn, mae'n **rhaid** hysbysu rhieni am eu hawl i fod yn bresennol gyda'u plentyn yn ystod unrhyw gyfweliad, prawf, archwiliad meddygol neu asesiad arall sy'n cael ei gynnal, ac mae'n **rhaid** hysbysu rhieni am amser, lleoliad a diben unrhyw apwyntiadau.

12.17 Er bod ganddynt hawl i fod yn bresennol, dylid hysbysu rhieni y gall hynny fod yn ddiangen ac yn niweidiol i'r broses o bosibl o dan rai amgylchiadau. Hefyd, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, ni fydd eu presenoldeb er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc bob amser. Er enghraifft, os yw'r asesiad yn cynnwys arsylwi ar blentyn yn yr ystafell ddosbarth, bydd y plentyn yn ymddwyn yn wahanol os yw ei rieni yn bresennol, gan danseilio diben y gwaith arsylwi. Dylid egluro hyn i'r rhieni. Os yw rhieni yn mynychu arsylwadau, dylid nodi'r ffaith honno yn yr adroddiad.

12.18 Gall gwasanaethau cymorth allanol sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol ac asiantaethau allanol wylio'r plentyn neu'r person ifanc yn ei leoliad addysg os yw hynny'n briodol ac yn ymarferol. Gall gwasanaethau cymorth allanol ddarparu cyngor ar lunio CDU, cwblhau asesiadau mwy arbenigol i lywio gwaith cynllunio a mesur cynnydd dysgwr, darparu cyngor ar bennu targedau a strategaethau ategol, darparu cyngor ar ddefnyddio strategaethau neu ddeunyddiau newydd neu arbenigol, ac mewn rhai achosion, darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau penodol.

12.19 Wrth geisio sicrhau mewnbwn gan asiantaethau eraill, dylai'r ysgol/SAB neu'r awdurdod lleol ddarparu tystiolaeth a all fod o gymorth i'r asiantaeth. Dylai hyn gynnwys unrhyw dystiolaeth o'r ymyriadau gwahanol sydd wedi'u rhoi ar waith, data ar yr ymyriad gan gynnwys gwybodaeth am yr amserlen,

unrhyw adolygiad o'r ymyriadau, a gwybodaeth am dargedau sydd wedi'u pennu. Bydd angen rhannu unrhyw CDU sydd wedi'i lunio ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc â'r asiantaeth hefyd.

12.20 Dylai asiantaethau sydd wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod CDU wneud pob ymdrech i fynd. Mae'n bosibl y bydd angen i asiantaethau ddarparu adroddiadau a mathau eraill o wybodaeth.

## *Modelau gwaith amlasiantaeth*

12.21 Mae awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill eisoes yn darparu cymorth amlasiantaeth sy'n seiliedig ar yr egwyddor o sicrhau bod y plentyn neu'r teulu yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau. Un enghraifft yw'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r modelau gwaith amlasiantaeth hyn yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn a/neu'r teulu, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth o wasanaethau (cyfeirir at hyn yn aml fel gwaith amlasiantaeth) er mwyn cwblhau asesiad cynnar ac effeithiol i nodi anghenion ac ystyried y dull/dulliau mwyaf priodol o ddiwallu anghenion mewn ffordd integredig a holistaidd.

12.22 Os yw plentyn neu berson ifanc yn cymryd rhan yn y rhaglenni hyn a bod ganddo CDU, gall fod yn ddefnyddiol rhannu'r cynllun â'r asiantaethau perthnasol.

## *Gwasanaethau arbenigol/asiantaethau allanol*

12.23 Dylai staff mewn ysgolion a SAB weithio gyda gweithwyr proffesiynol arbenigol, ac ochr yn ochr â nhw. Bydd Cydlynwyr ADY yn darparu llawer iawn o arbenigedd, ond gallant ddod i'r casgliad bod angen rhagor o gyngor a mewnbwn gan weithwyr proffesiynol arbenigol. Dylai'r Cydlynydd ADY sicrhau bod modd ymgynghori â gweithwyr proffesiynol, rhoi unrhyw gyngor ar waith, ac ystyried unrhyw safbwyntiau, cyngor neu bryderon gwahanol.

12.24 Mae'n bosibl y bydd angen gwasanaethau arbenigol wrth bennu anghenion plentyn neu berson ifanc yn y lle cyntaf ac wrth benderfynu sut i ddiwallu'r anghenion hynny, neu os penderfynir bod angen rhagor o arbenigedd ar ôl rhoi ymyriadau eraill ar waith. Gall fod yn briodol atgyfeirio achos i wasanaeth arbenigol os oes angen mewnbwn neu gyngor sydd y tu hwnt i allu'r ysgol neu'r SAB oherwydd anghenion y plentyn neu'r person ifanc, neu os oes angen cyngor/ymgynghoriad/asesiad/ymyriad ychwanegol oherwydd nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gwneud y cynnydd disgwyliedig er bod ymyriad priodol ar waith yn yr ysgol neu'r SAB.

12.25 Mae rhai o'r asiantaethau a'r gwasanaethau mwyaf cyffredin ym maes ADY wedi'u nodi yn Atodiad C.

DRAFT

### ***Ceisiadau statudol gan awdurdodau lleol am gymorth neu wybodaeth gan gyrff cyhoeddus eraill***

12.26 Gall awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth neu gymorth gan gyrff eraill er mwyn arfer eu swyddogaeth o dan y Ddeddf.[163]

12.27 Y cyrff/unigolion yw:

- awdurdod lleol arall;
- awdurdod lleol yn Lloegr;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu sefydliad yn y sector AB yng Nghymru neu yn Lloegr;
- perchennog Academi;
- tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;
- y person sy'n gyfrifol am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG;
- Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- grŵp comisiynu clinigol;
- Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG;
- Awdurdod Iechyd Arbennig.

12.28 Mae'n **rhaid**[164] i'r cyrff hyn gydymffurfio ag unrhyw gais oni bai y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â dyletswyddau'r corff ei hun neu y byddai'n cael effaith niweidiol ar arfer ei swyddogaethau.

12.29 Os yw'r corff yn penderfynu peidio â chydymffurfio â chais yr awdurdod lleol, mae'n **rhaid** iddo ysgrifennu at yr awdurdod yn nodi'r rhesymau am ei benderfyniad.[165]

12.30 Er bod y gofyniad statudol i ymateb ond yn berthnasol i gais am gymorth neu wybodaeth gan awdurdod lleol, dylai pob cais gan ysgolion a SAB i'r cyrff uchod gael ei ystyried, a dylai'r cyrff weithredu yn rhesymol wrth ymateb iddynt.

12.31 Os yw ysgol neu SAB yn paratoi CDU ond nad yw'n gallu cael y cymorth neu'r wybodaeth ofynnol gan y cyrff cyhoeddus perthnasol, dylai'r ysgol neu'r SAB hysbysu'r awdurdod lleol. Mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod lleol dderbyn cyfrifoldeb am baratoi'r CDU ac yna ddefnyddio ei bwerau statudol i ofyn am wybodaeth gan y corff cyhoeddus perthnasol.

12.32 Cyflwynir rheoliadau sy'n nodi bod yn **rhaid** i berson sydd â dyletswydd i gydymffurfio â chais o dan yr adran hon gydymffurfio â'r cais erbyn y dyddiad a ragnodir, oni bai bod eithriad rhagnodedig yn berthnasol.

---

[163] Adran 38
[164] Adran 58(2) o'r Ddeddf
[165] Adran 58(3) o'r Ddeddf

### *Darpariaeth ddysgu ychwanegol i'w sicrhau gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG*

12.33 Bydd angen cymorth cyrff iechyd i ddiwallu anghenion rhai plant a phobl ifanc. Gall cyrff iechyd helpu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys:

- darparu cyngor i wella'r broses o nodi ADY yn effeithiol ac yn amserol;
- darparu cyngor i staff ar addasu'r amgylchedd lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn derbyn ei addysg;
- darparu cyngor ar y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w sicrhau;
- darparu cyfarpar, ymyriad uniongyrchol a darpariaeth ddysgu ychwanegol os cytunir bod angen gwneud hynny. Gall aelodau staff eraill gefnogi'r broses hon drwy roi gweithgareddau/rhaglenni therapi ar waith;
- darparu hyfforddiant ar gyfer staff mewn ysgol neu SAB i ddiwallu anghenion penodol;
- helpu i fonitro cynnydd y plentyn a darparu adroddiadau yn ôl y gofyn.

12.34 Os credir y gall corff iechyd ddarparu triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc, mae'r Ddeddf yn nodi bod awdurdod lleol neu SAB yn gallu atgyfeirio'r mater i gorff iechyd at y diben hwnnw. Mae dyletswyddau cyrff iechyd wedi'u nodi yn adrannau 18 a 19 o'r Ddeddf.

12.35 Pwy sy'n gallu gwneud atgyfeiriad?

| Atgyfeiriad yn ymwneud â | Y corff sy'n gallu gwneud atgyfeiriad |
|---|---|
| Plentyn | Awdurdod lleol |
| Person ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir | Awdurdod lleol |
| Person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir (h.y. caiff ei addysgu mewn SAB neu leoliad arbenigol) | Awdurdod lleol neu SAB (gan ddibynnu ar bwy sy'n llunio neu'n cynnal y CDU). |

12.36 Mae'n rhaid i awdurdod lleol neu SAB wneud y canlynol cyn gwneud atgyfeiriad i gorff iechyd:

- hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ei fod yn bwriadu gwneud yr atgyfeiriad;
- rhoi cyfle i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc drafod a ddylid gwneud yr atgyfeiriad;
- bodloni ei hun bod gwneud yr atgyfeiriad er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc; a
- nodi'r ADY sy'n destun cais am gyngor gan y corff iechyd.

12.37 Os caiff mater ei atgyfeirio, mae'n **rhaid**[166] i'r corff iechyd ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol ar gael sy'n debygol o helpu i ddiwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc. Os yw corff iechyd yn nodi bod y cyfryw driniaeth neu wasanaeth ar gael, mae'n **rhaid** iddo:[167]

- sicrhau'r driniaeth neu'r gwasanaeth ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc;
- penderfynu a ddylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth[168] ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- rhoi pob cam rhesymol ar waith i sicrhau bod modd darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, os yw'n penderfynu bod angen darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth i'r plentyn neu'r person ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg.

12.38 Os yw corff iechyd yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc, mae'n **rhaid**[169] iddo**:**

- hysbysu'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol a wnaeth yr atgyfeiriad am y driniaeth neu'r gwasanaeth;
- os yw'r atgyfeiriad wedi'i wneud gan gorff nad yw'n cynnal y CDU, hysbysu'r corff sy'n gyfrifol am gynnal y CDU; ac
- os yw'r corff iechyd yn credu bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, hysbysu'r rhai a restrir uchod.

12.39 Wedyn, mae'n **rhaid**[170] i'r corff sy'n cynnal y cynllun ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai darpariaeth ddysgu ychwanegol yw hon a fydd yn cael ei sicrhau gan y corff iechyd. Os yw'r corff iechyd yn credu bod angen gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy

[166] Adran 18(4) o'r Ddeddf
[167] Adran 18(5) o'r Ddeddf
[168] Ystyr "triniaeth neu wasanaeth perthnasol" yw unrhyw driniaeth neu wasanaeth y byddai corff GIG yn ei darparu/ei ddarparu fel arfer fel rhan o'r gwasanaeth iechyd cynhwysfawr yng Nghymru a nodir o dan Adran 1(1) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (c. 42)
[169] Adran 19 (1) o'r Ddeddf
[170] Adran 19 (2) o'r Ddeddf

gyfrwng y Gymraeg, mae'n **rhaid**[171] i'r corff sy'n cynnal y cynllun nodi bod y driniaeth neu'r gwasanaeth yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd angen ei gwneud trwy gyfrwng y Gymraeg.

12.40 Wedyn, mae'n **rhaid** i'r corff iechyd wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Ni ellir dileu na newid y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol heb adolygu'r CDU a heb sicrhau bod y corff iechyd yn cytuno bod angen adolygiad, neu'n gwneud cais am adolygiad. Os yw'r corff iechyd yn gwneud cais am ddileu neu newid y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'n **rhaid** i'r corff iechyd ei sicrhau, mae'n rhaid i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU wneud hynny.

12.41 Os yw Tribiwnlys Addysg Cymru yn gorchymyn bod angen diwygio CDU yn ymwneud â darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae corff iechyd am ei sicrhau, nid yw'n ofynnol i gorff iechyd sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ddiwygiedig oni bai ei fod yn cytuno gwneud hynny. Dylai asiantaethau gydweithio i ddod i gytundeb o dan y cyfryw amgylchiadau.

12.42 Er mwyn helpu cyrff iechyd i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf, mae'n rhaid[172] iddynt ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r bwrdd iechyd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc ag ADY. Cyfeirir at yr unigolyn hwn fel y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg.

## *Y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)*

### Trosolwg o'r SACDA

12.43 Mae'n **rhaid** i Fyrddau Iechyd yng Nghymru ddynodi swyddog (y 'SACDA') i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd ag ADY[173].
12.44 Dylai'r SACDA oruchwylio gwasanaethau iechyd y Byrddau Iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 24 oed sydd ag ADY. Bydd hyn yn cynnwys:

- cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei swyddogaeth i gydweithio â gwasanaethau eraill i hyrwyddo deilliannau gwell ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc mewn addysg sydd ag ADY;
- gweithredu mewn ffordd strategol i hyrwyddo ADY yn y Bwrdd Iechyd a hybu dulliau newydd o weithio a rhannu arferion gorau;
- sicrhau dull strategol a chyson o nodi, asesu, cynllunio, cyflwyno a monitro CDU;

[171] Adran 19 (3) o'r Ddeddf
[172] Adran 55(1) o'r Ddeddf.
[173] Adran 55(1) o'r Ddeddf.

DRAFT

- rheoli a monitro cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd ym maes ADY;
- mesur llwyddiant ymyriadau'r Bwrdd Iechyd.

12.45 Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddynodi SACDA sydd, yn ei farn ef, â chymwysterau a phrofiad addas mewn darparu gofal iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY:

- Dylai'r SACDA fod â phrofiad ar lefel uwch arweiniol yn y gwasanaeth iechyd, a dylai allu darparu cyfeiriad strategol cyffredinol i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau statudol ym maes ADY, nodi a datrys problemau a gwrthdaro mor gynnar â phosibl, ac uwchgyfeirio problemau fel sy'n briodol.
- Mae'n **rhaid** i'r swyddog fod yn ymarferydd meddygol cofrestredig, yn nyrs gofrestredig neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arall (aelod o'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal neu PHReg).
- Dylai'r swyddog fod â phrofiad lefel uwch mewn agwedd ar ofal iechyd sy'n berthnasol i ADY drwy brofiad o weithio mewn maes gofal iechyd, fel Meddygol (gofal sylfaenol neu ofal eilaidd), Nyrsio, Bydwreigiaeth, Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, neu Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd.

12.46 Dylai'r SACDA adrodd i Swyddog sy'n Aelod o'r Bwrdd Iechyd. Gall y Swyddog ddirprwyo goruchwyliaeth weithredol o'r SACDA, ond bydd y Swyddog yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol ar lefel Bwrdd. Dylai'r trefniadau hyn gael eu rhoi ar waith fel rhan o'r trefniadau gweithredol presennol.

12.47 Dylai'r amser a neilltuir ar gyfer cyflawni rôl y SACDA gael ei lywio gan nifer y plant a phobl ifanc yn ardal y Bwrdd Iechyd sydd ag ADY, a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gytuno ar yr amser a neilltuir. Mae rolau tebyg yn awgrymu bod angen neilltuo 1 diwrnod fesul 40,000 o blant a phobl ifanc yn yr ardal.

12.48 Mae rôl y SACDA yn cynnwys swyddogaethau strategol a chydlynu sydd angen cael eu cyflawni gan y SACDA. Fodd bynnag, ni ddylai'r SACDA gyfrannu at CDU pob plentyn, felly bydd angen iddo ddirprwyo swyddogaethau gweithredol i wasanaeth priodol yn y Bwrdd Iechyd, yn enwedig os oes angen gwybodaeth dechnegol am bwnc penodol, neu os yw gweithiwr iechyd proffesiynol eisoes yn cyfrannu at ofal plentyn.

**Gweithio mewn partneriaeth**

12.49 Dylai'r SACDA weithio mewn partneriaeth a chydweithio â gwasanaethau eraill i hyrwyddo deilliannau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc mewn addysg sydd ag ADY, drwy hyrwyddo gwaith amlasiantaeth effeithiol

DRAFT

rhwng gweithwyr iechyd (gofal sylfaenol a gofal eilaidd), iechyd y cyhoedd, adrannau addysg a gofal cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaethau a'r trydydd sector.
12.50 Dylai'r SACDA weithio ledled y Bwrdd Iechyd a chynnwys pob gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau iechyd a gytunwyd mewn CDU yn holistaidd, yn ddarbodus ac yn cael eu rhoi ar waith maes o law gan weithwyr iechyd proffesiynol.

12.51 Dylai'r SACDA weithio gyda gwasanaethau plant ac oedolion i sicrhau bod trefniadau trosglwyddo llwyddiannus ar waith ar gyfer plant.

12.52 Dylai'r SACDA gyfrannu at gymuned ymarfer, gan gysylltu â SACDA mewn Byrddau Iechyd eraill i hyrwyddo dulliau gwaith newydd, rhannu arferion gorau a dysgu gan bobl eraill.

12.53 Dylai'r SACDA gydweithio â swyddogion cyfatebol ledled Cymru i sefydlu llwybrau gofal clir a chyson ar gyfer plant ag ADY ledled Cymru, gan leihau anghydraddoldeb rhwng ardaloedd byrddau iechyd, yn enwedig ar gyfer unigolion sy'n symud neu sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w hardal.

**Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)**

12.54 Dylai'r SACDA sicrhau bod systemau effeithlon a chyson ar waith fel bod gweithwyr iechyd proffesiynol (gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, pediatreg cymunedol, gwasanaethau anableddau dysgu, a thimau gofal sylfaenol gan gynnwys meddygon teulu, ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol) yn gallu cwblhau asesiadau priodol ac amserol, gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth ar gyfer ymyriadau effeithiol, darparu gwasanaethau iechyd y cytunir arnynt, monitro deilliannau, a sicrhau ansawdd cyngor er mwyn lleihau gwahaniaethau rhwng ymarfer a hyrwyddo disgwyliadau realistig. Dylai hyn gynnwys:

- ystyried sut mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu cyfrannu mewn ffordd ragweithiol at ddatblygu CDU (os oes angen mewnbwn, cymorth a chyngor gweithwyr iechyd proffesiynol);
- cynorthwyo awdurdodau lleol i dderbyn cyngor ar iechyd, os oes angen y cyfryw gyngor i ddatblygu neu adolygu CDU, drwy sicrhau bod anghenion a deilliannau addysgol yn cael eu nodi'n glir, a bod ymyriadau realistig, penodol dros gyfnod penodedig yn cael eu cynllunio ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc;
- derbyn cyfrifoldeb am reoli ymateb Byrddau Iechyd i geisiadau am gymorth gan awdurdodau lleol sy'n cael eu gwneud o dan adran 58 o'r Ddeddf (gweler Pennod 12), er enghraifft, drwy roi system rheoli atgyfeiriadau ar waith i gydlynu a rheoli achosion a sicrhau bod ymatebion yn cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol yn yr adran honno a'r rheoliadau a wnaed oddi tani;

DRAFT

- gweithio gydag awdurdodau lleol wrth arfer y pwerau a'r dyletswyddau yn adran 18 o'r Ddeddf, gan gynnwys yn benodol:
    - cytuno'r ddarpariaeth y dylai'r Bwrdd Iechyd ei sicrhau ar gyfer CDU wrth gyflawni ei rwymedigaeth gyffredinol i ddarparu gwasanaeth iechyd cynhwysfawr yng Nghymru;
    - gweithredu mewn ffordd gyson wrth wneud y cyfryw benderfyniadau; a
    - sicrhau bod dyletswydd gyfreithiol y Bwrdd Iechyd i sicrhau'r triniaethau a'r gwasanaethau gofynnol yn cael ei chyflawni.

**Rheoli cwynion, anghydfodau ac apelau i'r Tribiwnlysoedd**

12.55 Bydd galluoedd datrys problemau a negodi cadarn a sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol i sicrhau bod y SACDA yn gallu dod o hyd i atebion arloesol a chydweithredol a'u rhoi ar waith ledled asiantaethau a gwasanaethau yn y Bwrdd Iechyd.

12.56 Dylai'r SACDA gyflwyno proses i reoli anghydfodau a chwynion cam cyntaf yn ymwneud â darpariaeth iechyd ar gyfer ADY, sicrhau ail farn neu farn arbenigol, ac uwchgyfeirio unrhyw broblemau na ellir eu datrys yn y Bwrdd Iechyd fel sy'n briodol.

12.57 Hefyd, dylai'r SACDA gynorthwyo trefniadau datrys anghydfodau (gweler Pennod 18). Os yw awdurdod lleol yn credu y byddai'n fanteisiol i gorff iechyd gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau, dylai gysylltu â'r SACDA perthnasol i ofyn am ei gyngor.

12.58 Hefyd, dylai'r SACDA gyfrannu at achosion sy'n mynd i'r Tribiwnlys, gan gynnwys cefnogi'r awdurdod lleol, darparu tystiolaeth ei hun a goruchwylio ymgysylltiad cyffredinol Byrddau Iechyd ag apelau.

**Mesur llwyddiant**

12.59 Dylai'r SACDA sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu prosesau i gasglu a dadansoddi data cadarn i fesur cydymffurfiaeth a sicrwydd ansawdd gweithgareddau Byrddau Iechyd yn ymwneud â phlant sydd ag ADY. Dylai mesurau llwyddiant gynnwys monitro'r canlynol:

- Adborth gan blant, pobl ifanc a rhieni;
- Deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc;
- Mesurau o effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth;
- Nifer y cwynion, anghydfodau ac apelau i'r Tribiwnlys, a faint o amser oedd ei angen i'w datrys.

**Anghenion gofal iechyd**

12.60 Ceir gorgyffwrdd rhwng plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd mewn ysgolion a phlant ag ADY mewn ysgolion. Yn y cyswllt hwn, dylai'r SACDA hyrwyddo dulliau effeithiol o gydgysylltu cymorth iechyd ar gyfer plant ag anghenion gofal iechyd mewn ysgolion. Dylai'r SACDA sicrhau ei fod yn goruchwylio ac yn hyrwyddo'r defnydd o ymyriadau ysgol gyfan neu ystafell ddosbarth sy'n ceisio gwella deilliannau a lleihau anghydraddoldebau.

12.61 Dylai'r SACDA hyrwyddo a chynghori ar unrhyw ymyriadau iechyd y cyhoedd a all effeithio ar ddysgu, fel darpariaeth brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd, dewisiadau bwyd ysgol iach ac ymarfer corff, ac ymyriadau sy'n ceisio gwella datblygiad iaith, ymddygiad, cyfnod canolbwyntio, iechyd meddwl neu agweddau eraill ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a llesiant.

DRAFT

# Pennod 13: Ystyriaethau ar gyfer Awdurdodau Lleol wrth baratoi CDU

## *Crynodeb*

13.1 Mae awdurdodau lleol yn debygol o fod yn gyfrifol am lunio CDU plant a phobl ifanc sydd ag ADY mwy difrifol neu gymhleth – yn enwedig mewn achosion sydd wedi'u hatgyfeirio gan ysgolion a SAB. Dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar anghenion ac amgylchiadau unigol y plentyn neu'r person ifanc bob amser wrth lunio'r CDU. Fodd bynnag, bydd angen iddynt roi sylw i ystyriaethau penodol eraill – sy'n seiliedig ar ddarpariaethau yn y Ddeddf – yn ymwneud yn benodol â'r lleoliad addysg y bydd yr unigolyn yn ei fynychu. Mae'r Bennod hon yn cynnwys rhagor o wybodaeth am rai o'r materion hyn.

## *Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir*

13.2 Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir[174], hynny yw, mewn ysgol gymunedol, sefydledig, gwirfoddol neu ysgol feithrin a gynhelir, ond nid mewn ysgol arbennig neu uned cyfeirio disgyblion. Mae hyn yn adlewyrchu'r safbwynt y bydd addysg brif ffrwd er budd pennaf y plentyn yn y rhan fwyaf o achosion.

13.3 Mae'r ddyletswydd hon yn sylfaen i'r agwedd gynhwysol at addysg y mae angen i awdurdodau lleol ei mabwysiadu bob amser, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth bod presenoldeb a chyfranogiad pob dysgwr yn y gymuned ysgol/ystafell ddosbarth yn gwella ansawdd y profiad addysgol, ar gyfer unigolion a'r gymuned ysgol/ystafell ddosbarth yn ei chyfanrwydd. Wrth roi'r dull gweithredu hwn ar waith, dylai awdurdodau lleol gofio bod cynhwysedd yn golygu llawer mwy na phresenoldeb corfforol plentyn mewn ystafell ddosbarth neu ysgol brif ffrwd. Mae angen canolbwyntio ar sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan mor llawn â phosibl yn yr holl wersi a gweithgareddau bob dydd arferol, lle bo hynny'n briodol.

13.4 Ceir pedwar eithriad i hyn[175]:

- bod addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;
- bod addysgu'r plentyn mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol, er lles pennaf y plentyn ac yn gydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;
- bod rhiant y plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir;
- unrhyw eithriadau a ragnodir mewn rheoliadau.

[174] Adran 45 o'r Ddeddf, ac fel y'i diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf.
[175] Adran 45(2) o'r Ddeddf.

13.5 Ni all awdurdod lleol ddibynnu ar yr eithriad cyntaf y cyfeiriwyd ato uchod oni bai nad oes unrhyw gamau rhesymol y gallai'r awdurdod eu cymryd i atal yr anghydnawsedd[176]. Felly, os oes camau rhesymol y gallai awdurdod lleol eu cymryd i sicrhau nad oedd lleoli plentyn mewn ysgol brif ffrwd yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol gymryd y camau hynny, yn hytrach na lleoli plentyn mewn ysgol nas cynhelir.

13.6 Bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gam rhesymol yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos unigol, ond dyma rai o'r ffactorau a all gael eu hystyried:

- a fyddai cymryd y cam yn ddull effeithiol i ddileu'r anghydnawsedd;
- i ba raddau y mae'n ymarferol i'r awdurdod lleol gymryd y cam;
- i ba raddau y mae camau eisoes wedi'u cymryd mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc penodol, a pha mor effeithiol oedd y camau hynny;
- y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau o safbwynt adnoddau eraill sy'n deillio o gymryd y cam, yn benodol a fyddai'r cam yn arwain at newid anghymesur mewn adnoddau tuag at ddiwallu anghenion un dysgwr, gyda'r posibilrwydd o amharu ar addysg plant eraill;
- graddau unrhyw amharu a fyddai'n deillio o gymryd y cam; ac
- i ba raddau y mae'r cam yn gydnaws ag anghenion y plentyn - er enghraifft, mewn rhai achosion o blant ag ADY, gall darparu cymorth un i un llawnamser hwyluso presenoldeb plentyn mewn ysgol neu ystafell ddosbarth brif ffrwd, ond byddai'n atgyfnerthu dibyniaeth ac yn amharu ar y broses o fagu annibyniaeth.

13.7 Mewn rhai amgylchiadau mae'n anochel na fydd unrhyw gamau rhesymol ar gael i sicrhau na fydd lleoli plentyn mewn lleoliad prif ffrwd yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill (er enghraifft, os yw ymddygiad y plentyn yn bygwth diogelwch a/neu'n amharu ar ddysgu eraill mewn ffordd systematig, gyson neu sylweddol).

13.8 Fodd bynnag, mae angen ystyried yn ofalus bob amser cyn penderfynu peidio ag addysgu plentyn mewn lleoliad prif ffrwd, yn enwedig os yw'n well gan y plentyn neu ei riant fod y plentyn yn derbyn addysg mewn ysgol brif ffrwd. Mae'n bwysig bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar sail amgylchiadau achosion unigol, gan ystyried safbwyntiau'r plentyn neu rieni'r plentyn. Gall safbwyntiau seicolegwyr addysg a gweithwyr proffesiynol arbenigol eraill fod yn berthnasol i achosion penodol hefyd.

13.9 Mae dyletswydd yr awdurdod lleol i roi sylw i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant yn berthnasol i'r un graddau yn y cyswllt hwn.[177] Felly, un ystyriaeth berthnasol ar gyfer awdurdod lleol sy'n penderfynu na fydd plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yw a yw'r plentyn neu ei riant yn mynegi'r cyfryw safbwynt, dymuniad neu deimlad. Os yw'r

[176] Adran 45(3) o'r Ddeddf.
[177] Adran 6 o'r Ddeddf.

plentyn neu ei riant yn mynegi'r cyfryw safbwynt, bydd angen i'r awdurdod lleol ei ystyried ochr yn ochr â ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys gallu'r lleoliad i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol, ac a fyddai'r cyfryw addysg brif ffrwd yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill.

13.10 Nid yw plant yn cael eu hatal rhag cael eu haddysgu mewn ysgol annibynnol, neu mewn ysgol a gymeradwyir o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 (h.y. ysgol arbennig nas cynhelir), os telir y gost ac eithrio gan awdurdod lleol[178].

13.11 Hefyd, pan fod plentyn ag ADY yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yng Nghymru, mae'n **rhaid** i'r rhai sy'n ymwneud â gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer y plentyn sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ar y cyd â phlant nad oes ganddynt ADY.[179] Nid yw'r ddyletswydd hon ond yn berthnasol i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol a'i bod yn gydnaws â'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ADY y plentyn yn galw amdani; darparu addysg effeithlon ar gyfer y plant y caiff ei addysgu gyda hwy, a'r defnydd effeithlon o adnoddau.[180]

## *Enwi ysgol a gynhelir at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol*

13.12 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd plant ag ADY yn gallu derbyn y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arnynt mewn unrhyw ysgol a gynhelir. Fodd bynnag, bydd natur anghenion rhai plant yn golygu bod angen sicrhau lle iddynt mewn ysgol benodol a gynhelir. Gall awdurdodau lleol enwi ysgol a gynhelir yng Nghymru mewn CDU at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol honno. Cyfeirir at hyn isod fel 'enwi ysgol'. Wrth reswm, bydd y CDU yn cyfeirio at ysgolion neu sefydliadau addysgol eraill lle bydd y plentyn neu'r person ifanc yn derbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol am resymau eraill, felly os yw awdurdod lleol yn enwi ysgol *at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn iddi*, mae'n rhaid nodi hynny'n glir yn y CDU.

### *Y Prawf i'w Ystyried*

13.13 Mae'n **rhaid** i awdurdod lleol fodloni'r ddau amod isod cyn enwi ysgol a gynhelir at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol[181]:

- Yn gyntaf, mae'n **rhaid** bod yr awdurdod lleol wedi'i fodloni ei bod, er lles y plentyn, yn ofynnol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn ei CDU gael ei gwneud yn yr ysgol honno.[182]

[178] Adran 45(5) o'r Ddeddf.
[179] Adran 41 o'r Ddeddf.
[180] Adran 41 o'r Ddeddf.
[181] Adran 42 o'r Ddeddf.
[182] Adran 42(4)(a) o'r Ddeddf.

- Yn ail, mae'n **rhaid** sicrhau ei bod yn briodol darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn yn yr ysgol honno[183].

13.14 Wrth ystyried y mater, dylai awdurdodau lleol ystyried y canlynol:

- a oes gan yr ysgol yr arbenigedd gofynnol mewn darpariaeth lai cyffredin, fel nam ar y golwg neu nam ar y clyw;
- a oes gan yr ysgol aelodau staff sydd ag arbenigedd neu hyfforddiant arbenigol;
- a fyddai'n afresymol i ysgol fwy lleol gyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn; ac
- a yw nodweddion penodol yr ysgol yn ei gwneud yn arbennig o addas i wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ofynnol – gallai hyn gynnwys amrywiaeth o faterion gwahanol, gan gynnwys nodweddion ffisegol yr ysgol.

13.15 Os nad oes modd bodloni'r amodau a nodir yn adran 42(4), **ni ddylai'r** awdurdod lleol enwi'r ysgol.

13.16 Os yw awdurdod lleol yn enwi ysgol, mae'n **rhaid** iddo nodi ei resymau dros wneud hynny yn y CDU.

13.17 Os yw plentyn neu ei riant wedi gofyn i'r awdurdod lleol enwi ysgol ond bod yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â gwneud hynny, mae'n **rhaid** iddo nodi ei resymau dros beidio â gwneud hynny yn y CDU.

### *Dyletswyddau ac Ymgynghori â'r Ysgol ac Awdurdodau Lleol*

13.18 Os yw'r awdurdod lleol yn cynnig enwi ysgol a gynhelir, mae'n **rhaid** iddo ymgynghori â'r ysgol (a'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r ysgol, os mai hwnnw yw'r awdurdod derbyn) cyn gwneud hynny[184]. Os yw'r ysgol wedi'i lleoli mewn ardal awdurdod lleol arall, ond mai'r corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol, dylai'r awdurdod lleol arall gael ei hysbysu gan yr awdurdod lleol cartref sy'n llunio'r CDU ei fod yn ystyried enwi'r ysgol p'run bynnag.

13.19 Dylai'r awdurdod lleol ystyried unrhyw sylwadau gan y corff llywodraethu a'r awdurdod lleol arall yn ofalus. Yn benodol, dylai asesu'n ofalus a fyddai derbyn y plentyn yn golygu bod nifer y disgyblion yn y flwyddyn yn uwch na nifer y derbyniadau a ganiateir yn yr ysgol, ac ystyried unrhyw effaith andwyol bosibl ar ddarparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon[185].

[183] Adran 42(4)(b) o'r Ddeddf.
[184] Adran 42(3) o'r Ddeddf.
[185] Mae Adran 86(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Phennod 3 o'r Cod Derbyn i Ysgolion (rhif dogfen Cod Statudol: 005/2013) yn darparu rhagor o wybodaeth am 'nifer derbyniadau'.

13.20 Os caiff ysgol a gynhelir yng Nghymru ei henwi, mae'n **rhaid** i gorff llywodraethu'r ysgol dderbyn y plentyn[186] waeth beth yw dyletswydd y corff llywodraethu ynglŷn â therfynau statudol ar faint dosbarthiadau babanod[187]. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw bŵer gan gorff llywodraethu i wahardd dysgwr o ysgol[188].

## *Lleoliadau mewn Ysgolion Annibynnol*

13.21 Weithiau, ni fydd modd i ysgol a gynhelir ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc oherwydd natur yr anghenion. Mewn sefyllfa o'r fath, gall yr awdurdod lleol gredu ei bod yn briodol i'r unigolyn fynychu ysgol annibynnol.

13.22 Mae adran 49 o'r Ddeddf yn pennu'r amgylchiadau lle y gall awdurdod lleol ariannu lleoliad mewn ysgol annibynnol neu sefydliad addysg annibynnol ar gyfer plentyn ag ADY.

<u>Os yw'r ysgol annibynnol yng Nghymru</u>

13.23 Mae'n rhaid bodloni dau amod allweddol:

- Yn gyntaf, mae'n rhaid bod yr ysgol wedi'i chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru.[189]

- Yn ail, mae'n rhaid bod yr awdurdod lleol wedi'i fodloni y gall yr ysgol wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc.[190]

13.24 Os bodlonir yr amodau uchod, gall yr awdurdod lleol benderfynu bod y lleoliad yn briodol – bydd manylion y lleoliad yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cael ei disgrifio yn y CDU. Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cael ei disgrifio yn y CDU, ynghyd ag unrhyw fwyd a llety,[191] ac **ni ddylai** godi tâl ar yr unigolyn neu'r rhieni am hyn.[192]

<u>Os yw'r sefydliad addysg annibynnol yn Lloegr</u>

13.25 Mae amod tebyg yn berthnasol ar gyfer lleoliadau mewn sefydliadau addysg annibynnol yn Lloegr;[193]

---

[186] Adran 42(2) o'r Ddeddf.
[187] Adran 42(5) o'r Ddeddf.
[188] Adran 42(6) o'r Ddeddf.
[189] Mae'r Ddeddf yn diwygio Deddf Addysg 2002 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru – dylai awdurdodau lleol gyfeirio at y ddogfen hon. Bydd y rhestr yn pennu'r math neu'r mathau o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir gan ysgol ar gyfer dysgwyr ag ADY (os o gwbl) os yw'r wybodaeth hon wedi'i chyflwyno gan berchennog yr ysgol ac adran 48 o'r Ddeddf.
[190] Adran 49(1)(b) o'r Ddeddf.
[191] Adran 17(6) o'r Ddeddf.
[192] Adran 43 o'r Ddeddf.
[193] Adran 49 o'r Ddeddf.

- Mae'n **rhaid** bod y sefydliad wedi'i gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysg annibynnol yn Lloegr.

- Mae'n **rhaid** bod yr awdurdod lleol wedi'i fodloni y gall y sefydliad gyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc.

13.26 Os yw rhiant neu blentyn eisiau dewis ysgol annibynnol ond bod yr awdurdod lleol wedi'i fodloni bod modd diwallu anghenion y plentyn mewn lleoliad addysg a gynhelir, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ariannu lle'r dysgwr yn yr ysgol annibynnol. Fodd bynnag, mewn sefyllfa o'r fath, dylai'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn egluro'n llawn i'r rhiant a'r plentyn sut y gellir diwallu anghenion y dysgwr heb osod y plentyn mewn ysgol annibynnol, er enghraifft, drwy dalu am gludiant yn ôl ac ymlaen o'r lleoliad addysg a gynhelir.

13.27 Os yw awdurdod lleol yn ystyried a ddylai osod y plentyn neu'r person ifanc mewn ysgol annibynnol, dylai ystyried y canlynol:

- a yw'r dystiolaeth yn dangos bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc ar gael yn yr ysgol annibynnol honno yn unig;

- a yw'r dystiolaeth yn dangos bod modd darparu elfen hanfodol o addysg a hyfforddiant plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad preswyl yn unig;

- a yw'r plentyn neu'r person ifanc angen lleoliad addysgol sydd â chwricwlwm estynedig na ellir ei ddarparu yn rhywle nad yw'n lleoliad preswyl;

- a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion meddygol a/neu anghenion gofal cymdeithasol na ellir eu diwallu gan, neu ar y cyd â, darparwyr lleol mewn lleoliad addysg prif ffrwd, ac a fyddai'n atal yr unigolyn rhag derbyn addysg neu hyfforddiant addas i ddiwallu ei anghenion penodol;

- a fyddai sicrhau'r ddarpariaeth yn gydnaws ag osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

### *Lleoliadau mewn Sefydliadau Ôl-16 Arbenigol Annibynnol*

13.28 Er y bydd SAB prif ffrwd yn gallu cyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion rhesymol addysg a hyfforddiant y rhan fwyaf o bobl ifanc ag ADY, bydd rhai pobl ifanc angen lle mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol i sicrhau bod eu hanghenion rhesymol yn cael eu diwallu. Bydd dysgwr ag angen rhesymol am addysg neu

DRAFT

hyfforddiant pellach os yw darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'i angen dysgu ychwanegol yn sicrhau bod ei gynnydd yn parhau tuag at wireddu ei botensial llawn, neu os yw'r un ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant ar gael i rywun o'r un oed mewn SAB.

13.29 Wrth benderfynu a oes angen lleoli person ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, dylai'r awdurdod lleol weithio gyda SAB ac ysgolion.

13.30 Mae sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yn sefydliadau sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ac sydd wedi'u trefnu'n arbennig i ddarparu addysg a/neu hyfforddiant ar gyfer unigolion ag ADY.[194]

13.31 *Nid* yw'r canlynol yn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol:

- sefydliad yn y sector AB;
- ysgol annibynnol sydd wedi'i chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru;
- sefydliad addysgol annibynnol sydd wedi'i gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr; neu
- Academi 16 i 19.

13.32 **Ni all** awdurdodau lleol sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer person ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr oni bai bod y sefydliad wedi'i gynnwys yn y rhestr o'r cyfryw sefydliadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru[195].

13.33 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu bod lleoliad mewn sefydliad ôl-16 annibynnol yn briodol, bydd manylion y lleoliad yn ffurfio rhan o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cael ei disgrifio yn y CDU. Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cael ei disgrifio yn y CDU, ynghyd ag unrhyw fwyd a llety cysylltiedig[196] (os oes angen) ac **ni ddylai** godi tâl ar yr unigolyn neu ei rieni am hyn[197]. Gall y cyfryw leoliadau fod o fudd penodol i bobl ifanc sydd ag anghenion mwy dwys a chymhleth.

13.34 Cyn penderfynu a yw'n ofynnol darparu lle mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, bydd rhaid i awdurdodau lleol ddeall y ddarpariaeth arbenigol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion y person ifanc. Os nad yw SAB prif ffrwd yn gallu diwallu anghenion y person ifanc, dylid ystyried sicrhau lle iddo mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

13.35 Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried addasrwydd a chynaliadwyedd lleoliad a ariennir mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol dros holl gyfnod y rhaglen astudio cyn iddi gychwyn. Dylid ystyried manteision addysgol y rhaglen astudio ar gyfer y person ifanc. Ar ôl i raglen ddysgu gychwyn, dylai'r

DRAFT

---

[194] Mae adran 50(6) o'r Ddeddf yn diffinio 'sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol'
[195] Adran 50(3) o'r Ddeddf.
[196] Adran 12(6) o'r Ddeddf.
[197] Adran 43 o'r Ddeddf.

awdurdod lleol barhau i ariannu'r lleoliad dros holl gyfnod y rhaglen. Gall peidio â gwneud hyn arwain at wastraffu adnoddau a pheri pryder a dryswch i'r person ifanc.

13.36 Mewn llawer o achosion, bydd lleoliadau mewn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yn lleoliadau preswyl. Yn yr achosion hyn, bydd y gofynion a'r canllawiau isod ar gyfer lleoliadau preswyl yn berthnasol.

13.37 Wrth ystyried a yw lle mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn addas, dylai'r awdurdod lleol ystyried y canlynol:

- a yw'r dystiolaeth yn dangos bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu ADY y person ifanc ar gael mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn unig;

- a yw'r dystiolaeth yn dangos bod modd darparu elfen hanfodol o addysg a hyfforddiant y person ifanc mewn lleoliad preswyl yn unig;

- a yw'r person ifanc angen lleoliad addysgol sydd â chwricwlwm estynedig na ellir ei ddarparu yn rhywle nad yw'n lleoliad preswyl;

- a oes gan y person ifanc anghenion meddygol a/neu anghenion gofal cymdeithasol na ellir eu diwallu gan, neu ar y cyd â, darparwyr lleol mewn lleoliad addysg prif ffrwd, ac a fyddai'n atal yr unigolyn rhag derbyn addysg neu hyfforddiant addas i ddiwallu ei anghenion penodol;

- a yw'r deilliannau addysgol neu hyfforddiant a nodwyd neu a nodir yn CDU y person ifanc wedi'u cyflawni, ac a fyddai aros mewn addysg neu hyfforddiant yn galluogi'r person ifanc i wneud cynnydd a chyflawni'r deilliannau hynny;

- a oes angen amser ychwanegol ar y person ifanc, o'i gymharu â'r rhan fwyaf o bobl eraill o'r un oedran nad oes ganddynt ADY, i gwblhau ei addysg a hyfforddiant;

- a fyddai sicrhau'r ddarpariaeth yn gydnaws ag osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

## *Lleoliadau Preswyl*

13.38 Bydd angen lleoliad preswyl mewn ysgol neu sefydliad arall ar rai plant a phobl ifanc oherwydd natur eu hanghenion. Cyn penderfynu bod hyn yn briodol, bydd angen ystyried yr holl amgylchiadau, ac o ystyried y gall fod yn ofynnol i'r plentyn neu'r person ifanc breswylio yn bell oddi wrth ei deulu, bydd y ddyletswydd i gynnwys a chynorthwyo plant, eu rhieni a phobl ifanc (sy'n cael ei disgrifio ym Mhennod 3) yn bwysig iawn.

13.39 Os yw'r awdurdod lleol wedi'i fodloni, ar ôl ystyried holl amgylchiadau perthnasol yr achos penodol, na ellir diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol heb sicrhau darpariaeth bwyd a llety hefyd, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol gynnwys disgrifiad o hyn yn y CDU[198].

13.40 Wrth benderfynu a oes angen bwyd a llety, dylai awdurdodau lleol ystyried y ffactorau canlynol:

- a oes modd diwallu anghenion rhesymol y plentyn neu'r person ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gan ddarpariaeth ddydd leol;
- a oes angen rhaglen gyson ar y plentyn neu'r person ifanc yn ystod ac ar ôl oriau ysgol na ellir ei darparu gan rieni ac ysgol brif ffrwd gyda chymorth asiantaethau eraill.

13.41 Os penderfynir sicrhau lleoliad preswyl, dylai trefniadau cymorth gael eu rhoi ar waith hefyd, gan gynnwys cyswllt y plentyn neu'r person ifanc â'i deulu.

13.42 Bydd angen cydgysylltu unrhyw wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen ochr yn ochr ag addysg, darpariaeth ddysgu ychwanegol a bwyd a llety o'r cychwyn cyntaf. Gall hyn gynnwys:

- gofal iechyd;
- gofal personol;
- gofal cymdeithasol; a
- chludiant (gweler Pennod 10 ac Atodiad B).

13.43 Bydd gwaith amlasiantaeth a gwaith ar draws adrannau yn hynod bwysig yn y maes hwn. Yn benodol, dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried trefniadau cyllido ar y cyd priodol, a dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig yn fewnol wrth gyllido elfennau addysg a gofal cymdeithasol y lleoliad[199].

13.44 Os yw lleoliad preswyl plentyn neu berson ifanc mewn ysgol neu sefydliad y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, dylai'r awdurdod lleol ystyried pa wybodaeth y bydd darparwyr gwasanaethau lleol sy'n gweithredu yn yr ardal arall ei hangen o bosibl.

## *Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol mewn mannau ac eithrio mewn Ysgolion*

13.45 Gall awdurdodau lleol drefnu i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir mewn CDU plentyn, neu i unrhyw ran o'r ddarpariaeth ddysgu

[198] Adrannau 12(6) a (7) o'r Ddeddf. Os yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol, **ni ddylai'r** awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol i lunio a/neu gynnal CDU – gweler adran 12(9).
[199] Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac is-ddeddfwriaeth sy'n datblygu o dan y Ddeddf yn sylfaen i ddarpariaeth gofal cymdeithasol.

ychwanegol, gael ei chyflwyno mewn man ac eithrio mewn ysgol[200]. Fodd bynnag, dylai'r pwyslais fod ar addysg gynhwysol bob amser ac ni ddylai'r cyfryw drefniadau fod yn gyffredin (ac eithrio mewn perthynas â phlant nad ydynt wedi dechrau mynychu ysgol eto). **Ni ddylai** awdurdodau lleol drefnu i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei gwneud mewn man ac eithrio mewn ysgol oni bai ei fod wedi'i fodloni y byddai'n amhriodol cyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgol[201].

### *Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol y Tu Allan i Gymru a Lloegr*

13.46 Mewn achosion prin iawn, gall fod yn briodol i blentyn neu berson ifanc y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arbenigol arno gael ei osod mewn sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, **ni ddylai** awdurdod lleol wneud trefniadau i blentyn neu berson ifanc fynychu'r cyfryw sefydliad oni bai bod y sefydliad wedi'i drefnu i gyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cyfateb i'r ADY a ddisgrifir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc[202].

[200] Adran 47(1) o'r Ddeddf.
[201] Adran 47(2) o'r Ddeddf.
[202] Adran 53 o'r Ddeddf.

# Pennod 14: Adolygu a Diwygio CDU

## *Crynodeb*

14.1 Mae'r Bennod hon yn cyflwyno gofynion gorfodol a chanllawiau ynglŷn ag adolygu a diwygio CDU, gan gynnwys pryd y mae'n **rhaid** adolygu CDU a phryd y dylid adolygu CDU.

14.2 Er nad oes unrhyw ofynion sylfaenol ynglŷn â phryd y mae'n **rhaid** adolygu'r CDU, mae angen i'r CDU adlewyrchu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn gywir a nodi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae hyn yn golygu bod angen asesu CDU yn gyson i gadarnhau ei fod yn gywir o hyd a'i fod yn cael ei adolygu yn ôl y gofyn.

14.3 Fel y nodir isod, mae angen rhoi'r broses adolygu CDU ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau bod y CDU yn gywir a'i fod yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn y ffordd orau.

## *Adolygu CDU*

**Amgylchiadau lle mae'n rhaid adolygu'r CDU (oni bai bod y plentyn yn derbyn gofal)**

14.4 Mae'n **rhaid** i ysgol, SAB neu awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ei adolygu o fewn:

- y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddwyd y CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc; ac
- o fewn pob cyfnod dilynol o 12 mis.[203]

neu, os yw'r CDU wedi'i ailystyried gan yr awdurdod lleol (gweler Pennod 15), o fewn:

- y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddwyd hysbysiad o benderfyniad i beidio ag adolygu'r CDU i'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc gan yr awdurdod lleol, neu y rhoddwyd cynllun diwygiedig iddynt; a
- phob cyfnod dilynol o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir hysbysiad o'r penderfyniad neu y rhoddir y cynllun diwygiedig.[204]

14.5 Mae'n **rhaid** i ysgol, SAB neu awdurdod lleol adolygu CDU y mae'n ei gynnal os yw'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'n ofynnol i gorff iechyd ei sicrhau a bod corff y GIG yn gofyn iddo adolygu'r CDU[205].

[203] Adran 21(1) o'r Ddeddf.
[204] Adran 21(3) o'r Ddeddf.
[205] Adran 21(4) o'r Ddeddf.

14.6 Hefyd, mae'n **rhaid** i ysgol, SAB neu awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc adolygu'r CDU os gofynnir iddynt wneud hynny gan y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, oni bai eu bod yn ystyried bod adolygiad yn ddiangen[206].

14.7 Byddai adolygiad yn cael ei ystyried yn ddiangen o dan amgylchiadau fel y canlynol:

- mae adolygiad wedi'i gynnal yn ddiweddar; a/neu
- nid oes unrhyw dystiolaeth o newid sylweddol yn amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc neu nid oes unrhyw wybodaeth arwyddocaol newydd wedi dod i'r amlwg.

**Amgylchiadau pan fo'n rhaid adolygu'r CDU a bod y plentyn yn derbyn gofal**

14.8 Mae'n **rhaid** i awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ei adolygu o fewn:

- y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddwyd y CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc; ac
- o fewn pob cyfnod dilynol o 12 mis.[207]

14.9 Mae'n **rhaid** i awdurdod lleol adolygu CDU y mae'n ei gynnal os yw'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'n ofynnol i gorff iechyd ei sicrhau a bod corff y GIG yn gofyn iddo adolygu'r CDU[208].

14.10 Hefyd, mae'n **rhaid** i awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn adolygu'r CDU os gofynnir iddo wneud hynny gan y plentyn sy'n derbyn gofal, oni bai bod yr awdurdod yn ystyried bod adolygiad yn ddiangen[209].

14.11 Byddai adolygiad yn cael ei ystyried yn ddiangen o dan amgylchiadau fel y canlynol:

- mae adolygiad wedi'i gynnal yn ddiweddar; a/neu
- nid oes unrhyw dystiolaeth o newid sylweddol yn amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc neu nid oes unrhyw wybodaeth arwyddocaol newydd wedi dod i'r amlwg.

**Canllawiau ar sefyllfaoedd eraill lle y** dylid **adolygu'r CDU**

14.12 Er mwyn ymateb i anghenion y plentyn neu'r person ifanc, bydd yn briodol yn aml adolygu'r CDU, neu ran o'r CDU, mewn cyfnod llai o amser.

---

[206] Adran 21(5) o'r Ddeddf.
[207] Adran 21(1) o'r Ddeddf.
[208] Adran 21(4) o'r Ddeddf.
[209] Adran 22(3) o'r Ddeddf.



DRAFT

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol adolygu'r cynllun ar unrhyw adeg a diwygio'r cynllun yn dilyn adolygiad.[210]

14.13 Dylid cwblhau adolygiad o fewn cyfnod o amser sy'n adlewyrchu'r canlynol:

- y deilliannau arfaethedig, neu unrhyw ddeilliant penodol, a nodir yn y CDU a'r dyddiad targed ar gyfer eu cyflawni, neu gerrig milltir tuag at eu cyflawni;
- yr amserlenni ar gyfer cyflwyno unrhyw weithgareddau neu ddarpariaeth yn y CDU;
- newidiadau arwyddocaol a ragwelir sy'n debygol o gael effaith ar ADY y plentyn neu'r person ifanc neu ar y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ofynnol;
- a oes asesiadau neu brofion arfaethedig y byddai eu canlyniadau'n effeithio ar y deilliannau arfaethedig, y gweithgaredd a gynllunnir neu'r ddarpariaeth; ac
- oedran a chyfradd datblygu debygol y plentyn neu'r person ifanc – er enghraifft, ar gyfer plant ifanc iawn, dylid pennu uchafswm o dri i chwe mis er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn parhau i fod yn briodol.

14.14 Hefyd, dylai amseriad adolygiad ystyried amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc ac unrhyw gamau gweithredu a all ddeillio o'r adolygiad. Bydd ysgolion a SAB eisiau ystyried yr effaith ar adnoddau staff wrth gynllunio adolygiadau, ac efallai byddant yn awyddus i'w trefnu fel nad ydynt yn digwydd ar yr un pryd neu'n agos at ei gilydd.

14.15 Gellir newid dyddiad adolygiad arfaethedig i ddyddiad cynharach neu ddiweddarach (cyn belled â bod y dyddiad diweddarach oddi mewn i'r amserlen 12 mis orfodol).

14.16 Yn aml, bydd adolygiad cynharach, heb ei drefnu, yn briodol os yw'r amgylchiadau wedi newid yn sylweddol neu os oes gwybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg. Hefyd, gall adolygiad cynharach fod yn briodol os yw deilliant arfaethedig wedi'i gyflawni, neu os yw'n dod i'r amlwg na fydd deilliant arfaethedig yn cael ei gyflawni, neu os na chredir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach, ac felly nad oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arno. Bydd olrhain a monitro cynnydd dysgwr yn gyson yn hanfodol i'r broses o nodi newidiadau sydyn. Gall fod yn briodol newid dyddiad adolygiad i ddyddiad diweddarach (ond yn parhau i fod oddi mewn i'r cyfnod 12 mis), er enghraifft, os credir bod angen amser ychwanegol i ystyried effaith ymyriad penodol neu wrth aros am ganlyniadau prawf neu archwiliad meddygol sy'n berthnasol i'r adolygiad.

14.17 Os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, bydd angen i'r ysgol neu'r SAB siarad â'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn rheolaidd, monitro cynnydd gyda nhw, a thrafod y gweithgareddau a fydd yn

[210] Adrannau 21(6) a 22(4) o'r Ddeddf.

cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i wireddu ei botensial. Mae'r trafodaethau hyn yn cyfrannu at waith monitro cyson, a gallai'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu o'r trafodaethau hyn gael ei defnyddio i lywio'r adolygiad. Hefyd, gallant ddatblygu hyder yn y camau sy'n cael eu cymryd gan y sefydliad addysg a chryfhau effaith unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gynyddu cyfraniad y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc at y dulliau a'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio. Hefyd, gall y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ddarparu gwybodaeth hanfodol am effaith darpariaeth ddysgu ychwanegol y tu allan i'r lleoliad addysg ac am unrhyw newidiadau i ADY y plentyn neu'r person ifanc. Bydd y ddeialog reolaidd hon yn elfen bwysig o'r broses o benderfynu pryd y bydd adolygiad cynnar yn briodol o bosibl.

## *Cyfarfodydd adolygu CDU*

### Cyn y cyfarfod

14.18 Os yw awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal CDU, mae'n **rhaid** iddo anfon rhestr o'r holl blant a phobl ifanc y bydd angen adolygu eu CDU yn ystod y tymor at benaethiaid a phrifathrawon unrhyw sefydliad addysgol perthnasol sy'n cael ei fynychu gan blentyn neu berson ifanc sydd â CDU, o leiaf bythefnos cyn dechrau pob tymor.

14.19 Mae'n **rhaid** i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU wahodd yr holl asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol i'r cyfarfod adolygu er mwyn cynnal adolygiad effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc bob tro. Mae'n **rhaid** gwahodd asiantaethau neu weithwyr proffesiynol i'r cyfarfod os ydynt eisoes yn helpu i roi darpariaeth y CDU ar waith. Ni fydd pob cyfarfod yn cynnwys pawb a gyfrannodd at lunio'r CDU gwreiddiol. Ni fydd angen gwahodd asiantaethau neu weithwyr proffesiynol oni bai bod eu cyfraniad yn debygol o fod yn ddefnyddiol i nodi neu gyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y dyfodol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, neu os yw eu cyngor yn debygol o newid dros amser. Fel arfer, bydd hyn wedi'i nodi eisoes yn y CDU.

14.20 Dylai'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU hysbysu asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cael gwahoddiad i gyfrannu at yr adolygiad o'r CDU o leiaf bythefnos cyn dechrau pob tymor. Ar gyfer cyfarfodydd sydd i'w cynnal ar ddechrau'r tymor newydd, bydd angen rhoi rhybudd o fwy na phythefnos os oes modd. Hefyd, dylid nodi a fydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar drosglwyddo a/neu baratoi i bontio i fyd oedolion (gweler Pennod 17). Os nad yw'r adolygiad yn canolbwyntio ar baratoi i bontio i fyd oedolion, mae'n bosibl y bydd gweithwyr proffesiynol gwahanol yn cymryd rhan, fel arbenigwyr gyrfaoedd. Os penderfynir, ar unrhyw adeg, bod angen gwahodd gweithwyr proffesiynol ychwanegol i'r adolygiad, dylid gwneud hynny cyn gynted â phosibl.

DRAFT

14.21 Dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd wneud pob ymdrech i fynychu. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd pob gweithiwr proffesiynol perthnasol yn gallu mynychu pob cyfarfod adolygu. Felly, wrth eu gwahodd i'r cyfarfod, gallai fod yn ddefnyddiol nodi pa mor bwysig yw eu presenoldeb. Bydd cydweithio rheolaidd rhwng y partïon perthnasol ymhell cyn y cyfarfod yn helpu gweithwyr proffesiynol i benderfynu a yw'n briodol mynychu, ac yn rhoi rhybudd digonol iddynt ymlaen llaw. Os nad yw asiantaethau neu weithwyr proffesiynol yn gallu mynychu, dylent ddarparu unrhyw gyngor a thystiolaeth sy'n berthnasol i'r cyfarfod ar ffurf ysgrifenedig ymlaen llaw.

14.22 Dylai pob cyfraniad at gyfarfod adolygu, boed ar ffurf wyneb yn wyneb neu ysgrifenedig, ystyried y canlynol:

- cynnydd y plentyn neu'r person ifanc tuag at gyflawni'r deilliannau arfaethedig;
- a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY o hyd, ac os felly, a yw ei anghenion wedi newid;
- a yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn briodol o hyd;
- a yw'r deilliannau arfaethedig yn addas o hyd, ac unrhyw ddeilliannau newydd neu ddiwygiedig sydd angen eu trafod yn y cyfarfod, os yw hynny'n briodol.

14.23 Gallai fod yn ddefnyddiol darparu cyfraniadau ysgrifenedig drwy ddefnyddio'r penawdau Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (Pennod 10).

14.24 Cyn cyfarfod adolygu, dylai'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU ddarparu adroddiad cynnydd i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc. Hefyd, dylent ofyn i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am adborth a'u safbwyntiau bythefnos cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn dymuno aros i fynegi barn yn y cyfarfod.

14.25 Os yw gweithwyr proffesiynol wedi darparu cyngor cyn y cyfarfod, dylai'r cyngor hwn gael ei anfon at y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc hefyd. Dylai'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal CDU egluro wrth y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc na fydd gweithwyr proffesiynol yn gallu mynychu pob cyfarfod adolygu o bosibl, ac os yw'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn dymuno trafod materion sy'n peri pryder yn adroddiadau'r gweithwyr proffesiynol ar ôl y cyfarfod, dylent gysylltu â'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU yn y lle cyntaf.

14.26 Os yw'r adolygiad yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar broses drosglwyddo'r plentyn neu'r person ifanc i fyd oedolion, fel camau nesaf neu adael yr ysgol, dylid ystyried a oes angen gwahodd cynghorydd gyrfaoedd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mhennod 17.

14.27 Os yw plentyn wedi'i wahardd o'r ysgol, dylid gofyn am safbwyntiau ei gyn athro mwyaf priodol ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n adnabod y plentyn. Mae'n bosibl y bydd angen mynd ati mewn ffordd sensitif a chadarnhaol i annog plant sydd wedi'u gwahardd, a'u rhieni, i gyfrannu at bob cam o'r adolygiad.

**Lleoliad cyfarfodydd adolygu**

14.28 Yn y rhan fwyaf o achosion, y lleoliad mwyaf addas ar gyfer y cyfarfod adolygu fydd yr ysgol, y SAB neu'r lleoliad blynyddoedd cynnar y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu. Weithiau, bydd yn fwy priodol cynnal y cyfarfodydd mewn ysbyty, yng nghartref y rhiant neu yn swyddfeydd yr awdurdod lleol. Fel arfer, mae'n briodol bod yr adolygiad yn cael ei arwain gan rywun sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn rheolaidd, sef unigolyn o'r ysgol neu'r SAB yn y rhan fwyaf o achosion. Gall yr unigolyn hwn fod yn Gydlynydd ADY, pennaeth blwyddyn y dysgwr, ei athro dosbarth, neu athro neu ddarlithydd sy'n gwneud cyfraniad mawr at gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd yr unigolyn hwn yn adnabod y plentyn neu'r person ifanc yn dda, bydd ganddo'r cysylltiad agosaf ag ef, a bydd ganddo wybodaeth fanwl am gynnydd a'r camau nesaf.

14.29 Bydd gan y plentyn, rhiant y plentyn a'r person ifanc fwy o hyder mewn adolygiadau sy'n cael eu harwain gan yr ysgol neu'r SAB. Bydd yr hyder hwn yn cynyddu os yw'r drafodaeth yn cael ei harwain gan aelod o staff sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r plentyn neu'r person ifanc ac sy'n ymwybodol o'i ADY.

**Fformat adolygiadau**

14.30 Dylai'r un fformat gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd adolygu CDU a chyfarfodydd datblygu CDU. Mae hyn yn cynnwys ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn gwneud cymaint o gyfraniad â phosibl at benderfyniadau'n ymwneud â chyflawni'r swyddogaeth dan sylw, a phwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn derbyn gwybodaeth a chymorth i allu cyfrannu at y penderfyniadau hynny.[211] Er y bydd yr union weithwyr proffesiynol sy'n cael gwahoddiad i'r cyfarfod yn dibynnu ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc, dylai'r cyfarfod ddilyn trefn debyg bob amser.

14.31 Y prif wahaniaeth rhwng cyfarfod adolygu a'r cyfarfod gwreiddiol i lunio CDU yw'r angen i'r rhai sy'n cyfrannu at yr adolygiad ystyried a yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol wedi arwain at gyflawni'r deilliannau. Ni fydd angen ailadrodd neu ailystyried gwybodaeth gefndir neu dystiolaeth oni bai bod newid wedi bod, a'r cwbl sydd angen ei wneud wedyn yw anodi'r CDU. Mae plant, eu rhieni neu bobl ifanc yn debygol o ymddieithrio os yw adolygiadau yn ailadroddus.

---

[211] Er mwyn cydymffurfio â gofyniad adran 6 o'r Ddeddf – gweler Pennod 3 hefyd.

14.32 Mae'n **rhaid** i'r cyfarfodydd adolygu:

- gasglu a dadansoddi unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg ynglŷn ag ADY y plentyn neu'r person ifanc;
- ystyried a yw'r disgrifiad o ADY a nodwyd yn y CDU yn gywir o hyd yn sgil unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd;
- ystyried a yw'r deilliannau a nodwyd yn y CDU yn addas o hyd ac a fyddai deilliannau a/neu dargedau dros dro newydd yn briodol, gan ddiweddaru'r CDU i adlewyrchu hyn;
- ystyried a yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU yn addas o hyd ar sail cynnydd y plentyn neu'r person ifanc tuag at y deilliannau ac unrhyw dargedau dros dro sydd wedi'u pennu ar gyfer y deilliannau;
- asesu a oes angen rhagor o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol;
- gofyn am gyngor gan bob gweithiwr proffesiynol perthnasol.

14.33 Mae monitro effaith yn ddull defnyddiol o helpu i werthuso ac asesu darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc. Mae'r targedau mwy tymor byr yn gallu dangos pa ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc, a pha ddarpariaeth sy'n ddiangen bellach a/neu nad yw'n cael yr effaith ddymunol.

14.34 Ar ddiwedd y cyfarfod adolygu, bydd angen cytuno dyddiad, o leiaf mewn egwyddor, ar gyfer dyddiad yr adolygiad nesaf. Mae'n **rhaid** cynnal adolygiad ymhen 12 mis.[212]

14.35 Hefyd, ar ddiwedd y cyfarfod, bydd angen sicrhau bod unrhyw gam a fydd yn cael ei gymryd i helpu i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei esbonio'n glir wrth y plentyn, ei riant neu'r person ifanc, ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r adolygiad.

14.36 Os daw'r adolygiad i'r casgliad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach ac nad oes angen CDU arno, bydd y darpariaethau penodol ar beidio â chynnal CDU yn berthnasol. Gweler Pennod 15.[213]

14.37 Os yw adolygiad o anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY o hyd a bod angen CDU arno, mae'n **rhaid** darparu CDU diwygiedig. Bydd angen i'r CDU diwygiedig nodi'r adolygiad ac unrhyw wybodaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd gwahaniaeth rhwng yr ADY a nodir a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir yn y CDU diwygiedig oherwydd bod yr adolygiad wedi dangos bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

14.38 Mae'n **rhaid** rhoi copi o'r cynllun diwygiedig i'r canlynol:

- y plentyn neu'r person ifanc;

---

[212] Adran 21

[213] Mae yna ofynion penodol yn ymwneud â rhoi'r gorau i gynnal CDU yn adran 29 o'r Ddeddf.



DRAFT

- os yw'r cynllun yn ymwneud â phlentyn, rhiant y plentyn.[214]

14.39 Os yw awdurdod lleol yn diwygio CDU plentyn sy'n derbyn gofal, mae'n **rhaid** iddo roi copi o'r CDU diwygiedig i'r canlynol:

- Y plentyn sy'n derbyn gofal
- Rhiant y plentyn sy'n derbyn gofal, a
- Swyddog adolygu annibynnol y plentyn sy'n derbyn gofal.[215]

14.40 Hefyd, dylid anfon copi o'r cynllun diwygiedig at unrhyw un arall a aeth i gyfarfod adolygu'r CDU neu a ddarparodd wybodaeth ar gyfer yr adolygiad o'r CDU. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl ac ymhen 12 mis i gyhoeddi'r CDU blaenorol.

14.41 Yn ogystal ag anfon copi o'r CDU at y plentyn neu'r person ifanc, mae'n **rhaid** i'r ysgol/SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am adolygu'r CDU anfon y canlynol hefyd:

- enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY yr ysgol/SAB neu swyddog perthnasol yr awdurdod lleol;
- copïau o'r wybodaeth a'r cyngor perthnasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu fanylion am sut i gael gafael arnynt[216];
- manylion trefniadau osgoi a datrys anghytundebau'r awdurdod lleol, a manylion gwasanaethau eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.

14.42 Os yw ysgol a gynhelir wedi anfon copi o'r CDU, mae'n **rhaid** iddi amlinellu hawl y plentyn, y person ifanc neu'r rhiant i gysylltu â'r awdurdod lleol i drafod y mater ymhellach a gofyn i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU[217]. Os yw SAB neu awdurdod lleol wedi anfon copi o'r CDU, mae'n **rhaid** iddyn nhw amlinellu'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg hefyd.

14.43 Dylid gwneud hyn mewn fformat sydd ar gael, ac mewn ffordd sy'n diwallu unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gan y teulu[218] .

DRAFT

[214] Adran 21(8) o'r Ddeddf.
[215] Adran 22(6) o'r Ddeddf.
[216] Yn unol â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol a nodir yn adran 7 o'r Ddeddf.
[217] Adran 21 o'r Ddeddf.
[218] Gweler y dyletswyddau a amlinellir ym Mhennod 3

Enghraifft

Annwyl,

Amgaeir copi o'r CDU newydd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd xx/xx/xxxx

Os hoffech chi drafod y mater hwn ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â *[enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY yr ysgol/SAB neu swyddog perthnasol yr awdurdod lleol.]*

Mae'n bosibl y bydd gennych chi ddiddordeb yn y wybodaeth a'r cyngor sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol yn ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol *[gall y wybodaeth a'r cyngor gael eu darparu ochr yn ochr â'r hysbysiad hwn, neu fel arall bydd **rhaid** cynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar wybodaeth a chyngor yr awdurdod lleol]*.

Mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau. Gallwch chi wneud hyn drwy *[nodwch sut mae plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn gallu cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau.]* Hefyd, mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyngor a chymorth i'r plentyn neu'r person ifanc. *[Rhowch wybodaeth am wasanaeth eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.]*

*[Os yw ysgol a gynhelir wedi anfon copi o'r CDU]* Os hoffech chi herio'r CDU arfaethedig, gallwch chi gysylltu â'r awdurdod lleol i drafod y mater ymhellach a gwneud cais ffurfiol i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU *[Rhowch wybodaeth berthnasol am sut i wneud hyn.]*

*[Os yw SAB neu awdurdod lleol wedi anfon copi o'r CDU]* Os hoffech chi herio'r CDU arfaethedig, mae gennych chi hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys Addysg. Gallwn ni ddarparu rhagor o wybodaeth am y mater hwn.

### *Amserlenni ar gyfer cais am adolygiad gan blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc*

14.44 Os yw plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc yn gofyn i'r ysgol/SAB neu'r awdurdod lleol am adolygiad o'r CDU, mae'n **rhaid** i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol adolygu'r CDU oni bai eu bod yn ystyried bod adolygiad yn ddiangen.[219] Neu os yw'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal, mae'n **rhaid** i'r

[219] Adran 21(5) o'r Ddeddf.

awdurdod lleol adolygu'r CDU oni bai bod yr awdurdod lleol yn ystyried bod adolygiad yn ddiangen.[220]

**Os yw'r ysgol/SAB/awdurdod lleol yn ystyried bod adolygiad yn ddiangen**

14.45 Os yw'r ysgol/SAB/awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn ddiangen adolygu'r CDU, mae'n **rhaid** iddynt hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc o fewn pythefnos i dderbyn y cais.

14.46 Yn ogystal ag egluro'r penderfyniad i beidio ag adolygu'r CDU, mae'n **rhaid** i'r ysgol/SAB/awdurdod lleol anfon y canlynol:

- enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY yr ysgol/SAB neu swyddog perthnasol yr awdurdod lleol;
- copïau o'r wybodaeth a'r cyngor perthnasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu fanylion am sut i gael gafael arnynt;[221]
- manylion trefniadau osgoi a datrys anghytundebau'r awdurdod lleol, a manylion gwasanaethau eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.

14.47 Os yw ysgol a gynhelir wedi anfon hysbysiad o'r penderfyniad hwn, mae'n **rhaid** iddi amlinellu hawl y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i gysylltu â'r awdurdod lleol i drafod y mater ymhellach a gofyn i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU.

14.48 Os mai SAB neu awdurdod lleol sydd wedi anfon yr hysbysiad, mae'n **rhaid** iddynt amlinellu'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg hefyd.

14.49 Dylid gwneud hyn mewn fformat sydd mor hawdd cael gafael arno â phosibl ac sy'n diwallu unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gan y teulu er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y ffaith fod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau, a phwysigrwydd y ffaith fod y wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i sicrhau bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn gallu cymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.[222]

**Os yw'r ysgol/SAB/awdurdod lleol yn ystyried bod angen adolygu'r CDU**

14.50 Os yw ysgol neu SAB yn cynnal y CDU ac yn ystyried bod angen adolygu'r CDU yn dilyn cais i wneud hynny, mae'n **rhaid** i'r ysgol neu'r SAB gwblhau'r adolygiad, llunio CDU diwygiedig a darparu copi o'r CDU diwygiedig i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ymhen **7 wythnos ysgol/SAB (35 diwrnod ysgol/SAB) ar y mwyaf.**

---

[220] Adran 22(3) o'r Ddeddf.
[221] Yn unol â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol a nodir yn adran 7 o'r Ddeddf.
[222] Adran 6 o'r Ddeddf. – Dyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc – gweler Pennod 3 hefyd.

14.51 Os yw awdurdod lleol yn cynnal y CDU ac yn ystyried bod angen adolygu'r CDU yn dilyn cais i wneud hynny, mae'n **rhaid** iddo gwblhau'r adolygiad a rhoi copi o'r cynllun diwygiedig i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ymhen **10 wythnos** ar y mwyaf.

14.52 Yn ogystal ag anfon copi o'r CDU diwygiedig i'r plentyn neu'r person ifanc, mae'n **rhaid** i'r ysgol/SAB neu'r awdurdod lleol sy'n adolygu'r CDU anfon y canlynol hefyd:

- enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY yr ysgol/SAB neu swyddog perthnasol yr awdurdod lleol;
- copïau o'r wybodaeth a'r cyngor perthnasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu fanylion am sut i gael gafael arnynt;[223]
- manylion trefniadau osgoi a datrys anghytundebau'r awdurdod lleol, a manylion gwasanaethau eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.

14.53 Os yw ysgol a gynhelir wedi anfon copi o'r CDU, mae'n **rhaid** iddi amlinellu hawl y plentyn, y person ifanc neu'r rhiant i gysylltu â'r awdurdod lleol i drafod y mater ymhellach a gofyn i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU[224]. Os mai SAB neu awdurdod lleol sydd wedi anfon copi o'r CDU, mae'n **rhaid** iddynt amlinellu'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg hefyd.

14.54 Dylid gwneud hyn mewn fformat sydd ar gael, ac mewn ffordd sy'n diwallu unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gan y teulu[225].

14.55 Os yw ysgol neu SAB yn adolygu'r CDU, gall ddod i'r amlwg bod angen i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU oherwydd natur anghenion y plentyn neu'r person ifanc (gweler Pennod 16).

## *Cynnal adolygiadau gyda chynlluniau eraill*

14.56 Fel y nodwyd ym Mhennod 10 (CDU), gall ysgol, SAB neu awdurdod lleol lunio, adolygu neu ddiwygio CDU ar yr un pryd ag y maen nhw, neu gorff arall, yn llunio, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall yn achos y person dan sylw, a gallant gynnwys y ddogfen arall yn y CDU[226]. Gall fod yn briodol adolygu CDU a chynlluniau eraill ar yr un pryd. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, dylid ceisio sicrhau bod cymaint o synergedd â phosibl ag unrhyw brosesau adolygu gofynnol yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc. Gallai hyn olygu cynnal un cyfarfod i drafod ADY y plentyn neu'r person ifanc ac unrhyw anghenion neu ofynion eraill.

14.57 Os yw adolygiadau'n cael eu cynnal ar yr un pryd, mae'n **rhaid** iddynt


[223] Yn unol â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol a nodir yn adran 7 o'r Ddeddf.
[224] Adran 34 o'r Ddeddf.
[225] Gweler y dyletswyddau ym Mhennod 3.
[226] Adran 23 o'r Ddeddf.

ddilyn gofynion cyfreithiol y ddeddfwriaeth berthnasol. Er bod manteision yn gallu deillio o gynnal adolygiadau o gynlluniau gwahanol ar yr un pryd, ni ddylai adolygiadau ac asesiadau o anghenion gael eu gohirio os yw hynny'n niweidiol i'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r cynlluniau ar wahân er mwyn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn y ffordd orau.[227]


DRAFT

[227] Gweler hefyd Bennod 20 mewn perthynas ag adolygiadau o CDU ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Y BROSES AR GYFER ADOLYGU CDU – GAN GYNNWYS ADOLYGIAD GORFODOL O FEWN 12 MIS O'R ADOLYGIAD DIWETHAF (ONI BAI BOD CAIS YN CAEL EI WNEUD GAN Y PLENTYN, RHIANT Y PLENTYN NEU'R PERSON IFANC – Gweler y siart llif nesaf)**



**Y BROSES AR GYFER ADOLYGU CDU LLE MAE CAIS WEDI'I WNEUD GAN Y PLENTYN, RHIANT Y PLENTYN NEU'R PERSON IFANC**



# Pennod 15 – Peidio â chynnal CDU

## *Crynodeb*

15.1 Mae'r bennod hon yn ymwneud ag amgylchiadau gwahanol lle mae dyletswyddau i lunio a chynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys. Mewn rhai amgylchiadau, nid yw'r dyletswyddau yn gymwys oherwydd bod yr amgylchiadau wedi newid, fel plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol. Mewn achosion fel hyn, mae'n bosibl y bydd gan gorff arall ddyletswydd i gynnal y CDU – gweler adran 33 a Phennod 16 yn ymwneud â throsglwyddo CDU. Mewn achosion eraill, mae'r ddyletswydd i gynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys yn dilyn penderfyniad nad oes gan y person ADY bellach neu (mewn achos lle mae awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc), nad oes angen cynnal y CDU bellach. Mae'r Bennod hon yn nodi'r camau sydd i'w cymryd cyn ac ar ôl gwneud y cyfryw benderfyniad, a dewisiadau'r unigolyn ar gyfer apelio. Dylid ei darllen ochr yn ochr ag adrannau 29 i 32 o'r Ddeddf.

## *Yr amgylchiadau lle y gellid rhoi'r gorau i gynnal CDU*

15.2 Mae adran 29 o'r Ddeddf yn nodi'r amgylchiadau lle mae'r dyletswyddau gwahanol i lunio neu gynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys.

15.3 Mae dyletswydd ysgol i lunio a chynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys os yw'r person yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol.[228] Yn yr un modd, mae dyletswydd SAB i lunio neu gynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys os yw'r person yn peidio â bod yn fyfyriwr sydd wedi'i ymrestru yn y SAB.[229] Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y bydd gan sefydliad arall ddyletswydd i gynnal y cynllun.[230]

15.4 Hefyd, mae dyletswyddau penodol i lunio neu gynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys os yw person yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal, neu os yw'n peidio â derbyn gofal.[231] Felly, mae dyletswydd ysgol i lunio a chynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys os yw'r plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal. Yn yr un modd, os yw plentyn yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, mae dyletswydd yr awdurdod gofal sy'n gofalu amdano i gynnal CDU yn unol ag adran 17 yn peidio â bod yn gymwys. Fodd bynnag, fel arfer mewn achosion fel hyn bydd gan yr un awdurdod lleol neu awdurdod lleol gwahanol ddyletswydd i lunio neu gynnal CDU o dan adran arall o'r Ddeddf.[232]

15.5 Hefyd, mae dyletswydd awdurdod lleol i lunio neu gynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys os yw'r awdurdod lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am y

[228] Adran 29(1)(a) o'r Ddeddf.
[229] Adran 29(2) o'r Ddeddf.
[230] Adran 33 [ac unrhyw reoliadau a wnaed o dan Adran 34 o'r Ddeddf].
[231] Adrannau 29(1), (3)(b) a (4) o'r Ddeddf.
[232] Adran 33 o'r Ddeddf.

DRAFT

person,[233] hynny yw, os yw'r person yn peidio â byw yn ardal yr awdurdod lleol.[234] Bydd hyn yn berthnasol os yw plentyn a'i deulu yn symud i fyw i ardal awdurdod lleol arall, ac mewn achos o'r fath, bydd yr awdurdod lleol arall yn gyfrifol am y plentyn.

15.6 Hefyd, mae dyletswyddau i lunio a chynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys os yw'r person yn dod yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth.[235]

15.7 Hefyd, mae'r dyletswyddau'n peidio â bod yn gymwys ar ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 25 oed.[236] At y dibenion hyn, ystyrir "blwyddyn academaidd":[237]

- mewn perthynas â pherson ifanc sy'n mynychu SAB, cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf; ac
- mewn perthynas ag unrhyw berson ifanc arall, cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae cwrs addysg neu hyfforddiant y person ifanc yn dod i ben neu'r diwrnod cyn i'r person ifanc gyrraedd 26 oed (pa un bynnag sydd gynharaf).

15.8 Mae dyletswydd i gynnal CDU yn peidio â bod yn gymwys os yw'r corff sy'n ei gynnal yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol mwyach.[238] Fel arfer, bydd penderfyniad fel hwn yn cael ei wneud fel un o ddeilliannau'r adolygiad. Ni ddylid rhagdybio y bydd plentyn neu berson sydd â CDU yn parhau i fod angen y cynllun nes ei fod yn gadael addysg neu hyfforddiant. Wrth ystyried y mater hwn, dylai ymarferwyr gyfeirio at y diffiniad sylfaenol o ADY yn y Ddeddf[239] (a'r canllawiau pellach ym Mhennod 6 o'r Cod hwn) ac ystyried a yw'r amod yn parhau i gael ei fodloni.

15.9 Mae dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ar gyfer person ifanc yn peidio â bod yn gymwys os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen cynnal y cynllun mwyach, gan roi sylw i anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant.[240]

15.10 Mae gweddill y Bennod hon yn ymwneud â'r broses sy'n gysylltiedig â gwneud y penderfyniadau hyn (nad oes gan y person ADY mwyach neu nad oes angen cynnal CDU mwyach), sut i apelio yn erbyn y cyfryw benderfyniadau a phryd y maent yn berthnasol.

DRAFT

---

233 Adran 29(3)(a) o'r Ddeddf.
234 Adran 86(4) o'r Ddeddf.
235 Adran 29(10) a gweler y dyletswyddau yn Adrannau 37 a 39 o'r Ddeddf.
236 Adran 32 o'r Ddeddf.
237 Adran 32(2) o'r Ddeddf.
238 Adran 29(5) o'r Ddeddf mewn perthynas ag ysgol neu SAB, ac Adran 29(6)(a) o'r Ddeddf mewn perthynas ag awdurdod lleol.
239 Adran 2 o'r Ddeddf.
240 Adran 29(6)(b) o'r Ddeddf.

## *Penderfynu nad oes gan berson ADY neu (ar gyfer person ifanc) nad oes angen cynnal CDU mwyach*

15.11 Mewn rhai achosion, ni fydd angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc mwyach. Gall hyn ddigwydd oherwydd nad oes gan y person ifanc ADY mwyach. Rheswm posibl arall yw nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc ar ôl rhoi sylw i'w anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant. Enghraifft bosibl o hyn yw person ifanc sy'n cwblhau ei astudiaethau addysg bellach ac yn symud i gyflogaeth.

15.12 Mae trafod a oes yn dal i fod gan blentyn neu berson ifanc ADY yn fwyaf tebygol o godi wrth adolygu CDU. Gall y posibilrwydd y bydd CDU a darpariaeth ddysgu ychwanegol yn peidio â bod yn gymwys mwyach beri cryn bryder i blant, eu rhieni a phobl ifanc. Bydd angen eu sicrhau y bydd cymorth priodol a rheolaidd yn parhau i gael ei ddarparu drwy addysgu gwahaniaethol a strategaethau ac arferion perthnasol eraill, ac os yw ADY yn cael eu nodi eto, y bydd CDU yn cael ei adfer a'i lunio. Fel arfer, bydd modd llunio'r CDU yn gyflym a chyn y terfynau amser statudol oherwydd dylai'r rhan fwyaf o wybodaeth fod ar gael eisoes. Os yw'r posibilrwydd nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY yn cael ei ystyried mewn cyfarfod adolygu, gellir trafod y materion hyn yn y cyfarfod hwnnw.

15.13 Cyn bod ysgol, SAB neu awdurdod lleol yn gallu gwneud y naill benderfyniad neu'r llall, mae'n **rhaid** iddynt hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol, eu bod yn bwriadu gwneud penderfyniad o'r fath[241]. Wedyn, dylent roi digon o amser a chyfle i bobl gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r penderfyniad. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall hyn ddigwydd drwy'r broses adolygu arferol.

15.14 Ar ôl i'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol ystyried unrhyw sylwadau a dod i'r penderfyniad nad oes gan y person ADY mwyach neu nad oes angen cynnal CDU mwyach, mae'n **rhaid** iddynt hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, ac yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol, o'r penderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad.[242]

15.15 Mae'n **rhaid** i'r hysbysiad gynnwys:

1. enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY yr ysgol/SAB neu swyddog perthnasol yr awdurdod lleol;
2. copïau o'r wybodaeth a'r cyngor perthnasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu fanylion am sut i gael gafael arnynt;[243]
3. manylion trefniadau osgoi anghytundebau'r awdurdod lleol, a manylion gwasanaethau eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.

DRAFT

[241] Adran 29(7) o'r Ddeddf.
[242] Adran 29(8) o'r Ddeddf.
[243] Yn unol â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol a nodir yn adran 7 o'r Ddeddf.

15.16 Hefyd, mae'n **rhaid** i ysgol a gynhelir hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am eu hawl i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y mater.[244]

15.17 Mae'n **rhaid** i SAB neu awdurdod lleol hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am eu hawl i wneud apêl i'r Tribiwnlys.

15.18 Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant, dylai'r hysbysiad gynnwys amlinelliad o gamau gweithredu'r ysgol neu'r SAB i sicrhau bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu. Gall hyn gynnwys unrhyw strategaethau neu gyfleusterau sy'n rhan o ddulliau addysgu gwahaniaethol posibl yn yr ystafell ddosbarth. Dylai'r hysbysiad hwn ddiwallu unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gan y plentyn, ei riant neu'r person ifanc.

**Enghraifft o lythyr gan ysgol yn hysbysu rhiant bod yr ysgol wedi penderfynu nad oes gan ei blentyn ADY mwyach**

| |
|---|
| Annwyl,<br><br>Yn dilyn ein gohebiaeth ddyddiedig xxx, hoffem gadarnhau ein bod wedi penderfynu nad oes gan *[enw'r plentyn]* anghenion dysgu ychwanegol mwyach. Rydym wedi gwneud y penderfyniad hwn ar ôl ystyried ei anghenion. *[nodwch y rhesymau dros wneud y penderfyniad].*<br><br>Canlyniad y penderfyniad hwn yw y byddwn yn rhoi'r gorau i gynnal cynllun datblygu unigol *[enw'r plentyn]*. Mae gennych chi hawl i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad yr ysgol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys isod.<br><br>Os ydych chi'n penderfynu gofyn i'r awdurdod lleol ailystyried ein penderfyniad a'ch bod yn anfodlon â'r canlyniad o hyd, bydd gennych chi hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg.<br><br>Er mwyn cynorthwyo *[enw'r plentyn]* byddwn ni'n rhoi'r camau canlynol ar waith:<br><br>*[Disgrifiad o'r camau y bydd yr ysgol yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu. Gall hyn gynnwys unrhyw strategaethau neu gyfleusterau sy'n rhan o'r dulliau addysgu gwahaniaethol posibl yn yr ystafell ddosbarth.]*<br><br>Os hoffech chi drafod y mater hwn ymhellach mae croeso i chi gysylltu â *[enw a manylion cyswllt Cydlynydd ADY yr ysgol.]*<br><br>Mae'n bosibl y bydd gennych chi ddiddordeb yn y wybodaeth a'r cyngor yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol a ddarperir gan yr awdurdod |

244 Adran 29(9) o'r Ddeddf.

lleol. Rwy'n amgáu taflen sy'n amlinellu trefniadau'r awdurdod lleol, ac mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael ar wefan yr awdurdod neu drwy ffonio'r rhif canlynol. *[Nodwch gyfeiriad y wefan a'r rhif ffôn.] [Noder – nid oes angen amgáu taflen ond mae'n* ***rhaid*** *cynnwys manylion am sut i gael gafael ar wybodaeth a chyngor yr awdurdod lleol]*.

Os ydych chi'n anfodlon â'r penderfyniad hwn, mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau. Gallwch chi wneud hyn drwy *[nodwch sut mae plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc yn gallu cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau.]* Hefyd, mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n bwriadu cymryd rhan yn y trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghydfodau neu sy'n ystyried gwneud apêl i'r Tribiwnlys Addysg. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyngor a chymorth i'r plentyn neu'r person ifanc neu i gyfaill achos plentyn. *[Rhowch wybodaeth am wasanaeth eirioli annibynnol yr awdurdod lleol.]*

*[Os yw ysgol a gynhelir wedi anfon yr hysbysiad:]* Mae gennych chi'r hawl i ofyn i'ch awdurdod lleol/i awdurdod lleol x ailystyried y mater hwn.*[rhowch y manylion perthnasol am sut i wneud hyn.]*

Yn gywir,

## *Ailystyried Penderfyniad Ysgol a Gynhelir i Roi'r Gorau i Gynnal CDU*

15.19 Os yw plentyn, ei rieni neu berson ifanc yn anhapus ynglŷn â phenderfyniad ysgol a gynhelir i roi'r gorau i gynnal CDU ar y sail nad oes gan y person ADY mwyach, mae'n bosibl y byddant yn dymuno cymryd rhan yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau a/neu ddefnyddio'r gwasanaethau eirioli annibynnol er mwyn ceisio datrys y broblem ar lefel ysgol.

15.20 Fel arall, gall plant a'u rhieni, a phobl ifanc, ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad yr ysgol[245].

15.21 Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad ei hun ynglŷn ag a ddylai'r ysgol roi'r gorau i gynnal y CDU.[246]

15.22 Dylai awdurdodau lleol ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael a chael gafael ar unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i wneud penderfyniad ar

[245] Adran 30 o'r Ddeddf.
[246] Adran 30(2) o'r Ddeddf.

sail gwybodaeth. Gall yr awdurdod lleol wneud yr un penderfyniad â'r ysgol neu ddod i gasgliad gwahanol.

15.23 Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc a'r ysgol am ei benderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad.[247] Mae'n **rhaid** i'r hysbysiad gael ei wneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl y penderfyniad.

15.24 Os yw'r penderfyniad yn nodi y dylai'r ysgol roi'r gorau i gynnal y CDU, mae'n **rhaid** i'r hysbysiad gynnwys y wybodaeth a nodir yn y paragraffau uchod. Os yw'r penderfyniad yn nodi y bydd yr ysgol yn parhau i gynnal y cynllun, mae'n **rhaid** i'r ysgol barhau i gynnal y cynllun.[248]

### *Cyfyngiad ar roi'r gorau i gynnal cynlluniau er mwyn caniatáu Ailystyriaeth a/neu Apêl*

15.25 Cyn bod ysgol, SAB neu awdurdod lleol yn gallu rhoi'r gorau i gynnal CDU, mae plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc yn cael y cyfle i herio'r penderfyniad drwy ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad (os yw penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU wedi'i wneud gan ysgol a gynhelir – gweler uchod) a thrwy wneud apêl i'r Tribiwnlys Addysg neu (yn achos penderfyniad SAB neu awdurdod lleol) drwy wneud apêl i'r Tribiwnlys Addysg.[249]

DRAFT

[247] Adran 30(3) o'r Ddeddf.
[248] Adran 30(4) o'r Ddeddf.
[249] Adran 31 o'r Ddeddf.

# Pennod 16: Trosglwyddo CDU

## *Crynodeb*

16.1 Mae'r Bennod hon yn nodi gofynion a chanllawiau yn ymwneud â throsglwyddo CDU rhwng ysgol a gynhelir, SAB neu awdurdod lleol.

16.2 Mae adran 33 o'r Ddeddf yn ymdrin â throsglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a SAB.

16.3 Mae adran 73 o'r Ddeddf yn nodi bod modd gwneud rheoliadau ynghylch datgelu neu ddefnyddio gwybodaeth yn ymwneud ag ADY, neu at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg plentyn neu berson ifanc.

16.4 Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd rheoliadau o dan adran 34 yn cael eu gwneud ynghylch trosglwyddo CDU rhwng sefydliadau ac awdurdodau lleol.

16.5 Os caiff CDU ei drosglwyddo, dylai'r ysgol/SAB/awdurdod lleol adolygu'r CDU cyn gynted â phosibl. Dylai'r adolygiad hwn ystyried amgylchiadau newydd y plentyn neu'r person ifanc.

16.6 Mae'n bwysig cofio bod y rhan fwyaf o achosion o drosglwyddo CDU yn dilyn trosglwyddiad hysbys. Yn unol â'r canllawiau yn y Bennod nesaf, dylid cynllunio ar gyfer y trosglwyddiadau hyn ymlaen llaw, a dylai ysgolion/ SAB/ awdurdodau lleol gyfrannu at y broses gynllunio ymlaen llaw. Mae'r CDU yn cynnwys lle i nodi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol bosibl a allai gael ei derbyn yn y dyfodol.

16.7 *[Yn unol ag Adran 34 o'r Ddeddf, gall rheoliadau wneud rhagor o ddarpariaeth ynghylch trosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a SAB].*

# Pennod 17: Trosglwyddo a Pharatoi ar gyfer Byd Oedolion

## Crynodeb

17.1 Mae angen cymorth ar blant a phobl ifanc ag ADY fel y gallant drosglwyddo'n llwyddiannus rhwng lleoliadau neu ysgolion gwahanol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, bydd angen cynllunio a pharatoi ar gyfer trosglwyddo ymhell cyn i'r plentyn neu'r person ifanc symud. Bydd paratoi i drosglwyddo yn un o bynciau allweddol cyfarfodydd adolygu CDU (gweler Pennod 14). Bydd angen cynllunio ar gyfer trosglwyddiadau yn yr un lleoliad hefyd.

17.2 Bydd angen cymorth penodol ar bobl ifanc ag ADY pan fyddant yn paratoi i adael yr ysgol neu addysg bellach.

17.3 Mae'r Bennod hon yn nodi'r trefniadau sydd angen eu rhoi ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY yn trosglwyddo'n llwyddiannus ac yn effeithiol rhwng cyfnodau addysg gwahanol, gan gynnwys defnyddio adolygiadau CDU i hwyluso trosglwyddiad llwyddiannus.

17.4 Mae'r CDU (gweler Pennod 11) yn cynnwys adran benodol ar drosglwyddiadau a ddylai gynorthwyo'r broses hon.

## Paratoi ar gyfer byd oedolion

17.5 Fel pob plentyn a pherson ifanc, dylai'r rhai sydd ag ADY dderbyn cymorth i fod yn fwy annibynnol a chael swydd. Os ydynt yn derbyn y cymorth priodol, gall y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ddod o hyd i waith, byw'n annibynnol a chymryd rhan yn eu cymuned. Dylid sicrhau bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn derbyn y neges hon lle bo hynny'n briodol. Dylai'r broses o baratoi ar gyfer byd oedolion gychwyn yn gynnar a chanolbwyntio ar safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc. Dylai pob gweithiwr proffesiynol perthnasol rannu dyheadau uchel ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

17.6 Dylai ysgolion a SAB godi dyheadau gyrfa eu myfyrwyr ag ADY ac ehangu eu gorwelion o ran cyflogaeth. Dylai plant a phobl ifanc dderbyn cymorth i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad ac ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn eu gyrfaoedd.

## Trosglwyddo

17.7 Gall trosglwyddo gyfeirio at symud rhwng sefydliadau gwahanol. Gallai trosglwyddiadau allweddol yn ystod addysg plentyn neu berson ifanc gynnwys y canlynol:

- rhwng y cartref a lleoliad cyn ysgol neu ysgol;
- rhwng lleoliad cyn ysgol a'r flwyddyn dderbyn;

- rhwng ysgol fabanod ac ysgol iau;
- rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd;
- rhwng ysgol uwchradd a SAB neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol;
- trosglwyddiadau oddi mewn i ysgol;
- trosglwyddiadau ganol blwyddyn os yw'r disgybl yn newid ysgol;
- trosglwyddo i ac o unrhyw leoliadau arbennig;
- rhwng addysg a darpariaeth oedolion, er enghraifft i gynorthwyo'r person ifanc i sicrhau cyflogaeth.

17.8 Hefyd, gall trosglwyddiadau ymwneud â symud neu newid o un safle, dosbarth, cyfnod, pwnc neu gysyniad i un arall. Gall y newidiadau hyn fod yn raddol neu'n sydyn a phara am gyfnodau gwahanol.

17.9 Gall trosglwyddo a newid fod yn heriol iawn i rai plant a phobl ifanc. Mae modd sicrhau trosglwyddiad effeithiol a llwyddiannus drwy ddeall y rhesymau sylfaenol dros yr anawsterau hyn a sicrhau bod nifer o strategaethau gwahanol ar gael ar gyfer staff. Mae modd sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus drwy drafod y mater â'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc.

17.10 Gall trosglwyddo'n llwyddiannus helpu'r plentyn neu'r person ifanc i deimlo'n gyfforddus yn ei amgylchedd newydd. Gall trosglwyddo'n llyfn leihau'r straen sy'n deillio o newid a gwella dysgu a deilliannau, lleihau ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, lleihau gwaharddiadau a lleihau'r perygl y bydd newid neu drosglwyddiad yn methu. Gall hyn helpu i greu amgylchedd dysgu sefydlog ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc a helpu staff i gyflawni eu swyddogaethau.

## *Egwyddorion Cyffredinol*

### Agweddau allweddol ar gefnogi trosglwyddiadau

17.11 Gall trosglwyddo fod yn amser pryderus i bob plentyn a pherson ifanc a'u teuluoedd, ond mae'n gallu bod yn amser hynod bryderus i'r rhai ag ADY. Bydd angen ystyried trosglwyddiadau wrth adolygu'r CDU. Mae'n bosibl y bydd cyfarfod adolygu yn nodi bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus. Dylid ystyried trosglwyddo yn broses yn hytrach nag un cam.

17.12 Fel y nodwyd ym Mhennod 11, mae'r CDU yn cynnwys lle i nodi darpariaeth ddysgu ychwanegol a all fod yn briodol yn y dyfodol, e.e. pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynychu lleoliad newydd. Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu lleoliad newydd, bydd angen ystyried unrhyw gludiant gofynnol er mwyn sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn gallu mynychu'r lleoliad newydd.[250] Er na fydd y trefniadau cludiant yn rhan o'r ddogfen CDU, bydd angen eu hystyried ar yr un pryd.

[250] Bydd awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r dyletswyddau o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r canllawiau statudol a wnaed yn ymwneud ag adran 15 o'r Mesur.

17.13 Er mwyn cynorthwyo'r trosglwyddiad, bydd angen mynd ati ymlaen llaw i rannu gwybodaeth yn ymwneud â'r CDU, unrhyw wybodaeth ychwanegol am anghenion y plentyn neu'r person ifanc, y cymorth ehangach sy'n cael ei ddarparu i'r plentyn neu'r person ifanc (ynghyd â gwybodaeth am y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn y CDU) a gwybodaeth am gynnydd y plentyn neu'r person ifanc. Bydd hyn yn helpu'r dosbarth/lleoliad newydd i baratoi'r plentyn neu'r person ifanc i drosglwyddo.

17.14 Mae trosglwyddiadau'n tueddu i lwyddo pan fyddant yn cael eu cynllunio ymhell ymlaen llaw a phan fyddant yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Dylid canolbwyntio ar yr hirdymor, gan gynllunio i weithredu a pharatoi ar gyfer trosglwyddiadau yn effeithiol. Fel rhan o'r broses hon, dylai sefydliadau ystyried sut y gallant ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

17.15 Gellir cynorthwyo'r broses drosglwyddo mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys:

- Ymweld â'r dosbarth neu'r lleoliad newydd a chyfarfod â'r holl aelodau staff perthnasol;
- Llyfrynnau trosglwyddo – sy'n cynnwys ffotograffau o bosibl fel bod plant a phobl ifanc yn gallu dod yn gyfarwydd â'r staff, yr ystafelloedd, a'r cynllun; a
- Defnyddio system gyfeillio.

17.16 Mae trosglwyddo'n llwyddiannus yn ymwneud â galluogi'r plentyn, rhiant y plentyn, a'r person ifanc i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ac yna paratoi'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc a'r lleoliad ar gyfer y trosglwyddiad, gan ddarparu cymorth ychwanegol yn ôl y gofyn. Bydd angen nodi a chynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol wrth ystyried y broses drosglwyddo.

17.17 Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â chamau nesaf y plentyn neu'r person ifanc, dylid gweithredu'n glir a nodi cyfrifoldebau'n glir er mwyn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus. Mae'n bwysig cofio bod diddordebau a dyheadau'r plentyn neu'r person ifanc, a'r dewisiadau sydd ar gael iddo, yn gallu newid, felly mae'n bosibl y bydd angen i'r camau gweithredu newid hefyd.

17.18 Mae'n bwysig gwneud y canlynol wrth gynllunio ar gyfer y broses drosglwyddo:

- Annog plant, rhieni plant a phobl ifanc i ystyried y trosglwyddiad maent yn ei ddymuno;
- Nodi rhwystrau posibl i drosglwyddo'n llwyddiannus ac ystyried ymatebion priodol iddynt. Gallai hyn gynnwys darparu gwybodaeth a

chyngor i blant, rhieni plant, a phobl ifanc, a gweithio gyda nhw i'w grymuso i ddatblygu eu sgiliau a'u gwytnwch;

- Cyfnewid gwybodaeth rhwng lleoliadau, ochr yn ochr â throsglwyddo'r CDU (gweler Pennod 16);
- Annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau pontio lle bo hynny'n briodol, fel cyfarfod ag aelodau staff perthnasol, cael blas ar leoliadau newydd ac ati;
- Gwneud paratoadau cyn y trosglwyddiad – a allai gynnwys addasiadau ffisegol, newid arferion gwaith a newidiadau yn y gweithlu (fel recriwtio a hyfforddi).

17.19 Os yw plentyn neu berson ifanc yn trosglwyddo rhwng dosbarthiadau neu gyfnodau, dylai'r lleoliad ystyried gallu'r aelod staff addysgu newydd i ddiwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Cydlynydd ADY gynorthwyo'r aelod staff addysgu yn y cyswllt hwn. Os yw'r unigolyn yn mynychu ysgol, dylai hyn fod yn rhan o Gynllun Datblygu'r Ysgol.

## *Trosglwyddo rhwng lleoliadau penodol*

17.20 Dylai'r egwyddorion cyffredinol helpu i lywio a chefnogi trosglwyddiad llwyddiannus. Mae'r is-adran hon yn cyflwyno canllawiau ar drosglwyddiadau penodol.

**Cyn ysgol – Ysgol:**

17.21 Mae trosglwyddo i'r ysgol yn gallu bod yn gam mawr i blentyn. I wneud y trosglwyddiad yn haws, gall awdurdodau lleol ac ysgolion ystyried trefnu cyfarfodydd rhagarweiniol. Gall y cyfarfodydd hyn gynnwys y plentyn, rhieni'r plentyn a'r lleoliad cyn ysgol, a gall ymwelydd iechyd fynychu hefyd os oes angen.

<u>**Enghraifft o arfer da**</u>

| |
|---|
| Mae plentyn ag ADY ar fin trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin i ysgol gynradd. Gwahoddir ac anogir y rhieni i fynychu sesiwn yr wythnos dros gyfnod o chwe wythnos yn yr ysgol newydd, gyda phob sesiwn yn para 30 munud (tair awr i gyd). Caiff y sesiynau eu harwain gan staff o'r darparwr meithrin a Chydlynydd ADY yr ysgol gynradd. Nod y sesiynau hyn yw helpu i ddatblygu perthnasau a rhoi cyfle i rieni drafod anghenion y plentyn ac unrhyw bryderon sydd ganddynt. Gall hyn helpu i greu proffil un tudalen ar gyfer y plentyn a pharatoi neu ddiwygio CDU cyn bod y plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Defnyddir mewnbwn y rhieni a gwybodaeth a geir yn uniongyrchol gan y plentyn i lunio'r proffil a'r CDU. Mae hyn yn gyfle i ddatblygu trefniant pontio gyda chamau gweithredu personol, ac yn golygu bod modd darparu darpariaeth ddysgu ychwanegol a chymorth ehangach yn syth. |

**Enghraifft o arfer da**

Mae plentyn ag atacsia cynhenid sy'n effeithio ar ei ddatblygiad corfforol, ei sefydlogrwydd craidd a'i leferydd yn mynd i leoliad cyn-ysgol dair gwaith yr wythnos.

Mae'r awdurdod lleol yn cysylltu â'r rhieni i gynllunio ar gyfer trosglwyddo'r plentyn i'r ysgol gynradd.

Cynhelir ymweliad cychwynnol â'r lleoliad cyn-ysgol gan Athro Cynghori ADY y Cyfnod Sylfaen er mwyn cwrdd â'r plentyn a thrafod ei achos gyda'r staff perthnasol. Yn y tymor cyn i'r plentyn ddechrau'r ysgol, gwahoddir y rhieni i gyfarfod adolygu i drafod y CDU lle gallant drafod anghenion y plentyn a'u gobeithion ar gyfer ei leoliad. Mae'r staff cyn-ysgol a'r staff cynradd perthnasol yn mynd i'r cyfarfod hwn, a llunnir cynllun gweithredu ar gyfer trosglwyddo'r plentyn yn raddol a'u nodi yn y CDU.

Yn yr achos hwn:

Bydd y plentyn yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol yn raddol dros gyfnod o amser lle bydd yn cael cefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol. Mae'r plentyn yn creu llyfr lluniau yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo mae'r plentyn yn cwrdd â staff yn yr ysgol newydd ac yn ymweld â rhannau penodol o'r ysgol, gan gynnwys y dosbarth derbyn (pum sesiwn bore ac un sesiwn diwrnod cyfan). Mae hyn yn helpu'r plentyn i deimlo'n hyderus i gyfathrebu ei anghenion i bob aelod o staff pan fydd wedi symud i'r ysgol.

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, mae'r ysgol hefyd yn cynnal asesiad iechyd a diogelwch i sicrhau bod unrhyw addasiadau/diwygiadau/mesurau diogelwch a rheolaethau yn eu lle. Mae'r ysgol hefyd yn sicrhau bod unrhyw hyfforddiant angenrheidiol i staff yn cael ei gwblhau cyn bod y plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cael cyngor pellach gan weithwyr proffesiynol perthnasol lle bo angen. Gwneir trefniadau i Athro Cynghori ADY y Cyfnod Sylfaen ymweld â'r plentyn yn y lleoliad cyn-ysgol yn ddiweddarach, a chaiff y plentyn, rhieni'r plentyn a'r asiantaethau perthnasol eu gwahodd i adolygu'r CDU cyn bod y plentyn yn dechrau'r ysgol.

Penderfynir ar ôl i'r plentyn ddechrau'r ysgol y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob tymor i adolygu'r CDP, a bydd y plentyn, rhieni'r plentyn a phwy bynnag arall sy'n briodol yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod hwnnw.

**Rhwng Dosbarthiadau / Blynyddoedd / Newid athrawon:**

17.22 Mae'n bosibl y bydd angen ystyried trefniadau trosglwyddo cyn i blentyn symud i ddosbarth neu flwyddyn newydd neu os yw'n mynd i gael athro newydd. Gall hyn gynnwys yr adeg pan fydd y plentyn yn symud o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Er mwyn cefnogi'r plentyn, gellid cynnal cyfarfod adolygu yn ystod tymor yr haf y bydd athro newydd y plentyn yn mynd iddo, gan lunio cynllun trosglwyddo yn unol ag anghenion y plentyn.

17.23 Bydd y cynllun trosglwyddo yn cynnwys y pynciau mwyaf perthnasol, fel newid cwricwlwm, amseroedd ysgol gwahanol, amseroedd egwyl gwahanol, toiledau gwahanol, staff anghyfarwydd a chymysgu â disgyblion hŷn.

**Trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd:**

17.24 Gall trosglwyddo rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd fod yn bwysig iawn. Mae ysgolion eisoes yn cynllunio ac yn trefnu ar gyfer trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Dylid cynnwys pob disgybl i'r graddau posibl mewn cynlluniau trosglwyddo arferol. Fodd bynnag, bydd angen rhoi sylw penodol i blant ag ADY, a sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ychwanegol at y rhai arferol, gan gynnwys, er enghraifft, cyfarfod â'r Cydlynydd ADY. Dylid ystyried a fyddai'n briodol i Gydlynydd ADY yr ysgol uwchradd fynd i gyfarfod CDU y plentyn ym Mlwyddyn 6.

17.25 Mae trosglwyddo rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn gallu bod yn amser pryderus i'r holl ddisgyblion a'u teuluoedd, ond mae'n gallu bod yn amser hynod bryderus i ddisgyblion ag ADY. Dylai ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd gydweithio i gefnogi trosglwyddiad llwyddiannus.

17.26 Pan fydd plentyn yn symud ysgol, bydd angen trosglwyddo'r CDU (gweler Pennod 16) ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

17.27 Gall trosglwyddo'n llwyddiannus helpu'r plentyn i ymgartrefu yn yr ysgol newydd a helpu i osgoi unrhyw ostyngiad yn lefel ei berfformiad.

**Trosglwyddo ym mlwyddyn 9/10:**

17.28 Pan fydd disgybl yn cyrraedd Blwyddyn 9 a 10, bydd angen canolbwyntio'n benodol ar y camau nesaf ar ôl addysg orfodol ac ar helpu'r plentyn i baratoi ar gyfer byd oedolion. Bydd rhai plant ag ADY yn aros yn yr ysgol, bydd eraill yn symud i'r sector AB, a gall eraill ddewis llwybr gyrfa gwahanol. Dylid ystyried a oes angen gwahodd cynghorwyr gyrfaoedd (gweler isod) i adolygiad plentyn neu berson ifanc.

17.29 Bydd angen trafod cymorth i'r disgybl ar ôl gadael yr ysgol yn y cyfarfod adolygu, yn enwedig os nad yw'r plentyn yn bwriadu aros yn yr ysgol. Os yw'r plentyn yn bwriadu mynychu SAB, dylid gwahodd y SAB i'r cyfarfod adolygu i drafod anghenion cymorth yn y dyfodol.

**Trosglwyddo rhwng Ysgol a SAB:**

17.30 Os yw person ifanc yn bwriadu symud i'r sector AB a bod angen cymorth ychwanegol arno i drosglwyddo'n llwyddiannus, a/neu y bydd angen darpariaeth arbenigol arno, dylid gwahodd staff y SAB i gyfarfod adolygu ym Mlwyddyn 11. Os oes gan blentyn anghenion cymhleth iawn, gall fod yn fuddiol i staff y SAB fynychu adolygiadau Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 9. Os

nad yw'n glir a fyddai lleoliad mewn SAB yn addas, dylid gwahodd y SAB i drafod a oes modd diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc mewn SAB. Gall fod yn briodol gwahodd arbenigwyr gyrfaoedd (gweler isod) hefyd.

17.31 Dylai ysgolion, SAB, awdurdodau lleol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol gydweithio i helpu'r person ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus.

17.32 Os penderfynir y bydd angen lleoliad mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, bydd angen cymorth ar y plentyn, rhiant y plentyn, a'r person ifanc i ddeall goblygiadau hyn, ac i nodi'r lleoliad priodol. Bydd angen darparu gwybodaeth fanwl am y lleoliad posibl i'r plentyn, rhiant y plentyn a'r person ifanc[251].

17.33 Er mwyn cefnogi unigolion i fynychu SAB, dylai ysgolion gynllunio adolygiadau i sicrhau effeithlonrwydd, a dylai SAB fod â strwythur staffio sy'n galluogi unigolion i'w fynychu.

17.34 Bydd y broses drosglwyddo yn wahanol ar gyfer pob person ifanc, ond gallai gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- Mynychu digwyddiadau agored
- Teithiau tywys o gwmpas y coleg, naill ai yn ystod y dydd neu ar adegau tawelach
- Sesiynau blasu
- Rhaglenni cyswllt
- Cyfleoedd i fynychu dosbarthiadau
- Rhaglenni cynefino estynedig
- Ymweliad pwrpasol wedi'i drefnu gan y SAB.

17.36 Pan fydd person ifanc yn ymrestru mewn SAB, bydd angen cynnal cyfarfod i adolygu'r CDU cyn gynted â phosibl, gan fynd ati i ailystyried darpariaeth ddysgu ychwanegol y person ifanc. Mae'n bosibl y bydd angen newid y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol er mwyn adlewyrchu amgylchiadau'r lleoliad gwahanol, ac efallai na fydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gyflwynwyd yn yr ysgol yn diwallu anghenion y person ifanc mewn SAB. Er enghraifft, dylai SAB helpu'r person ifanc i weithio tuag at ragor o annibyniaeth. Os oes bwriad i newid y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, mae'n **rhaid** trafod y mater hwn â'r person ifanc, gan gynnwys y rhesymau dros y newid arfaethedig. Dylai hyn gynnwys rhoi sicrwydd i'r person ifanc ynglŷn ag unrhyw bryderon posibl sydd ganddo, a rhoi camau lliniaru ar waith i dawelu'r pryderon hyn os oes angen.

17.37 Mae'n bosibl y bydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn newid i adlewyrchu'r ddarpariaeth a nodir yn adran drosglwyddo'r CDU (gweler Pennod 11).

[251] Os oes amheuon ynglŷn â galluedd person ifanc i ddeall, bydd darpariaethau perthnasol Deddf Galluedd Meddyliol 2005, cyfraith achosion a'r Cod Ymarfer yn berthnasol.

17.38 Fodd bynnag, ni fydd SAB yn cyfrannu at y broses drosglwyddo ym mhob achos, er enghraifft os yw unigolyn wedi newid ei feddwl a gwneud penderfyniad hwyr. Wrth ymrestru, dylai ymgeiswyr gael cyfle i ddatgelu unrhyw ADY neu anabledd, a datgan a ydynt wedi cael CDU yn y gorffennol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r person ifanc a'r SAB drafod anghenion yr unigolyn a'r cymorth sydd ei angen arno. Dylai'r SAB gynorthwyo'r person ifanc i ddeall yr amgylchedd a darparu gwybodaeth yn ôl y gofyn, gan gynnwys manylion y Cydlynydd ADY a thiwtor personol. Os yw'r SAB yn cynnal adolygiad o'r CDU neu'n llunio CDU newydd ar ôl i CDU blaenorol ddarfod, a bod angen rhagor o eglurdeb neu wybodaeth, dylid gwahodd y Cydlynydd ADY neu aelod perthnasol o staff yr ysgol flaenorol i'r cyfarfod. Hefyd, gall fod yn briodol cynnwys cynghorydd gyrfaoedd sydd wedi gweithio gyda'r person ifanc o'r blaen.

**<u>Enghraifft o arfer da</u>**

| |
|---|
| Yn SAB X, mae staff yn mynychu adolygiadau trosglwyddo i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i'r plentyn neu'r person ifanc a'r rhieni. Yn ogystal, mae SAB yn cynnal cyfarfodydd ADY rheolaidd â'i ysgolion uwchradd lleol, lle gellir trafod anghenion dysgwyr ag ADY. |
| **<u>Jenny</u>**<br><br>Mae gan Jenny anawsterau dysgu difrifol ac mae'n agored iawn i niwed. Mae'n mynychu ysgol arbennig ers saith mlynedd, a byddai'n hoffi dilyn cwrs Sgiliau Bywyd mewn SAB ond mae'n bryderus ynghylch gadael ysgol. Aeth y Swyddog Pontio o'r SAB perthnasol i gyfarfod adolygu Blwyddyn 12 Jenny i sôn am y cyrsiau amrywiol a oedd ar gael ac i ddarparu gwybodaeth arall i Jenny a'u rhieni am yr hyn yr oedd y SAB yn gallu ei gynnig (o dan drefniadau newydd, gallai Cydlynydd ADY y SAB wneud hyn). Yn ystod cyfarfod adolygu Blwyddyn 13, cytunwyd ar ddyddiadau i Jenny allu ymweld â SAB i roi cynnig ar rai sesiynau blasu. Trefnwyd ymweliad cyn y sesiynau blasu er mwyn tywys Jenny o amgylch y SAB a rhoi cyfle iddi gwrdd â rhai o'r staff a'r myfyrwyr.<br><br>Yn dilyn y sesiynau blasu, gwahoddwyd Jenny a'u rhieni i gyfweliad anffurfiol yn y SAB. Cafwyd digon o wybodaeth yn ystod y sesiynau blasu, ac o CDU ac adolygiad Jenny, i staff y SAB allu penderfynu ynghylch ei hanghenion o ran cymorth. Trafodwyd y trefniadau cymorth a chytuno arnynt gyda Jenny a'u rhieni, ac ychwanegwyd yr wybodaeth hon i'w CDU. Yn ogystal, cafodd Jenny a'u rhieni'r holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i wneud cais am gludiant a chymorth ariannol, ynghyd â manylion trefniadau cofrestru ac ymsefydlu'r SAB. |

## *Cynghorwyr Gyrfa*

17.39 I'r rhan fwyaf o blant neu bobl ifanc ag ADY, bydd y cyngor ar yrfaoedd y maent yn ei dderbyn fel rhan o'u haddysg brif ffrwd yn diwallu eu hanghenion. Dylai dysgwyr ag ADY sydd mewn perygl o fod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) eisoes fod wedi'u nodi fel grŵp blaenoriaeth sydd angen gwasanaethau ychwanegol. Bydd angen i Gyrfa Cymru helpu i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY a fydd yn elwa ar wasanaethau ychwanegol.

17.40 Os yw'r person sy'n trefnu cyfarfod CDU yn credu bod angen mewnbwn wyneb yn wyneb gan gynghorwyr gyrfa ar y plentyn neu'r person ifanc, dylai'r person hwn wahodd y cynghorwyr i'r cyfarfod adolygu. Bydd hyn yn bwysig iawn os yw'r cyfarfod adolygu yn canolbwyntio ar drosglwyddiadau a pharatoi ar gyfer byd oedolion ac os yw'n trafod dewisiadau gyrfa'r plentyn neu'r person ifanc.

17.41 Gall cynghorwyr gyrfa ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ddewisiadau gyrfa gwahanol ar gyfer y plentyn, y person ifanc a'r teulu, a'u hysbysu am ddyddiadau digwyddiadau agored, fel digwyddiadau yn y SAB lleol. Hefyd, gallant ddarparu gwybodaeth am gyrsiau gwahanol a chynnig her ac arweiniad i helpu unigolyn i ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael, fel parhau mewn addysg, gyrfaoedd gwahanol a hyfforddiant galwedigaethol. Gall hyn fod yn berthnasol iawn os yw'r ysgol yn bwydo un ddarpariaeth nad yw'n addas i'r unigolyn o bosibl.

17.42 Gall fod yn briodol cynnwys arbenigwyr gyrfaoedd os na fydd modd diwallu anghenion dysgwr mewn SAB heb gymorth sylweddol gan yr awdurdod lleol a CDU a gynhelir gan awdurdod lleol.

**Enghreifft o arfer da**

**<u>Pryd i gynnwys arbenigwyr gyrfa</u>**

Mae Paul yn fyfyriwr Blwyddyn 9 mewn ysgol brif ffrwd ac ar fin dewis ei opsiynau. Mae Paul ar y sbectrwm awtistig ac yn tueddi i bryderu'n fawr am unrhyw newid. Hefyd, mae'n ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau ac yn cael pyliau o banig pan fydd dan bwysau.

Mae gan yr ysgol systemau da iawn yn eu lle i gefnogi Paul ac yn defnyddio cymhorthion gweledol i helpu Paul i ddeall newidiadau i'w amserlen. Mae rhieni Paul yn pryderu am ei ddyfodol a beth fydd yn digwydd pan fydd yn gadael ysgol. Ar gais yr ysgol, mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn cwrdd ag ef a'i rieni er mwyn ei helpu ef i feddwl am sut mae'n gwneud penderfyniadau a'i helpu nhw i ddysgu am yr opsiynau sydd ar gael ar ôl gadael ysgol. Mae'r cynghorydd gyrfaoedd hefyd yn cytuno i fynd i gyfarfod adolygu Blwyddyn 9 Paul i'w helpu i egluro ei opsiynau.

DRAFT

**Defnyddio arbenigwr gyrfaoedd a SABau**

Mae Gavin yn ddisgybl Blwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith ac anawsterau symud. Roedd yn gobeithio aros yn yr ysgol i astudio ar gyfer Safon Uwch, ond disgwylir iddo gael graddau D ac E yn ei arholiadau TGAU. Mae'r cynghorydd gyrfaoedd wedi cwrdd â Gavin yn ystod Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 ac mae Gavin wedi dangos diddordeb mewn ystod eang o feysydd galwedigaethol.

Ym Mlwyddyn 11, mae'r ysgol yn gofyn i'r cynghorydd gyrfaoedd gwrdd â Gavin eto i drafod ei opsiynau yn fwy manwl. Mae Gavin yn dysgu bod y SAB yn cynnig nifer o gyrsiau y gallai fod â diddordeb ynddynt, ac mae'n derbyn efallai nad yw'r ysgol yn gallu cynnig y cymwysterau sy'n gweddu orau iddo. Gan fod Gavin yn ddihyder, mae'n cytuno y gall y cynghorydd gyrfaoedd drafod ei opsiynau gyda'i rieni ac y byddai'n syniad da iddynt ymweld â'r SAB gydag ef. Mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn cysylltu â Chydlynydd ADY y SAB i drefnu ymweliad ac yn mynd ati, gyda chaniatâd Gavin, i amlinellu ei gryfderau a'r cymorth y gallai fod ei angen mewn amgylchedd newydd.

Mewn cyfarfod i adolygu CDU Gavin ym mis Rhagfyr, caiff y SAB ei gynrychioli gan y Cydlynydd ADY. Roedd Gavin yn hapus â'r cyrsiau a gynigiwyd ac mae wedi cwblhau cais. Mae'r Cydlynydd ADY yn gallu rhoi mwy o fanylion am y cwrs a'r cymorth a fydd yn cael ei drefnu. Caiff y CDU ei ddiweddaru i gynnwys y cymorth hwn. Trefnir nifer o ymweliadau pellach i helpu Gavin i drosglwyddo o'r ysgol i'r coleg. Mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn cytuno i aros mewn cysylltiad â Gavin yn ystod yr haf i sicrhau ei fod yn dal i deimlo'n hyderus i ddechrau ym mis Medi.

**Gyrfa Cymru - astudiaeth achos - cleient yn gadael ysgol i symud i ddysgu seiliedig ar waith**

Mae Jack ar y sbectrwm awtistig. Mae'n mynychu ysgol brif ffrwd ac mae ganddo Gynorthwyydd Cymorth Dysgu i sicrhau ei fod wedi deall yr hyn a ddisgwylir ganddo a'i helpu i gyflwyno ei waith cwrs mewn pryd. Nid yw Jack yn mwynhau dysgu yn y dosbarth ac mae'n awyddus i adael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 11. Cyfarfu â'i gynghorydd gyrfaoedd ddwywaith i drafod ei opsiynau ac mae wedi penderfynu yr hoffai ddilyn dysgu seiliedig ar waith a chael profiad ymarferol. Mae ganddo ddiddordeb mewn arlwyo.

Mae Jack wedi trafod y cymorth yr hoffai ei gael yn ystod ei leoliad, ac mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn trefnu i Jack ymweld â dau ddarparwr lleol sy'n cynnig dysgu seiliedig ar waith. Mae'r Cydlynydd ADY yn gwahodd y cynghorydd gyrfaoedd i'r cyfarfod blynyddol i adolygu'r CDU, ac mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn awgrymu y dylid hefyd gwahodd y darparwr dysgu seiliedig ar waith yr hoffai Jack fynd iddo. Trafodir y cymorth y bydd angen ei ddarparu ac mae Jack a'i rieni'n teimlo'n fwy hyderus y caiff leoliad a chyfle i weithio tuag at gymwysterau pellach. Mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn asesu hynt y gwaith hwn yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ac yn cyfeirio Jack i

ddysgu seiliedig ar waith. Mae yntau'n rhannu ei CDU, wedi'i ddiweddaru, gyda'r darparwr dysgu seiliedig ar waith. Mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn aros mewn cysylltiad â Jack nes ei fod wedi setlo yn ei leoliad.

## *Pobl ifanc sy'n gadael addysg/hyfforddiant*

17.43 Os yw person ifanc yn gadael addysg neu hyfforddiant i ddechrau cam nesaf ei daith drwy fywyd, bydd angen cymorth arno i drosglwyddo'n llwyddiannus. Bydd hyn yn cynnwys ei gynorthwyo i ddeall y cymorth a'r dewisiadau gyrfa sydd ar gael iddo. Gall hyn gynnwys trosglwyddo'r wybodaeth berthnasol gyda'r CDU (ar ôl cael cydsyniad y person ifanc) i'r asiantaethau perthnasol.

17.44 Er mwyn helpu'r person ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus i fyd oedolion, gall fod yn briodol gwahodd arbenigwyr gyrfaoedd (gweler uchod am ragor o wybodaeth am yr achosion pan fydd angen gwahodd arbenigwyr).

17.45 Os yw'n hysbys y bydd person ifanc yn cwblhau ei addysg neu ei hyfforddiant yn y dyfodol agos, dylai'r ysgol/SAB/awdurdod lleol helpu'r person ifanc i ymgysylltu â'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth y bydd yn eu defnyddio ar ôl gadael addysg. Dylai'r person ifanc wybod beth fydd yn digwydd ar ôl i'r CDU ddod i ben.

## *Symud i Addysg Uwch*

17.46 Os yw person ifanc yn ymrestru ar gwrs mewn sefydliad addysg uwch (SAU), dylai'r ysgol/SAB gynorthwyo'r person ifanc i rannu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys CDU y person ifanc. Bydd hyn yn galluogi'r SAU i ystyried y math o gymorth y mae'n gallu ei ddarparu, ac yn helpu i lywio'r Asesiad o'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA).

17.47 Mae sicrhau lle mewn sefydliad addysg uwch yn ddeilliant cadarnhaol ar gyfer llawer o bobl ifanc ag ADY. Os mai dyma uchelgais y person ifanc, bydd angen cynnig y lefel briodol o gymorth a darpariaeth i'w helpu i gyrraedd y nod lle bo hynny'n bosibl. Dylai trosglwyddiad llwyddiannus i addysg uwch gael ei gynllunio mor gynnar â phosibl.

17.48 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan sefydliadau addysgol ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' ar gyfer personau anabl, gan gynnwys:

- gwneud newidiadau i reol, gofyniad neu ymarfer;
- gwneud newidiadau i adeiladau neu safleoedd; neu
- ddarparu cyfarpar i helpu.

17.49 Dylai ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol gynllunio trosglwyddiad llwyddiannus i addysg uwch (ac i'r ardal awdurdod lleol newydd lle bo hynny'n

DRAFT

berthnasol) cyn rhoi'r gorau i gynnal CDU person ifanc. Ar gais y person ifanc, dylai'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol drosglwyddo copi o'r CDU i'r person perthnasol yn y sefydliad addysg uwch cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r sefydliad gadarnhau bod gan y person ifanc le ar gwrs yno.

17.50 Hefyd, bydd angen cynghori pobl ifanc ar y cymorth sydd ar gael iddynt ym maes addysg uwch, a sut i gael gafael arno.

DRAFT

# Pennod 18: Osgoi a Datrys Anghytundebau

## *Crynodeb*

18.1 Mae'r Bennod hon yn ymwneud â'r gofyniad ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau gyda golwg ar osgoi a datrys anghytundebau.[252] Mae hefyd yn cynnwys manylion mewn perthynas â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol.[253]

18.2 O bryd i'w gilydd, gall anghytundebau godi ynghylch ADY neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Pan fo'n bosibl, dylai'r rhain gael eu hosgoi neu eu datrys trwy drafod cyn gynted â phosibl.

18.3 Nod y broses gynhwysol o ddatblygu CDU a'r gofyniad i ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc (gweler Pennod 3) yw helpu i oresgyn pryderon ac osgoi anghytundeb. Dylai ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol ganolbwyntio ar roi cyfle i'r partïon godi pryderon neu gwestiynau ar bob cam o'r broses ac atal problemau rhag gwaethygu.

## Safonau

18.4 Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau yn briodol ac o safon addas. Er enghraifft, wrth ddarparu'r trefniadau hyn, disgwylir i'r awdurdod lleol:

- ysgwyddo cyfrifoldeb dros safon gyffredinol y trefniadau, gan gynnwys bod â chynllun datblygu â thargedau clir a adolygir yn rheolaidd;
- sicrhau bod yna strwythurau rheoli priodol ar gyfer y trefniadau, sy'n cynnwys goruchwylio, adolygu a monitro'r trefniadau'n rheolaidd ac ystyried arfer gorau lleol neu genedlaethol;
- sicrhau bod digon o adnoddau a staff i ddiwallu anghenion plant, eu rhieni a phobl ifanc yn yr ardal;
- sicrhau bod staff sy'n darparu'r trefniadau yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol i gyflawni eu rôl yn effeithiol a bod hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru i wella safonau;
- sicrhau bod y trefniadau'n cael digon o gyhoeddusrwydd, yn hwylus ac yn hawdd eu defnyddio i bob plentyn, rhiant plentyn a pherson ifanc;
- cael adborth ar y trefniadau gan y rhai sy'n eu defnyddio i lywio datblygiad a gwelliant parhaus y trefniadau;
- bod â chynlluniau ariannu a chyllidebu clir ar waith ar gyfer y trefniadau; a
- darparu'r trefniadau fel eu bod am ddim ar y pwynt darparu.

[252] Adran 61 o'r Ddeddf.
[253] Adran 62 o'r Ddeddf.

18.5 **Rhaid** bod gan staff sy'n darparu'r trefniadau hyn ddealltwriaeth fanwl o'r system ADY. Yn ogystal, ni ddylent fod ag unrhyw fuddiant personol yn neilliant unrhyw anghytundebau posibl.

18.6 Dylai'r trefniadau fod yn ystyriol o blant a phobl ifanc.

18.7 Bydd llawer o blant am gael mynediad at y trefniadau hyn trwy eu rhieni. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai plant, yn enwedig plant hŷn, am gael mynediad at y trefniadau yn annibynnol ar eu rhieni. **Rhaid** i awdurdodau lleol hwyluso hyn.

18.8 Er bod **rhaid** i bobl ifanc allu cael mynediad at y trefniadau hyn ohonynt eu hunain, dylai awdurdodau lleol gydnabod anghenion penodol pobl ifanc a sicrhau bod yr hyn a gynigir i blant, eu rhieni a phobl ifanc yn gydgysylltiedig a chyson.

18.9 Hwyrach y bydd pobl ifanc yn dod o hyd i'w llais am y tro cyntaf, ac y byddant, felly, angen cymorth i wneud dewisiadau a rheoli'r cymorth a dderbyniant.

## *Trefniadau osgoi anghytundebau*

18.10 **Rhaid** i awdurdodau lleol wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau rhwng ysgol a gynhelir, SAB, awdurdod lleol a pherchennog sefydliad perthnasol.[254] Er enghraifft, gall sefydliadau perthnasol gynnwys ysgol annibynnol a phlentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc. **Rhaid** i'r trefniadau hyn gwmpasu'r ffordd mae ysgolion/SAB/awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf a'r ffordd mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud a'i chyflwyno, gan gynnwys os teimlir nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei darparu mewn ffordd addas neu i safon addas.

18.11 Diben y trefniadau yw helpu i ddatrys a dadlennu natur sylfaenol unrhyw anghytundebau posibl. Gallant hefyd helpu'r plentyn, rhieni'r plentyn a'r person ifanc i ddeall y system ADY yn well. Dylai'r trefniadau annog partïon i gyfaddawdu neu drafod cymaint â phosibl.

18.12 Rhaid i'r trefniadau osgoi anghytundebau allu gweithio gyda'r ysgol, y SAB a'r awdurdod lleol a'r plentyn, rhiant y plentyn a'r person ifanc. Gall y trefniadau helpu i greu a meithrin partneriaethau a helpu i feithrin y ddealltwriaeth mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n bwysig, gyda phawb yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc.

18.13 Gall y trefniadau ddarparu'r canlynol:

- Cyngor ar hawliau a chyfrifoldebau plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc sydd angen cymorth;

[254] Adran 61 o'r Ddeddf.

- Cymorth i ddatrys anawsterau a chynllunio ffordd ymlaen gyda'r bobl eraill berthnasol;
- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb i bennu beth i'w wneud nesaf;
- Cymorth i fynd i gyfarfodydd a chyfrannu atynt;
- Cymorth parhaus os yw problemau'n anodd eu datrys.

18.14 Gall y trefniadau helpu i feithrin ymddiriedaeth ac osgoi anghytundebau trwy:

- Cefnogi'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc a gweithwyr proffesiynol, fel sy'n briodol, i gael yr un wybodaeth o'r un ffynhonnell ddibynadwy;
- Rhoi sicrwydd i blant, eu rhieni a phobl ifanc y bydd trafodaethau a phenderfyniadau yn canolbwyntio ar fudd pennaf y plentyn neu'r person ifanc ac y byddant yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt;
- Gwella cyfathrebu a meithrin ymddiriedaeth rhwng y partïon i greu amgylchedd lle mae'r plentyn, y teulu a'r person ifanc yn deall eu bod yn bartneriaid llawn yn y broses hon, nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol a allai ddylanwadu ar hyn a bod modd mynd i'r afael â phryderon trwy ddeialog agored ac adeiladol;
- Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu hesbonio mewn ffordd sy'n ddealladwy i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc;
- Esbonio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i benderfyniadau a wneir a helpu'r plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc i herio'r rhain, gan gynnig neu atgyfeirio i eiriolaeth fel sy'n ofynnol;
- Darparu cyfle cynnar i gwestiynu penderfyniadau, sy'n allweddol i osgoi anghydfod, fel bod problemau'n cael eu cyflwyno a'u trafod trwy gwestiynu priodol - fel na fydd pobl yn ystyfnigo a gwrthod newid eu safbwynt;
- Cefnogi archwiliad o'r CDU i ddeall sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud ac i weld a oes unrhyw dystiolaeth nad yw wedi'i hystyried.

18.15 Efallai y bydd gan eiriolwyr annibynnol ac, os ydynt wedi'u penodi, gyfeillion achos, gyfraniad allweddol i'w wneud at weithredu'r trefniadau i osgoi anghytundebau yn effeithiol.

## *Datrys Anghytundebau*

18.16 Os na lwyddwyd i atal anghytundebau rhag codi, bydd y ffocws yn newid i geisio datrys yr anghytundebau hynny mewn ffordd sydd mor gyflym ac effeithlon â phosibl. Bydd datrys anghytundebau yn gynnar o fudd mawr i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc, a gall osgoi straen a chostau diangen.

18.17 **Rhaid** i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddatrys anghytundebau rhwng ysgol a gynhelir, SAB, awdurdod lleol a pherchennog sefydliad perthnasol a phlentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc [255]. **Rhaid** i'r trefniadau hyn gwmpasu'r ffordd mae ysgolion/SAB/awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf a'r ffordd mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud a'i chyflwyno, gan gynnwys os teimlir nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei chyflwyno mewn ffordd addas neu i safon addas.

18.18 Yn y lle cyntaf, dylai'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc gael ei gefnogi i godi ei bryderon ar y lefel leol fwyaf addas. Mewn llawer o achosion, bydd angen codi'r pryderon gyda'r lleoliad addysg mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu e.e. y lleoliad cyn ysgol, yr ysgol neu'r SAB.

18.19 Dylai awdurdodau lleol ystyried sut gall eu trefniadau ymgorffori neu ategu gweithdrefnau cwyno presennol ysgolion a SAB er mwyn sicrhau bod modd datrys anghytundebau cyn gynted â phosibl ar y lefel fwyaf lleol.

18.20 Diben gwasanaethau datrys anghytundebau yw bod yn ffordd gadarnhaol o ddatrys anghytundebau'n gyflym. Gall y trefniadau helpu i ddatrys y problemau, ac maent yn gyfle i adfer neu wella'r berthynas rhwng y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc a'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol a helpu i feithrin y ddealltwriaeth mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n ganolog i'r cyfan, gyda phawb yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc.

18.21 Yn ogystal, os yw ysgol a gynhelir wedi penderfynu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, neu os yw wedi gwrthod gwneud penderfyniad, bydd gan y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc gyfle i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y mater.[256] Hefyd, os bydd ysgol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc a bod y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn teimlo nad yw'r CDU yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc, gellir gofyn i'r awdurdod lleol ailystyried a diwygio'r cynllun.[257]

18.22 Dylai trefniadau datrys anghytundebau'r awdurdod lleol ymdrin ag unrhyw gwestiynau gan y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc. Dylid esbonio bod y trefniadau'n anffurfiol a hwylus, ac yn broses syml a gynlluniwyd i ddod â dau barti ynghyd i egluro'r problemau a'u datrys.

18.23 Bydd ddefnyddio'r trefniadau datrys anghytundebau yn lleihau'r angen i gyflwyno anghydfod i Dribiwnlys. Dylai arwain at ddatrys unrhyw anghytundebau yn gyflymach, arbed tipyn o amser ac arian a lleihau'r tarfu ar ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc.

18.24 Dylai trefniadau datrys anghytundebau:

---

[255] Adran 61(1) a (2) o'r Ddeddf.
[256] Adran 24 o'r Ddeddf.
[257] Adran 25 o'r Ddeddf.



DRAFT

- fod yn ymarferol;
- fod yn hwylus;
- helpu i ddod â'r partïon perthnasol ynghyd;
- cefnogi anghenion y plentyn a'r person ifanc;
- helpu i ddatrys anghytundebau yn gyflym ac yn anffurfiol trwy drafod a chytuno;
- trafod yr ystod lawn o opsiynau;
- sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar addysg y plentyn neu'r person ifanc.

18.25 Mae angen i bawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc, deimlo'n ffyddiog y bydd eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed. Nid taflu bai ar un ochr neu'r llall yw diben y trefniadau datrys anghytundebau, ond ceisio datrys anghytundebau trwy gyflwyno ateb i wahaniaeth barn er lles y plentyn neu'r person ifanc. Dylai'r trefniadau fod yn addas i'r rhai sy'n cymryd rhan.

18.26 Pan fydd plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn penderfynu defnyddio'r trefniadau datrys anghytundebau, dylai'r partïon drefnu i gyfarfod ar adeg sy'n gyfleus i bawb a dylid cadw'r llinellau cyfathrebu ar agor gan ymateb yn gyflym i unrhyw geisiadau. Dylai hyn gael ei drefnu mor fuan ag sy'n bosibl er mwyn datrys y broblem yn gyflym. Dylai'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc gael cymorth i fynegi ei farn.

18.27 Er enghraifft, dylai defnydd da o drefniadau datrys anghytundebau:

- leihau'r meysydd anghytundeb mewn un rhan o anghydfod neu fwy;
- nodi pwyntiau o wahaniaeth a chreu neu feithrin cysylltiadau gweithio da rhwng y partïon;
- datgloi darpariaeth mwy o wybodaeth neu helpu partïon i gytuno ar ffeithiau allweddol;
- egluro'r cwestiynau allweddol sydd angen eu hateb er mwyn datrys yr anghydfod; a
- cheisio dod i gytundeb ar bwyntiau penodol.

18.28 Gall y trefniadau gynnwys agweddau megis sgyrsiau cyn cyfarfod gyda dwy ochr yr anghytundeb, lleoliad niwtral o fewn amserlen y cytunir arni (efallai y bydd angen mwy nag un cyfarfod) a datganiad 'cytundeb' a/neu 'cytuno i anghytuno' yn dilyn y broses.

## *Annibyniaeth Personau sy'n Helpu i Ddatrys Anghytundebau*

18.29 Fel rhan o'r trefniadau datrys anghytundebau, **rhaid** i'r awdurdod lleol gynnwys darpariaeth i bartïon mewn anghytundeb gael mynediad at help i'w ddatrys oddi wrth bersonau sy'n annibynnol ar y partïon.[258] Bydd angen i

[258] Adran 61(3) o'r Ddeddf.

berson(au) annibynnol sy'n helpu i ddatrys anghytundebau gael cyfoeth o brofiad, gwybodaeth a chymwysterau, gan gynnwys, er enghraifft:

- hyfforddiant a phrofiad o ddatrys anghytundebau e.e. eirioli;
- sgiliau cwnsela a thrafod;
- y gallu i sefydlu a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol;
- gwybodaeth am ddeddfwriaeth ADY, rheoliadau cysylltiedig, y Cod hwn a materion addysgol perthnasol eraill; a'r
- gallu i gynnal cyfrinachedd, heb fuddiant personol.

18.30 Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

18.31 Ni ddylai'r person fod wedi gweithio gyda'r plentyn, y teulu neu'r person ifanc o'r blaen ac ni ddylai fod ganddo unrhyw fuddiant personol yng nghanlyniad yr achos. Gall y person annibynnol helpu partïon i drafod yr anghytundeb a dod o hyd i ateb sy'n dderbyniol i bawb.

### *Cyfraniad cyrff iechyd at drefniadau osgoi a datrys anghytundebau*

18.32 Tra bod y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn ymgysylltu â threfniadau osgoi anghytundebau, neu drefniadau datrys anghytundebau'r awdurdod lleol, dylai'r awdurdod lleol ystyried a fyddai'n fuddiol cynnwys corff perthnasol y GIG yn y trefniadau hyn. Efallai y gellid gwneud hyn pan fydd y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn codi pryderon mewn perthynas ag iechyd, neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae corff iechyd yn gyfrifol amdanynt.

18.33 Os yw awdurdod lleol yn credu y byddai'n fuddiol i gynnwys corff iechyd mewn trefniadau osgoi a datrys anghytundebau, dylai gysylltu â'r SACDA perthnasol i gael cyngor. Dylai hyn fod yn rhan o rôl y SACDA (gweler Pennod 12).

18.34 Dylai'r SACDA ystyried a all cyfraniad cyrff iechyd at y trefniadau helpu i ddatrys anghytundebau ac, os felly, dylent gymryd rhan yn y trefniadau.

18.35 Yn ogystal â defnyddio trefniadau osgoi anghytundebau a threfniadau datrys anghytundebau awdurdodau lleol, os oes pryder ynghylch cyfraniad cyrff iechyd neu'r ddarpariaeth a ddarperir gan gyrff y GIG, dylai'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc gael ei annog i drafod ei bryder gyda'r darparwr iechyd.

18.36 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli pryderon a chwynion yn ymwneud â'r GIG yng Nghymru: *Gweithio i Wella.*[259] Mae Gweithio i Wella yn seiliedig ar ddull integredig sy'n dwyn ynghyd y

---

[259] Gweithio i Wella, ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=932

broses o reoli cwynion, digwyddiadau a hawliadau, ac mae'n seiliedig ar yr egwyddor 'ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda.'

18.37 Os yw hi'n amlwg i'r awdurdod lleol bod y pryder/anghytundeb/cwyn yn ymwneud ag iechyd, dylai'r awdurdod lleol atgyfeirio'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc i Gweithio i Wella. Gellir defnyddio trefniadau'r awdurdod lleol a Gweithio i Wella ochr yn ochr â'i gilydd.

18.38 Os yw'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc am ddefnyddio Gweithio i Wella, ac os yw'n teimlo'n ddigon hyderus i wneud hynny, dylid ei annog i godi ei bryder yn uniongyrchol gyda'r staff sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddarperir gan y gwasanaeth iechyd. Dylai staff y GIG geisio datrys y pryder yn syth. Os na fydd y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn credu bod hyn wedi datrys y broblem, neu os nad yw am drafod ei bryder yn uniongyrchol gyda'r aelod staff sy'n gyfrifol am gyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, dylid ei gyfarwyddo i gysylltu ag aelod o'r tîm pryderon. Mae hyn yn golygu rhywun o'r bwrdd iechyd lleol neu Ymddiriedolaeth berthnasol y GIG.

18.39 Os yw'r GIG wedi bwrw golwg ar bryder y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc ond nad yw'r person hwnnw'n hapus gyda'r ymateb, gall gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## *Y Gydberthynas â'r Tribiwnlys*

18.40 Nid yw defnyddio trefniadau datrys anghytundebau, neu benderfynu peidio â'u defnyddio, yn effeithio ar hawliau i apelio i'r Tribiwnlys. Ni fydd y Tribiwnlys yn dod i unrhyw gasgliad penodol yn seiliedig ar y ffaith nad yw'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc y mae'r anghytundeb yn berthnasol iddo wedi defnyddio'r trefniadau datrys anghytundebau.

18.41 Mae cyfarfodydd datrys anghytundebau yn gyfrinachol ac nid ydynt yn amharu dim ar broses y Tribiwnlys. Efallai y bydd y Tribiwnlys yn rhoi sylw i faterion tebyg i'r rhai a gafodd sylw trwy'r trefniadau datrys anghytundebau, ond bydd yn dod i'w gasgliad annibynnol ei hun. Gall cytundeb rhannol a geir trwy ddefnyddio trefniadau o'r fath helpu i ganolbwyntio ffocws ar y meysydd anghytundeb sy'n weddill mewn unrhyw apêl ddilynol i'r Tribiwnlys.

18.42 Yn dilyn apêl, gallai trefniadau'r awdurdod lleol helpu'r teulu a'r awdurdod lleol i weithio gyda'i gilydd ac atal anghytundebau pellach.

## *Gwasanaethau Eirioli Annibynnol*

18.43 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i blentyn neu berson ifanc allu cael mynediad at wasanaethau eirioli annibynnol i helpu i osgoi a datrys

anghytundebau, gan gynnwys mewn perthynas â materion a gyflwynir i Dribiwnlys. **Rhaid** i awdurdod lleol[260]:

- wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt;
- atgyfeirio unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwr gwasanaethau eirioli annibynnol; ac
- atgyfeirio unrhyw berson sy'n gyfaill achos i blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwyr gwasanaeth eirioli annibynnol. [261]

18.44 Mae gwasanaethau eirioli annibynnol yn darparu cyngor a chymorth, trwy gynrychiolaeth neu fel arall, i blentyn, person ifanc neu gyfaill achos plentyn:

- sy'n gwneud, neu sy'n bwriadu gwneud, apêl i'r Tribiwnlys;
- sy'n ystyried pa un a ddylai apelio i'r Tribiwnlys ai peidio; neu
- sy'n cymryd rhan, neu sy'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau osgoi neu ddatrys anghytundeb[262].

18.45 Gall gwasanaethau eirioli helpu'r plentyn a'r person ifanc i fynegi a chynrychioli eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Mae eiriolaeth yn gallu:

- Helpu'r plentyn neu'r person ifanc i gyfathrebu eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau a sicrhau bod llais y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei glywed;
- Siarad ar ran y plentyn neu'r person ifanc os nad yw'n gallu cyfathrebu ei farn, ei ddymuniadau neu ei deimladau, neu os yw ond yn gallu cyfathrebu ei farn, ei ddymuniadau neu ei deimladau yn rhannol;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r plentyn neu'r person ifanc a'i gefnogi trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth;
- Helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall eu hanghenion, deall y prosesau perthnasol, deall eu hawliau, cyfrannu at y broses benderfynu a deall goblygiadau unrhyw benderfyniadau a wneir;
- Helpu'r plentyn neu'r person ifanc i gael gafael ar wybodaeth, archwilio a deall eu hopsiynau a gwneud penderfyniadau gwybodus a herio'r awdurdod lleol neu'r SAB os yw'n teimlo nad yw ei anghenion yn cael eu diwallu;
- Helpu'r plentyn neu'r person ifanc i geisio datrys unrhyw broblemau neu bryderon a nodwyd gan y plentyn neu'r person ifanc, helpu'r plentyn neu'r person ifanc i egluro'r gŵyn a'i helpu i ddeall y deilliannau y mae'n ceisio eu cyflawni;

[260] Adran 62 o'r Ddeddf.
[261] Adran 62(1) o'r Ddeddf.
[262] Adran 62(2) o'r Ddeddf.

- Rhoi cymorth i blant a phobl ifanc mewn perthynas ag unrhyw heriau emosiynol sy'n codi o'r broses, megis mynegi gwahanol farn i'w rhieni.

18.46 Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau eirioli'n briodol ac o safon addas. Er enghraifft, wrth ddarparu'r trefniadau hyn, dylai'r awdurdod lleol:

- Sicrhau bod yr eiriolwr wedi derbyn hyfforddiant mewn cyfathrebu â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai ag anawsterau cyfathrebu;
- Sicrhau bod yr eiriolwr yn addas i blentyn a pherson ifanc, yn hyblyg er mwyn diwallu ei anghenion ac yn gallu addasu i weithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai ag anghenion mynediad;
- Sicrhau bod yr eiriolaeth yn cael ei harwain gan farn a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc, hyrwyddo ei anghenion a'i hawliau a darparu cymorth gan ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
- Sicrhau bod eiriolwyr yn cael cyhoeddusrwydd, yn hawdd cael gafael arnynt a chysylltu â nhw mewn gwahanol ffyrdd, a bod eu gwasanaeth yn hawdd ei ddefnyddio;
- Sicrhau bod yr eiriolwr yn deall anghenion y plentyn neu'r person ifanc a bod ganddo wybodaeth berthnasol am yr anghenion hynny, gan gynnwys unrhyw anabledd sydd ganddo;
- Sicrhau bod yr eiriolaeth yn ymateb i'r sefyllfa ac yn darparu help a chyngor yn gyflym ar gais;
- Sicrhau bod gan y gwasanaeth gynlluniau ariannu a chyllidebu clir ac adnoddau digonol a sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n dda ac yn darparu gwerth am arian;
- Sicrhau bod eiriolwyr wedi derbyn hyfforddiant addas a'u bod yn parhau i dderbyn hyfforddiant a datblygiad priodol i gyflawni eu rôl yn effeithiol a gwella safonau;
- Sicrhau bod eiriolwyr yn deall y system ADY;
- Sicrhau bod gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno glir, hawdd ei defnyddio sy'n annog adborth ac yn defnyddio adborth i sbarduno gwelliant;
- Gofalu bod y gwasanaeth yn cynnal cyfrinachedd i sicrhau ymddiriedaeth y plentyn neu'r person ifanc, cadw cofnodion cyfrinachol a sicrhau bod unigolion ac asiantaethau partner yn ymwybodol o'i bolisïau cyfrinachedd.

18.47 Os yw plentyn neu berson ifanc yn ystyried defnyddio'r gwasanaeth eirioli annibynnol, **rhaid** i'r wybodaeth a ddarperir gan y gwasanaeth fod yn ffeithiol a diduedd. **Rhaid** iddi nodi'n glir bod ymgysylltu â'r gwasanaeth yn broses wirfoddol.

18.48 Er y gall plant a phobl ifanc ddewis gofyn am eiriolaeth, dylai awdurdodau lleol gynnig y cyfle i ddefnyddio eiriolwr yn ôl yr angen. Dylai staff

DRAFT

fod yn ddigon medrus i nodi'r plant a'r bobl ifanc hynny a fyddai'n elwa ar eiriolwr.

## *Annibyniaeth eiriolwr*

18.49 **Rhaid** i'r awdurdod lleol roi sylw i'r egwyddor bod **rhaid** i unrhyw wasanaethau a ddarperir o dan y trefniadau fod yn annibynnol ar unrhyw berson sydd:

- yn destun apêl i'r Tribiwnlys; neu
- yn ymwneud ag ymchwilio i apêl o'r fath neu ddyfarnu arni.[263]

18.50 Mae annibyniaeth yr eiriolwr yn hanfodol fel y gall weithredu ar ran yr unigolyn. I'r graddau y bo hynny'n bosib, dylai gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth gael eu hariannu a'u rheoli mewn ffordd sy'n sicrhau annibyniaeth ar y sefydliad comisiynu.

18.51 Yr arfer presennol yng Nghymru yw sicrhau annibyniaeth trwy gomisiynu gwasanaethau eirioli gan ddarparwr allanol sy'n atgyfnerthu'r canfyddiad a'r profiad bod y gwasanaeth yn annibynnol. Er mwyn cynnal annibyniaeth trefniadau eirioli, dylai comisiynwyr a darparwyr sicrhau bod unrhyw faterion her a gwrthdaro yn dryloyw a chadarn ac yn cael eu nodi a'u trafod yn y cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y comisiynydd a'r darparwr gwasanaethau.

## Awdurdod lleol yn gweithio gydag eiriolwr annibynnol

18.52 Os oes gan y plentyn neu'r person ifanc eiriolwr, dylai cyrff perthnasol gydnabod mai rôl eiriolwr yw cefnogi a chynrychioli'r plentyn neu'r person ifanc, felly dylent ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan eiriolwr.

18.53 Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl berthnasol, megis staff ysgol/SAB, yn ymwybodol o wasanaethau eirioli, dewis plentyn neu berson ifanc i gael eiriolwr a dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau bod eiriolaeth annibynnol ar gael.

18.54 Dylai'r awdurdod lleol, yr ysgol a'r SAB gymryd camau rhesymol i helpu'r eiriolwr i gyflawni ei rôl, er enghraifft, rhoi gwybod i asiantaethau eraill bod eiriolwr yn cefnogi plentyn neu berson ifanc, gan hwyluso mynediad at y plentyn neu'r person ifanc ac, os yn briodol, at wybodaeth berthnasol. Dylid sicrhau bod gan yr eiriolwr y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau.[264]

DRAFT

[263] Adran 62(3) o'r Ddeddf.
[264] Tudalen 34 o God y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

18.55 Dylai'r awdurdod lleol ystyried ai'r ffordd orau o ddarparu eiriolaeth o dan y Ddeddf yw mewn cysylltiad â dyletswyddau awdurdodau lleol i ddarparu eiriolaeth o dan Ddeddfau eraill.[265]

18.56 O dan yr amgylchiadau hyn, dylid ystyried cynyddu'r cyfleoedd i sicrhau cysondeb wrth ymateb i anghenion eiriolaeth unigolion; dylai hyn gynnwys lleihau'r angen i'r unigolyn orfod ailadrodd ei brofiadau a'r deilliannau dymunol i wahanol eiriolwyr. I'r graddau y bo'n bosibl, dylai'r partïon geisio cytuno ar un eiriolwr i gefnogi'r person.

18.57 Dylai awdurdodau lleol ystyried cyfuno eu gwasanaethau eirioli â gwasanaethau eirioli eraill y mae'n ofynnol iddynt eu darparu. Os bydd hyn yn digwydd, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod eiriolwyr yn ddigon cymwys i ddarparu eiriolaeth a deall y systemau y maent yn darparu eiriolaeth yn eu cylch (megis ADY neu swyddogaethau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant). Efallai y bydd awdurdodau lleol eisiau un gwasanaeth eirioli cynhwysfawr.

## *Hyrwyddo Trefniadau*

18.58 **Rhaid** i awdurdodau lleol gymryd y camau a ystyrir yn briodol i wneud eu trefniadau i osgoi a datrys anghydfod ac i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol i:

- blant a phobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt;
- rhieni plant y maent yn gyfrifol amdanynt;
- penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion y maent yn eu cynnal; a
- phersonau eraill a ystyrir yn briodol e.e. cyfeillion achos, Byrddau Iechyd, lleoliadau addysg blynyddoedd cynnar, SAB ac ati.

18.59 **Rhaid** i'r awdurdod lleol hyrwyddo'r defnydd o drefniadau o'r fath hefyd, er enghraifft, trwy sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn derbyn manylion y trefniadau pan fyddant yn derbyn hysbysiad o benderfyniad gan yr awdurdod lleol. Mae Penodau 8, 16 a 17 eisoes yn nodi bod **rhaid** i wybodaeth am y trefniadau hyn gael ei darparu pan fo penderfyniad wedi'i wneud i beidio â pharatoi cynllun, pan fo CDU diwygiedig yn cael ei gynnig neu pan fo penderfyniad wedi'i wneud i roi'r gorau i gynnal CDU. Bydd cyfleoedd tebyg eraill i ddarparu gwybodaeth yn codi hefyd. Yn ogystal, **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth am eu trefniadau ar gael ar eu gwefannau.

[265] Er enghraifft: adran 130E o'r Ddeddf Iechyd Meddwl; adran 332BB o'r Ddeddf Addysg neu baragraff 6D o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010; adran 35 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005; adran 187 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal

18.60 Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, dylid sicrhau ei bod mewn fformat addas i helpu plant, eu rhieni a phobl ifanc i ddeall beth yw'r trefniadau, er enghraifft, trwy ddefnyddio iaith syml. Dylai'r wybodaeth gynnwys sut i gael mynediad at y trefniadau hyn, megis darparu enw, rhif ffôn, pwynt cyswllt ac ati.

## *Cyfeillion achos*

18.61 *[Mae'r adran hon yn amlinellu'r manylion yn ymwneud â chyfeillion achos fel yr ymddangosant yn y Bil. Efallai y bydd Rheoliadau'n gwneud darpariaeth bellach yn ymwneud â chyfeillion achos. Bydd yr adran hon yn cael ei hehangu maes o law i adlewyrchu'r manylion yn y rheoliadau a darparu canllawiau pellach yn ôl yr angen]*

18.62 Mae adran 76 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i blentyn nad oes ganddo'r galluedd i ddeall gwybodaeth neu ddogfennau a roddir iddo neu i ddeall sut i arfer yr hawliau a roddir iddo gan y Ddeddf (er enghraifft, ei hawl i gael mynediad at drefniadau i ddatrys anghydfod) gael rhywun i'w gefnogi, sef "cyfaill achos"[266].

18.63 Mae cyfeillion achos yn cael eu penodi gan y Tribiwnlys ar gais unrhyw berson neu ar ei ysgogiad ei hun a gallant:

- gynrychioli a chefnogi'r plentyn; a
- gwneud penderfyniadau a gweithredu ar ran y plentyn.

18.64 Mae'r Ddeddf yn nodi bod **rhaid** i gyfaill achos:

- weithredu mewn ffordd deg a chymwys;
- peidio â bod â buddiant sy'n groes i fuddiant y plentyn;
- sicrhau bod yr holl gamau a phenderfyniadau a wneir gan y cyfaill achos er lles y plentyn; ac
- ystyried barn y plentyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

**Enghraifft o arfer da - trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau**

**Enghraifft o drefniant osgoi anghytundebau**

Mae awdurdod lleol X yn cynnig gwasanaeth galw heibio lle gwahoddir rhieni plant ag ADY i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt am eu plentyn. Gall rhieni drefnu cyfarfod drwy gysylltu â'r tîm cymorth gweinyddol ADY i drafod natur eu pryderon a threfnu apwyntiad, neu gall tîm ADY yr awdurdod lleol gysylltu â'r rhieni a'u gwahodd i gyfarfod galw heibio.

[266] Adran 76 o'r Ddeddf.

Bydd y cynrychiolwyr a ddewisir o'r awdurdod lleol i gynnal y cyfarfod yn dibynnu ar natur y pryderon neu'r mater i'w drafod, eu rôl yn y tîm a'u gwybodaeth am y plentyn unigol.

Gellir trefnu'r cyfarfodydd mewn amryw o leoliadau i sicrhau eu bod yn gyfleus i'r rhieni. Mae'r cyfarfodydd hyn yn fforwm i drafod pryderon yn agored a darparu cyngor a chymorth ar sut orau i ddatrys y pryderon hyn.

Yn ôl tystiolaeth, mae'r cyfarfodydd hyn yn helpu i atal pryderon rhag gwaethygu drwy gynnig llwybr priodol i rieni sy'n dechrau teimlo'n rhwystredig. Maent yn cynnig ymyriad cynnar a sicrwydd, yn ogystal â datblygu perthynas bositif rhwng rhieni a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Maent hefyd yn sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau cynnar ar y cymorth y mae'r dysgwr yn ei gael, sy'n fuddiol i bawb dan sylw, yn enwedig y plentyn neu'r person ifanc.

**Lleoliad**

Mae gan Frank anhwylder sbectrwm awtistig ac oedi datblygiadol cyffredinol. Cafodd le mewn uned arbennig yn ystod ei flynyddoedd cynnar ac yn yr ysgol gynradd. Ceir anghytundeb rhwng yr awdurdod lleol a'r teulu ynghylch lle gellir diwallu ei anghenion orau ar lefel uwchradd, a sut mae ei anghenion yn cael eu disgrifio.

Mae'r awdurdod lleol yn hysbysu'r teulu am y trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau a chaiff person annibynnol ei neilltuo i'r achos. Mae'r person annibynnol yn cefnogi'r teulu drwy eu helpu i ddeall a chymryd rhan lawn yn y broses. Mae'r person annibynnol yn gweithio gyda'r teulu, yr ysgol a'r awdurdod lleol i ddadansoddi gwir anghytundebau, ac mae'n darparu cefnogaeth mewn cyfarfodydd lle mae anghytuno rhwng yr awdurdod lleol a'r rhieni dros leoliad y plentyn ac nad oes modd ei ddatrys.

Mae'r trefniadau i ddatrys anghytundebau yn cynnwys y camau canlynol:

- Anfonir gwaith papur at rieni'r plentyn i gael eu caniatâd i fwrw ati.
- Ar ôl cael caniatâd, neilltuir person annibynnol i ddelio â'r achos nad oes ganddo fuddiant personol yn y mater.
- Mae'r person annibynnol yn cysylltu â'r teulu i gael eglurhad o'u pryderon ac wedyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol i gael eu safbwynt nhw mewn perthynas â'r cwynion hynny.
- Drwy'r broses hon, mae'r person annibynnol yn dysgu bod yr awdurdod lleol yn credu'n gryf ar sail tystiolaeth gref na fyddai'r lleoliad a ffefrir yn diwallu anghenion y plentyn.
- Dewisir lleoliad niwtral.
- Cytunir ar amserlen sy'n gweddu i ofynion gwaith y tad a threfnir hyd at dri chyfarfod byr.
- Daw seicolegydd addysg ac athro arbenigol i'r cyfarfod, a threfnir

bod Therapydd Lleferydd ac Iaith hefyd yn bresennol.

- Ceir anghytuno mawr yn y cyfarfod cyntaf.
- Mae'r person annibynnol yn sicrhau bod y teulu’n cael sesiynau grŵp i drafod sut i sicrhau eu bod yn cyfathrebu eu barn ac yn cyflwyno eu tystiolaeth.
- Yn yr ail gyfarfod, mae’n bosibl rhannu safbwyntiau a gweld lle gallai fod modd dod i gytundeb.
- Yn y cyfarfod hwn, mae'r person annibynnol yn helpu swyddog yr awdurdod lleol i egluro pam na fyddai'r lleoliad yn diwallu anghenion y plentyn yn ei farn ef. Er bod anghenion y plentyn wedi'u cofnodi'n fanwl, nid ydynt wedi cael eu nodi yn y modd hwn o'r blaen.
- Caiff y rhieni gefnogaeth hefyd i wrando ar natur llawn anghenion ei mab, sy'n brofiad poenus iddynt ond yn angenrheidiol er mwyn ceisio datrys yr anghytundeb.
- Yn y trydydd cyfarfod, mae'r teulu a'r awdurdod lleol yn dechrau trafod sut i eirio’r angen ac yn cytuno ar ba ddarpariaeth sy'n dderbyniol i bawb.
- Daw’r trefniadau datrys anghydfodau i ben drwy lofnodi a rhannu'r cytundeb, gyda phob parti'n awyddus i barhau i gydweithio.

**Canlyniad**

Aeth y plentyn i ysgol o fewn yr awdurdod lleol sydd â staff hyfforddedig a chymorth digonol i hwyluso'r rhaglenni addysgol y barnwyd eu bod yn angenrheidiol gan y rhieni ac y cytunwyd arnynt gan yr awdurdod lleol.

DRAFT

# Pennod 19: Apelau a Cheisiadau i'r Tribiwnlys

## *Cyflwyniad*

19.1 Mae Tribiwnlys Addysg Cymru ("y Tribiwnlys") yn clywed ac yn penderfynu ar apelau a cheisiadau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Yn benodol, mae'n clywed ac yn penderfynu ar apelau ynghylch penderfyniadau SAB neu awdurdod lleol yng Nghymru ac yn clywed ac yn penderfynu ar geisiadau mewn perthynas â gallu plentyn i ddeall. Mae'n clywed hefyd achosion am wahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag ysgolion. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar lywodraeth ac awdurdodau lleol ac mae ei benderfyniadau'n gyfreithiol rwymol.

## *Materion y gellir gwneud apelau a cheisiadau yn eu cylch*

19.2 Gall plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc apelio i'r Tribiwnlys ynghylch[267]:

- penderfyniad gan SAB neu awdurdod lleol o ran a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY;
- yn achos person ifanc, penderfyniad gan awdurdod lleol o ran a oes angen llunio a chynnal CDU;
- y disgrifiad o ADY person mewn CDU;
- y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn CDU, neu'r ffaith nad yw darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn CDU, gan gynnwys a yw'r cynllun yn pennu y dylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei chyflwyno yn Gymraeg;
- penderfyniadau a.12(6) neu 17(5), lle na all yr anghenion rhesymol gael eu diwallu oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau darpariaeth bwyd a llety, darpariaeth ragnodedig[268] neu le mewn ysgol benodol neu sefydliad arall
- yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben derbyn plentyn i sefydliad penodol (adran 42 o'r Ddeddf);
- os nad enwir ysgol mewn CDU at ddiben derbyn;
- penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU, a gynhelir gan ysgol, yn dilyn cais i wneud hynny (adran 26 o'r Ddeddf);
- penderfyniad i beidio â diwygio CDU lle mae'r awdurdod lleol wedi derbyn cais i ailystyried y CDU a gynhelir gan ysgol a gynhelir;
- penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU;
- gwrthodiad i benderfynu ar fater ar y sail nad oes newid mewn anghenion ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd.

19.3 Caiff plentyn neu riant plentyn wneud cais i'r Tribiwnlys am ddatganiad bod gan y plentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd i ddeall[269]:

---

[267] Adran 63 o'r Ddeddf.
[268] *[I'w hamlinellu yn y rheoliadau a wneir o dan adran 12 o'r Ddeddf.]*
[269] Adran 63 o'r Ddeddf.



DRAFT

- Gwybodaeth neu ddogfennau y mae'n rhaid eu rhoi i blentyn o dan ran 4 o'r Ddeddf; neu
- Yr hyn y mae arfer yr hawliau a roddir i blentyn gan Ran 4 yn ei olygu.

## *Penderfyniadau y Gall y Tribiwnlys Addysg eu Gwneud*

19.4 Gall y Tribiwnlys[270]:

- wrthod yr apêl;
- gorchymyn bod gan berson, neu nad oes gan berson, ADY o fath a bennir yn y gorchymyn;
- gorchymyn i gorff llywodraethu, SAB neu awdurdod lleol ddiwygio CDU fel a bennir yn y gorchymyn;
- gorchymyn i gorff llywodraethu, SAB neu awdurdod lleol lunio CDU fel a bennir yn y gorchymyn;
- gorchymyn i gorff llywodraethu, SAB neu awdurdod lleol gynnal CDU (gyda diwygiadau neu hebddynt);
- gorchymyn i awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU;
- anfon yr achos i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gwahanol;
- ar gais a.63, gall ddatgan naill ai bod gan y plentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd i ddeall
    a. Gwybodaeth neu ddogfennau ynghylch ADY
    b. Yr hyn y mae arfer hawliau o dan y Ddeddf ADY yn ei olygu; a
- phenodi person i fod yn gyfaill achos ar gyfer plentyn, a diswyddo'r person rhag bod yn gyfaill achos ar gyfer y plentyn.[271]

## *Y Broses Apelio*

19.5 *[Mae adran 68 o'r Ddeddf yn nodi y gall rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch cyflwyno apêl ac achosion Tribiwnlys a manylion eraill. Bydd yr angen am ganllawiau pellach yn cael ei ystyried yng ngoleuni'r rheoliadau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu gwneud]*.

19.6 Mae'r Tribiwnlys yn darparu cyngor ac arweiniad ar gofrestru apêl ac ar y weithdrefn. Mae'r rhain ar gael ar wefan y Tribiwnlys.

19.7 Mae apelau'n cael eu clywed yn breifat[272] mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru. Bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i'r partïon perthnasol pryd a ble y bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal. Mae apelau'n cael eu clywed gan

[270] Adran 64 o'r Ddeddf.
[271] Adran 76(2) o'r Ddeddf
[272] Adran 68(3) o'r Ddeddf, yn amodol ar amgylchiadau eithriadol y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau

grŵp o aelodau'r Tribiwnlys, sy'n ffurfio Panel y Tribiwnlys.[273] Mae gan y Panel wybodaeth a phrofiad arbenigol er mwyn asesu'r achos.

19.8 Ar ôl i apêl gael ei chyflwyno ac ar ôl i'r Tribiwnlys gofrestru'r apêl, bydd yn rhoi gwybod i'r partïon perthnasol ac yn gwneud cais am wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

19.9 Ar ôl i apêl gael ei chlywed gan y Tribiwnlys, bydd yn rhoi gwybod i'r partïon perthnasol am ei benderfyniad.

## *Amserlenni apelau*

19.10 [*Bydd y rheoliadau a wneir o dan adran 68 yn amlinellu amserlenni ar gyfer cyflwyno apelau. Er enghraifft, mae'r rheoliadau presennol ar apelau yn ei gwneud hi'n ofynnol i apelau gael eu gwneud o fewn deufis i'r dyddiad y cyhoeddwyd hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad gan awdurdod lleol, gyda'r gallu i ymestyn hyn i dri mis os bydd anghytundeb wedi'i atgyfeirio er mwyn datrys yr anghytundeb].*

## *Cydymffurfio â Gorchmynion*

19.11 Os bydd y Tribiwnlys yn gwneud gorchymyn, **rhaid** i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol dan sylw gydymffurfio ag ef cyn diwedd y cyfnod rhagnodedig sy'n dechrau ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn.[274] [*Bydd y rheoliadau gweithdrefnau tribiwnlysoedd yn cynnwys hyn].*

## *Apelio yn Erbyn Penderfyniad y Tribiwnlys*

19.12 Gall parti mewn unrhyw achos yn y Tribiwnlys apelio i'r Uwch Dribiwnlys ynghylch unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o ganlyniad i benderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys.[275] Gall apêl i'r Uwch Dribiwnlys ond gael ei dwyn ymlaen os yw'r Tribiwnlys neu'r Uwch Dribiwnlys wedi caniatáu i'r apêl honno gael ei dwyn ymlaen.

19.13 Mae hyn yn golygu y gall plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc sy'n teimlo bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir yn ôl y gyfraith apelio i Siambr Apelau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys. Ni fydd yr Uwch Dribiwnlys yn ystyried teilyngdod yr achos nac yn clywed unrhyw anghytundebau sy'n codi o'r achos, ac eithrio ar bwyntiau cyfreithiol.

### Adolygiad Barnwrol

19.14 Gall rhieni a phobl ifanc wneud cais i'r Llys Gweinyddol am Adolygiad Barnwrol mewn perthynas â rhai agweddau. Gall y Llys Gweinyddol ystyried

[273] Adran 79(2) o'r Ddeddf.
[274] Adran 69 o'r Ddeddf.
[275] Adran 72 o'r Ddeddf.


DRAFT

penderfyniadau awdurdodau lleol wrth arfer eu dyletswyddau, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc. Er enghraifft, gall adolygiad barnwrol mewn perthynas â CDU fod yn adolygiad o'r ffordd y cafodd penderfyniadau a adlewyrchir yn y cynllun eu gwneud, yn hytrach na chynnwys y penderfyniadau hyn. Bydd cais am adolygiad barnwrol ond yn cael ei ystyried ar ôl i bob opsiwn arall fethu. Mae unrhyw gais am adolygiad barnwrol yn dibynnu ar amserlen.

DRAFT

## APELIO YN ERBYN PENDERFYNIAD I DRIBIWNLYS ADDYSG CYMRU

**Lle mae'r plentyn, rhieni'r plentyn, y person ifanc neu gyfaill achos ar ran dymuniadau plentyn yn dymuno gwneud apêl i'r Tribiwnlys Addysg, amlinellir y broses isod:**




DRAFT

* <u>Noder bod hawliau apelio plant sy'n byw yn Lloegr sy'n mynychu ysgol yng Nghymru ychydig yn wahanol</u> *

# Pennod 20: Plant a Phobl Ifanc o dan Amgylchiadau Penodol

## *Crynodeb*

20.1 Mae'r Bennod hon yn ymwneud â phlant a phobl ifanc o dan amgylchiadau penodol.

20.2 Mae'r grwpiau hyn fel a ganlyn:

- plant sy'n derbyn gofal;
- plant a phobl ifanc eraill â chynlluniau gofal a chymorth;
- y plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi cofrestru mewn mwy nag un sefydliad;
- y rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS);
- plant a phobl ifanc ag ADY sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref;
- plant aelodau o'r lluoedd arfog; a
- phlant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

## *Plant sy'n derbyn gofal*

20.3 *[Bydd canllawiau pellach ar gynllun integredig darpariaeth addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnwys mewn fersiynau diweddarach o'r Cod hwn. Mae'n debygol y bydd y rhain yn cael eu datblygu ochr yn ochr â chanllawiau newydd i'w cynnwys yn y Cod perthnasol a wneir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014]*

20.4 Mae gan y Ddeddf ddyletswyddau a darpariaethau penodol sy'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal. At ddibenion y Ddeddf, mae plentyn yn derbyn gofal os:

- yw'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (yng Nghymru) at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (mae hyn yn cwmpasu plant mewn gofal a phlant sy'n cael eu lletya gan awdurdod lleol wrth iddo arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol penodol[276]);
- nad yw'n cael ei gadw'n gaeth; ac
- nad yw'n perthyn i gategori o blant sy'n derbyn gofal a nodir mewn rheoliadau.[277]

20.5 Mae'r darpariaethau penodol yn y Ddeddf ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ond yn berthnasol mewn perthynas â "phlant" fel y'u diffinnir yn y Ddeddf h.y. y rhai nad ydynt yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol. Nid ydynt yn berthnasol i bobl ifanc sy'n dal i dderbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru – er bod darpariaethau cyffredinol y Ddeddf yn berthnasol yn yr achosion hynny.

---

[276] Gweler adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
[277] Adran 13(1) a (2) o'r Ddeddf.

20.6 Y prif wahaniaeth yn y Ddeddf rhwng plant sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc eraill yw bod y dyletswyddau i benderfynu a oes gan y person ADY ai peidio ac i lunio, cynnal ac adolygu CDU yn cael eu gosod ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn[278] – yn hytrach nag ar ysgol a gynhelir yng Nghymru y mae'r plentyn yn ei mynychu neu'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw (a allai fod yn wahanol i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn). Y prif eithriad i hyn yw os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr[279] (er enghraifft, pe bai'r plentyn yn cael ei leoli yn Lloegr ar unrhyw drefniant heblaw un dros dro, efallai mai'r awdurdod lleol yn Lloegr fyddai'n gyfrifol am y plentyn o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014[280]).

20.7 **Rhaid** i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio pan fo'n cael ei ddwyn i'w sylw neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y plentyn ADY.[281] Mae'r eithriadau i hyn fel a ganlyn:

- os yw CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn;
- os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen a'i fod wedi ei fodloni nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ac nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;
- (fel y nodir uchod) os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.[282]

20.8 Efallai y bydd yn dod yn ymwybodol bod gan y plentyn ADY, neu y gallai fod ganddo ADY, trwy atgyfeiriad gan yr ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu, neu awdurdod lleol arall.

20.9 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, **rhaid** iddo gynnal a llunio CDU.[283]

20.10 Os oes gan blentyn CDU yn barod cyn dechrau derbyn gofal, **rhaid** i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn gynnal y CDU o dan adran 17 ac, os mai corff arall sydd wedi bod yn ei gynnal (e.e. ysgol a gynhelir), ni fydd yn gyfrifol am wneud hynny mwyach.[284]

20.11 Os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU o dan adran 17 o'r Ddeddf ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ganddo, **rhaid** i'r CDU hwnnw gael ei

[278] Adrannau 16 a 17 o'r Ddeddf.
[279] Adrannau 16(2)(c) a 17(3)(a) o'r Ddeddf. Os yw'r plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond ei fod yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru, mae'r ysgol yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau i benderfynu ar ADY a llunio a chynnal CDU yn yr un modd ag y byddai ar gyfer unrhyw ddisgyblion eraill sy'n byw yn Lloegr: adrannau 9(5) a 10. Mae'r eithriad arall yn berthnasol i'r dyletswyddau i lunio a chynnal CDU os yw'r plentyn fel arfer yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr: adran 17(3)(b).
[280] Gweler adran 24 o'r Ddeddf honno.
[281] Adran 16 o'r Ddeddf.
[282] Adran 16(2) o'r Ddeddf.
[283] Adran 17 o'r Ddeddf.
[284] Adrannau 33(9) a (10) o'r Ddeddf.



DRAFT

ymgorffori yng nghynllun addysg personol y plentyn.[285] Fel arfer, mae'r cynllun addysg personol yn rhan ofynnol o'r cynllun gofal a chymorth y mae'n rhaid ei lunio ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal.[286]

20.12 Bydd ymgorffori'r CDU yn y cynllun addysg personol yn hwyluso dull cyfannol o gynllunio darpariaeth addysgol ar gyfer y plant hyn. Dylai awdurdodau lleol fachu ar bob cyfle i sicrhau bod darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn a'r ddarpariaeth addysgol ehangach a wneir ar ei gyfer yn ategu ei gilydd.

20.13 Mae yna hefyd ofyniad penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wrth adolygu eu CDU a gynhelir gan awdurdodau lleol, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa o ran adolygiadau ar gyfer plant a phobl ifanc eraill.[287] Gan fod y CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal yn rhan o gynllun gofal a chymorth y plentyn, efallai y bydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno.[288]

20.14 Hefyd, ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae yna ofynion i hysbysu neu roi copïau o'r CDU i swyddog adolygu annibynnol y plentyn, yn ogystal â'r plentyn a rhiant y plentyn.[289]

## *Plant a Phobl Ifanc Eraill â Chynlluniau Gofal a Chymorth*

20.15 Dylid nodi bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn diffinio plentyn fel person o dan 18 oed ac oedolyn fel person 18 oed neu hŷn.[290] Felly, gallai person a ddiffinnir fel person ifanc at ddiben y Ddeddf fod yn blentyn neu'n oedolyn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn dibynnu ar ei oedran.

20.16 Os oes gan blentyn neu berson ifanc gynllun gofal a chymorth o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu os oes gan berson a arferai dderbyn gofal gynllun llwybr[291] a bod ganddo ADY hefyd, dylid ystyried cynnal yr adolygiad o'r CDU a'r cyfarfod cynllun gofal a chymorth / cynllun llwybr yr un pryd (gweler Pennod 10). Gall ystyried anghenion gofal a chymorth ac ADY yr un pryd lywio pa gymorth a darpariaeth ddysgu ychwanegol sydd fwyaf addas i ddiwallu anghenion y person mewn ffordd fwy cyfannol. Dylai'r adolygiadau ddefnyddio'r egwyddorion a amlinellir o dan Bennod 14.

20.17 Os cynhelir adolygiadau yr un pryd, **rhaid** iddynt ddilyn gofynion y

[285] Adran 83(2C) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a fewnosodwyd gan adran 14(2) o'r Ddeddf.
[286] Adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
[287] Adran 22 o'r Ddeddf.
[288] Gweler adran 83 o Ddeddf 2014 a'r rheoliadau a wnaed oddi tani.
[289] Er enghraifft, adran 20(3) o'r Ddeddf.
[290] Adran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
[291] O dan adran 107 o Ddeddf 2014 .

ddeddfwriaeth berthnasol. Er efallai y byddai'n fuddiol cynnal adolygiadau o wahanol gynlluniau yr un pryd, ni ddylai adolygiadau ac asesiadau o anghenion gael eu gohirio pe bai gwneud hynny'n niweidio'r plentyn neu'r person ifanc. Efallai y bydd angen adolygu'r cynlluniau ar wahanol adegau i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

### *Plant a phobl ifanc sydd wedi eu cofrestru mewn mwy nag un sefydliad*

20.18 Mae rhai plant a phobl ifanc wedi eu cofrestru mewn mwy nag un sefydliad. Mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio yn y Cod hwn i gyfeirio at blant neu bobl ifanc sydd wedi cofrestru neu ymrestru mewn mwy nag un ysgol neu SAB, neu ysgol a SAB (lle mae o leiaf un o'r sefydliadau yn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n SAB yng Nghymru), yr un pryd a lle bydd y plentyn neu'r person ifanc yn derbyn addysg neu hyfforddiant yn y ddau sefydliad.[292]

20.19 Yr egwyddor sy'n cael sylw yn y Ddeddf yw y dylai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol[293] am y plentyn neu'r person ifanc fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau i benderfynu ar ADY a llunio a chynnal CDU mewn achosion o'r fath.

20.20 Os yw plentyn neu berson ifanc wedi ei gofrestru mewn mwy nag un sefydliad ac os yw'r ysgol neu'r SAB yn credu efallai bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, **rhaid** iddo atgyfeirio achos y plentyn neu'r person ifanc i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc i benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.[294]

20.21 Os yw ysgol neu SAB yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc, a bod y plentyn neu'r person ifanc hwnnw'n cofrestru neu'n ymrestru mewn ysgol neu SAB arall (h.y. ei fod wedi cofrestru mewn mwy nag un sefydliad), **rhaid** i'r ysgol/SAB hysbysu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc am yr amgylchiadau hyn.[295] Bydd yr awdurdod lleol yn dod yn gyfrifol am gynnal y CDU pan fydd yn dod yn ymwybodol bod y plentyn neu'r person ifanc wedi cofrestru mewn mwy nag un sefydliad (naill ai trwy dderbyn hysbysiad gan ysgol neu SAB, neu drwy unrhyw ddull arall).[296]

20.22 Os yw plentyn wedi cofrestru mewn mwy nag un sefydliad, ni all awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol i lunio a chynnal CDU nac i gynnal CDU.[297]

DRAFT

---

[292] Gweler adran 28(1) a (3) o'r Ddeddf.
[293] Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yr ysgol a gynhelir neu'r SAB yng Nghymru y mae'r plentyn sy'n byw yn Lloegr yn ei fynychu fyddai'n gyfrifol am faterion ADY, yr un fath ag ar gyfer plant eraill sy'n byw yn Lloegr: adrannau 28(1)(e) a 28(3)(d)o'r Ddeddf.
[294] Adran 28(2) o'r Ddeddf.
[295] Adran 28(6) o'r Ddeddf.
[296] Adran 28(5) o'r Ddeddf.
[297] Adran 28(7) o'r Ddeddf.

## *Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)*

20.23 O dan adran 19 o Ddeddf Addysg 1996, gall plant dderbyn addysg y tu allan i'r ysgol (EOTAS). Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw fath o addysg y tu allan i'r ysgol, lle mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu addysg addas i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol na fyddent efallai yn derbyn unrhyw addysg fel arall. Mae plant yn cael eu haddysgu y tu allan i ysgolion prif ffrwd am amryw o resymau. Hwyrach eu bod yn sâl neu wedi'u hanafu, wedi'u gwahardd neu fod ganddynt anawsterau emosiynol ac ymddygiad. Gall y ddarpariaeth EOTAS gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion, ysgolion mewn ysbytai, SAB ac addysg unigol (ond nid addysg ddewisol yn y cartref).

20.24 Gall awdurdod lleol drefnu i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn CDU y mae'n ei gynnal ar gyfer plentyn, neu i unrhyw ran o'r ddarpariaeth honno, gael ei gwneud mewn man ac eithrio mewn ysgol, ond ni chaiff yr awdurdod lleol wneud hynny ond os yw wedi ei fodloni y byddai'n amhriodol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei gwneud mewn ysgol[298].

20.25 Os yw plentyn yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a phan fo'n cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol fod gan y plentyn o bosibl ADY, ac nad yw CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn hwnnw, **rhaid** i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio, oni bai bod yna eithriadau.

20.26 Mae'n ofynnol i rieni sicrhau bod plentyn o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas[299]. Mae addysg addas yn golygu addysg effeithlon sy'n addas i allu a dawn plentyn ac i unrhyw ADY sydd ganddo. **Rhaid** i'r addysg hon fod yn llawn amser, oni bai bod yr awdurdod lleol yn pennu, am resymau yn ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol y plentyn, y byddai llai o addysg o fudd i'r plentyn.

20.27 Os oes gan blentyn CDU a bod trefniadau'n cael eu gwneud i'r plentyn dderbyn addysg heblaw yn yr ysgol, yn aml byddai'n briodol i'r awdurdod lleol fod yn gyfrifol am gynnal CDU, os nad oedd eisoes yn gyfrifol am hynny, ac adolygu'r CDU wrth ystyried y lleoliad newydd y bydd y plentyn yn ei fynychu.

20.28 Os yw darparwr arall yn poeni nad yw anghenion y plentyn yn cael eu diwallu, neu fod ganddo neu y gallai fod ganddo ADY, dylai godi ei bryderon gyda'r awdurdod lleol cyfrifol.

20.29 Os yw plentyn yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, mae'r dyletswyddau ar yr awdurdod lleol i roi CDU ar waith, os yw'n credu bod y plentyn angen un, ac adolygu CDU yr un fath.

20.30 Yn achos plentyn sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, efallai y bydd ystod y gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r broses CDU yn ehangach ac, mewn rhai achosion, yn wahanol i'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n rhan o'r broses pan fo plentyn yn mynd i'r ysgol. Dylai'r cyfarfod CDU, neu'r cyfarfod

---

[298] Adran 47 o'r Ddeddf.
[299] Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996.

adolygu, gael ei gynnal yn y lleoliad mwyaf priodol, megis yn swyddfeydd yr awdurdod lleol, mewn ysbyty neu yng nghartref y rhiant.

## Plant a phobl ifanc mewn darpariaeth arall oherwydd anghenion iechyd

20.31 Dylai plant a phobl ifanc sydd yn yr ysbyty neu sy'n cael eu rhoi mewn darpariaeth arall oherwydd eu hanghenion iechyd dderbyn addysg sy'n gyfwerth ag addysg darpariaeth brif ffrwd (lle bo hynny'n addas), gan gynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol i ddiwallu anghenion y rhai ag ADY. Dylai'r addysg a dderbyniant fod o safon dda a dylai eu hatal rhag llithro yn ôl o gymharu â'u cyfoedion. Dylai gynnwys staff cymwys sy'n gallu helpu dysgwyr i ddatblygu a'u galluogi i ailintegreiddio yn yr ysgol yn llwyddiannus cyn gynted â phosibl.

20.32 Dylai awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol weithio gyda'i gilydd i leihau'r tarfu ar addysg plentyn neu berson ifanc. Yn ddelfrydol, bydd yr awdurdod lleol yn cael ei hysbysu cyn unrhyw leoliad ysbyty er mwyn trefnu addysg a darparu unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

20.33 Os bydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei dderbyn i ysbyty am gyfnod estynedig, dylai'r CDU gael ei adolygu i sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol a bod ADY y plentyn neu'r person ifanc yn parhau i gael eu diwallu.

20.34 Os bydd plentyn neu berson ifanc ag anghenion iechyd yn dychwelyd i addysg brif ffrwd, dylai'r awdurdod lleol weithio gyda'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc a'r ysgol neu'r SAB i gefnogi ailintegreiddio llyfn.

## Unedau Cyfeirio Disgyblion

20.35 Mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn fath o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae yna gydberthynas fawr rhwng y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion a'r rhai ag ADY. Mae'n bwysig cofio bod yr egwyddorion a'r gofynion cyffredinol sy'n berthnasol drwy'r Cod yn berthnasol hefyd i'r plant a'r bobl ifanc hynny ag ADY mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

20.36 Pan fo'n cael ei ddwyn i'w sylw neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan blentyn neu berson ifanc sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion ADY, ac os nad yw CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer, mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu a oes ganddo ADY ai peidio o dan adran 11 o'r Ddeddf.

## *Plant ag ADY sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref*

20.37 Mae adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod dyletswydd ar rieni pob plentyn o oedran ysgol gorfodol i sicrhau bod eu

plentyn yn derbyn addysg lawn amser effeithlon sy'n addas i'w oedran, ei allu, ei ddawn ac unrhyw ADY sydd ganddo, naill ai trwy bresenoldeb rheolaidd mewn ysgol neu fel arall[300].

20.38 Dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â rhieni a'u helpu i ddiwallu ADY plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref.

20.39 Ni ddylai awdurdodau lleol ragdybio bod unrhyw ddarpariaeth a wneir gan rieni yn anaddas dim ond oherwydd ei bod yn wahanol i'r ddarpariaeth oedd yn cael ei gwneud neu a fyddai'n cael ei gwneud yn yr ysgol. Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol ystyried helpu rhieni i wneud darpariaeth addas.

20.40 Mae gan rieni sy'n dewis addysgu eu plentyn gartref ac sy'n credu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY yr hawl i ofyn i'r awdurdod lleol benderfynu ar y mater[301]. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â rhoi CDU ar waith, bydd gan y plentyn a rhieni'r plentyn yr un hawl i apelio â phawb arall. Yn yr un modd, mae gan y plentyn a rhieni'r plentyn yr un hawl i apelio ynghylch y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y CDU neu'r ffaith nad oes darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun.

20.41 Mae mwy o wybodaeth am gyfrifoldebau ysgolion a rhieni os yw disgybl cofrestredig yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a chyfrifoldeb awdurdodau lleol dros sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu ar gael yn y Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion gan Lywodraeth Cymru[302].

## *Plant Aelodau o'r Lluoedd Arfog*

20.42 Mae'r Children's Education Advisory Service (CEAS) yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu cyngor ac arweiniad i rieni sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog, sefydliadau addysgol ac awdurdodau lleol ar faterion addysgol yn ymwneud â phlant aelodau o'r Lluoedd Arfog, gan gynnwys materion yn ymwneud ag ADY. Mae Service Children's Education (SCE) yn darparu addysg brif ffrwd ar gyfer plant aelodau o'r Lluoedd Arfog mewn rhai lleoliadau tramor. Gan fod yr adnoddau sydd ar gael dramor yn wahanol i'r rhai yn y DU, mae gwasanaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cwblhau MoD Assessment of Supportability Overseas (MASO) ar gyfer plant aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd ag anghenion cymhleth cyn cytuno ar leoliad tramor.

20.43 Efallai y bydd plant y mae eu rhieni'n aelodau o'r Lluoedd Arfog yn wynebu anawsterau sy'n unigryw i natur cyflogaeth eu rhieni. Efallai y bydd yr anghenion hyn yn codi o ganlyniad i:

---

300 Ein bwriad yw y bydd adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn cael ei diwygio, gan fewnosod y geiriau 'anghenion dysgu ychwanegol' yn lle 'anghenion addysgol arbennig'.
301 Adran 11 o'r Ddeddf.
302 http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy

- Symud oherwydd gwasanaeth – Efallai y bydd aelodau o’r Lluoedd Arfog yn adleoli’n amlach na gweddill y boblogaeth ac, weithiau, ar fyr rybudd. Dylai trefniadau o’r fath gael eu rheoli’n dda i osgoi oedi wrth asesu a diwallu anghenion plant aelodau o’r Lluoedd Arfog ag ADY; neu

- Anfon rhieni sy’n aelodau o’r Lluoedd Arfog i sefyllfaoedd gweithredol – er na fyddai hyn yn arwain at ADY ynddo’i hun, gallai arwain at bryder i blentyn aelod o’r Lluoedd Arfog, at ddirywiad yn ei berfformiad addysgol a/neu anawsterau emosiynol. Efallai y bydd plant yn cael eu heffeithio hefyd os bydd eu brodyr neu eu chwiorydd yn cael eu hanfon i sefyllfaoedd gweithredol.

20.44 Dylai sefydliadau addysgol fodloni dyheadau Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy’n ceisio dileu neu liniaru rhai o’r anfanteision posibl sy’n wynebu teuluoedd sy’n aelodau o’r Lluoedd Arfog. Dylai pawb sydd â chyfrifoldebau statudol tuag at blant aelodau o’r Lluoedd Arfog sydd ag ADY sicrhau nad yw effaith eu polisïau, eu prosesau gweinyddol a’u patrymau darpariaeth yn rhoi plant o’r fath o dan anfantais oherwydd eu ffordd o fyw sy’n gysylltiedig â’r Lluoedd Arfog.

20.45 Dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion penodol unrhyw gymunedau o bobl sy’n aelodau o’r Lluoedd Arfog o fewn eu ffiniau wrth gyflwyno neu gynllunio darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant aelodau o’r Lluoedd Arfog ag ADY.

20.46 Mewn perthynas â phlant aelodau o’r Lluoedd Arfog, dylai’r ysgol, y SAB neu’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am lunio a/neu gynnal y CDU:

- sicrhau bod pob adolygiad ar gyfer plant aelodau o’r Lluoedd Arfog ag ADY yn ystyried y materion hynny yn ymwneud â’r Lluoedd Arfog (e.e. symud oherwydd gwasanaeth) sy’n berthnasol i ddeilliannau’r adolygiadau hynny;

- sicrhau bod mynediad at asesiadau, ymyriadau a darpariaeth briodol yn cael ei bennu yn seiliedig ar natur, difrifoldeb a chymhlethdod yr anghenion a gyflwynir gan blant aelodau o’r Lluoedd Arfog ag ADY, yn hytrach na’r amser sydd ganddynt yn weddill mewn ysgol benodol;

- ystyried effaith debygol unrhyw fater yn ymwneud â’r Lluoedd Arfog ar anghenion y plentyn a’r ddarpariaeth a wneir i ddiwallu’r anghenion hynny ac, wrth bennu a oes gan blentyn i aelodau’r Lluoedd Arfog ADY ai peidio, efallai y bydd hi’n briodol cael cyngor gan y CEAS; a

- defnyddio’r holl dystiolaeth berthnasol – gan gynnwys cynlluniau EHC yn Lloegr, datganiadau yng Ngogledd Iwerddon, Co-ordinate Support Plans yn yr Alban a’r Service Children’s Assessment of Need (SCAN) a gwblheir ar eu cyfer gan yr SCE – wrth asesu darpariaeth briodol ar gyfer plant aelodau o’r Lluoedd Arfog ag ADY.

**Tribiwnlys Addysg Cymru**

20.47 Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag apelau gan rieni sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog, dylai'r Tribiwnlys ystyried, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddynt, i ba raddau y mae symud oherwydd gwasanaeth wedi cael effaith ac yn cael effaith, ac i ba raddau y bydd yn cael effaith, ar briodoldeb ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn CDU a'r ddarpariaeth y gofynnodd rhiant amdani.

## *Plant a Phobl Ifanc ag ADY yn y System Cyfiawnder Ieuenctid*

20.48 Mae adrannau 36–40 o'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth gan y Llysoedd a'u cadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu Loegr.[303] Bydd y term 'person sy'n cael ei gadw'n gaeth' yn cael ei ddefnyddio yn yr adran hon i gyfeirio at y plant a'r bobl ifanc hyn.

20.49 Mae llety ieuenctid perthnasol yn cynnwys colegau diogel, canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwyr ifanc,[304] ond nad yw mewn sefydliad troseddwyr ifanc (neu ran o un) a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol i gadw personau 18 oed a hŷn yn gaeth.

20.50 Mae 'y person sy'n rheoli'r llety ieuenctid perthnasol' yn cyfeirio at y Rheolwr, y Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth sy'n rheoli'r llety.

20.51 Ystyr 'awdurdod cartref', yn achos plentyn/person ifanc a oedd yn derbyn gofal cyn iddo gael ei gadw'n gaeth neu unrhyw bryd ar ôl hynny, yw'r awdurdod lleol a oedd yn gofalu am y person yn fwyaf diweddar neu, fel arall, yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw fel arfer (gan anwybyddu unrhyw gyfnod pan fo'r person yn ddarostyngedig i orchymyn cadw).[305]

20.52 <u>Mae'n bwysig cofio bod yr egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol drwy'r Cod yn berthnasol hefyd i'r plant a'r bobl ifanc hynny ag ADY yn y System Cyfiawnder Ieuenctid.</u>

---

[303] Adran 36(1) o'r Ddeddf sy'n diffinio "person sy'n cael ei gadw'n gaeth", gan ddefnyddio diffiniadau o adran 562 o Ddeddf Addysg 1996.

[304] Mae hefyd yn cynnwys llety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol at ddiben cyfyngu ar ryddid plant a phobl ifanc; llety a ddarperir at y diben hwnnw o dan a.82(5) o Ddeddf Plant 1989 ac unrhyw ddisgrifiad arall o lety a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol trwy orchymyn, cyn belled nad yw mewn sefydliad troseddwyr ifanc a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol i gadw personau 18 oed a hŷn yn gaeth: adran 562(1A), sy'n cyfeirio at y diffiniad o lety cadw ieuentid yn adran 107(1) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000.

[305] Adran 36(1) yn mewnosod y diffiniad yn adran 562J(1) yn amodol ar unrhyw addasiadau a wneir i'r rheoliadau o dan adran 36(2) o'r Ddeddf.

## *Helpu a Rhannu Gwybodaeth*

20.53 **Rhaid** i dîm troseddau ieuenctid roi gwybod i'r awdurdod cartref ble mae plentyn neu berson ifanc 18 oed ac iau yn cael ei gadw'n gaeth (neu os yw'n symud i leoliad arall).[306]

20.54 Mae pob plentyn a pherson ifanc sy'n cael mynediad at y system cyfiawnder ieuenctid yn cael eu hasesu gan y tîm troseddau ieuenctid, gan ddefnyddio adnodd asesu cymeradwy y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Fel rhan o'r broses asesu, bydd timau troseddau ieuenctid yn ceisio cael gwybodaeth o amryw o ffynonellau, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion a/neu SAB a'r darparwr addysg yn y sefydliad cadw. Rhaid i awdurdodau lleol, ar gais gan dîm troseddau ieuenctid am wybodaeth yn gysylltiedig â darparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth, ddarparu gwybodaeth o'r fath sydd ganddynt am y person sy'n cael ei gadw'n gaeth cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.[307] Gall ysgolion a SAB sydd wedi darparu addysg ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth ddarparu gwybodaeth am y person sy'n cael ei gadw'n gaeth i'r awdurdod cartref at ddibenion neu mewn cysylltiad â darparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth[308] ac efallai y bydd rhaid iddynt ei darparu yn dilyn cais gan yr awdurdod lleol amdani.[309]

20.55 Mae Pennod 12 yn darparu mwy o wybodaeth am adegau pan fydd awdurdod lleol angen help a gwybodaeth gan gyrff eraill, gan gynnwys timau troseddau ieuenctid a'r person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol.

## *Addysg yn y system cyfiawnder ieuenctid*

20.56 **Rhaid** i'r awdurdod cartref gymryd unrhyw gamau y mae'r awdurdod cartref yn eu hystyried yn briodol i hyrwyddo cyflawni potensial dysgu'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn ystod y cyfnod caeth ac ar ôl iddo gael ei ryddhau, waeth a oes ganddo CDU ai peidio.[310] Mae'n bwysig, felly, bod yr awdurdod cartref yn monitro addysg a hyfforddiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac yn parhau i ymgysylltu ag ef tra'i fod yn cael ei gadw'n gaeth.

20.57 Bydd tîm troseddau ieuenctid y person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn bwynt cyswllt allweddol rhwng y person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol a'r awdurdod cartref. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i'r awdurdod cartref drafod y ddarpariaeth yn uniongyrchol â'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol a'r darparwr addysg.

---

[306] Adran 39A o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998
[307] Adran 562F(2) – (4) o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol hefyd mewn perthynas â cheisiadau o'r fath gan bobl eraill, gan gynnwys y person a chanddo gyfrifoldeb ble bynnag mae'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cael ei gadw.
[308] Adran 562F(1) o Ddeddf Addysg 1996.
[309] O dan adran 58 o'r Ddeddf.
[310] Adran 562B o Ddeddf Addysg 1996. Nid yw hyn yn berthnasol os yw'r plentyn yn derbyn gofal, ond mae'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yn ddarostyngedig i ddyletswydd debyg o dan adran 78 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## *Paratoi CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth*

20.58 Pan ddaw i sylw awdurdod cartref yng Nghymru (er enghraifft, trwy hysbysiad gan y tîm troseddau ieuenctid) neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY ac nad oes CDU yn cael ei gadw ar ei gyfer o dan adran 37 o'r Ddeddf, **rhaid** i'r awdurdod cartref:

- benderfynu a oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY; ac
- os yw'n penderfynu bod gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY, benderfynu yn unol â rheoliadau a fydd angen cynnal CDU ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff ei ryddhau[311].

20.59 Nid yw'n ofynnol i awdurdod cartref wneud y penderfyniad hwn:

- os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud; neu
- os yw'r awdurdod cartref wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY a'i fod wedi ei fodloni nad yw anghenion y person sy'n cael ei gadw'n gaeth wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ac nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw[312].

20.60 Cyn i'r awdurdod cartref wneud ei benderfyniad, **rhaid** iddo wahodd y person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol i fod yn rhan o'r penderfyniad ac, os oes angen CDU, yn rhan o'r gwaith o lunio CDU[313].

20.61 Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylai'r awdurdod cartref ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol, er enghraifft, gan dimau troseddau ieuenctid, adnodd asesu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a llety ieuenctid perthnasol, yn ogystal ag ysgolion a SAB y mae'r person yn eu mynychu. Gall gofalwyr, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a gweithwyr ieuenctid helpu i nodi ADY hefyd.

20.62 Os yw'r awdurdod cartref yn penderfynu bod gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY ac, yn unol â rheoliadau, y bydd angen cynnal CDU ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff ei ryddhau, **rhaid** iddo[314]:

- lunio CDU ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth; a
- rhoi copi o'r cynllun i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn, a'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol.

20.63 Os yw'r awdurdod cartref yn penderfynu nad oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY neu na fydd angen cynnal CDU ar gyfer y person sy'n

[311] Adran 37(2) o'r Ddeddf.
[312] Adran 38 o'r Ddeddf.
[313] Adran 37(3) o'r Ddeddf.
[314] Adran 37(5) o'r Ddeddf.

cael ei gadw'n gaeth pan gaiff ei ryddhau, **rhaid** iddo hysbysu'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn a'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad[315].

20.64 Wrth roi copi o'r CDU neu wneud y penderfyniad nad oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY neu nad yw CDU yn cael ei lunio, **rhaid** i'r awdurdod cartref ddarparu manylion sut i gael mynediad at ei drefniadau gwybodaeth a chyngor, ei drefniadau osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol, a rhoi gwybod i'r derbynnydd am yr hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru. Nid yw hyn yn berthnasol mewn perthynas â'r copi neu'r hysbysiad a roddir i'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol.

## Dyletswydd i gadw CDU ar gyfer pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth a threfnu darpariaeth ddysgu briodol

20.65 Os oedd ysgol, SAB neu awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'r person yn gaeth, neu os yw awdurdod cartref wedi llunio CDU yn ystod y cyfnod o gadw'r person yn gaeth o dan adran 37 o'r Ddeddf, **rhaid** i'r awdurdod lleol cartref gadw'r CDU tra bod y person yn cael ei gadw'n gaeth.[316]

20.66 Os oedd CDU yn cael ei gynnal gan ysgol neu SAB neu awdurdod lleol arall cyn y cyfnod o gadw'r person yn gaeth, mae'r ddyletswydd i gadw CDU ond yn berthnasol os caiff hyn ei ddwyn i sylw'r awdurdod cartref.[317]

20.67 **Rhaid** i'r awdurdod cartref roi gwybod i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth a rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn ei fod yn cadw CDU tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol.[318] Rhaid i'r awdurdod roi copi o'r CDU i'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol.[319]

20.68 Pan fo'r awdurdod cartref yn cadw CDU, **rhaid** iddo drefnu i ddarpariaeth ddysgu briodol gael ei darparu i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth.[320]

20.69 Mae darpariaeth ddysgu briodol wedi'i diffinio fel a ganlyn[321]:

- y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y CDU; neu
- os ymddengys i'r awdurdod cartref nad yw'n ymarferol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun gael ei chyflwyno,

[315] Adran 37(4) o'r Ddeddf.
[316] Adran 39 o'r Ddeddf
[317] Adran 39(5) o'r Ddeddf.
[318] Adran 39(6) o'r Ddeddf.
[319] Adran 39(7) o'r Ddeddf.
[320] Adran 39(8) o'r Ddeddf.
[321] Adran 39(9) o'r Ddeddf

darpariaeth addysgol sy'n cyfateb mor agos â phosibl i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol honno, neu

- os ymddengys i'r awdurdod cartref nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun yn briodol mwyach ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth, darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r awdurdod cartref yn ystyried ei bod yn briodol.

20.70 Mae'r uchod yn cydnabod efallai na fydd hi bob amser yn ymarferol i ddarparu'r hyn a amlinellir yn y CDU. Fodd bynnag, os nad yw'r ddarpariaeth ar gael ar hyn o bryd yn y llety ieuenctid perthnasol, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd nad oes modd trefnu iddi fod ar gael. Os nad yw'n ymarferol trefnu darpariaeth benodol yn y CDU, dylai'r awdurdod cartref weithio gyda'r person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol a'r darparwr addysg i nodi darpariaeth sy'n cyfateb i'r hyn a amlinellir yn y CDU.

20.71 Os yw'n ymddangos i'r awdurdod cartref nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y CDU yn briodol mwyach e.e. bod anghenion y person sy'n cael ei gadw'n gaeth wedi newid ers ei adolygiad diwethaf neu fod ganddo anghenion nad ydynt wedi'u nodi o'r blaen, **rhaid** i'r awdurdod cartref drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r awdurdod cartref yn ei hystyried yn briodol.[322] Dylai weithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc i bennu beth y byddai darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol yn ei chynnwys.

20.72 Gall methu â diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd yn aildroseddu. Dylai awdurdodau cartref weithio'n agos gyda'r person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol a'r tîm troseddau ieuenctid y mae'n **rhaid** iddo ddarparu gwybodaeth neu help arall i'r awdurdod cartref ar ei gais fel y gall yr awdurdod hwnnw arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag ADY, oni bai ei fod yn ystyried y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â dyletswyddau'r person ei hun neu fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau'r person.[323]

20.73 Yn ymarferol, bydd darpariaeth addysgol mewn llety ieuenctid perthnasol, gan gynnwys unrhyw gymorth ychwanegol y bydd person sy'n cael ei gadw'n gaeth ei angen fel rhan o CDU, yn cael ei darparu gan ddarparwr addysg o dan drefniadau cytundebol gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid neu weithredwr y lleoliad cadw a'i chomisiynu a'i hariannu'n ganolog.

20.74 Dylai awdurdod cartref weithio'n agos gyda'r darparwyr i drefnu'r ddarpariaeth. Dylai'r awdurdod cartref geisio gwneud hyn cyn gynted ag y bydd yn dod yn ymwybodol bod y person yn cael ei gadw'n gaeth, gan ddefnyddio gweithdrefnau cynllunio presennol y sefydliad cadw a'r tîm troseddau ieuenctid os yn bosibl.

[322] Adran 39(8) a (9) o'r Ddeddf.
[323] Adran 58 o'r Ddeddf.

20.75 Tra bod y person yn cael ei gadw'n gaeth, nid yw'r ddyletswydd i gynnal y CDU a dyletswyddau eraill sy'n dibynnu arni (er enghraifft, y ddyletswydd i'w hadolygu) yn berthnasol.[324]

20.76 Mae dedfrydau o garchar ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth yn rhai byr yn aml. Felly, mae'n bwysig bod penderfyniadau'n cael eu gwneud cyn gynted â phosibl fel y gall y ddarpariaeth gael ei rhoi ar waith yn ddi-oed.

## CDU ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o lety ieuenctid perthnasol

20.77 Pan fydd tîm troseddau ieuenctid yn dod yn ymwybodol bod person sy'n cael ei gadw'n gaeth wedi'i ryddhau o lety ieuenctid perthnasol, **rhaid** iddo hysbysu'r partïon canlynol cyn gynted ag y bo'n ymarferol: yr awdurdod cartref, yr awdurdod lleol lle'r oedd y person yn cael ei gadw'n gaeth ac unrhyw awdurdod lleol arall lle disgwylir y bydd y person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn byw ar ôl cael ei ryddhau.[325] Mae hyn yn helpu'r broses adsefydlu.

20.78 Ar y dyddiad mae'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cael ei ryddhau, os mai awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am y person hwnnw, **rhaid** i'r awdurdod lleol gynnal y cynllun a gadwyd ar gyfer y person yn ystod y cyfnod yr oedd yn cael ei gadw'n gaeth[326]. Fodd bynnag, os yw'r person yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ar ôl cael ei ryddhau, cyfrifoldeb yr awdurdod sy'n darparu'r gofal fydd cynnal y cynllun.[327]

20.79 Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r CDU cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Dylai'r awdurdod ystyried unrhyw dystiolaeth a ddarperir gan y sefydliad cadw, y darparwr addysg a'r tîm troseddau ieuenctid i sicrhau bod y CDU yn cael ei lywio gan unrhyw asesiadau blaenorol a gynhaliwyd.

20.80 Mewn rhai achosion, bydd plentyn neu berson ifanc sy'n byw yng Nghymru yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yn Lloegr a phlentyn neu berson ifanc sy'n byw yn Lloegr yn cael ei gadw'n gaeth yng Nghymru.

20.81 Os yw plentyn neu berson ifanc sy'n byw yng Nghymru yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid yn Lloegr, efallai y bydd rhaid i'r awdurdod lleol cartref yng Nghymru lunio a chadw CDU, neu gadw CDU sydd eisoes yn bod, yn unol ag adrannau 37–39 o'r Ddeddf. Os yw'n gwneud hynny, dylai weithio'n agos gyda'r tîm troseddau ieuenctid, y person a chanddo gyfrifoldeb am y llety ieuenctid perthnasol a'r darparwr addysg.

[324] Adran 39(3) o'r Ddeddf
[325] Adran 39A o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998
[326] Adran 40 o'r Ddeddf
[327] Adran 40(3) a (4) o'r Ddeddf.



DRAFT

## Apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru

20.82 Gall person sy’n cael ei gadw’n gaeth, neu riant person sy’n cael ei gadw’n gaeth sy’n blentyn, apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y materion a ganlyn[328]:

- penderfyniad gan yr awdurdod cartref o ran a oes gan berson sy’n cael ei gadw’n gaeth ADY;
- penderfyniad gan yr awdurdod cartref o ran a fydd angen i CDU gael ei gynnal ar gyfer person sy’n cael ei gadw’n gaeth pan gaifff y person ei ryddhau;
- y disgrifiad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol person mewn CDU;
- y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn CDU neu’r ffaith nad yw darpariaeth ddysgu ychwanegol wedi’i chynnwys mewn cynllun (sef y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a fydd yn berthnasol pan gaiff y person ei ryddhau);
- yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben sicrhau derbyniad i’r ysgol (ar ôl i’r person gael ei ryddhau); neu
- os nad enwir ysgol mewn CDU at y diben hwnnw.

20.83 Ar apêl, gall y Tribiwnlys[329]:

- wrthod yr apêl;
- gorchymyn bod gan berson sy’n cael ei gadw’n gaeth neu nad oes gan berson sy’n cael ei gadw’n gaeth ADY o fath a bennir yn y gorchymyn;
- gorchymyn i’r awdurdod cartref lunio CDU;
- gorchymyn i’r awdurdod cartref ddiwygio CDU fel a bennir yn y gorchymyn; neu
- anfon yr achos yn ôl i’r awdurdod cartref sy’n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gwahanol

20.84 Mae canllawiau pellach ar apelau i Dribiwnlys Addysg Cymru ym Mhennod 19.

[328] Adran 65 o’r Ddeddf
[329] Adran 66 o’r Ddeddf

DRAFT

# Atodiad A – Geirfa

Yn yr eirfa hon mae'r "Ddeddf" yn cyfeirio at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017

mae i **"anghenion dysgu ychwanegol"** (*"additional learning needs"*) yr ystyr a roddir gan adran 2 o'r Ddeddf, h.y.

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—

- (a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
- (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.

(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

**mae i "ddarpariaeth ddysgu ychwanegol"** (*"additional learning provision"*) yr ystyr a roddir gan adran 3 o'r Ddeddf, h.y.

(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—

- (a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,
- (b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu
- (c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.

(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.



DRAFT

| |
|---|
| mae i **“dechrau’r cyfnod o gadw person yn gaeth”** *(“beginning of detention”)* yr ystyr a roddir gan adran 36 o’r Ddeddf; |
| ystyr **“cyfaill achos”** *(“case friend”)* yw person a benodir gan y Tribiwnlys Addysg o dan adran 76 o’r Ddeddf ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd; |
| ystyr **“plentyn”** *(“child”)* yw person sy’n iau na’r oedran ysgol gorfodol; |
| ystyr **“grŵp comisiynu clinigol”** *(“clinical commissioning group”)* yw corff a sefydlwyd o dan adran 14D o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p. 41); |
| mae i **“person sy’n cael ei gadw’n gaeth”** *(“detained person”)* yr ystyr a roddir gan adran 36 o’r Ddeddf; |
| mae **“addysg”** *(“education”)* yn cynnwys addysg lawn-amser a rhan-amser, ond nid yw’n cynnwys addysg uwch; ac mae **“addysgol”** *(“educational”)* ac **“addysgu”** *(“educate”)* (a thermau cysylltiedig eraill) i gael eu dehongli yn unol â hynny; |
| ystyr **“cynllun AIG”** *(“EHC plan”)* yw cynllun o fewn adran 37(2) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6) (cynlluniau addysg, iechyd a gofal); |
| mae i **“corff llywodraethu”** *(“governing body”)*, mewn perthynas â chorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach, yr ystyr a roddir i *“governing body”* gan adran 90 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13);<br><br>mae i **“corff llywodraethu”**, mewn perthynas â chorff llywodraethu ysgol, yr ystyr a roddir gan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. |
| mae i **“awdurdod cartref”** *(“home authority”)* yr ystyr a roddir gan adran 36 o’r Ddeddf; |
| mae i **“swyddog adolygu annibynnol”** *(“independent reviewing officer”)* yr ystyr a roddir gan adran 13 o’r Ddeddf; |
| mae i **“cynllun datblygu unigol”** *(“individual development plan”)* yr ystyr a roddir gan adran 8 o’r Ddeddf; |
| ystyr **“sefydliad yn y sector addysg bellach”** *(“institution in the further education sector”)* yw sefydliad sy’n dod o fewn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;<br><br>Yn y Ddeddf—<br>(a) mae sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu’n bennaf yng Nghymru;<br>(b) mae sefydliad yn y sector addysg bellach yn Lloegr os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu’n bennaf yn Lloegr. |
| ystyr **“panel lleyg”** *(“lay panel”)* yw’r panel o bersonau a benodir o dan adran 79(5) o’r Ddeddf; |

DRAFT

| |
|---|
| ystyr **"panel cadeirydd cyfreithiol"** *("legal chair panel")* yw'r panel o bersonau a benodir o dan adran 79(4) o'r Ddeddf (ac ystyr **"cadeirydd cyfreithiol"** *("legal chair"*) yw aelod o'r panel); |
| ystyr **"awdurdod lleol"** *("local authority")* yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, ac eithrio pan fo cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at awdurdod lleol yn Lloegr;<br><br>At ddibenion y Ddeddf, mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn ardal yr awdurdod. (Gweler adran 82 o'r Ddeddf). |
| ystyr **"Bwrdd Iechyd Lleol"** *("Local Health Board")* yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42); |
| mae i gyfeiriad yn y Ddeddf hon at **"blentyn sy'n derbyn gofal"** gan awdurdod lleol (sut bynnag y'i mynegir) yr ystyr a roddir gan adran 13 o'r Ddeddf. |
| ystyr **"sefydliad prif ffrwd yn y sector addysg bellach"** *("mainstream institution in the further education sector")* yw sefydliad yn y sector addysg bellach nad yw wedi ei drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol; |
| ystyr **"ysgol brif ffrwd a gynhelir"** *("mainstream maintained school")* yw ysgol a gynhelir—<br>(a) nad yw'n ysgol arbennig, ac<br>(b) nad yw'n uned cyfeirio disgyblion. |
| ystyr **"ysgol a gynhelir"** *("maintained school")* yw—<br>(a) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol,<br>(b) ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty,<br>(c) ysgol feithrin a gynhelir, neu<br>(d) uned cyfeirio disgyblion;<br><br>Yn y diffiniad o "ysgol a gynhelir", mae i ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ac ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig, yr ystyr a roddir gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). |
| ystyr **"Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol"** *("National Health Service Commissioning Board"*) yw corff a sefydlir o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006; |
| ystyr **"corff GIG"** *("NHS body")* yw—<br>(a) Bwrdd Iechyd Lleol, neu<br>(b) ymddiriedolaeth GIG. |
| mae i **"ymddiriedolaeth sefydledig GIG"** yr ystyr a roddir i *"NHS foundation trust"* gan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006; |
| ystyr **"ymddiriedolaeth GIG"** *("NHS trust")* yw ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlir o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;<br>mae i **"cynllun addysg personol"** *("personal education plan")* yr ystyr a roddir gan adran 13(4) o'r Ddeddf; |
| ystyr **"Llywydd"** *("President")* yw Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru a benodir o dan adran 79 o'r Ddeddf; |

| |
|---|
| ystyr **“perchennog”** *(“proprietor”)*, mewn perthynas â sefydliad nad yw’n ysgol, yw’r person neu’r corff o bersonau sy’n gyfrifol am reoli’r sefydliad; |
| ystyr **“rhagnodedig”** ac **“a ragnodir”** *(“prescribed”)* yw wedi ei ragnodi mewn rheoliadau; |
| mae i **“uned cyfeirio disgyblion”** yr ystyr a roddir i *“pupil referral unit”* gan adran 19(2) o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56); |
| ystyr **“rheoliadau”** *(“regulations”)* yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru; |
| mae i **“llety ieuenctid perthnasol”** *(“relevant youth accommodation”)* yr ystyr a roddir gan adran 36 o’r Ddeddf; |
| ystyr **“Awdurdod Iechyd Arbennig”** *(“Special Health Authority”)* yw Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlir o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu adran 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006; |
| mae **“hyfforddiant”** *(“training”)* yn cynnwys—<br>(a) hyfforddiant llawnamser a rhan-amser;<br>(b) hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden; |
| ystyr **“Tribiwnlys”** *(“Tribunal”)* yw Tribiwnlys Addysg Cymru (gweler adran 79 o’r Ddeddf); |
| ystyr **“person ifanc”** *(“young person”)* yw person sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol, ond sy’n iau na 25 oed; |
| ystyr **“tîm troseddwyr ifanc”** *(“youth offending team”)* yw tîm a sefydlir o dan adran 39 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37); |

DRAFT

# Atodiad B - Cludiant

## *Crynodeb*

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r dyletswyddau gorfodol ac yn darparu canllawiau ar faterion cludiant yng nghyd-destun llunio CDU, ac mae'n berthnasol iawn mewn achosion mwy dwys a chymhleth. **Dylid** darllen yr Atodiad hwn ar y cyd â Phennod 10 a Phennod 11 sy'n ymwneud â chynnwys CDU.

## *Cludiant*

Fel rhan o'r broses o lunio CDU, **dylai** trefniadau ar gyfer teithio rhwng y cartref a'r sefydliad addysg, gan gynnwys y cludiant addas sydd ar gael a'r dewisiadau ariannu cysylltiedig, gael eu trafod yn llawn â'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc, lle bo hynny'n berthnasol.

Ar gyfer plant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol asesu eu hanghenion teithio pan fyddant yn mynychu addysg feithrin ac yn preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod. Fodd bynnag, nid oes gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant am ddim neu gludiant â chymhorthdal ar gyfer plant mewn addysg feithrin (sy'n iau na 5 oed). Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am ddarpariaethau teithio dysgwyr meithrin o dan Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009.

Mae gan blant sy'n derbyn addysg gynradd hawl i gludiant am ddim i ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir, os mai'r ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf ac os yw'n ddwy filltir neu fwy o'u cartref. Yr unig eithriad i hynny yw os yw'r awdurdod lleol wedi trefnu i'r dysgwr letya yn yr ysgol neu ger yr ysgol. Ar gyfer plant sy'n derbyn addysg uwchradd, mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu os ydynt yn byw dair milltir neu fwy o'r ysgol. Os na ddarperir cludiant am ddim mewn achosion o'r fath, mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol ad-dalu costau trafnidiaeth gyhoeddus, costau petrol neu ddarparu cerdyn teithio.

Mae'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar addasrwydd ysgol yn cynnwys a yw'r ysgol yn gallu rhoi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar waith a nodir yn CDU y plentyn. Ar gyfer rhai plant o'r oedran ysgol gorfodol ag ADY, mae'n bosibl y bydd yr ysgol addas agosaf yn fwy na'r trothwy dwy neu dair milltir o'u cartref. Serch hynny, bydd y plant yn gymwys i gael cludiant am ddim.

Yn ogystal, os na all plentyn o'r oedran ysgol gorfodol gerdded i'w ysgol addas agosaf (gydag oedolyn neu heb oedolyn fel sy'n addas i oedran y plentyn), mae gan y plentyn hawl i gludiant am ddim, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r terfyn statudol sy'n berthnasol i'w grŵp oedran.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch teithio gan ddysgwyr, mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu risg pob llwybr cerdded i'r ysgol. Os yw asesiad risg yn dod i'r penderfyniad nad yw llwybr cerdded plentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol i'w ysgol addas agosaf (gydag oedolyn neu heb oedolyn fel sy'n addas i oedran y plentyn) ar gael, mae gan y plentyn hawl i gludiant am ddim, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r terfyn statudol sy'n berthnasol i'r grŵp oedran.[330]

Nid oes unrhyw ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant ar gyfer pobl ifanc sydd mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16, gan gynnwys y rhai ag ADY. **Dylai** gofynion teithio ac ariannu teithio ar gyfer pobl ifanc o'r fath gael eu hystyried fel rhan o'r broses o gynllunio'r trosglwyddo. Mae hyn yn bwysig iawn pan fydd plentyn neu berson ifanc ar fin gadael yr ysgol a bod disgwyl iddo gael lle mewn sefydliad addysg bellach.

**Dylai**'r rhai sy'n llunio CDU pobl ifanc ystyried polisi cludiant yr awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 19 oed, a pholisi cludiant yr awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 a 25 oed, os oes ganddo bolisi o'r fath. Yn benodol, **dylent** ystyried pa gynlluniau teithio rhatach sydd ar gael a pha gymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, sydd ar gael. Os penderfynir wrth lunio'r CDU bod angen trefniadau cludiant penodol, **dylid** gwahodd swyddogion cludiant perthnasol yr awdurdod lleol i drafod y dewisiadau sydd ar gael.

**Dylai** awdurdodau lleol ystyried bod ag unigolyn cyswllt penodol i drafod arian ar gyfer cludiant, a phennu amserlenni clir ar gyfer penderfyniadau ariannu. **Dylai'r** dyddiadau hyn ddarparu digon o amser i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc wneud trefniadau gwahanol, gan gynnwys ystyried darparwr addysg gwahanol os oes angen.

O dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr o dan 19 oed yn ardal yr awdurdod, gan gynnwys ystyried anghenion dysgwyr anabl a dysgwyr ag anawsterau dysgu, a chyhoeddi eu polisi cludiant ar gyfer y dysgwyr hynny. Hefyd, **dylent** ystyried cynnwys rhan benodol sy'n nodi eu polisïau ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 a 25 oed.

**Dylai** SAB lunio polisi cludiant a darparu gwybodaeth hwylus ar eu gwefan ac yn eu prosbectws am y cludiant sydd ar gael i ddysgwyr ag ADY. Hefyd, **dylent** nodi eu polisïau yn glir wrth gynnig lle i bobl ifanc ar un o'u cyrsiau.

Os yw'n briodol, **dylai** teithio annibynnol gael ei hyrwyddo gan awdurdodau lleol, ysgolion a SAB. Mae SAB mewn safle unigryw ac maen nhw'n gallu datblygu arferion da sydd eisoes yn bodoli. Mae modd defnyddio gwirfoddolwyr, myfyrwyr, cymheiriaid, hyfforddwyr, myfyrwyr aeddfed neu fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gofal i hyrwyddo teithio annibynnol. Gellir cynnal

[330] I gael rhagor o wybodaeth am y broses asesu risg, ewch i Bennod 5 o'r Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol 2014 drwy glicio yma.

gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar unigolion sy'n fodlon cael eu hyfforddi fel bydi bws neu hebryngwr er mwyn cefnogi'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol – yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf.

Os yw dysgwyr yn gallu teithio'n annibynnol i'w sefydliad addysgol, gall fod yn briodol i'r awdurdod lleol ddarparu Bathodynnau Glas, cardiau teithio rhatach ar y bws neu gludiant cymunedol.

DRAFT

# Atodiad C – Asiantaethau allanol gwahanol

## Cyflwyniad

Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau ategol amrywiol i helpu i nodi a diwallu anghenion plant a phobl ifanc.

Mae gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol yn gallu darparu rhagor o gyngor i athrawon a Chydlynwyr ADY. Gall hyn gynnwys cyngor ar ddulliau a strategaethau ac ar CDU priodol.

## Athrawon Arbenigol

Os oes gan ddisgybl nam ar y synhwyrau, neu os yw'n ymddangos bod ganddo nam ar y synhwyrau, dylid sicrhau bod mynediad ar gael i athrawon arbenigol disgyblion sydd â nam ar y clyw, nam ar y golwg a heriau cyfathrebu. Byddai hyn yn cynnwys athrawon cymwysedig disgyblion â nam ar y golwg, athrawon disgyblion byddar ac athrawon sydd â'r cymhwyster gorfodol mewn nam amlsynnwyr. Yn ogystal ag arsylwi ar y plentyn neu'r person ifanc a chyfrannu at y CDU, gall yr athrawon hyn gydweithio ag arbenigwyr eraill yn eu maes.

Gall athrawon arbenigol eraill ddarparu cyngor ar heriau penodol a rhoi cyngor i'r ysgol a'r athrawon ar strategaethau addas, darpariaeth ofynnol, a chyfrannu at y CDU.

## Seicolegwyr Addysg

Gall seicolegwyr addysg fod yn adnodd pwysig iawn. Mae ganddynt wybodaeth unigryw am y dirwedd addysgol ac am leoliadau gwahanol yn y system addysg. Gall seicolegwyr addysg ddefnyddio dulliau seicolegol i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth am wybyddiaeth, datblygiad ac ymddygiad. Gallant ddarparu cymorth i egluro problemau a llunio strategaethau i ddatrys problemau. Gallant helpu i arsylwi ar blant a phobl ifanc, a'u hasesu, gan gynnwys dulliau o reoli ymddygiad a gwerthuso cynnydd disgyblion unigol. Yn ogystal â gweithio gyda phlant a phobl ifanc unigol, gall seicolegydd addysg weithio gyda grwpiau o ddisgyblion a staff addysgu. Gall seicolegwyr addysg ddyfeisio neu argymell hyfforddiant ar gyfer yr aelod o staff perthnasol a'r sefydliad addysg. Hefyd, gall seicolegwyr addysg ddatblygu capasiti ledled y lleoliad i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr.

Os yw ysgol neu SAB yn ystyried atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol, dylid ymgynghori â seicolegydd addysg cyn gwneud yr atgyfeiriad. Os yw awdurdod lleol wedi derbyn cais i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU, mae'n rhaid iddo ymgynghori â seicolegydd addysg.

DRAFT

**Gwasanaethau eraill awdurdodau lleol**

Hefyd, dylai awdurdodau lleol ddarparu cymorth ehangach drwy wasanaethau lles a/neu wasanaethau cynhwysiant. Gall y gwasanaethau hyn weithio gyda'r plentyn, ei rieni, pobl ifanc a darparwyr addysg i helpu i ddatrys problemau ehangach, fel problemau presenoldeb unrhyw blentyn. Hefyd, gallant weithio gyda phlentyn, rhiant plentyn a'r darparwr addysg os yw'r plentyn mewn perygl difrifol o ddadrithio neu gael ei wahardd. Hefyd, gallant gynorthwyo'r plentyn drwy ddarparu cyngor a gwasanaeth cwnsela ar faterion ehangach fel llesiant emosiynol, iechyd meddwl a ffactorau cymdeithasol eraill, fel tai. Gallant gysylltu ag asiantaethau eraill yn ôl y gofyn.

Mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod lleol roi'r gwasanaethau cymorth ar waith os oes diffyg arbenigedd yn y lleoliad addysg a bod angen cyngor a chymorth allanol.

**Cynghorwyr gyrfa**

Mae cynghorwyr gyrfa yn darparu cyngor ar yrfaoedd ar gyfer plant a phobl ifanc. Ar gyfer y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai ag ADY, mae'r cyngor ar yrfaoedd sy'n cael ei ddarparu fel rhan o'r trefniant arferol yn ddigonol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen cyngor personol neu ychwanegol ar yrfaoedd ar gyfer rhai plant a phobl ifanc, yn enwedig yn ystod cyfnod trosglwyddo.

**Therapyddion Lleferydd ac Iaith**

Gall Therapyddion Lleferydd ac Iaith roi cyngor ar ddarpariaeth lleferydd ac iaith addas. Byddai hyn yn cynnwys y deilliant, y mewnbwn a'r amserlenni, ac yn cynnwys rhoi'r ddarpariaeth ar waith mewn rhai achosion. Gall Therapyddion Lleferydd ac Iaith gynghori, dyfeisio a goruchwylio'r ddarpariaeth sydd i'w rhoi ar waith gan aelod staff addas, gan fonitro cynnydd y plentyn neu'r person ifanc.

**Therapyddion galwedigaethol**

Gall therapyddion galwedigaethol roi cyngor ar fathau o weithgarwch a chwarae â phwrpas i helpu plentyn neu berson ifanc i gyrraedd y lefelau uchaf posibl o berfformiad gweithredol. Mae therapyddion galwedigaethol yn asesu sgiliau echddygol, synhwyraidd, canfyddiadol, cymdeithasol, emosiynol a hunanofal. Gall therapyddion galwedigaethol ddefnyddio dulliau therapiwtig (fel cyngor ar gyfarpar ac addasiadau amgylcheddol) lle bo hynny'n briodol er mwyn gwella gallu plentyn neu berson ifanc i ymgysylltu â'r amgylchedd ffisegol a'r amgylchedd dysgu. Mewn rhai achosion, bydd therapyddion galwedigaethol yn rhoi'r ddarpariaeth ar waith yn uniongyrchol, a gallant hefyd gynghori, dyfeisio a goruchwylio'r ddarpariaeth sydd i'w rhoi ar waith gan aelod staff addas, gan fonitro cynnydd y plentyn neu'r person ifanc.

**Ffisiotherapyddion**

Gall ffisiotherapyddion roi cyngor ar ddulliau corfforol o hyrwyddo, cynnal ac adfer llesiant corfforol, seicolegol a chymdeithasol plentyn neu berson ifanc. Mewn rhai achosion, bydd ffisiotherapyddion yn rhoi'r ddarpariaeth ar waith yn uniongyrchol, a gallant hefyd gynghori, dyfeisio a goruchwylio'r ddarpariaeth sydd i'w rhoi ar waith gan aelod staff addas, gan fonitro cynnydd y plentyn neu'r person ifanc.

DRAFT

# ATODIAD D – CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL ENGHREIFFTIOL

Cyfrifoldeb am y CDU

- Enw'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU;
- Enw unigolyn i weithredu fel prif unigolyn cyswllt yr ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU;
- Enw'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol a luniodd y CDU (os yw'n wahanol i'r corff sy'n ei gynnal ar hyn o bryd);
- Enw unigolyn i weithredu fel prif unigolyn cyswllt yr ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU (os yw'n wahanol i'r unigolyn sy'n gyfrifol am gydlynu'r gwaith o baratoi'r CDU).

Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol

- Enw llawn y plentyn neu'r person ifanc ____________________
- Dyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc___________________
- Rhyw'r plentyn neu'r person ifanc ________________
- Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu sefydliad addysg, enw'r sefydliad hwnnw __________________
- Cyfeiriad cartref y plentyn neu'r person ifanc_________________
- Pa iaith y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei siarad gartref ______________
- Os yw plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, y ffaith honno ________________
- Enw'r awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn neu'r person ifanc (os yw'r person yng ngofal yr awdurdod lleol) __________
- Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn berson a oedd yn derbyn gofal gynt gan awdurdod lleol, y ffaith honno________
- Cyfeiriad(au) rhiant/rhieni'r plentyn_________________________
- Rhif(au) ffôn cyswllt rhiant/rhieni'r plentyn (os yw/ydynt ar gael)_______________
- Cyfeiriad(au) e-bost rhiant/rhieni'r plentyn (os yw/ydynt ar gael)_____________________
- Y wybodaeth ganlynol, os yw'r person ifanc wedi cydsynio i'w chynnwys:
    - Cyfeiriad(au) rhiant/rhieni'r person ifanc____________________
    - Rhif(au) ffôn cyswllt rhiant/rhieni'r person ifanc (os yw/ydynt ar gael)______________________
    - Cyfeiriad(au) e-bost rhiant/rhieni'r person ifanc (os yw/ydynt ar gael)___________________

Safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc

DRAFT

(Gall hyn gynnwys Proffil Un Dudalen)

Cofnod o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU

Disgrifiad o ADY y plentyn neu'r person ifanc

Disgrifiad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc a phwy sy'n gyfrifol am ei rhoi ar waith

| Y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol | Y sefydliad sy'n gyfrifol am roi'r ddarpariaeth ar waith | Unigolyn cyswllt (enw a theitl ei swydd yn y sefydliad) | Pa mor aml fydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei rhoi ar waith? | Dyddiad dechrau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol | Dyddiad gorffen y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol | Enw'r corff sy'n gyfrifol am ariannu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

Nodwch unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen trwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliannau arfaethedig

Trosglwyddo

DRAFT

Rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed

Amserlen o ddigwyddiadau allweddol

Dyddiad y cyfarfod CDU arfaethedig nesaf ___________________________

Mae'n rhaid adolygu'r CDU erbyn (dyddiad)______________________

Cofnod o ddyddiadau a threfnydd pob CDU blaenorol:

| Dyddiadau cyfarfodydd CDU blaenorol | Trefnydd y cyfarfod CDU |
|---|---|
| | |
| | |

Cofnod o leoliadau'r blynyddoedd cynnar/lleoliadau addysg a fynychwyd ers y CDU cyntaf:

| Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar/lleoliadau addysg a fynychwyd | Dyddiadau |
|---|---|
| | |
| | |

(Gallai hyn gynnwys digwyddiadau eraill sy'n arwyddocaol ac yn berthnasol i ddeall ADY y plentyn neu'r person ifanc a chynllunio'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ofynnol.)

Llofnod______________________

Dyddiad llofnodi____________________

DRAFT

Example IDP

**Cyfrifoldeb am y CDU**

- Enw'r ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU: Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Enw unigolyn a fydd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o lunio'r CDU i weithredu fel prif unigolyn cyswllt yr ysgol, y SAB neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU: E.D.G. Morgans, Prif Swyddog Addysg

**Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol**

- Enw llawn y plentyn neu'r person ifanc: Josie Thomas
- Dyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc: 06/03/2005
- Rhyw'r plentyn neu'r person ifanc: Merch
- Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu lleoliad addysg, enw'r lleoliad addysg: Canolfan Addysgu a Dysgu, Ysgol Gynradd Sirol Sunny Hill
- Cyfeiriad cartref y plentyn neu'r person ifanc: 28 Bridge Street, Sunny Hill, Sir Gaerfyrddin SA17 4TS
- Pa iaith y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei siarad gartref: Saesneg
- Cyfeiriad(au) rhiant/rhieni'r plentyn: Gweler uchod.
- Rhif(au) ffôn cyswllt rhiant/rhieni'r plentyn: 012672384059
- Cyfeiriad(au) e-bost rhiant/rhieni'r plentyn: HThomas@gmail.com

Mae Josie yn derbyn cymorth i gyfathrebu ac mae'n gweithio gyda'i rhieni ac oedolion allweddol yn yr ysgol i baratoi ar gyfer adolygiadau a rhannu ei safbwyntiau. Mae hi'n mynychu pob adolygiad ac yn cymryd rhan weithredol. Mae'n well ganddi gyfathrebu trwy gyfrwng y Saesneg.

Hefyd, dylai'r CDU gynnwys Rhif Unigryw Dysgwr y plentyn neu'r person ifanc os oes rhif wedi'i ddynodi. 157

**Safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc**

PROFFIL UN DUDALEN:

## My One-Page Profile

Josie Thomas

I am 11 and in Year 6 at Sunny Hill teaching and learning centre

** My friends

** Me

** My Family

## What people appreciate about me

- Personality / Singing / Bows
- Confidence / Chatty
- Tights
- Bright lively conversation / knows peoples voices
- Determined / Asks questions / Open and Honest
- Everything – she is infectious
- Have a go at things
- Smile / Singing / Personality / Sense of humour

## What is important to me

- Peppa Pig / Singing / Dancing
- Exploring new things
- Needs to be prepared for changes in advance
- Milk / Quavers
- Muffins
- Sausages
- Chicken Chow Mein/ Curry
- Mickey Mouse
- Horrid Henry

## How to support me

- Available health care plan updated regularly
- Encourage her eating and for her to feed herself or to try
- Close home / school / agencies / health links and communication to ensure a collaborative plan
- Training of staff for health needs

## What is important to me in the future

- Independent life skills, to be able to go out with her friends as a teenager, jump on a bus / train and go shopping.

**Cofnod o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU**

- 12/11/2015 Adroddiad o'r adolygiad pediatrig. Gweler yr atodiad
- 08/01/2016 Diweddariad y Seicolegydd Addysg a Phlant. Gweler yr atodiad
- 08/01/2016 Adolygiad ysgol i drafod adroddiadau a chynnydd. Rhieni, Josie, y pennaeth, yr athro dosbarth, oedolyn allweddol, y seicolegydd addysg a phlant, y tîm nam ar y synhwyrau, y nyrs gymunedol a'r therapydd galwedigaethol. Pryderon yn ymwneud â chanolbwyntio a gwrando, ac asesiadau sy'n dangos oedi cynyddol o ran cyflawniad. Trafodwyd strategaethau a chynyddu darpariaeth i gefnogi'r defnydd o fframweithiau yn yr ystafell ddosbarth a sesiynau chwarae 1:1 i leddfu pryder.
- 19/03/2016 Adroddiad o'r asesiad Lleferydd ac Iaith. Gweler yr atodiad
- 01/07/2016 Adroddiad clinigol pediatrig. Gweler yr atodiad a'r cynllun gofal meddygol wedi'i ddiweddaru.
- 09/07/2016 Adolygiadau o'r nam ar y synhwyrau. Gweler yr atodiad
- 09/07/2016 Adolygiad o'r CDU gyda Josie, ei rhieni, y pennaeth, oedolyn allweddol, ei hathro dosbarth presennol a phennaeth ac athro dosbarth Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sunny Hill, y rheolwr nam ar y synhwyrau, yr athro disgyblion sydd â nam ar y clyw, defnyddiwr Braille, yr athro adsefydlu, y nyrs gymunedol, y therapydd galwedigaethol a'r therapydd lleferydd ac iaith

Cyfranwyr:
Mynychwyr cyfarfodydd
Mrs Griffiths Pennaeth head@sunnyhill.ysgolccc.org.uk
Jordan Davies Athro Dosbarth JTDavies@ysgolccc.ork.uk
Deborah Thomas Athrawes Dosbarth Canolfan Addysgu a Dysgu Ysgol Uwchradd Sunny Hill DThomas@ysgolccc.org.uk
Katy Lewis Pennaeth Ysgol Uwchradd Sunny Hill KLewis@SHSS@ysgolccc.org.uk
Nia Williams Cymorth oedolyn allweddol / cymorth 1:1
Mr a Mrs Thomas Rhieni 01267262964
Valerie Morgan Cymorth i Deuluoedd VMorgan@carmarthenshire.gov.uk
Mary Kirkwood Seicolegydd Addysg a Phlant MKirkwood@Carmarthenshire.gov.uk
Emma Morris Therapydd Lleferydd ac Iaith EMorris@walesnhs.gov
Susan Jones Therapydd Galwedigaethol SJones@walesnhs.gov
Cyfranwyr at yr adroddiad:
Mandy Davies Rheolwr Nam ar y Synhwyrau MDavies@carmarthenshire.gov.uk
Fiona Williams Athrawes Namau a defnyddiwr braille Fwilliams@carmarthenshire.gov.uk
Sarah Rowlands Nyrs Gymunedol SRowlands@walesnhs.gov

| **Beth sy’n bwysig i Josie ar hyn o bryd** | **Beth sy’n bwysig i Josie / Sut i’w chynorthwyo** |
|---|---|
| • Gwisgo ei chôt ar ei phen ei hun<br>• Beth gafodd hi ar gyfer y Nadolig – y rhestr gyfan!<br>• Cael ffrindiau<br>• Chwarae gyda’i ffrindiau<br>• Peidio â bod yn ddibynnol ar oedolion<br>• Creision blas eidion<br>• Kian a Holly (ei doliau sy’n fabanod)<br>• Chwarae gyda phêl<br>• Myffins<br>• Selsig<br>• Chicken Chow Mein/ Cyrri<br>• Mickey Mouse<br>• Horrid Henry | • Hyfforddi staff ar gyfer anghenion iechyd<br>• Cyrsiau braille i atgyfnerthu a chefnogi’r cartref<br>• Datblygu bwydo annibynnol<br>• Cefnogi brwdfrydedd dros ddysgu braille<br>• Ei chefnogi i allu gwneud ei phenderfyniadau ei hun – pa weithgaredd y byddai’n hoffi ei wneud / datrys problemau (defnyddio sgriptiau dysgu a chwestiynu effeithiol).<br>• Cefnogi diogelwch – mae cynllun asesu risg a gofal meddygol ar gael ac yn cael ei ddilyn gan bawb, gyda dysgu strwythuredig i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau diogelwch Josie |
| **Beth sy’n bwysig i Josie yn y dyfodol** | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| • Sgiliau byw'n annibynnol, gallu mynd allan gyda'i ffrindiau fel person yn ei harddegau, teithio ar fws / trên a mynd i siopa<br>• Dysgu braille fel bod ganddi lyfr darllen fel y plant eraill yn ei dosbarth, a dysgu sut i drin arian er mwyn gallu prynu rhywbeth ar ei phen ei hun<br>• Symud yn annibynnol o gwmpas yr iard<br>• Gwireddu ei photensial academaidd<br>• Trosglwyddo i'r ysgol nesaf | • Hyfforddiant teithio / sgiliau symudedd / sgiliau adsefydlu (cynlluniau strwythuredig lle bo hynny'n berthnasol)<br>• Mynediad i lyfrau a deunyddiau amrywiol a hawdd cael gafael arnynt – llyfrau golwg clir ar gyfer cyfleoedd darllen annibynnol a darllen ar y cyd yn yr ysgol ac yn y cartref<br>• Cynllunio ymhell ymlaen llaw i sicrhau bod modd cael gafael ar adnoddau yn ôl y gofyn cyn tiwtora / ar gyfer y gweithgaredd ac ar ôl tiwtora<br>• Cysylltiadau a chyfathrebu clir rhwng y cartref, yr ysgol, asiantaethau a'r sector iechyd er mwyn datblygu cynllun ar y cyd<br>• Adolygiadau a chynlluniau gweithredu rheolaidd<br>• Angen archwilio amgylchedd yr ysgol newydd yn llawn – cynorthwywyr addysgu i ddarparu sgript lafar gan ddefnyddio geirfa gyfoethog<br>• Rhoi sicrwydd i dawelu'r meddwl<br>• Bod yn ymwybodol o'r risgiau – diweddaru asesiadau risg yn rheolaidd<br>• Diweddaru'r cynllun gofal iechyd sydd ar gael yn rheolaidd<br>• Ei hannog i fwyta ac i'w bwydo ei hun, neu i drio gwneud hynny<br>• Dod i adnabod yr holl staff newydd<br>• Trefnu ymweliadau â'r ysgol ymlaen llaw<br>• Darparu her<br>• Mathemateg ymarferol – gwrthrychau |
| **Beth sy'n gweithio?** | **Beth y gellid ei wneud yn well?** |
| **Josie**<br>• Hapus yn yr ysgol<br>• Mae hi wrth ei bodd â phawb yn y teulu<br>**Rhieni**<br>• Dealltwriaeth Miss Taylor a'r cynorthwyydd addysgu<br>**Yr ysgol**<br>• Hyfforddiant braille | • Defnyddio braille ym mhob maes i ddatblygu annibyniaeth<br>• Braille yn y cartref<br>• Bwydo'n annibynnol |

DRAFT

| | |
|---|---|
| • Bwydo<br>• Bwyta yn yr ysgol<br>• Siapiau, pwysau, rhif mewn mathemateg<br>• Cynnydd mewn darllen<br><br>• Cysgu'n dda<br>• Mae'n cymdeithasu gyda'r teulu/ffrindiau<br>• Wedi gwneud llawer o ffrindiau yn yr ysgol<br>• Llyfr cartref / ysgol<br>• Yr ysgol a gweithwyr proffesiynol yn cydweithio'n dda<br>• Mynychu apwyntiadau gyda GOSH<br>• Gofal / newid y traceostomi | • Gwneud cynnydd gyda braille<br>• Annibyniaeth<br><br>Eraill<br><br>• Cyflwyniad i braille<br>• Cyflwyniad i ddefnyddio ffon<br>• Rhaglen symudedd / adsefydlu glir<br>• Angen i'r Therapydd Galwedigaethol ymweld â'r ysgol yn fwy rheolaidd |

| Deilliannau Dymunol y mae hyn yn eu cefnogi | **Beth?** | **Gan bwy?** | **Pryd? (Erbyn pa ddyddiad?)** |
|---|---|---|---|
| • Cysylltiadau a chydweithio agos â phob asiantaeth i sicrhau bod Josie yn gwneud cynnydd ac yn teimlo'n ddiogel yn ei dosbarth newydd a'i bod yn mynychu yn rheolaidd | • Ymweliadau gan asiantaethau yn ystod hanner tymor cyntaf yr ysgol newydd<br>• Adolygiad i drafod cymorth a darpariaeth yn yr ysgol newydd a chydweithio â'r awdurdod lleol | Cydlynydd ADY Ysgol Uwchradd Sunny Hill i gysylltu | • 18 Hydref 2016 |
| • Datblygu rhagor o annibyniaeth a defnyddio'r adnoddau arbenigol a ddarparwyd i gyfleu'r hyn y mae Josie ei eisiau a'i angen | • Rhaglen **adsefydlu** – (wedi'i hamgáu). Dangos targedau a chamau gweithredu clir.<br>• **Braille** (wedi'i amgáu a thargedau) – mae angen ardal wahanol a thawelach.<br>• 1 cynorthwyydd addysgu i gynorthwyo yn ystod y sesiwn – bydd y cynorthwyydd arall yn creu deunyddiau ac yn cynllunio<br>• Mae angen hyfforddiant | F Williams a staff yr ysgol | • 12/7/2016 |
| • Trosglwyddo i'r ysgol newydd, gan ymgartrefu a dod | | • Athro dosbarth a'r Cydlynydd ADY | • Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2016 |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn gyfarwydd â chyd-ddisgyblion, staff a'r amgylchedd | y Fenter Darllen ac Ysgrifennu, fel y nodwyd yn y cynllun gweithredu blaenorol - cysylltu â'r cydgysylltydd llythrennedd<br>• Cynllunio dros bythefnos ymlaen llaw<br>• Cadw cyfarpar ar gyfer addysgu annibyniaeth mewn lle penodedig<br>• Defnyddio'r perkins i raddau mwy yn y dosbarth<br>• Arddangos llyfrau braille amrywiol yn y lle darllen a sicrhau cynhwysiant<br>• Teclyn braille perkins i'w ddefnyddio yn y cartref<br>• Clwb yr haf – cymorth ychwanegol gan gynorthwyydd addysgu yn yr ysgol uwchradd yn dilyn y cynllun i gyfarwyddo â'r amgylchedd<br>• Hyfforddiant meddygol ar gyfer pob aelod o staff yn y lleoliad uwchradd | • Nyrs | |

**Disgrifiad o ADY y plentyn neu'r person ifanc**

Nam ar y synhwyrau – y golwg a'r clyw.
Anawsterau â lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu.
Mae adroddiadau meddygol yn nodi arhinia cynhenid, anawsterau echddygol manwl a bras, nam ar y golwg a nam ar y clyw ac oedi datblygiadol cyffredinol. Mae cynllun gofal meddygol wedi'i amgáu.

**Disgrifiad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc a'r broses o'i rhoi ar waith**

- Tabl o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol

i. Gwaith lleoliad arbenigol ar lefelau p.
ii. Canolfan Addysgu a Dysgu ar gyfer oedi cyffredinol. Ysgol a enwir – Canolfan Addysgu a Dysgu Ysgol Uwchradd Sunny Hill.

DRAFT

| Y Ddarpariaeth ddysgu ychwanegol | Y sefydliad sy'n gyfrifol am roi'r ddarpariaeth ar waith | Unigolyn cyswllt (enw a theitl ei swydd yn y sefydliad) | Pa mor aml fydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei rhoi ar waith? | Dyddiad dechrau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol | Dyddiad gorffen y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol | Enw'r corff sy'n gyfrifol am ariannu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol | Cyfrwng y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol | Targedau arfaethedig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliad mewn canolfan addysgu a dysgu arbenigol gyda chynorthwyydd addysgu ychwanegol i weithredu fel oedolyn allweddol a gweithio gyda'r athro i gynllunio a chyflwyno'r cymorth meddygol a'r ymyriadau synhwyraidd ychwanegol | Cyngor Sir Gaerfyrddin<br><br>Ysgol – Canolfan Addysgu a Dysgu Ysgol Uwchradd Sunny Hill | E D.G Morgans – Prif Swyddog Addysg<br><br>Unigolyn cyswllt yr ysgol - Mrs Katy Lewis, Pennaeth Ysgol Uwchradd Sunny Hill. | Llawn amser – 27.5 awr yr wythnos. Bydd cymorth yn cael ei ddarparu ym mhob gwers | 01/09/08<br><br>Bydd y lleoliad yn dechrau 01/09/16 | I'w drafod ym mhob adolygiad | Adran Gynhwysiant Cyngor Sir Gaerfyrddin | Saesneg | Dilyn y cynllun meddygol bob dydd<br><br>Gweithio tuag at bob targed a bennir gan asiantaethau allanol<br><br>Bod yn gyfarwydd â'r disgyblion, y staff a'r amgylchedd newydd |
| Cyngor yn ôl y galw ynglŷn â chynnydd ac asesu ar gyfer unrhyw | Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Hywel Dda | Susan Jones – Therapydd Galwedigaethol SJones@walesnhs.gov | Mynychu adolygiadau yn ôl y gofyn, a mynychu pob | 13/02/06 | | Hywel Dda | Saesneg | Darparu cyngor ar anghenion synhwyraidd ac echddygol |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| addasiadau | | 01267 238603 | adolygiad trosglwyddo | | | | | |
| Modelu a chyngor ar therapi lleferydd ac iaith, ac adolygu cynnydd | Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith Hywel Dda | Emma Morris – Therapydd Lleferydd ac Iaith EMorris@walesnhs.gov 012672382365 | Ymweliadau wythnosol, darparu rhaglen waith a chydweithio â'r staff i gynghori ac adolygu'r cynnydd a wnaed. | 01/09/11 | | Hywel Dda | Saesneg | Ymateb i dri chyfarwyddyd lefel gair |
| Addysgu yng nghyd-destun nam ar y golwg – braille. Cyngor a monitro yng nghyd-destun nam ar y clyw. Cyngor a modelu addasiadau ac adnoddau. Addysgu yng nghyd-destun cymorth | Gwasanaeth Nam ar y Synhwyrau Cyngor Sir Gaerfyrddin | Mandy Davies - Rheolwr Nam ar y Synhwyrau MDavies@carmarthenshire.gov.uk | Ymweliadau wythnosol | 01/09/08 | | Adran Gynhwysiant Cyngor Sir Gaerfyrddin | Saesneg | Lle penodol a pharhaus ar gyfer adnoddau Josie. Defnyddio'r Perkins ddwywaith y dydd. Sicrhau bod llyfrau braille ar gael ym mhob lle arddangos. Cynyddu'r defnydd o |

DRAFT

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| symudedd ac adsefydlu – ffon. | | | | | | | | braille. Ymarfer defnyddio'r ffon ddwywaith y dydd yn yr ysgol a'r cartref. Cyflwyno'r ffon i'r dosbarth. Parhau â sgiliau byw – gwneud brechdan, gwisgo a bwyta. |

DRAFT

Manylion unrhyw ddatgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol lleoliad arbenigol

Enw unrhyw ysgol a enwyd gan yr awdurdod lleol at ddiben sicrhau mynediad iddi yn unol ag adran 42 o'r Ddeddf – Canolfan Addysgu a Dysgu Arbenigol Uwchradd Sunny Hill

Cyfarpar arbenigol: Perkins, ffon. Adolygiadau a chyngor rheolaidd gan asiantaethau.
Caiff adnoddau braille eu cyflenwi oddi mewn i'r lleoliad adnoddau arbenigol.

**Deilliannau arfaethedig**

- Cysylltiadau a chydweithio agos â phob asiantaeth i sicrhau bod Josie yn gwneud cynnydd ac yn teimlo'n ddiogel yn ei dosbarth newydd a'i bod yn mynychu yn rheolaidd
- Datblygu rhagor o annibyniaeth a defnyddio'r adnoddau arbenigol a ddarparwyd i gyfleu'r hyn y mae Josie ei eisiau a'i angen
- Trosglwyddo i'r ysgol newydd, gan ymgartrefu a dod yn gyfarwydd â chyd-ddisgyblion, staff a'r amgylchedd

**Trosglwyddo**

Hyfforddiant meddygol ar gyfer pob aelod o staff. Ymweliadau â'r ysgol uwchradd i wneud llyfr ffotograffau i baratoi ar gyfer y newid a'r staff newydd.
Amserlen o'r diwrnod a'r gwaith newydd gyda'r athro dosbarth ar gyfer 5 diwrnod ym mis Gorffennaf.
Bydd y cynorthwyydd addysgu yn parhau ar gyfer y cynllun meddygol.

**Rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed**

- Mewn trafodaeth gychwynnol, nodwyd cais y rhieni am leoliad mewn ysgol brif ffrwd. Trafodwyd trefniadaeth, lefel gwahaniaethu ac annibyniaeth ynghyd â lefel y cymorth a'r ddarpariaeth ofynnol. Cafodd yr anghenion diogelwch a meddygol eu rhannu a'u hystyried. Argymhellwyd lleoliad arbenigol gan y nyrs a phob asiantaeth a oedd yn bresennol. Cytunodd pawb fod y cynllun meddygol a lefel y cyrhaeddiad ac annibyniaeth yn gofyn am leoliad grŵp bach sydd â gwybodaeth arbenigol am anawsterau dysgu sy'n seiliedig ar nam ar y golwg, nam ar y clyw a gwasanaethau dysgu dwys.

**Amserlen o ddigwyddiadau allweddol**

Dyddiad y cyfarfod CDU arfaethedig nesaf: 16 Hydref 2016 am 2pm

Mae'n rhaid adolygu'r CDU erbyn: diwedd Tymor yr Haf 2017

Cofnod o ddyddiadau a threfnydd pob CDU blaenorol:

| Dyddiadau cyfarfodydd CDU blaenorol | Trefnydd y cyfarfod CDU |
|---|---|
| 02/05/2008 | Ymwelydd Iechyd |
| 16/02/2009 | Cydlynydd ADY |
| 09/01/2010 | Cydlynydd ADY |
| 02/02/2011 | Cydlynydd ADY |
| 06/11/2011 | Cydlynydd ADY |
| 16/06/2012 | Cydlynydd ADY |
| 10/10/2012 | Cydlynydd ADY |
| 08/05/2013 | Cydlynydd ADY |
| 12/05/2014 | Cydlynydd ADY |
| 07/06/2015 | Cydlynydd ADY |
| 08/01/2016 | Pennaeth |
| 09/07/2016 | Cydlynydd ADY |

Cofnod o leoliadau'r blynyddoedd cynnar/lleoliadau addysg a fynychwyd ers y CDU cyntaf:

| Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar/lleoliadau addysg a fynychwyd | Dyddiadau |
|---|---|
| Canolfan Addysgu a Dysgu Arbenigol Gynradd Sunny Hill | 01/09/2008 |

Crynodeb o ddigwyddiadau allweddol:

- 03/08/2006 Adroddiad pediatrig yn nodi anghenion meddygol a chynllun gofal parhaus; atgyfeiriad i ymwelydd iechyd arbenigol ar gyfer cynllun gofal amlasiantaeth.
- 03/11/2007 Cyfarfod amlasiantaeth; atgyfeiriad i fynediad i addysg.
- 01/02/2008 Cais mynediad i addysg ar gyfer seicoleg addysg a phlant; ymgynghoriad llawn.
- 19/04/2008 Ymgynghoriad a chyfarfod y seicolegydd addysg a phlant â'r teulu; cais am leoliad arbenigol.
- 14/05/2008 Penderfyniad y panel cynhwysiant i enwi lleoliad arbenigol – Canolfan Addysgu a Dysgu Arbenigol Sunny Hill o fis Medi 2008.
- 07/06/2008 Adolygiad cyn ysgol o'r CDU.
- 15/06/2008 Diweddaru hyfforddiant staff ym maes traceotomi bob blwyddyn – Tymor yr Haf.
- Adolygiadau a diweddariadau pediatrig - Awst 2008, Mehefin 2009, Gorffennaf 2010, Mehefin 2011, Mai 2012, Gorffennaf 2013, Mehefin 2014, Tachwedd 2015, Gorffennaf 2016. Gweithdrefnau traceotomi wedi'u hegluro yn y cynllun gofal meddygol.
- Adroddiadau blynyddol ar Nam ar y Synhwyrau o fis Medi 2008 ymlaen – caiff gwybodaeth wedi'i diweddaru ei nodi yn y CDU.
- Adroddiadau'r Therapydd Galwedigaethol yn ôl y gofyn o 13/2/2006 ymlaen – caiff gwybodaeth wedi'i diweddaru ei nodi yn y CDU.
- Adroddiadau blynyddol ar therapi Lleferydd ac Iaith o fis Medi 2011 - caiff gwybodaeth wedi'i diweddaru ei nodi yn y CDU.

Llofnod: EDG Morgans
Dyddiad llofnodi: 18/07/2016

**Llofnod**

Llofnod rhiant y plentyn ________________
Llofnod y person ifanc _________________

DRAFT

Atodiad:

| Dyddiad | Mai 2014 | Mehefin 2015 | Gorffennaf 16 |
|---|---|---|---|
| Personol a chymdeithasol | P4 | P4 | P5 |
| Asesiad Athro – Saesneg | P4 | P5 | P6 |
| Asesiad Athro - Mathemateg | P4 | P4 | P5 |

DRAFT

Byddai pob adroddiad gan asiantaethau yn

**Trosglwyddo**

Gallai hyn gynnwys trosglwyddo i flwyddyn newydd ac ati. Gallai hyn ddiffinio'r gofynion i fodloni a chynllunio ar gyfer pob trosglwyddiad yn unol â Phennod y Cod.

Hefyd, dylai hyn gynnwys gwybodaeth allweddol ac anghenion cymorth y plentyn neu'r person ifanc wrth drosglwyddo. Fel y nodir ym Mhennod x, gall plant a phobl ifanc drosglwyddo oddi mewn i sefydliad neu rhwng sefydliadau.

Hefyd, dylai'r adran hon gynnwys unrhyw ddarpariaeth y gall sefydliad ei rhoi ar waith yn y dyfodol.

DRAFT

DRAFT